CYNGOR
Sir Ddinbych
Denbighshire
COUNTY COUNCIL

# COFNODION

o weithrediadau'r
Pwyllgorau a'r Cyngor
am y tymor

19 Ebrill 2005 – 23 Mehefin 2005

# Y Gyfrol Cofnodion

Mae'r Gyfrol hon yn cynnwys cofnodion y Pwyllgorau a'r Is-Bwyllgorau canlynol :


| | | | Tudalen. |
|---|---|---|---|
| Pwyllgor Archwilio Gwasanaethau Personol | 16 Mawrth 2005 | .......... | 600-603 |
| Pwyllgor Archwilio Dysgu Gydol Oes | 19 Ebrill 2005 | .......... | 604 - 610 |
| Pwyllgor Cynllunio | 20 Ebrill 2005 | .......... | 611 - 618 |
| Pwyllgor Iechyd, Diogelwch a Lles Corfforaethol | 21 Ebrill 2005 | .......... | 619 - 623 |
| Cyd Bwyllgor Archwilio | 22 Ebrill 2005 | .......... | 624 - 625 |
| Cyd Bwyllgor Archwilio | 22 Ebrill 2005 | .......... | 626 – 628 |
| Cabinet | 25 Ebrill 2005 | .......... | 629 – 634 |
| Pwyllgor Trwyddedu | 27 Ebrill 2005 | .......... | 635 – 643 |
| Cyd Bwyllgor Archwilio | 28 Ebrill 2005 | .......... | 644 – 646 |
| * Cyngor Blynyddol | 10 Mai 2005 | .......... | 647 - 654 |
| Cyd Bwyllgor Ymgynghorol Lleol | 19 Mai 2005 | .......... | 1 - 4 |
| Pwyllgor Safonau | 20 Mai 2005 | .......... | 5 – 8 |
| Cabinet | 24 Mai 2005 | .......... | 9 – 17 |
| Pwyllgor Cynllunio | 25 Mai 2005 | .......... | 18 – 25 |
| Pwyllgor Archwilio Amgylcheddol | 26 Mai 2005 | .......... | 26 – 30 |
| Pwyllgor Llywodraeth Gorfforaethol | 31 Mai 2005 | .......... | 31 – 37 |
| Pwyllgor Archwilio Gwasanaethau Personol | 2 Mehefin 2005 | .......... | 38 – 42 |
| Pwyllgor Trwyddedu | 7 Mehefin 2005 | .......... | 43 – 47 |
| Grwp Llywio Trosedd ac Anrhefn | 9 Mehefin 2005 | .......... | 48 – 52 |
| Pwyllgor Archwilio Adnoddau | 9 Mehefin 2005 | .......... | 53 – 59 |
| Pwyllgor Rheoli Asedau | 10 Mehefin 2005 | .......... | 60 – 64 |
| Cyngor Sir | 14 Mehefin 2005 | .......... | 65 – 71 |
| Pwyllgor Archwilio Dysgu Gydol Oes | 16 Mehefin 2005 | .......... | 72 – 78 |
| Cabinet | 21 Mehefin 2005 | .......... | 79 – 84 |
| Pwyllgor Cynllunio | 22 Mehefin 2005 | .......... | 85 – 90 |
| Pwyllgor Archwilio Amgylcheddol | 23 Mehefin 2005 | .......... | 91 - 95 |


* Cofnodion y Cyngor Blynyddol (10/05/05) a gymeradwywyd gan y Cyngor Sir ar 14eg Mehefin 2005.

## PWYLLGOR ARCHWILIO'R GWASANAETHAU PERSONOL

Cofnodion cyfarfod Pwyllgor Archwilio'r Gwasanaethau Personol a gynhaliwyd yn yr Ystafell Gynadledda, Tŷ Nant, Prestatyn, ddydd Mercher 16eg Mawrth 2005 am 10.00 a.m.

### YN BRESENNOL

Y Cynghorwyr T. K. Hodgson (Cadeirydd), J.R. Bartley, D. Hannam, K. N. Hawkins, N. J. Hughes, J. Chamberlain Jones ac M. A. Webster. Yr oedd y Cynghorwyr R.E. Barton, P.A. Dobb (yr Aelod Arweiniol dros Iechyd a Lles) a C.L. Hughes hefyd yn bresennol fel sylwedyddion.

### HEFYD YN BRESENNOL

Cyfarwyddwr Corfforaethol y Gwasanaethau Personol, Pennaeth y Gwasanaethau i Oedolion, Pennaeth y Gwasanaethau i Blant a Theuluoedd, yr Uwch Reolwr Cefnogi a Datblygu Busnes, Rheolwr y Gwasanaethau Gweinyddiaeth, y Swyddog Cefnogi Archwilio (JC), a Swyddog Gweinyddol (JVP). Bu'r Ymgynghorydd Cynorthwyol Iechyd a Diogelwch a Rheolwr y Tîm Anableddau Dysgu ac Iechyd Meddwl yn bresennol mewn perthynas ag eitem agenda rhif 6.

**YMDDIHEURIADAU**

**846 EITEMAU BRYS**

Nid oedd unrhyw eitemau brys.

**847 COFNODION**

Cafodd cofnodion cyfarfod y Pwyllgor a gynhaliwyd ar 16eg Chwefror 2005 eu cyflwyno.

Manwl gywirdeb :-
1) Tudalen 1 — cynnwys enw'r Cynghorydd C.L. Hughes ar restr y sylwedyddion a oedd yn bresennol.
2) Tudalen 4 (Eitem 4) — diwygio brawddeg olaf paragraff 5 i ddarllen: 'Teimlai'r Cynghorydd J. Chamberlain Jones y dylid llenwi'r swydd rheoli newydd yn fewnol.'
3) Tudalen 6 (Eitem 8) — diwygio'r paragraff olaf i ddarllen: 'Rhoddodd y Cadeirydd wybod i'r Aelodau ei fod wedi lansio'r cynllun GIFT yn ddiweddar.'

***PENDERFYNWYD** derbyn a chymeradwyo cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 16eg Chwefror 2005 fel rhai cywir, yn amodol ar yr uchod.*

Materion yn codi :-

Eitem 3 (Hawliau Lles) — Dywedodd y Swyddog Cefnogi fod yna gytundeb, yn dilyn ymgynghoriad gyda'r Pwyllgor Archwilio Adnoddau, y byddai gweithgor bychan o swyddogion ac Aelodau'r Pwyllgor Archwilio Adnoddau a Gwasanaethau Personol yn cael ei gynnull i lunio rhestr o bryderon ac ystyriaethau mewn perthynas â'r bwriad i gau rai o swyddfeydd yr Adran Gwaith a Phensiynau. Byddai'r Cynghorydd D. Hannam yn cynrychioli Pwyllgor Archwilio'r Gwasanaethau Personol ar y Grŵp.
Eitem 1 (materion yn codi o'r cofnodion blaenorol) — Mewn ymateb i ymholiad pellach gan y Cynghorydd Bartley, dywedodd Pennaeth y Gwasanaethau i Oedolion y byddai gwiriadau gyda'r Bwrdd Cofnodion Troseddol yn cael eu gwneud trwy asiantaeth heddlu'r wlad letyol yn achos gweithwyr o dramor.

Cyhoeddodd y Cadeirydd ei fod yn bwriadu ystyried yr eitem Rhan II (eitem rhif 6 ar yr agenda) cyn eitemau rhifau 3 a 4 ar yr agenda.

**GWAHARDD Y WASG A'R CYHOEDD**

***PENDERFYNWYD*** *gwahardd y Wasg a'r Cyhoedd o'r cyfarfod, dan Adran 100A(4) Deddf Llywodraeth Leol 1972, tra bod yr eitem fusnes ganlynol yn cael ei thrafod, gan ei bod yn debygol o olygu datgelu gwybodaeth eithriedig, fel y mae honno wedi ei diffinio ym mharagraff 8 Rhan 1 Atodlen 12A i Ddeddf Llywodraeth Leol 1972.*

**848 YMWELIAD ROTA — DYFFRYN HOUSE, DINBYCH**

Dywedodd y Cadeirydd ei fod wedi cynnal ymweliad rota â Dyffryn House, Dinbych, un o ganolfannau gwasanaeth Cyfleoedd Gwaith y Gwasanaethau Cymdeithasol, a'i fod wedi dychryn o weld yr amodau yr oedd defnyddwyr y gwasanaethau a’r staff yn gweithio oddi tanynt. Cylchredodd gopïau o luniau o wahanol fannau yn yr adeilad, a oedd yn dangos yr amodau gwaith clos ac effeithiau'r esgeulustra hirdymor o adeiladwaith yr adeilad. Cyfeiriodd y Cadeirydd at gofnodion blaenorol o Pwyllgor Archwilio'r Gwasanaethau Personol, a oedd yn amlygu pryderon Aelodau yn 2002, a hefyd at adroddiad a gyflwynwyd i'r Grŵp Rheoli Asedau yn Ionawr 2005, a oedd yn cynnwys collfarnu helaeth o'r adeilad. Mynegodd y Cadeirydd bryderon difrifol ynglŷn â'r ffaith fod y sefyllfa wedi aros heb ei datrys am gyfnod mor faith, a bod iechyd a diogelwch y bobl dan sylw wedi eu peryglu.

Mynegodd Aelodau'r Pwyllgor, a oedd hefyd mewn rhai achosion wedi ymweld â Dyffryn House, gefnogaeth lawn i'r sylwadau a wnaed gan y Cadeirydd, a rhestrwyd rhai o'r diffygion difrifol yr oeddynt wedi eu gweld. Gan gyfeirio at y perygl o dân, dywedodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol ei bod yn gwybod bod y Swyddog Tân wedi ymweld â'r adeilad, ond nad oedd hi wedi gweld unrhyw adroddiad a oedd yn dilyn o hynny.

Yr oedd copïau o'r brydles wedi eu cael gan adran Gwasanaethau Cyfreithiol y Cyngor, a thynnodd y Cadeirydd sylw at y cymal a oedd yn ymwneud â chyfrifoldeb y landlord am gynnal a chadw'r adeilad. Yn absenoldeb cynrychiolydd o'r adain gyfreithiol, cytunwyd y dylid gofyn iddynt fynd ar drywydd y posibilrwydd o erlyn y landlord am dor-cytundeb.

Cydnabu'r Cyfarwyddwr Corfforaethol ddifrifoldeb y sefyllfa a'r pryderon a oedd wedi eu mynegi gan yr Aelodau. Cylchredodd bapur a oedd yn manylu ar gronoleg y digwyddiadau mewn perthynas â phroblemau llety yn Dyffryn House. Nodwyd bod y problemau ynglŷn â diffyg lle wedi eu hamlygu gyntaf yn Ebrill 1997; ond am wahanol resymau, gan gynnwys ceisiadau aflwyddiannus am arian cyfalaf, yr oedd yr ymdrechion i ganfod adeilad arall addas wedi bod yn ofer, er iddynt barhau'n gyson trwy gydol y cyfnod.

Fodd bynnag, rhoddodd swyddogion wybod i'r Pwyllgor fod cymeradwyaeth wedi ei rhoi'n ddiweddar gan y Grŵp Rheoli Asedau i adleoli'r Busnes Cyfleoedd Gwaith i ganol y Dre, Rhuthun. Yr oedd yr adain Eiddo Corfforaethol wedi pwyso a mesur y gwaith yr oedd ei angen, ac yr oedd 10fed Mehefin 2005 wedi ei roi fel dyddiad cwblhau.

Er bod yr Aelodau'n croesawu'r newyddion hyn, teimlent y dylid gweithredu ar unwaith i ddiogelu defnyddwyr y gwasanaethau a'r staff nes byddai'r uned newydd yn barod i'w meddiannu. Cyfeiriodd y Swyddogion at yr angen i gydbwyso'r peryglon i iechyd a diogelwch yn y lleoliad presennol yn erbyn y tryblith i ddefnyddwyr a'u teuluoedd pe bai'r gwasanaeth yn cael ei symud i lety dros dro. Amlinellodd y Swyddog Cynorthwyol Iechyd a Diogelwch y sefyllfa o ran yr hyn y gellid ei wneud, yn ei farn ef, i leihau lefel y perygl yn Dyffryn House nes byddai'r adeilad newydd yn barod. Awgrymodd y gellid gwneud gwaith ar unwaith i leihau'r perygl o dân, ac y byddai cynnal asesiad risg ynglŷn â symudedd clientiaid a staff yn gymorth i ganfod a thrin problemau byrdymor.

Teimlai'r Aelod Arweiniol dros Iechyd a Lles y dylid annog yr holl Gynghorwyr i gynnal ymweliadau Rota, ac anogodd yr Aelodau i ymofyn cefnogaeth eu gwahanol Grwpiau.

Ar yr adeg hon (11.25 a.m.) torrodd y cyfarfod am egwyl lluniaeth fer.

Wedi i'r cyfarfod ailgychwyn, gofynnodd y Cadeirydd am sylwadau unigol yr Aelodau, ac yna darparodd grynodeb byr o'r camau gweithredu a oedd wedi eu cytuno. Wedi hynny,

***PENDERFYNWYD:-***

*(i)* *croesawu'r newyddion y bydd adeilad newydd ar gyfer y Busnes Cyfleoedd Gwaith yn cael ei godi;*

*(ii)* *y dylid gwneud trefniadau ar unwaith i wella safon sylfaenol y llety presennol;*

*(iii)* *y dylid gwneud trefniadau i gynnal asesiad risg ar unwaith mewn perthynas â defnyddwyr y gwasanaeth a'r staff sy'n meddiannu'r adeilad, a*

*(iv)* *gofyn i'r gwasanaethau cyfreithiol ystyried y posibilrwydd o gychwyn achos cyfreithiol yn erbyn y landlord mewn perthynas â'r methiant honedig i gydymffurfio â chymalau penodol yn y brydles.*

**SESIWN AGORED**

Wedi i'r uchod gael ei gwblhau, ailddechreuodd y cyfarfod mewn sesiwn agored.

**849 MEINI PRAWF CYMHWYSTER AR GYFER GWASANAETHAU GOFAL CYMUNEDOL**

Cyflwynodd Pennaeth y Gwasanaethau i Oedolion adroddiad, a oedd wedi ei gylchredeg ymlaen llaw, ynglŷn â'r angen i ddiwygio lefel y cymhwyster am ddarpariaeth uniongyrchol o wasanaethau gofal cymunedol, er mwyn cynnwys dim ond y bobl hynny a oedd mewn perygl argyfyngus neu sylweddol o golli eu hannibyniaeth.

Yr oedd yr adroddiad yn egluro bod meini prawf cymhwyster diwygiedig wedi eu gweithredu yn Sir Ddinbych yn Ebrill 2003, yn unol â gofynion cyfarwyddyd y Cynulliad ynglŷn â Mynediad Teg i Ofal. Yr oedd manylion ynghlwm yn atodiad 1 yr adroddiad. Yr oedd ail gam y broses yn ymwneud â'r asesiad unedig a oedd i'w wneud o'r holl bobl hŷn o Ebrill 2005 ymlaen, ac o'r holl grwpiau oedolion eraill o Ebrill 2006 ymlaen. Yr oedd yr adroddiad yn rhoi manylion llawn yr offeryn asesu a oedd i'w ddefnyddio.

Eglurwyd y byddai goblygiadau gadael y meini prawf cymhwyster ar eu lefelau presennol yn golygu, dan y drefn Asesiadau Unedig, bod mwy o bobl yn gymwys am wasanaethau. Yn anffodus, nid oedd gan yr Awdurdod yr adnoddau i ddiwallu anghenion nifer fwy o bobl.

Fodd bynnag, gan fod yr offeryn asesu yn fwy effeithiol o ran adnabod y bobl hynny a oedd mewn perygl argyfyngus neu sylweddol o golli eu hannibyniaeth, ni ddylai newid y trothwy arwain at leihau nifer y defnyddwyr gwasanaeth a oedd yn gymwys. Yr oedd enghreifftiau a oedd yn dangos sut y byddai'r Asesiad Unedig yn gweithio wedi eu cynnwys yn atodiad 2 i'r adroddiad.

***PENDERFYNWYD*** *nodi'r angen am weithredu'r newid i'r trothwy cymhwyster ar gyfer gofal cymunedol o Ebrill 2005 ymlaen*.

**850 Y RHAGLEN WAITH ARCHWILIO**

Cyflwynodd y Swyddog Cefnogi Archwilio adroddiad, a oedd wedi ei gylchredeg ymlaen llaw, yn ymwneud â datblygu rhaglen waith ar gyfer y Pwyllgor am y flwyddyn gyfredol.

Fel y cytunwyd yn flaenorol, yr oedd dewislen ddichonol o eitemau, a oedd ynghlwm wrth yr adroddiad ar ffurf Atodiad 1, wedi ei llunio er mwyn cynorthwyo gyda'r gwaith o gynllunio'r rhaglen waith i'r dyfodol am y 6–9 mis nesaf.

Teimlai'r Cadeirydd y dylai'r trafodaethau gyda'r Bwrdd Iechyd Lleol fod ar ffurf cyfarfod arbennig, er mwyn canolbwyntio ar bryderon penodol yn unig. Awgrymodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol y gallai'r Aelodau, o bosib, ddymuno cynnal cyngyfarfod er mwyn llunio rhestr o'r materion yr oeddynt yn dymuno eu codi.

Mewn perthynas ag eitem 5.1 yr adroddiad, ymatebodd Pennaeth y Gwasanaethau i Blant a Theuluoedd i gwestiynau penodol a oedd wedi eu codi'n flaenorol drwy'r Cynghorwyr J. Chamberlain

Jones ac M. A. Webster, yn dilyn eu presenoldeb mewn cyfarfod o'r Gymdeithas Gofal Maeth. Yr oedd y rhain yn ymwneud, gan mwyaf, ag ystyriaethau a oedd yn ymwneud â rhannu gwybodaeth ac ag argaeledd caledwedd cyfrifiadurol, ond achubodd y swyddog ar y cyfle i sôn yn fyr wrth yr Aelodau am y cynnydd a wnaed o ran gwelliannau i'r gwasanaeth.

Hefyd, cyfeiriodd Pennaeth y Gwasanaethau i Blant a Theuluoedd at Fforwm a oedd newydd ei sefydlu ac a fyddai'n ymdrin ag amrywiaeth o faterion mewn perthynas â gwella gwasanaethau maethu. Yr oedd gan y Fforwm raglen waith benodol, a byddai'n ystyried ffyrdd y gallai Aelodau Etholedig a phersonél allweddol eraill ffurfio cysylltiadau ag agenda'r Fforwm. Rhoddodd y Pennaeth ar ddeall y buasai'n hapus i drefnu dyddiad ac amser i'r Aelodau fynd i gyfarfod o'r Fforwm.

Wedi trafodaeth bellach,

***PENDERFYNWYD** cytuno i'r rhaglen waith fel y manylwyd arni.*

Daeth y cyfarfod i ben am 12.40 p.m.

********

## Y PWYLLGOR ARCHWILIO DYSGU GYDOL OES

Cofnodion cyfarfod y Pwyllgor Archwilio Dysgu Gydol Oes a gynhaliwyd yn Siambr y Cyngor, Ffordd Wynnstay, Rhuthun, dydd Mawrth, 19 Ebrill 2005 am 2.00 p.m.

### YN BRESENNOL

Y Cynghorwyr N. Hugh-Jones (Cadeirydd), R.E. Barton (arsyllwr), G.C. Evans (arsyllwr), H.H. Evans, S. Frobisher, C.L. Hughes (arsyllwr), M.M. Jones, G.M. Kensler (arsyllwr), D. Owens (Aelod Arweiniol y Cabinet – Dysgu Gydol Oes) ac N.P. Roberts ynghyd â'r aelodau cyfetholedig G. Greenland, A. Horobin, J. Saxon, J. Thirsk a G.F. Roberts (Aelod y Pwyllgor Safonau)

### HEFYD YN BRESENNOL

Cyfarwyddwr Corfforaethol y Gwasanaethau Personol, Cyfarwyddwr Gweithredol Dysgu Gydol Oes, y Dirprwy Gyfarwyddwr Addysg Gweithredol, Pennaeth Strategaeth ac Adnoddau, Rheolwr Prosiect (D. Evans), Rheolwr Busnes a Pherfformiad, Swyddog Cefnogaeth Archwilio, Rheolwr Gwasanaethau Gweinyddol a'r Swyddog Gweinyddol (K.E. Jones)

### DERBYNIWYD YMDDIHEURIADAU AM EU HABSENOLDEB GAN

Y Cynghorydd D. Cooper ynghyd â'r Aelodau Cyfetholedig D. Hesketh, C. Thompson, M.J. Toman a P.R. Williams

### CROESO

Croesawodd y Cadeirydd aelodau'r cyhoedd i'r cyfarfod, gan gynnwys Pennaeth a Llywodraethwyr o Ysgol Gwaenynog a Mrs S Bowen, y cyn Gyfarwyddwr Corfforaethol Dysgu Gydol Oes a oedd yn mynychu'r cyfarfod ar gyfer yr eitem ar yr agenda oedd yn berthynol i Ganolfan Integredig ar gyfer Plant yn Ninbych Uchaf. Dywedodd y Cadeirydd y byddai'n darparu cyfle i gynrychiolwyr yr ysgol holi'r swyddogion ynghylch yr adroddiad a mynegodd y gobaith y byddai Mrs Bowen yn gallu crisialu rhai materion penodol a thrwy hynny'n hwyluso'r trafodaethau. Dywedodd Mrs Bowen ei bod yn pryderu ynghylch y cyfeiriadau ati hi yn yr adroddiad, yn enwedig gan na fu ymgynghori gyda hi ynglŷn â hynny, a chadarnhaodd y byddai hi'n fodlon cefnogi a chynorthwyo'r aelodau yn ystod eu trafodaethau.

### 851 MATERION BRYS

Ni chododd unrhyw eitemau a oedd, ym marn y Cadeirydd yn rhai y dylid eu hystyried yn y cyfarfod fel materion brys yn unol ag Adran 100B (4) o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972.

### 852 COFNODION

Cafodd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 22 Mawrth 2005 [ a ddosbarthwyd yn flaenorol] eu cyflwyno.

***PENDERFYNWYD*** *bod cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 22 Mawrth 2005 yn cael eu derbyn a'u cymeradwyo fel cofnod cywir.*

**Materion yn Codi**:-

Tudalen 2 – Cofnodion : 2005/06 Arbedion Potensial yng Nghyllidebau'r Corfforaethau – ailadroddodd y Cynghorydd H.H. Evans ei sylwadau i'r perwyl y dylai'r pwyllgor archwilio fod yn rhan o'r broses gosod cyllidebau ar bwynt cynharach yn ystod y broses honno a gofynnodd pryd yn union y byddai papurau'r gyllideb yn cael eu cyflwyno i'r pwyllgor. Cadarnhaodd Rheolwr y Gwasanaethau Gweinyddol bod y swyddogion yn llawn ymwybodol o'r angen i'r broses gosod cyllideb gael ei chychwyn cyn gynted â phosibl ac y byddai'r holl bwyllgorau archwilio yn ymwneud â hi.

Tudalen 2 - Cofnodion: Rheoli Lleoedd mewn Ysgolion (RhLIY]) - Cyflwynodd y Cynghorydd N.P. Roberts sylwadau am y meini prawf RhLIY a chadarnhaodd y Cynghorydd D. Owens bod y meini prawf wedi'u gohirio nes bydd adolygiad pellach wedi'i gynnal. Gofynnodd y Cynghorydd S. Frobisher

am adroddiad ar y cynnydd a wnaed mewn perthynas â'r ysgol newydd ym Mhrestatyn a chytunodd Pennaeth Strategaeth ac Adnoddau i ddosbarthu adroddiad diweddar a gyflwynwyd i gyfarfod o Bartneriaeth Ardal Prestatyn yn rhoi manylion am y sefyllfa bresennol i'r aelodau.

Tudalen 3 - Adolygiad o'r Polisi a'r Canllawiau mewn perthynas â Chludiant Ysgol ar hyd Ffyrdd Enbydus – Mewn ymateb i gwestiwn gan y Cynghorydd H H Evans, adroddodd y Swyddog Cefnogaeth Archwilio ar y cynnydd a wnaed yn y gwaith traws gyfarwyddiaeth i wella rhai ffyrdd enbydus a dywedodd y byddai adroddiad yn cael ei gyflwyno i gyfarfod y Gweithgor Cludiant Ysgol yn y dyfodol, cyn iddo gael ei gyflwyno i'r pwyllgor hwn.

Tudalen 5 - Cynlluniau Gwasanaeth Busnes: Risg 4: Methiant ysgolion i lawn weithredu'r cytundeb baich gwaith - gofynnodd y Cynghorydd H.H. Evans sut y byddai'r ysgolion yn ymateb i'r risg hwn ac ymatebodd y Cyfarwyddwr Addysg Gweithredol bod yr holl gyllid ar gyfer y cytundeb baich gwaith a dderbyniwyd gan y Cynulliad Cenedlaethol ac eithrio'r haenen uchaf a ddefnyddiwyd i gyfarfod costau, wedi ei drosglwyddo i'r ysgolion. Mewn ymateb i bryderon yr aelodau adroddodd y Cyfarwyddwr Addysg Gweithredol am y gwaith oedd yn mynd rhagddo gyda'r ysgolion, yr undebau ac awdurdodau lleol eraill yng Nghymru i gasglu tystiolaeth am annigonolrwydd y cyllid oedd ar gael i weithredu'r cytundeb baich gwaith. Roedd adroddiad am y cytundeb baich gwaith wedi'i ymgorffori yn rhaglen waith y pwyllgor ar gyfer ystyriaeth ym Medi 2005.

Mewn ymateb i gwestiwn gan y Cynghorydd H.H. Evans, dywedodd y Cyfarwyddwr Gweithredol Dysgu Gydol Oes y byddai adroddiad yn cael ei gyflwyno i'r Pwyllgor Rheolaeth Asedau ynghylch yr Academi Rygbi arfaethedig yn Llanelwy.

**853 Y GANOLFAN INTEGREDIG AR GYFER PLANT YN NINBYCH UCHAF**

[Cafodd yr eitem hon ei symud i flaen yr agenda gyda chydsyniad y Cadeirydd]
Cyflwynodd y Swyddog Cefnogaeth Archwilio adroddiad [a ddosbarthwyd yn flaenorol] yn gofyn i'r aelodau archwilio'r prosesau a'r penderfyniadau a gymerwyd mewn perthynas â'r bwriad i ddarparu Canolfan Integredig ar gyfer Plant [CIP] yn Ninbych Uchaf.

Dywedwyd wrth yr aelodau bod Canolfannau Integredig ar gyfer Plant yn fenter gan Lywodraeth Cynulliad Cymru [LlCC] a'u bod yn cael eu hariannu'n bennaf trwy gyllid cyfalaf o'r Gronfa Cyfleoedd Newydd [CCN sydd bellach yn rhan o Gronfa Fawr y Loteri], addysg y blynyddoedd cynnar i blant 3 oed a'r trefniadau Cymorth. Roedd yr adroddiad yn darparu sylwadau manwl am gefndir y cynigion am Ganolfannau Integredig ar gyfer Plant [CIP] yn y Sir, gan roi sylw penodol i'r potensial am Ganolfan yn Ninbych a dilyniant y digwyddiadau a arweiniodd at y penderfyniad i amnewid y cais am gyllid i ariannu Canolfan Gwaenynog a'i ddefnyddio ar gyfer Ysgol Eglwys Crist yn Y Rhyl. Roedd y penderfyniad i amnewid y bid ar gyfer Ysgol Gwaenynog wedi'i seilio ar y risg ariannol i'r Cyngor a allai ddeillio o ddiffyg eglurder ar ran LlCC am gefnogaeth refeniw tymor hir a chyllid i ddatblygu CIP tu hwnt i 2006. Nid oedd unrhyw gyllid newydd wedi'i arenwi na'i ddyrannu i sefydlu Canolfan yn Ninbych Uchaf, ond roedd y swyddogion wedi ail-gadarnhau ymrwymiad yr awdurdod i ddarparu CIP yn Ysgol Gwaenynog ac yn gobeithio mynd ymlaen gyda'r fath brosiect pe byddai'r cyllid ar gael.

Yn ystod y drafodaeth ar yr adroddiad, manteisiodd yr aelodau, y Pennaeth a llywodraethwyr Ysgol Gwaenynog [gyda chydsyniad y Cadeirydd] ar y cyfle i ofyn cwestiynau i'r aelodau am gynnwys yr adroddiad. Gofynnwyd am i'r gwahanol gamau a ddilynwyd yn y broses o gyrraedd y penderfyniad i dynnu'r bid am gyllid i ddarparu CIP yn Ninbych a throsglwyddo'r bid hwnnw i'r Rhyl gael eu crisialu; am atebolrwydd y swyddogion a'r sefydliadau partner a oedd yn ymwneud â'r prosiect a'r diffyg ymgynghori ymddangosiadol gydag aelodau lleol ac Ysgol Gwaenynog cyn i'r bid ar gyfer CIP yn Ninbych gael ei dynnu'n ôl.

Ymatebodd y swyddogion a'r cyn Gyfarwyddwr Corfforaethol Dysgu Gydol Oes i'r cwestiynau a'r pryderon a fynegwyd fel a ganlyn:-

- yn 2001 roedd gan y Bartneriaeth Datblygiad y Blynyddoedd Cynnar a Gofal Plant gyfrifoldeb am y prosiect ac roedd hyn yn cynnwys rhai o swyddogion y Cyngor yn ogystal â'r cyn Gyfarwyddwr Corfforaethol Dysgu Gydol Oes a'r cyn Brif Weithredwr Cynorthwyol;

- cynhaliwyd cyfarfodydd rheolaidd rhwng yr amrywiol bartneriaethau a'r sector gwirfoddol a gwnaed penderfyniad i baratoi bidiau NOF ar gyfer dwy Ganolfan Integredig ar gyfer Plant yn Ysgol Eglwys Fair, Y Rhyl ac Ysgol Gwaenynog, trwy gonsensws a chytundeb rhwng y sefydliadau hynny;

- cyn Ebrill 2004 roedd y Bartneriaeth Datblygiad y Blynyddoedd Cynnar a Gofal Plant [gyda chyfrifoldeb rheolaethol yn rhan o Adran y Prif Weithredwr] yn gyfrifol am y gwaith oedd yn berthynol i CIP; oherwydd bod y prosiect yn mynd rhagddo'n gyflym, a'r teimlad yn bodoli y dylid sefydlu cyswllt gydag aelodau, cyflwynwyd adroddiad i'r Pwyllgor Rheolaeth Asedau [PRhA] yn gofyn am sêl bendith i ddarparu CIP ar safle Ysgol Eglwys Fair; a chan y byddai'r CIP yn cael ei adeiladu ar safle ysgol, cytunwyd y dylai'r Gyfarwyddiaeth Dysgu Gydol Oes gyflwyno'r adroddiad i'r PRhA;

- bu gan nifer o swyddogion gwahanol gyfrifoldeb am fod â throsolwg o'r prosiect a gafodd ei drosglwyddo o'r Bartneriaeth Fframwaith i'r Gyfarwyddiaeth Dysgu Gydol Oes yng Ngorffennaf 2004 ac roedd cyfrifoldeb penodol wedi'i aseinio i'r Rheolwr Prosiect yng Ngorffennaf 2004 a chafodd yntau wedyn ei secondio i Gyfarwyddiaeth arall yn ystod Awst a Medi 2004; roedd Pennaeth ysgol wedi'i benodi i'r prosiect CIP am un diwrnod yr wythnos yn ystod y cyfnod rhwng Ebrill a Gorffennaf 2004 i gefnogi'r Gyfarwyddiaeth Dysgu Gydol Oes;

- roedd y cyllid a'r amcangyfrif am gost cyfalaf terfynol Rhan 1 o'r CIP yn Y Rhyl yn £798,454. Bu'r costau refeniw yn destun pryder i'r Awdurdod gan nad oeddent wedi cael eu hamcangyfrif yn gywir o'r cychwyn;

- gwaned cynnig cychwynnol i'r Gronfa Cyfleoedd Newydd [CCN] yn hwyr yn 2001/yn gynnar yn 2002 mewn perthynas â'r cysyniad o gael CIP yn Y Rhyl a chynghorwyd y Cyngor i gyflwyno bid pellach pan fyddai'r awdurdod yn nes at orffen gwaith ar y prosiect. Yn Ionawr 2004, wedi i'r bid gael ei gymeradwyo gan LCC gwnaed cais i CCN am gyllid ar gyfer CIP Y Rhyl. Yn anffodus, oherwydd bod y gwaith adeiladu eisoes wedi cychwyn, nid oedd modd cynnwys y costau adeiladu sylweddol yn y bid;

- yn dilyn hynny gwnaed cais am gyllid o £50k gan Cymorth i gyfarfod costau rhedeg CIP Y Rhyl, a chytunwyd ar swm o tua £32k. Roedd costau cyfredol rhedeg CIP Y Rhyl tua £80k y flwyddyn. Roedd trafodaethau yn mynd ymlaen yn fuan yn 2004 mewn perthynas â chyllid refeniw ar gyfer CIP Y Rhyl.

Mynegodd yr aelodau bryder ynghylch y ffaith nad oedd trefniadau cyllidol wedi'u gwneud i gyfarfod costau refeniw realistig gan bwysleisio'r angen i swyddogion sicrhau bod costau cyfalaf a refeniw cywir wedi'u sefydlu cyn i'r gwaith gychwyn ar brosiectau o'r fath. Yn ogystal, gofynnodd yr aelodau pam yr oedd y gwaith adeiladu wedi cychwyn ar CIP Y Rhyl cyn i gyllid digonol gael ei sicrhau ar gyfer y prosiect. Dywedodd y cyn Gyfarwyddwr Dysgu Gydol Oes, er bod y cyfrifoldeb rheolaethol am y CIP yn perthyn i Adran y Prif Weithredwr ar y pryd, ei bod hi wedi gwrthod gadael i unrhyw waith adeiladu fynd ymlaen cyn i warant ysgrifenedig am gyllid gael ei dderbyn gan y Cynulliad Cenedlaethol, gan deimlo y gallai Sir Ddinbych fynd ymlaen gyda'r prosiect ar ôl hynny.

Wrth ystyried y cynigion ar gyfer CIP Dinbych dywedwyd bod cais amlinellol wedi'i wneud yn Ionawr 2004 i Gronfa Fawr y Loteri i gyllido'r gwaith cyfalaf y byddai angen ei wneud. Roedd y cyllid y gofynnwyd amdano wedi ei osod o'r naill du nes y derbynnid gwybodaeth ychwanegol i gefnogi'r cais a bu'r gwaith yn mynd yn ei flaen i ddarparu'r wybodaeth ychwanegol y byddai ei hangen. Dymunai'r cyn Gyfarwyddwr Corfforaethol Dysgu Gydol Oes egluro, yn groes i'r hyn a geir yn yr adroddiad (paragraff 5.2), nad oedd prosiect Gwaenynog wedi cael ei derfynu yng Nghorffennaf July 2004. Yn ogystal cyfeiriodd y cyn Gyfarwyddwr Corfforaethol Dysgu Gydol Oes at y targedau yn y Strategaeth Gymunedol gyfredol mewn perthynas â'r gwasanaethau allweddol a ddarperir gan y CIP a bod angen nodi bod angen am y gwasanaethau hyn yn ardal Dinbych [Y Cynllun Ardal ar gyfer Partneriaeth yr Ardal Ganolog].

Ar gais y Cadeirydd, cyfeiriodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol Gwasanaethau Personol at ei sylwadau, fel y cawsant eu cynnwys yn yr adroddiad, yn dweud bod adeiladu a chyllido CIP Y Rhyl wedi dod i'r amlwg fel mater anodd yn fuan iawn oherwydd y newidiadau yn y nodweddion allweddol a gynigid gan CIP ers iddynt gael eu trafod yn wreiddiol yn 2001; gan nad oedd cyllid wedi'i neilltuo ar gyfer y

diffyg a ragwelwyd yn yr adnoddau cyfalaf ar gyfer CIP Y Rhyl , ac nad oedd cyllid ar gael i ddiwallu'r costau refeniw, nid oedd yn eglur ar y dechrau pwy a fyddai'n gyfrifol am ddarparu'r CIP. Nid oedd y wybodaeth y gofynnwyd amdani gan y sectorau cymunedol a gwirfoddol mewn perthynas â datblygu'r CIP trwy'r Bartneriaeth Plant ar gael yn rhwydd. Mewn ymateb i gwestiynau dywedodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol Gwasanaethau Personol fod pryderon wedi'u mynegi tua chanol 2003 ac na fyddai cyllid o'r Gronfa Cyfleoedd Newydd ar gael gan fod y gwaith adeiladau ar CIP Y Rhyl wedi dechrau ac y byddai angen i'r cyllid i orffen y gwaith ddod o'r Grantiau Blynyddoedd Cynnar/Cyfalaf. Sicrhaodd y cyn Gyfarwyddwr Corfforaethol Dysgu Gydol Oes y pwyllgor y byddai defnyddio cyllid Grantiau Refeniw'r Blynyddoedd Cynnar/Cyfalaf i gwblhau Rhan 1 cynllun Y Rhyl yn ddilys, a chytunwyd ar hynny gyda'r Cynulliad Cenedlaethol gan y byddai'r ganolfan yn darparu modd i gefnogi'r ddarpariaeth blynyddoedd cynnar; cymerwyd y cam hwn wedi i'r mater gael ei drafod gyda chadeiryddion Partneriaethau eraill ynghyd â chynrychiolwyr y sectorau gwirfoddol i ymchwilio posibiliadau cyllidol eraill i gyfarfod y diffyg yn y cyfalaf.

Cadarnhaodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol Gwasanaethau Personol bod cais amlinellol am gyllid gan NOF wedi ei gyflwyno ar gyfer CIP Dinbych yn Ionawr 2004; roedd yr ail gais yn gofyn am wybodaeth fanwl iawn ac nid oedd honno ar gael tan Mawrth 2004, gyda'r NOF yn gosod dyddiad cau terfynol yn gynnar ym Mawrth 2005. Er bod y dyddiad cau wedi'i newid roedd llawer iawn o waith ynglŷn â'r cais ac nid oedd yn gwybod am unrhyw ffynhonnell cyllid refeniw y gellid troi ati i ariannu costau rhedeg y ganolfan.

Wrth derfynu ei sylwadau, cyfeiriodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol Gwasanaethau Personol at gyfarfod o Gadeiryddion y Bartneriaeth Fframwaith a gynhaliwyd ar 2 Ebrill 2004 pryd y mynegwyd pryderon am y risgiau oedd yn berthynol i greu CIP yn Ninbych heb fod costau refeniw ar gael i'w chefnogi a dywedodd nad oedd hi'n teimlo y gellid defnyddio mwy o amser Swyddog Datblygu'r Bartneriaeth Plant i weithio ar fenter oedd yn bur ansicr, ar waetha'r ffaith bod angen y gwasanaethau y gallai CIP eu cynnig yn Ninbych Uchaf. Mynegodd ofid am na chadwyd cofnodion yn y cyfarfod hwnnw am fod y swyddog gweinyddol yn absennol, oherwydd gwaeledd, ar y pryd.

Mynegodd y cyhoedd a'r aelodau bryder am nad oedd cofnodion cyfarfod Cadeiryddion y Bartneriaeth Fframwaith a gynhaliwyd ar 2 Ebrill 2004 ar gael a bod y manylion a ddarparwyd mewn perthynas â'r trafodaethau yn y cyfarfod hwnnw yn seiliedig ar atgofion y swyddog. Mewn ymateb i gwestiynau, dywedodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol Gwasanaethau Personol nad oedd y penderfyniad i dynnu'r cais ar gyfer CIP Dinbych wedi'i dynnu'n ôl yn y cyfarfod hwnnw, ond bod trafodaethau taer wedi'u cynnal ynghylch sut yr oedd modd mynd ymlaen gyda'r ganolfan heb i'r materion refeniw perthnasol gael eu datrys a heb i'r gwaith oedd ynglŷn â'r cais gael ei gwblhau. Ar ôl y cyfarfod parhawyd gyda'r ymdrechion i ymwneud â'r materion hynny.

Cadarnhaodd Pennaeth a Llywodraethwyr Ysgol Gwaenynog na chawsant wybod am yr anawsterau a wynebid wrth geisio bwrw ymlaen i ddatblygu canolfan yn Ninbych nes iddynt dderbyn llythyr ar 29 Medi 2004 gan y cyn Gyfarwyddwr Corfforaethol Dysgu Gydol Oes. Dywedodd y Pennaeth ei bod hi wedi ateb y llythyr hwnnw ar 1 Hydref 2004 gan roi mynegiant ynddo i safbwynt a siomiant y Llywodraethwyr ynghylch y penderfyniad i dynnu'r cais yn ôl. Dywedodd hefyd ei bod hi eisoes wedi paratoi Cynllun Refeniw a oedd wedi cael ei drafod gyda'r Pennaeth a secondiwyd i hyrwyddo cynnydd y prosiect. Roedd yr aelodau'n bryderus iawn am na fu ymgynghori gyda'r ysgol a'r aelodau lleol cyn i'r cais am CIP yn Ninbych gael ei dynnu'n ôl ac am y ffaith nad oeddent yn gwybod am y problemau oedd yn berthynol i gynaladwyedd y prosiect i'r dyfodol nac am gyflwyniad yr wybodaeth berthnasol i Gronfa Fawr y Loteri. Cadarnhaodd y cyn Gyfarwyddwr Corfforaethol Dysgu Gydol Oes nad oedd hi wedi gweld llythyr Ysgol Gwaenynog gan ei bod hi wedi gadael yr awdurdod ar 4 Hydref 2004. Fodd bynnag, roedd hi wedi gwneud cais am gyfarfod gyda'r ysgol ac roedd hi'n hynod o siomedig, ar waethaf holl ymdrechion y Cyngor, na fu'n bosibl i fynd ymlaen gyda'r fenter.

Mewn perthynas â'r ansicrwydd ynghylch cyllid refeniw yn y dyfodol, cyfeiriodd y cyn Gyfarwyddwr Corfforaethol Dysgu Gydol Oes at adroddiad a gyhoeddwyd gan y Sefydliad Materion Cymreig o dan y teitl 'Canolfannau Integredig yng Nghymru' a oedd yn amlinellu'r problemau oedd yn gysylltiedig â chyllid refeniw a chynaladwyedd canolfannau CIP ar hyd a lled Cymru fel yr oedd y rheini wedi cael eu trafod gan yr aelodau heddiw. Mynegwyd y gobaith y gallai'r ddogfen honno ddangos y ffordd ymlaen gyda datblygiad a gweithrediad canolfannau CIP yng Nghymru yn y dyfodol.

Trafododd yr aelodau'r digwyddiadau a arweiniodd at y penderfyniad i dynnu cais Gwaenynog yn ôl ac i roi'r cais am gyllid i CIP Y Rhyl yn ei le a dywedodd y swyddogion:-

- na wnaed y penderfyniad i dynnu cais Ysgol Gwaenynog yn ôl gan un o bwyllgorau'r Cyngor ond gan swyddogion mewn ymgynghoriad gyda'r Bartneriaeth Fframwaith a'r Aelod Arweiniol Dysgu Gydol Oes;

- y £300k o Gronfa'r Fawr y Loteri a drosglwyddwyd i CIP Y Rhyl oedd y prif gyfraniad tuag at ail gam y datblygiad arfaethedig yn CIP Y Rhyl.

Wrth roi ystyriaeth i'r penderfyniad i amnewid y cais am gyllid o Ddinbych i'r Rhyl, dywedodd Pennaeth Ysgol Gwaenynog ei bod hi'n teimlo ei bod hi'n gwbl annheg i amddifadu mynediad y gymuned yn Ninbych i wasanaethau plant a fyddai'n cyfoethogi eu bywydau pan oedd cyllid a glustnodwyd ar gyfer y Ganolfan i gael ei ddefnyddio i gyfoethogi gwasanaethau sydd eisoes mewn bod yn Y Rhyl.

Roedd y Cynghorydd D Owens yn hwyrfrydig i gadarnhau'r penderfyniad i amnewid y cais am £300k o gyllid, ond dywedodd ei fod o dan yr argraff y byddai'r cyllid yn cael ei ddefnyddio i gyfarfod costau refeniw rhedeg Canolfan Y Rhyl ac nid oedd wedi rhagweld y byddai'r cyllid yn cael ei ddefnyddio ar gyfer gwariant cyfalaf. Yn ogystal, roedd ei benderfyniad wedi ei wneud ar y ddealltwriaeth y byddai gwaith ar y CIP i Ddinbych Uchaf yn mynd rhagddo fel mater o flaenoriaeth cyn gynted â phosibl. Cadarnhaodd Pennaeth Ysgol Gwaenynog ei bod hi wedi cyfarfod rhai o swyddogion yr Awdurdod ar 12 Hydref 2004 i drafod y broses ac wedi deall y byddai'r cyllid yn cael ei ddefnyddio'r gwblhau'r adeilad presennol ac nid i ddiben datblygu ac ymestyn y safle. Cadarnhaodd y Swyddog Prosiect mai'r bwriad ar hyd yr adeg oedd i'r cyllid a amnewidiwyd gael ei ddefnyddio i ran-gyllido datblygiad ail ran yr estyniad i'r CIP yn Y Rhyl er mwyn ei gyplysu gydag Ysgol Eglwys Fair.

Holodd y Cynghorydd ynghylch y posibilrwydd o wrthdroi'r penderfyniad, canslo datblygiad Rhan 2 y CIP yn Y Rhyl ac ail gyflwyno cais am gyllid i CIP Dinbych. Dywedodd y Swyddog Prosiect bod y cynllunio ar gyfer Rhan 2 y datblygiad yn Y Rhyl wedi mynd yn ei flaen yn sylweddol er nad oedd y contract wedi ei ddyfarnu hyd yma.

Wedi iddynt archwilio'r broses a'r penderfyniadau a wnaed mewn perthynas â'r bwriad i ddarparu CIP yn Ninbych Uchaf, mynegodd yr aelodau eu cydymdeimlad gyda phreswylwyr Dinbych a gyda staff a llywodraethwyr Ysgol Gwaenynog oherwydd y penderfyniad i dynnu'r cais am gyllid i sicrhau cyfleuster yr oedd ei wir angen yn yr ardal yn ôl, ond yr oeddent yn derbyn eglurhad y swyddogion ynghylch yr anawsterau a arweiniodd at y penderfyniad i ail-ddyrannu'r cyllid i'r CIP yn Y Rhyl, sef cyfleuster sydd eisoes mewn bod. Teimlai'r Pwyllgor y dylai darparu CIP yn Ninbych Uchaf barhau i fod yn fater a ddylai gael blaenoriaeth a gwnaed y sylw bod y fenter honno yn un a gâi ei chefnogi gan dargedau'r Strategaeth Gymunedol a chan Gynllun Partneriaethau'r Ardal Ganolog. Fodd bynnag yr oedd pryderon wedi'u mynegi yn ystod y drafodaeth ynghylch rheolaeth y prosiectau CIP, yn enwedig yng nghyswllt y ffaith na chafodd y costau refeniw eu hamcangyfrif yn gywir yn y dechrau; y methiant i sicrhau cyllid cyfalaf digonol cyn cychwyn ar y gwaith adeiladu ar gyfer y CIP yn Y Rhyl; y diffygion o ran darparu dogfennau oedd yn manylu ar ddatblygiad y project a'r drefn gwneud penderfyniadau; y diffygion o safbwynt cyfathrebu gydag Ysgol Gwaenynog a'r aelodau lleol pan ddaeth y problemau a gododd wrth geisio mynd ymlaen gyda CIP ar gyfer Dinbych i'r amlwg am y tro cyntaf. Oherwydd hyn oll:-

***PENDERFYNWYD*** *bod cynnwys yr adroddiad yn cael ei nodi gyda chonsyrn difrifol.*

Diolchodd y Cadeirydd i aelodau'r cyhoedd am fynychu'r cyfarfod a dywedodd ei fod yn credu bod Pennaeth a Llywodraethwyr o Ysgol Gwaenynog wedi cael cyfle i godi cwestiynau gyda'r swyddogion mewn perthynas â rheolaeth y prosiect ac i roi mynegiant agored i'w pryderon.

Yn y fan yma (4.25 p.m.) cafodd y cyfarfod ei ohirio am ddeng munud er mwyn i'r aelodau gael lluniaeth.

## 854 CYFLWYNIAD Y CYNLLUN CYDRADDOLDEB DRAFFT YN CYNNWYS Y CYNLLUN CYDRADDOLDEB HILIOL DIWYGIEDIG 2005 - 2008

Cafodd adroddiad [a ddosbarthwyd yn flaenorol] gan y Swyddog Cydraddoldeb Corfforaethol ei gyflwyno i'r aelodau yn gofyn iddynt ystyried y Cynllun Cydraddoldeb Drafft a oedd yn ymgorffori 'r Cynllun Cydraddoldeb Hiliol diwygiedig 2005 – 2008 [sydd ynghlwm wrth yr adroddiad]. Mae'r Cynllun Cydraddoldeb Drafft yn adolygu'r gwaith a wnaed gan y Cyngor i ddileu anffafriaeth anghyfreithlon, i hyrwyddo cyfle cyfartal, i hyrwyddo perthnasau hiliol da ac i osod allan y cynlluniau ar gyfer datblygu'r gwaith hwnnw yn ystod y tair blynedd nesaf.

Gofynnodd y Cadeirydd i'r aelodau nodi cynnwys y ddogfen a chyflwyno unrhyw gynrychiolaethau yn ei chylch yn uniongyrchol i'r Swyddog Cydraddoldeb Corfforaethol erbyn 19 Mai ar yr hwyraf.

***PENDERFYNWYD*** *bod yr adroddiad yn cael ei dderbyn a'i nodi.*

## 855 Y RHAGLEN WAITH ARCHWILIO

Cyflwynodd y Swyddog Cefnogaeth Archwilio adroddiad [a ddosbarthwyd yn flaenorol], i ddiben adolygu rhaglen waith y pwyllgor ac i ddiweddaru gwybodaeth y pwyllgor am faterion a danlinellwyd fel rhai i gael sylw. Roedd amserlen y rhaglen waith ynghlwm wrth yr adroddiad.

Dywedodd y Swyddog Cefnogaeth Archwilio bod y Cyngor llawn wedi cytuno i aelodau cyfetholedig a fyddai â'r hawl i bleidleisio fod yn aelodau o'r Seminarau Rheoli Lleoedd mewn Ysgolion [RhLlY] oedd i'w cynnal ar 25, 27 a 28 Ebrill. Gofynnodd yr aelodau gysylltu'n uniongyrchol gyda Swyddfa'r Cabinet i gadarnhau pa sesiwn y byddent yn ei mynychu. Teimlai'r Cynghorydd H.H. Evans y byddai o fudd i lywodraethwyr ysgolion fod yn rhan o'r sesiynau hyfforddi ar gyfer RhLlY a chytunodd yr aelodau i gymeradwyo bod yr holl lywodraethwyr yn cael bod yn rhan o'r broses.

Rhoddodd yr aelodau ystyriaeth i'r adroddiad am y rhaglen waith a chyfeiriodd yr aelod cyfetholedig G. Greenland at eitem i'w hystyried ynghylch Datblygiad Y Cam Sylfaen. Gan y byddai'r datblygiad hwn yn cael ei gyflwyno yn 2006, teimlai y dylai'r Pwyllgor roi ystyriaeth i'r mater cyn gynted â phosibl gan fod angen i drefniadau gael eu gwneud cyn iddo gael ei weithredu. Wrth drafod eitemau oedd i'w cynnwys yn rhaglen y Pwyllgor ar gyfer y dyfodol, gofynnodd y Cynghorydd M.M. Jones i eitem am y trefniadau Cymorth gael ei chynnwys. Teimlai'r Aelod Cyfetholedig J. Thirsk y dylai'r pwyllgor drafod ei gylch gorchwyl, ei swyddogaeth a'i gyfrifoldebau a'i ddatblygiad i'r dyfodol. Dywedwyd y byddai cyfeiriad at y pwyllgor a'i swyddogaeth archwilio yn cael ei gynnwys yn Adroddiad arfaethedig Estyn am Fynediad i Addysg ac yn adroddiad y Comisiwn Awdit yng Nghymru ar Adnewyddiad Democrataidd, a chytunwyd i aros am yr adroddiad hwnnw cyn mynd ymlaen gyda'r mater.

Cyfeiriodd y Cynghorydd G.M. Kensler at yr eitem am CIP ar agenda heddiw ac awgrymodd y gallai'r aelodau ddymuno derbyn gwybodaeth a fyddai'n egluro beth oedd fframwaith y gwahanol bartneriaethau. Cytunodd yr aelodau y dylid llunio'r fath ddogfen ac y dylid ei dosbarthu i holl aelodau'r pwyllgor.

***PENDERFYNWYD*** *:-*

*(a) yn amodol ar y newidiadau canlynol, bod y rhaglen waith fel y ceir manylion amdani yn Atodiad 1 yr adroddiad yn cael ei chymeradwyo:-*

*Datblygiad y Cam Sylfaen –i'w ddwyn ymlaen yn nhrefn y rhaglen waith*
*Trefniadau Cymorth – i'w chynnwys fel eitem yn y dyfodol*
*Cylch Gorchwyl y Pwyllgor Archwilio - i'w chynnwys fel eitem yn y dyfodol*

*(b) y dylid argymell bod Llywodraethwyr Ysgolion yn cael eu dwyn i mewn i'r trafodaethau ar fater Rheoli Lleoedd mewn Ysgolion ac yn cael gwahoddiad i fynychu seminarau yn ymwneud â hynny.*

Cyfeiriodd y Cynghorydd M.M. Jones at Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd oedd i'w chynnal yng Nghaerdydd a llongyfarchodd y disgyblion oedd yn cynrychioli Sir Ddinbych gan ddymuno'n dda iddynt. Roedd hi hefyd yn falch mai Sir Ddinbych a fyddai'n croesau Eisteddfod yr Urdd a oedd i'w chynnal yn Rhuthun yn 2006, a mynegodd y gobaith y byddai'r Eisteddfod yn llwyddiant mawr.

Daeth y cyfarfod i ben am 5.00 o'r gloch y prynhawn.

***********

## PWYLLGOR CYNLLUNIO

Cofnodion y Pwyllgor Cynllunio a gynhaliwyd yn Siambr y Cyngor, Rhuthun ar 20fed Ebrill 2005 am 10.00am.

### YN BRESENNOL:

Y Cynghorwyr S Thomas (Cadeirydd), J Bartley, R E Barton, J Butterfield, J M Davies, G C Evans, S Frobisher, I M German, M A German, K N Hawkins, T K Hodgson, N J Hughes, N Hugh-Jones, H Jones, M M Jones, P W Owen, N P Roberts, J Thompson-Hill, C H Willilams, R Ll Williams.

### HEFYD YN BRESENNOL:

Pennaeth Gwasanaethau Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd, Rheolwr y Gwasanaethau Cyfreithiol, Rheolwr Rheoli Datblygu, Arweinydd Tîm (Ceisiadau Mawr), Uwch Swyddog Cynnal (G Butler), Swyddog Gweinyddol (Judith Williams) a Bryn Jones (Cyfieithydd).

### CAFWYD YMDDIHEURIADAU AM EU HABSENOLDEB ODDI WRTH

Y Cynghorwyr J Chamberlain-Jones, D Jones, D A J Thomas, H Evans, D Hannam, E R Jones, T R Hughes ac M Webster.

### 856 MATERION BRYS

**Ysbyty Gogledd Cymru, Dinbych**

Cyfeiriodd y Rheolwr Gwasanaethau Cyfreithiol at adroddiad ychwanegol (a rannwyd) oddi wrth y Swyddog Monitro ynghylch Ysbyty Gogledd Cymru. Mae hwn yn disodli adroddiad y swyddog yn eitem 3 ar yr agenda.

Yn dilyn trafodaeth:

***PENDERFYNWYD:-***

*(i) nodi fod y mater hwn i'w gyflwyno i'r Cyngor Llawn yn unol ag adroddiad y Swyddog Monitro, ac*

*(ii) os bydd y Cyngor yn bwriadu gwrthod y cais am yr ailddatblygu arfaethedig yn Ysbyty Gogledd Cymru, bod y rheswm dros wrthod yr un a awgrymwyd ym mhenderfyniad y Pwyllgor Cynllunio.*

### 857 CEISIADAU AM GANIATÂD I DDATBLYGU

Cyflwynwyd adroddiad gan y Pennaeth Cynllunio ac Amddiffyn y Cyhoedd (a rannwyd o'r blaen) gyda'r cynlluniau a gyflwynwyd ac sydd angen eu penderfynu gan y Pwyllgor.

***PENDERFYNWYD:-***

*(a) cadarnhau argymhellion y Swyddogion, sydd wedi'u cynnwys yn yr adroddiad a gyflwynir yn awr, a chaniatáu neu wrthod, fel bo'r achos, ganiatâd cynllunio o dan Orchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Gorchymyn Datblygu Cyffredinol a Ganiateir) 1995, Deddf Cynllunio ac Iawndal 1991, Rheoliadau Hysbysebion Cynllunio Gwlad a Thref 1994 a / neu Ddeddf Cynllunio (Adeiladau Rhestredig ac Ardaloedd Cadwraeth) 1990 ar gyfer y datblygiadau a gynigir gan y cynlluniau canlynol yn amodol ar yr amodau a geir yn yr atodlen a gyflwynir yn awr:-*

(i) Caniatâd

| Rhif y Cais | Disgrifiad a Lleoliad |
|---|---|
| 42/2004/1068/PR | Datganodd Peter Owen ddiddordeb yn y cais canlynol a gadawodd y Siambr tra'r oedd yn cael ei drafod (wedi cael cyswllt â'r cais ar lefel Cyngor Cymuned)<br>**Siaradwr o'r Cyhoedd Yn Erbyn : P Wilkinson**<br>Manylion lleoliad, dyluniad ac ymddangosiad allanol 3 anheddle a gyflwynwyd yn unol ag Amod Rhif 1 o Ganiatâd Cynllunio Amlinellol Cyf No42/2003/1494/PO. Tir ger Rhif 19 Rhodfa Gofer, Dyserth, y Rhyl. Yn amodol ar Amod Newydd 2<br>Ni chaniateir unrhyw ddatblygu nes bo cynllun o ddraenio dŵr budur a dŵr wyneb wedi'i gyflwyno i, a'i gymeradwyo gan, yr Awdurdod Cynllunio Lleol a rhaid i'r cynllun a gymeradwyir fod wedi'i gwblhau cyn bod yr adeilad(au) yn cael ei / eu defnyddio gyntaf.<br>Rhaid i fanylion y draenio gynnwys asesiad o allu'r ffos / cwlfert bresennol ar odre'r safle i ddygymod gyda'r cynnydd yn llif y dŵr.<br>Nodyn Ychwanegol i'r Ymgeisydd:<br>Bydd y manylion Tirlunio y mae gofyn eu cael yn ôl Amod Rhif 1 ar y caniatâd gwreiddiol yn cynnwys darpariaeth ar gyfer plannu trwchus ar ochr ddwyreiniol y safle.<br>Bydd manylion y fynedfa y mae gofyn eu cael yn ôl Amod Rhif 1 yn cynnwys manylion y graddiant ar y ffordd at yr eiddo ac ar y mannau parcio.<br>Fe'ch cynghorir i sicrhau fod y ffos ddraenio a'r cwlfert yn cael eu cynnal yn briodol er mwyn sicrhau na cheir problemau gyda llifogydd ar y safle neu'n is i lawr.<br>Gofynnodd yr Aelodau am i adroddiadau ynghylch ceisiadau ar faterion a gadwyd yn ôl gael eu cyflwyno i'r Pwyllgor Cynllunio, gan gynnwys manylion draenio a mynediad.<br>Gofynnwyd i Swyddogion Priffyrdd fod yn bresennol yn y Pwyllgor pan fydd manylion ynghylch y fynedfa'n cael eu trafod. |
| 42/2004/0140/PR | Datganodd y Peter Owen ddiddordeb yn y cais canlynol a gadawodd y Siambr tra'r oedd yn cael ei drafod.<br>Manylion dyluniad ac edrychiad allanol bloc o 4 o dai tref a gyflwynwyd yn unol â Chaniatâd Cynllunio amlinellol Cyf<br>Tir ar gyffordd Lôn Pandy a'r Stryd Fawr, Dyserth, y Rhyl. |
| 43/2004/0496/PF | Codi 2 anheddle ar wahân a garejys.<br>Tir ar Leiniau 8 a 9, Melyd Avenue, Prestatyn<br>(Dymunai'r Cynghorwyr N Hugh-Jones a H Jones iddo gael ei nodi iddynt bleidleisio yn erbyn caniatáu caniatâd cynllunio). |
| 43/2004/0581/PF | Ar ôl ystyried cywiriad i'r adroddiad.<br>Codi 2 anheddle ar wahân a garejys.<br>Lleiniau 34 a 35 Melyd Avenue Prestatyn. |
| 43/2004/1632/PF | Ar ôl ystyried 2 llythyr ychwanegol gyda sylwadau oddi wrth: Cludiant a Seilwaith ac L McKenna, 5 Ffordd Aberconwy, Prestatyn.<br>Codi anheddle ar wahân 4 ystafell wely ac adeiladu mynedfa newydd i gerbydau a cherddwyr. |

Tir yn (rhan o ardd) 1 Bosworth Grove Prestatyn
Yn Amodol ar Nodiadau Newydd i'r Ymgeisydd:

1. Tynnir eich sylw at y Nodiadau Priffyrdd Atodol Rhifau 1,2, 3,4,5 a 10.
2. Tynnir eich sylw at ffurflen Rhan N atodedig (Deddf Gwaith Ffordd a Stryd Newydd 1991).
3. Tynnir eich sylw at y nodiadau ynghlwm ynghylch ceisiadau am ganiatâd i adeiladu croesfan gerbydau dros balmant / llain o dan Adran 184 Deddf Priffyrdd 1980.

43/2004/1645/PF

Ar ôl ystyried 1 llythyr ychwanegol gyda sylwadau oddi wrth: Gyngor Tref Prestatyn
Roedd y Cynghorydd Rhiannon Hughes yn bresennol ar gyfer yr eitem hon, fel Aelod lleol.
Adeiladu 2 anheddle yn lle 1 anheddle (newid cais Rhif 43/2003/472/PF) Tir yng nghefn Canolfan Arddio Meliden, 113 Ffordd Talargoch Prestatyn.
Yn amodol ar Amod Diwygiedig 4 ac Amod Newydd 5
4. ychwanegu amod "y mannau parcio a'r fynedfa atynt".
5. Er gwaethaf darpariaethau'r Gorchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Datblygiad Cyffredinol a Ganiateir) 1995 (neu unrhyw orchymyn yn diddymu neu ail ddeddfu'r gorchymyn gyda neu heb newidiadau) ni chaniateir gosod ffenestri ar unrhyw adeg yn ychwanegol i'r rhai a gafodd eu cymeradwyo ac sy'n cael eu dangos ar y cynlluniau ar lawr cyntaf Gogledd Ddwyreiniol yr anheddle ar Lain A oni bai eu bod yn derbyn cymeradwyaeth yn ysgrifenedig oddi wrth yr Awdurdod Cynllunio Lleol.
(Ymatalodd y Cynghorydd B Barton rhag pleidleisio, Pleidleisiodd y Cynghorydd J Thompson-Hill yn erbyn caniatáu'r cais).

43/2005/0109/PO

Datganodd y Cynghorydd J Thompson-Hill ddiddordeb yn y cais canlynol a gadawodd y Siambr tra'r oedd yn cael ei drafod.
Datblygu 0.038 hectar o dir drwy godi 1 anheddle ac adeiladu mynedfa gerbydau / gerddwyr newydd i Ffordd Gronant (cais amlinellol).
Tir yn (rhan o ardd) 11 Kirby Avenue Prestatyn.
Amod Ddiwygiedig

6. yn unol â'r cynllun gafodd ei gymeradwyo, Rhif 3335/03 cyn bod neb yn byw yn yr anheddle newydd, ar ôl hynny, ni fydd y man to fflat yn cael ei ddefnyddio fel balconi".

Nodiadau Newydd i'r Ymgeisydd:

1. Fe'ch cynghorir y bydd angen cytundeb cyfreithiol addas ar gyfer cyflwyno'r palmant yn ffurfiol. Cysylltwch â'r awdurdod priffyrdd am ragor o wybodaeth.
2. Mae'r manylion sydd eu hangen ar gyfer Amod 1 yn cynnwys darparu ar gyfer tirlunio cynhwysfawr gan gynnwys plannu coed ar y terfynau gorllewinol a deheuol y safle.
3. Tynnir eich sylw at y Nodiadau Priffyrdd Atodol Rhifau 1,2, 3,4,5 a 10.
4. Tynnir eich sylw at ffurflen Rhan N atodedig (Deddf Gwaith Ffordd a Stryd Newydd 1991).

44/2005/0081/PF

Ar ôl ystyried 2 llythyr ychwanegol gyda sylwadau oddi wrth: Gyngor Tref Rhuddlan a Cadw

Codi 38 o aneddleoedd, darparu mannau agored ac adeiladu ffordd newydd o'r fynedfa ddiwygiedig bresennol.
Abbey Nurseries Abbey Road Rhuddlan, y Rhyl.
Penderfynwyd CANIATAU ond yn amodol ar fod yr ymgeisydd yn cytuno i Rwymedigaeth Adran 106 ar gyfer delio gyda thai fforddiadwy a mannau agored ar ac oddi ar y safle. Y ffigwr perthnasol ar gyfer symiau cymudol i ddarparu mannau agored oddi ar y safle yw £30,828 ac ar gyfer cynnal a chadw ar ac oddi ar y safle £26,372.
Mynegodd yr Aelodau bryderon ynghylch maint y mannau agored. Swyddogion i archwilio'r posibilrwydd o gyfuno'r mannau agored i un ardal ar y safle er mwyn cael ardal fwy ystyrlon.

11/2004/0642/PF

Ar ôl ystyried 1 llythyr ychwanegol gyda sylwadau oddi wrth: Mr & Mrs Stubbings Plas Cwtta Clocaenog, Rhuthun.
Siaradwr o'r Cyhoedd Yn Erbyn : Rosemary Richards
Codi adeilad amaethyddol ar gyfer anifeiliaid a chadw porthiant.
Tir a adwaenir fel Graig Wen Clocaenog Rhuthun.
Yn amodol ar Amod Newydd a Nodyn Newydd i'r Ymgeisydd
Amod Newydd
5. Ni chaniateir dechrau gwaith ar yr adeilad, y mannau cadw porthiant / storio cysylltiedig na'r mannau caled heb ganiatâd ysgrifenedig yr Awdurdod Cynllunio Lleol ynghylch manylion llawn y dull o ymdrin â'r dŵr glaw o do'r adeilad a sut y cedwir y dŵr budur a fydd yn rhedeg oddi ar y man cadw porthiant / storfa a'r man caled ar gyfer cadw cerbydau. Bydd raid datblygu'n hollol unol â'r cynlluniau a gafodd eu cymeradwyo cyn bod yr adeilad, y mannau cadw a'r mannau caled yn cael eu defnyddio gyntaf.
Nodyn Ychwanegol i'r Ymgeisydd:
Mewn perthynas ag Amod 5, ni chaniateir gollwng dŵr o safle'r cais i'r ffos gyfagos ar ochr y ffordd. Rhaid gwaredu dŵr wyneb i'r cae ac i ffwrdd o'r ffordd. Dylai unrhyw danc elifyn / draenio hefyd fod ar ochr y cae ac yn ddigon pell o'r ffordd. Bydd gofyn cael cynllun manwl yn dangos manylion adeiladwaith y system ddraenio.
Pleidleisiodd y Cynghorydd N Hugh-Jones dros wrthod caniatad cynllunio.

21/2004/1486/PC

Ar ôl ystyried 3 llythyr ychwanegol gyda sylwadau oddi wrth: y cyd Bwyllgor Ymgynghorol, Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol, Cyngor Cymuned Llanferres, Asiantaeth yr Amgylchedd.
Siaradwr o'r Cyhoedd Yn Erbyn : D Clough (Cyngor Cymuned)
Siaradwr o'r Cyhoedd o Blaid : Mr Arya Manesh (Yr Ymgeisydd)
Newidiadau ac ymestyn anheddle presennol, dymchwel garej sengl ar wahân a chodi garej ddwbl (Cais ôl weithredol)
Park House Ffordd Rhuthun, Loggerheads Llanferres yr Wyddgrug
Yn amodol ar Amod Ddiwygiedig a Newydd
4. Er gwaethaf y manylion tirlunio a ddangosir ar y cynllun a gyflwynwyd, ni cheir defnyddio'r estyniadau a ganiateir drwy hyn nes cael cymeradwyaeth yr Awdurdod Cynllunio Lleol ar gyfer cynllun manwl o blannu ar y safle a bydd y cynllun a ganiateir yn cael ei weithredu yn ei gyfanrwydd ddim hwyrach na'r tymor plannu cyntaf ar ôl byw yn yr estyniadau gyntaf. Os

bydd unrhyw goed neu blanhigion yn marw, yn cael eu tynnu neu'n cael eu difrodi neu'n cael afiechyd o fewn 5 mlynedd i'w plannu bydd raid plannu rhai yn eu lle yn ystod y tymor plannu nesaf gydag eraill o'r un maint a rhywogaeth.

5. Cyn dechrau rendro ar y tu allan, rhaid dangos ar y safle sampl o'r math o render y bwriedir ei ddefnyddio ar y waliau allanol a dim ond ar ôl i sampl o'r render gael ei gymeradwyo'n ysgrifenedig gan yr Awdurdod Cynllunio Lleol y gellir symud ymlaen gyda'r datblygiad a bydd raid i'r render a ddefnyddir fod o'r un math, ansawdd a lliw a'r panel sampl a gafodd ei gymeradwyo.

6. Bydd raid cyflwyno a derbyn cymeradwyaeth ysgrifenedig ar gyfer y gorffeniadau i'r nodweddion dormer cyn eu darfod yn derfynol a bydd raid i'r nodweddion hynny fod yn unol â'r manylion a gafodd eu cymeradwyo.

7. Rhaid defnyddio'r garej sy'n cael ei chaniatáu i ddibenion sy'n atodol i fwyniant y tŷ annedd ac nid fel anheddle ar wahân nac i ddibenion busnes.

Rhesymau

5 a 6 er budd ymddangosiad yr anheddle yn yr AHNE.

7. Er bydd mwyniant ac i sicrhau nad oes anheddle ychwanegol yn cael ei chreu ar y safle yn groes i bolisi.

Bydd y safle'n cael ei monitro'n rhagweithiol.

Pleidleisiodd y Cynghorydd B Barton i wrthod caniatad cynllunio.

**GWRTHOD**

15/2005/0116/PC

(Ar ôl ystyried 2 llythyr ychwanegol gyda sylwadau oddi wrth: Mr & Mrs R.B Jones, 1 Ochr y Foel
Michael W Davies, 2 Ochr Y Foel

**Siaradwr o'r Cyhoedd o Blaid : Cyngor Cymuned Llanarmon Yn Iâl**

**Mike Davies.**

Cadw ffens goed 1.8 metr o uchdwr yn lle un arall a chodi llidiardau (cais rhannol ôl weithredol)

5 Ochr Y Foel Eryrys yr Wyddgrug

Pleidleisiodd y Cynghorydd R E Barton i ganiatáu'r cais (a gafodd ei wrthod ar bleidlais fwrw'r Cadeirydd).

**GWRTHOD YN GROES I ARGYMHELLIAD Y SWYDDOGION**

43/2004/0370/PS

Ar ôl ystyried 1 llythyr ychwanegol gyda sylwadau oddi wrth: Gyngor Tref Prestatyn

Newidiadau i amod Rhif 1 ar ganiatâd cynllunio Rhif 43/2002/0089/PF ynghylch yr arwynebedd tir sydd i'w ddefnyddio ar gyfer gwerthu ceir a'r nifer o geir y gellir eu harddangos ar unrhyw un adeg (cais ôl weithredol)

Gorsaf Betrol Telegraph Ffordd Victoria Prestatyn.

<u>Gwrthod</u> Gwnaed y penderfyniad sy'n groes i argymhelliad y swyddogion am y rheswm canlynol:

1. Byddai'r cynnydd arfaethedig yn yr arwynebedd ar gyfer gwerthu ceir ac yn nifer y ceir yn cael eu harddangos ar gyfer eu gwerthu, ynghyd a'r gofynion ar gyfer parcio ar gyfer staff a chwsmeriaid, mynd a dod, a chyfleusterau golchi ceir, yn arwain a defnydd rhy ddwys o'r tir a fyddai'n niweidiol i fwyniant gweledol yr ardaloedd ac i fwyniant trigiannol preswylwyr

gerllaw, oherwydd gorddefnydd, cynnydd mewn gweithgaredd ac aflonyddwch, yn groes i griterion (iii) (c) Polisi RET Cynllun Unedol Sir Ddinbych.
Penderfynwyd hefyd cymryd camau gorfodaeth yn erbyn y tor presennol o reolaeth cynllunio ac ystyried gweithredu yn erbyn y toriadau eraill ar yr amodau.

43/2005/0141/PF

(Ar ôl ystyried 2 llythyr ychwanegol gyda sylwadau oddi wrth: W Evans a'i Fab Fferm Midnant Prestatyn a Chyngor Tref Prestatyn.
Newid defnydd o dir i ddarparu estyniad i flaen-gwrt garej er mwyn dangos ceir ar gyfer eu gwerthu, ffurfio mynedfa newydd i gerbydau ar gyfer y blaen-gwrt arfaethedig, adleoli'r adwy amaethyddol a'r ffordd ac ail-wynebu'r tir gyferbyn ar gyfer ei ddefnyddio fel man parcio ar gyfer staff.
Tir i'r Dwyrain o Drivers Cyf ac i'r De o Ffordd Prestatyn, Prestatyn
Gwrthod Gwnaed y penderfyniad sy'n groes i argymhelliad y swyddogion am y rheswm canlynol:-
1. Byddai'r estyniad arfaethedig i flaen-gwrt y garej yn golygu datblygiad annerbyniol a fyddai'n effeithio ar Ardal Werdd dynodedig ac ar gymeriad agored yr Ardal Werdd yn groes i Bolisïau GEB 3 a GEN 5 Cynllun Datblygu Unedol Sir Ddinbych a byddai'n gosod cynsail annerbyniol ar gyfer datblygiadau tebyg mewn mannau eraill.
2. Byddai estyniad arfaethedig i flaen-gwrt garej, ffurfio mynedfa gerbydau ac adleoli'r adwy amaethyddol yn debygol o arwain at gynnydd mewn symudiadau traffig ar ac oddi ar ffordd Ddosbarth A brysur ger cyffyrdd gan beryglu diogelwch y ffordd yn groes i Bolisi TRA 6 o Gynllun Datblygu Unedol Sir Ddinbych.

**GOHIRIO**

43/2005/0106/PF

Codi 1 nodwedd hwyl dur gwrthstaen.
Llain y Ffordd yn wynebu Victoria Road West Prestatyn.
GOHIRIWYD er mwyn cyfeirio'r cynigion i'r Pwyllgor / Panel priodol o'r Cyngor Sir.

45/2004/1160/PF

Datganodd y Huw Jones ddiddordeb yn y cais canlynol a gadawodd y Siambr tra'r oedd yn cael ei drafod.
Ar ôl ystyried cywiriad i adroddiad a dau lythyr ychwanegol gyda sylwadau oddi wrth: Penseiri Siartredig DWA, Penarlâg a Gamlins, cyfreithwyr yn gofyn am ohiriad.
Siaradwr o'r Cyhoedd o Blaid : R.A Salisbury
Codi 18 anheddle ar wahân ac adeiladu mynedfa newydd ar gyfer cerbydau / cerddwyr.
Tir ar Ffordd Brookdale, y Rhyl
Gohiriwyd ar gais yr ymgeisydd i geisio cael datrys rhesymau dros wrthod.

11/2004/1535/PF

Codi anheddle gweithiwr amaethyddol
Tir ar Fferm Mountain Hall, Lôn yr Ysgol, Llanarmon yn Iâl, yr Wyddgrug.
Gohirio er mwyn cynnwys adroddiad ADAS yn Adroddiad y Pwyllgor.

Ar yr adeg yma (1.45pm) cynigiodd y Cadeirydd y dylid torri am ginio. Fodd bynnag, gan fod y trafodaethau wedi bod yn hirfaith a bod nifer o geisiadau yn dal heb eu trafod cytunwyd gohirio'r ceisiadau canlynol a'u trafod mewn cyfarfod arall yn y man. Felly, ni phenderfynwyd ar y ceisiadau canlynol.

**Ni phenderfynwyd** ar y ceisiadau canlynol.

| | |
|---|---|
| 44/2005/0056/PF | Newid defnydd tir i ffurfio estyniad i gwrtil trigiannol a chodi to brig ar garej bresennol.<br>Trevor Avenue, Rhuddlan, y Rhyl |
| 44/2005/0095/PF | Codi 2 nodwedd hwyl dur gwrthstaen.<br>Cyffordd gylchfan ar y Ffordd Osgoi gyda Ffordd y Rhyl, y Rhyl. |
| 45/2004/1468/PF | Newid defnydd o ganolfan drigiannol i ganolfan ddydd / hyfforddi a fflat drigiannol.<br>5, Abbey Street, y Rhyl |
| 45/2005/0060/PS | Newidiadau i amod Rhif 1 ar ganiatâd cynllunio Rhif 4370 er mwyn caniatau parc carafannau i agor rhwng 28 Chwefror a 14 Ionawr mewn unrhyw un flwyddyn. Parc Carafannau Mountain View, 423 – 425 Ffordd Arfordir y Rhyl, y Rhyl |
| 45/2005/0096/PF | Codi 1 nodwedd hwyl dur gwrthstaen.<br>Cyffordd Cylchfan West Parade gyda Ffordd Wellington y Rhyl. |
| 45/2005/0115/PF | Newid defnydd o fân-werthu (Dosbarth A1) i ganolfan hyfforddi ieuenctid a swyddfeydd cymunedol<br>69/71 Ffordd Wellington Road ac 1 Stryd Elwy y Rhyl |
| 45/2005/0122/PF | Codi estyniad tri llawr ar flaen cartref nyrsio (newid cynllun a gafodd ei gymeradwyo o'r blaen o dan Gyf 45/474/99/PF)<br>77 Ffordd Dyserth y Rhyl |
| 01/2005/0125/PF | Newid strwythur to presennol i ffurfio to Mansard er mwyn cael ffordd o ddianc yn achos tân a gosod fframiau ffenestri newydd yn lle rhai diffygiol.<br>Regency 21 Stryd y Bont Dinbych |
| 18/2004/1185/PO | Datblygu tir i ddibenion trigiannol a newid mynedfa gerbydau bresennol (cais amlinellol)<br>Tir y tu ôl i 1-4 Brondyffryn Terrace Llandyrnog Dinbych |
| 21/2005/0131/PC | Cadw sied storfa (cais ôl weithredol)<br>Cae Chwarae ger 5 Rock View, Ffordd y Pentref, Maeshafn, yr Wyddgrug |
| 23/2004/1451/PF | Codi sied da byw gyda ffrâm bortal ddur ar gyfer da byw / porthiant ac adeilad peiriannau .<br>Fferm Glan Aber, Llanrhaeadr, Dinbych |

**858 YSBYTY GOGLEDD CYMRU**

Tynnwyd yr adroddiad yn ôl

**859 DYDDIAD YMWELIAD SAFLE:**

Gan nad oedd angen ymweliadau safle, tynnwyd yr eitem hon yn ôl.

**860 EITEMAU ER GWYBODAETH AR GYFER Y PWYLLGOR CYNLLUNIO**

Cyflwynwyd adroddiad er gwybodaeth.

**861 DIWEDDARIAD AR BENDERFYNIADAU APÊL**

Cyflwynwyd adroddiad er gwybodaeth.

**862 RHESTR O GEISIADAU A GAFODD EU DELIO O DAN HAWLIAU DIRPRWYEDIG RHWNG 1 A 31 MAWRTH**

Cyflwynwyd adroddiad er gwybodaeth.

Daeth y cyfarfod i ben am 1.45p.m.

********

**PWYLLGOR IECHYD, DIOGELWCH A LLES CORFFORAETHOL**

Cofnodion y cyfarfod o'r Pwyllgor Iechyd, Diogelwch a Lles Corfforaethol a gynhaliwyd yn Siambr y Cyngor, Tŷ Russell, Ffordd Churton, Y Rhyl ar ddydd Iau 21ain Ebrill 2005 am 10.00 am.

**YN BRESENNOL**

**Yn cynrychioli'r Cyflogwyr**

Y Cynghorwyr J R Bartley, B Blakeley, J Butterfield, S Frobisher a C L Hughes

**Yn cynrychioli'r gweithwyr**

| | |
|---|---|
| UNSAIN | Andy Rutherford (Cadeirydd)<br>Ian Ellison |
| T & GWU | Clive Edwards<br>Geoff Lunt |
| CBNAD | John Thirsk |
| GMB | John Drummond |

**HEFYD YN BRESENNOL**

Y Cynghorydd R E Barton (Sylwedydd), Pennaeth Personél, Rheolwr Gwasanaethau Gweinyddol, Rheolwr Iechyd a Diogelwch Corfforaethol, Ymgynghorydd Iechyd a Diogelwch (C Hughes), Hyfforddwr Gyrwyr Corfforaethol ynghyd Swyddog-Gynrychiolwyr Iechyd a Diogelwch.

**YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB**

Y Cynghorydd P J Marfleet, D Wilson (DTJNC), D Hughes, (T & GWU) a Chynrychiolwyr Iechyd a Diogelwch Adrannol J Curran, C Foulkes ac I Scott.

**863 MATERION BRYS**

Yn unol â gofynion Adran 100 B(4) dywedodd y Cadeirydd ei fod yn bwriadu cynnwys er trafodaeth y materion canlynol a oedd angen sylw brys:-

(i) Tŷ Russell House, Y Rhyl - materion Iechyd a Diogelwch
(ii) Adeilad Zurich, Prestatyn

**864 COFNODION**

Cyflwynwyd cofnodion cyfarfod a gynhaliwyd ar 20fed Ionawr 2005 (a ddosbarthwyd ymlaen llaw) er ystyriaeth.

**Materion yn codi-**

**(i) Eitem 3 - Pwyllgor Iechyd a Diogelwch Cyfarwyddiaeth yr Amgylchedd - Darparu biniau baw cŵn.** Ail-adroddodd y Cynghorydd B Blakeley ei bryderon mewn perthynas â diffyg biniau baw cŵn yn ward De'r Rhyl/De-ddwyrain Y Rhyl. Dywedodd bod perchnogion cŵn, gan nad oedd biniau, yn gwaredu bagiau plastig gyda baw cŵn ynddynt ar y caeau chwarae, yn y gwrychoedd ac ati. Ategodd y Cynghorydd J Butterfield y teimladau hynny a dywedodd bod Cyngor Tref Y Rhyl yn barod i ddarparu 10/15 bin baw ci yn ardal Y Rhyl, ond nad oedd yn ymddangos bod ymrwymiad gan y Cyngor Sir i'w gwagio. Dywedodd y Cynghorydd S Frobisher

bod yr un broblem yn bodoli ym Mhrestatyn. Cynigiodd y Cynghorydd J Butterfield ac eiliodd y Cynghorydd B Blakeley that bod y Pwyllgor yn gofyn am sicrhad gan Gyfarwyddiaeth yr Amgylchedd bod ymrwymiad i ddarparu a gwagio biniau baw cŵn, yn amodol ar ddangos peth sensitifrwydd o ran lleoliad y biniau hynny mewn parciau. Cytunodd yr Aelodau gyda hynny.

(ii) **Eitem 4 (ii) - Asbestos mewn adeiladau cyhoeddus -** mewn ymateb i gwestiwn gan y Cynghorydd J Butterfield dywedodd y Pennaeth Personél bod yr archwiliad bellach wedi ei gwblhau a bod angen llunio polisi newydd yn ymgorffori canlyniadau'r broses archwilio. Roedd yn debygol o gael ei gwblhau yn gynnar yn 2006.

(iii) **Eitem 4 (vi) - Polisïau -** Adroddodd y Rheolwr Iechyd a Diogelwch Corfforaethol bod polisïau ar ffonau symudol a disodli cynhyrchion latex yn newidiadau trefniadol ac nad oedd angen cymeradwyaeth y Cyngor Sir. Fodd bynnag, byddai Rheoli Risg Galwedigaethol ar y Ffyrdd yn cael ei gyflwyno i'r Cyngor Sir er cymeradwyaeth.

***PENDERFYNWYD*** *yn amodol ar yr argymhellion a fanylwyd yn (i) uchod, cymeradwyo cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 20 Ionawr 2005.*

**865 COFNODION PWYLLGORAU IECHYD A DIOGELWCH Y CYFARWYDDIAETHAU**

Cyflwynwyd cofnodion Pwyllgorau Iechyd a Diogelwch y Cyfarwyddiaethau (a ddosbarthwyd ymlaen llaw) er gwybodaeth.

**Materion yn codi -**

(i) **Pwyllgor Iechyd a Diogelwch Dysgu Gydol Oes - 10 Chwefror 2004 - Eitem 4 - Ystadegau Digwyddiadau/Damweiniau -** Mynegodd Mr J Thirsk bryderon bod llawer o ysgolion nad ydynt yn adrodd am ddigwyddiadau/damweiniau ac anogodd llywodraethwyr ysgol i godi materion Iechyd a Diogelwch o'r fath yng nghyfarfodydd y Corff Llywodraethol. Cadarnhaodd y Rheolwr Iechyd a Diogelwch Corfforaethol bod polisi ar adrodd am ddigwyddiadau/damweiniau a dywedodd ei bod yn trefnu seminarau i ysgolion ym mis Medi ar faterion Iechyd a Diogelwch.

**Eitem 8 - Ysgol Uwchradd Y Rhyl -** Mynegodd Mr Ian Ellison bryderon ynglŷn â diogelwch yn Ysgol Uwchradd Y Rhyl, yn enwedig o ran gallu'r cyhoedd i gael mynediad i ardaloedd newid yn ystod oriau ysgol. Cyfeiriodd y Cadeirydd ar y gweithgor arfaethedig sydd i'w sefydlu a chroesawodd unrhyw gyfranogiad gan yr Heddlu/Aelodau ar y grŵp hwnnw. Teimlai'r Cynghorydd J Butterfield y dylid anfon llythyr at y Cyfarwyddwr Corfforaethol: Dysgu Gydol Oes yn gofyn pa fesurau a oedd i'w cyflwyno i gynyddu diogelwch mewn ysgolion, yn enwedig y rhai hynny gyda chyfleusterau defnydd deuol. Cytunodd y Cadeirydd ddarparu dyddiadau posibl ar gyfer y cyfarfod arfaethedig.

**Eitem 10 - Mastiau ffonau Symudol** - Mynegodd y Cynghorydd B bryderon ynglŷn â lleoliad mastiau ffonau symudol a theimlai y dylai'r Pwyllgor fod yn monitro'r sefyllfa. Cytunodd y Rheolwr Iechyd a Diogelwch Corfforaethol ymgymryd ag ymarfer canfod ffeithiau o ran maint, lleoliad mastiau ac ati ac adrodd yn ôl i gyfarfod nesaf y Pwyllgor.

**Rhieni yn parcio ger ysgolion** - Cyfeiriodd y Cynghorydd R Bartley at broblemau diogelwch priffyrdd sy'n gysylltiedig gyda rhieni yn parcio ger ysgolion tra'n mynd a'u plant i'r ysgol. Cyfeiriodd y Pennaeth Personél at yr archwiliad a ymgymerwyd gan ei staff ar y problemau diogelwch y tu allan i ysgolion, a oedd â ffactor risg uchel iawn. Cafwyd trafodaethau gyda'r Adran Briffyrdd ac roedd eu hasesiadau risg hwy yn seiliedig ar feini prawf gwahanol a ffactor risg is. Dywedodd y Pennaeth Personél y byddai adroddiad yn cael ei gyflwyno i Bwyllgor Archwilio'r Amgylchedd a oedd yn monitro'r sefyllfa.

(ii) **Cyfarwyddiaeth Gwasanaethau Personol – Pwyllgor Iechyd a Diogelwch – 9 Mawrth 2005** – Cyflwynodd Robert Hayes Mr D Freckleton, y Cydlynydd Iechyd a Diogelwch newydd ar gyfer y Gyfarwyddiaeth

**Eitem 5 - Polisi Rheoli Risg Galwedigaethol ar y Ffyrdd -** Dywedodd Mr I Ellison nad oedd wedi gweld y polisi. Dywedodd y Rheolwr Iechyd a Diogelwch Corfforaethol, unwaith y byddai'r polisi wedi ei gymeradwyo gan y Cyngor, byddai angen iddi hyfforddi rheolwyr mewn perthynas â'i weithredu. Gofynnodd y Cadeirydd bod yr Undebau'n cael eu hymgynghori ar y polisi a chytunodd y Pennaeth Polisi i hynny.

(iii) **Cyfarwyddiaeth Gwasanaethau Amgylcheddol - Pwyllgor Iechyd a Diogelwch - 24 Mawrth 2005** - cyfeiriodd y Cynghorydd S Frobisher at dynnu'n ôl y bachau llaw ar gyfer codi sbwriel gan blant ysgol. Dywedodd y Cydlynydd Iechyd a Diogelwch, Gwasanaethau Amgylcheddol nad oedd yn ymwybodol o'r sefyllfa ond byddai'n archwilio ac adrodd yn ôl i'r Cynghorydd Frobisher.

***PENDERFYNWYD*** *derbyn a chydnabod cofnodion cyfarfodydd y Pwyllgorau Iechyd a Diogelwch Corfforaethol.*

**866 DIWEDDARIAD AR WAITH A YMGYMERIR GAN YR UNED IECHYD A DIOGELWCH CORFFORAETHOL**

Cyflwynodd y Pennaeth Personél a'r Rheolwr Iechyd a Diogelwch Corfforaethol adroddiad (a ddosbarthwyd ymlaen llaw) yn hysbysu'r aelodau bod y gwaith canlynol wedi ei wneud gan yr Uned Iechyd a Diogelwch Corfforaethol.

(i) **Swydd Rheolwr Iechyd a Diogelwch Corfforaethol -** penodwyd Helen Tapley i'r swydd a chychwyn ar ei dyletswyddau ar 4 Ebrill 2005.

(ii) **Hyfforddiant -** Lansiwyd yr hyfforddiant Asesu Risg mewnol newydd ar Ddiwrnod Cydlynwyr Diogelwch ym mis Chwefror, ond mai nifer fechan iawn a fynychodd. Honnodd ochr yr undeb nad oeddynt wedi eu gwahodd i'r hyfforddiant. Cadarnhaodd yr Ymgynghorydd Iechyd a Diogelwch bod gwahoddiadau wedi eu hanfon i'r undebau a bod Mr D Wilson wedi cyflwyno ymddiheuriad am ei absenoldeb. Dywedodd y Rheolwr Iechyd a Diogelwch Corfforaethol y byddai'n ail-adrodd yr hyfforddiant ar gyfer yr undebau.

(iii) **Cynllun Pasbort Trin â Llaw** - Roedd y rhan fwyaf o'r Cyfarwyddiaethau bellach wedi adnabod anghenion hyfforddi ac roedd cynlluniau gweithredu'n cael eu casglu ynghyd gan yr Adran Iechyd a Diogelwch Corfforaethol, i'w dodi mewn Cynllun Gweithredu ar gyfer yr Awdurdod, a anfonid at y Gweithredwyr Iechyd a Diogelwch ym mis Mai.

(iv) **Cynllun Iechyd a Diogelwch**– Roedd y cynllun ar gyfer 2005/06 yn cael ei ddatblygu a byddai drafft yn cael ei gyhoeddi ar gyfer ymgynghoriad erbyn diwedd Ebrill.

(v) **Rheoli Straen** – Roedd Trefn Rheoli Straen yn cael ei datblygu yn unol â threfniadau straen enghreifftiol Gweithredwyr Iechyd a Diogelwch. Byddai'r arolwg yn cael ei ymgymryd ym mis Mehefin a byddai'r canlyniadau a'r trefniadau newydd ar gael erbyn diwedd Medi. Byddai hyfforddiant ar gael i reolwyr a staff yn Chwarter Tri.

(vi) **Arolwg o bolisïau** - Byddai'r Tîm Iechyd a Diogelwch Corfforaethol yn arolygu holl ddogfennau Iechyd a Diogelwch presennol ac ymgymryd â dadansoddiad bylchau er mwyn blaenoriaethu datblygiad Polisi a Threfniadau. Byddai'r Tîm yn ceisio enghreifftiau o arferion da a rhannu gwybodaeth yn eang.

(vii) **Archwilio Damwain** - Syrthiodd contractwr trwy do a thorri ei goes ar ddydd Mercher 9 Mawrth 2005 ar fferm yn Rhuddlan. Ymgymerwyd ag archwiliad mewnol gan y Tîm Iechyd a Diogelwch

Corfforaethol. At hyn roedd y Gweithredwyr Iechyd a Diogelwch hefyd yn cwblhau archwiliad ffurfiol a byddai trafodaethau pellach gyda'r GID mewn perthynas â rheolaeth contractwyr gan y Cyngor i sicrhau nad damwain o'r fath yn digwydd eto.

Dywedodd y Rheolwr Iechyd a Diogelwch Corfforaethol bod y GID yn cyfeirio at y camau mwyaf tebygol i'w cymryd ganddynt. Cyfeiriodd Mr Ian Ellison at y pryderon a fynegwyd gan y swyddogion o ran y cosbau posibl a ellid eu pennu arnynt ar ôl y ddamwain. Adroddodd y Rheolwr Iechyd a Diogelwch Corfforaethol iddi siarad gyda'r swyddogion hynny ac esbonio'r camau posibl a ellid eu cymryd gan y Gweithredwyr Iechyd a Diogelwch. Mewn ymateb i gwestiwn gan Mr J Drummond cyfeiriodd y Rheolwr Iechyd a Diogelwch Corfforaethol at y lefelau gallu a oedd yn ofynnol gan staff asiantaeth ar safleoedd a'r angen i Arweinwyr Timau ymgymryd â hyfforddiant cyflwyno Iechyd a Diogelwch wrth gyflogi'r staff hynny

(viii) Adroddodd y Rheolwr Iechyd a Diogelwch Corfforaethol bod y Cyngor wedi derbyn Gwobr Efydd gan ROSPA ar gyfer Rheoli Risg Ffyrdd ac roedd yr Ymgynghorydd Risg Ffordd Corfforaethol i dderbyn y wobr mewn seremoni yn Llandrindod. Gofynnodd y Cynghorydd J Butterfield bod llythyr yn ei llongyfarch yn cael ei anfon at Miss Victoria-Finchett Maddock, a gofyn i Gadeirydd y Cyngor son am y wobr yn ei adroddiad i'r Cyngor.

***PENDERFYNWYD*** *cydnabod cynnwys yr adroddiad ar y gwaith a wnaed gan yr Uned Iechyd a Diogelwch Corfforaethol.*

**867 ADRODD AM DDAMWEINIAU A DIGWYDDIADAU SHE2000 AC YSTADEGAU**

Cyflwynodd y Pennaeth Personél yr Ystadegau Damweiniau a Digwyddiadau ar gyfer y cyfnod 1 Ionawr - 31 Mawrth 2005 (a ddosbarthwyd ymlaen llaw).

***PENDERFYNWYD*** *derbyn a chydnabod yr adroddiad.*

**868 TŶ RUSSELL, Y RHYL - MATERION IECHYD A DIOGELWCH**

(Ystyriwyd yr eitem fel mater brys, gyda'r Cadeirydd wedi rhoi hysbysiad ar ddechrau'r cyfarfod).

Cyfeiriodd Mr Ian Ellison at y pryderon a fynegwyd gan UNSAIN mewn perthynas â'r dderbynfa newydd yn Nhŷ Russell, Y Rhyl a'r trefniadau parcio ceir annigonol yn yr eiddo. Ategodd y Cadeirydd y sylwadau a chyfeiriodd at y penderfyniad i gynnwys yr adrannau canlynol mewn un adeilad, oll gyda chleientiaid a allai fod yn danllyd: Gwasanaethau Cymdeithasol, Budd-daliadau Tai, Treth y Cyngor, Tai a Chydymffurfio. Teimlai nad oedd staff yn yr adeilad yn ymwybodol o'r peryglon posibl a chyfeiriodd at ddigwyddiadau yn y gorffennol ym Mhlas Morfa gyda chleientiaid Gwasanaethau Cymdeithasol.

Dywedodd y Rheolwr Gwasanaeth Busnes (R Hayes) bod y Prif Weithredwr wedi ymweld â'r dderbynfa newydd yn Nhŷ Russell ac wedi rhoi cyfarwyddyd o ran sut gellid datrys y broblem, a fyddai'n golygu ail-feddwl ardal gyfan y dderbynfa yn yr adeilad. Awgrymodd y Cadeirydd hefyd nad oedd y camerâu TCC yn cyrraedd y safonau gofynnol.

Pwysleisiodd y Cynghorydd J Butterfield yr angen i gynnwys UNSAIN mewn unrhyw gyfarfodydd yn y dyfodol ar ail-ddylunio'r Dderbynfa ac awgrymodd ddefnyddio rhwystr mynediad taro i liniaru'r problemau parcio. Cynigiodd bod llythyr yn cael ei anfon at y Prif Weithredwr yn amlinellu pryderon y Pwyllgor, gan ofyn bod copi o'r cyfarwyddyd ar y Dderbynfa yn cael ei roddi i UNSAIN a bod cyfarfod rhwng pawb a oedd â diddordeb yn cael ei gynnal o fewn 28 diwrnod. Eiliodd y Cynghorydd C L Hughes y cynnig ac awgrymu bod copi o'r llythyr yn cael ei anfon at y Dirprwy Brif Weithredwr a'r Aelod Arweiniol ar gyfer Personél.

Teimlai'r Pwyllgor bod y sefyllfa mor ddifrifol fel y dylid, fel mesur dros dro, cyflogi swyddog diogelwch yn Nhŷ Russell i reoli'r dderbynfa a'r maes parcio.

Teimlai'r Cynghorydd J Butterfield hefyd y dylid ymgymryd ag arolwg o'r adeilad i ganfod union nifer y staff a oedd yn gweithio yn yr adeilad.

***PENDERFYNWYD***:

(a) *cyflwyno llythyr i'r Prif Weithredwr yn amlinellu pryderon y Pwyllgor, fel y nodwyd uchod, a*

(b) *gofyn i'r Adran Cynnal a Chadw Adeiladau ymgymryd ag archwiliad o Dy Russell i ganfod union nifer aelodau staff a oedd yn gweithio yn yr adeilad.*

**869 ADEILAD ZURICH, WARREN DRIVE, PRESTATYN**

Mynegodd Mr Ian Ellison, UNSAIN, bryderon ynglŷn â'r sefyllfa awyriad / aer yn yr eiddo uchod. Dywedodd bod rhai swyddfeydd lle nad oedd unrhyw awyriad naturiol na system awyru,. A chyda'r haf ar ddod, gallai fod problemau i staff yn gweithio yn y swyddfeydd hynny.

***PENDERFYNWYD*** *gofyn i'r Adran Cynnal a Chadw Adeiladau ymgymryd ag archwiliad o'r eiddo mewn perthynas â'r broblem awyriad/system awyru.*

Daeth y cyfarfod i ben am 11.55 am.

********

**CYD BWYLLGOR ARCHWILIO**

Cofnodion cyfarfod o'r Cyd Bwyllgor Archwilio a gynhaliwyd yn Siambr y Cyngor, Neuadd y Sir, Rhuthun ddydd Gwener 22ain Ebrill 2005 am 10.00a.m.

**YN BRESENNOL:**

Y Cynghorwyr T K Hodgson, N J Hughes (Sylwebydd), R W Hughes (Arweinydd fel Sylwebydd), M M Jones, P W Owen, G J Pickering, G O Rowlands a C H Williams (Sylwebydd).

**HEFYD YN BRESENNOL:**

Y Prif Weithredwr, Cyfarwyddwr Corfforaethol (Amgylchedd), Cyfarwyddwr Corfforaethol dros Dro (Dysgu Gydol Oes), Rheolwr yr Uned Polisi Strategol, Rheolwr Gwasanaethau Gweinyddol a'r Swyddog Cefnogi Archwilio (J Curran).

**CAFWYD YMDDIHEURIADAU AM EU HABSENOLDEB ODDI WRTH**

Y Cynghorwyr D Hannam, N Hugh-Jones ac E R Jones.

**870 PENODI CADEIRYDD AR GYFER Y CYFARFOD**

Cynigiodd y Cynghorydd G J Pickering, a'i eilio gan y Cynghorydd T K Hodgson, benodi'r Cynghorydd G O Rowlands yn Gadeirydd ar gyfer y cyfarfod. Yn absenoldeb unrhyw enwebiadau eraill

***PENDERFYNWYD*** *penodi'r Cynghorydd G O Rowlands yn Gadeirydd ar gyfer y cyfarfod.*

**871 EFFEITHIOLRWYDD A CHYD WEITHIO**

Cyflwynodd y Prif Weithredwr adroddiad, a oedd i'w gyflwyno gan yr Arweinydd i'r Cabinet ar 26 Ebrill 2005, yn gofyn am sylwadau'r aelodau ar y cynigion i gymryd rhan mewn gwaith sy'n cael ei arwain gan Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru ynghylch cydweithio ar brosiectau cenedlaethol. Amlinellodd y Prif Weithredwr gefndir y gwaith a wnaed hyd yn hyn, gan gynnwys cyhoeddi 'Gwneud y Cysylltiadau – Darparu Gwasanaethau Cyhoeddus Gwell i Gymru' gan Lywodraeth Cynulliad Cymru fis Hydref 2004, er mwyn sicrhau fod awdurdodau lleol yn gallu darparu arbedion effeithiolrwydd. Nodwyd efallai bod awdurdodau lleol Cymru yn rhoi pwyslais ar ffyrdd gwahanol o gyfarfod â'r arbedion hynny o gymharu â'r llwybr a gymerir gan awdurdodau lleol Lloegr trwy ofynion adolygiad Gershon neu drwy gyfuno'n orfodol nifer o gyrff cyhoeddus i mewn i Lywodraeth Cynulliad Cymru. Oherwydd hyn ystyrid ei bod yn bwysig fod awdurdodau lleol Cymru'n cymryd yr arweiniad mewn cyfarfod â'r disgwyliadau ar gyfer arbedion effeithiolrwydd. Felly, derbyniwyd mai drwy ddilyn llwybr y gellid ei ddatblygu ymhellach y gellid cael arbedion a hynny trwy gydweithredu gydag awdurdodau lleol eraill.

Wrth archwilio'r potensial, dywedodd y Prif Weithredwr fod angen sicrhau fod unrhyw gydweithredu'n cael ei wneud am resymau da, un ai er mwyn gwella darpariaeth gwasanaeth neu gynhyrchu arbedion effeithiolrwydd ac mae'n rhaid i awdurdodau fod yn ymwybodol o'r cymhlethdod a allai godi o drefniadau rheoli ar y cyd a bod angen sefydlu trefniadau rheolaeth cadarn. Dywedodd y Prif Weithredwr wrth yr aelodau y cynhaliwyd trafodaethau ar lefel genedlaethol a lleol a nodwyd fod Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru wedi amlygu'r 5 prosiect cenedlaethol canlynol ar gyfer ystyriaeth bellach:-

- Caffael ar y Cyd (gyda sylw penodol ar Ynni)
- Rheoli Gwastraff
- Trethi Busnes
- Plant yn Derbyn Gofal – Lleoliadau Allan o'r Sir
- Cynlluniau Cyfalaf / Cynnal Asedau

Croesawodd T K Hodgson y cyfle i wneud gwell defnydd gwell o adnoddau a nododd fod potensial ar gyfer cydweithio gyda darparwyr gwasanaeth eraill yn y sector gyhoeddus yn ogystal â gydag awdurdodau lleol.

Roedd y Cynghorydd G O Rowlands yn cydnabod fod sgôp i Sir Ddinbych gymryd rôl arweiniol mewn darparu rhai gwasanaethau a sefydlu canolfannau rhagoriaeth ar gyfer gwasanaethau. Fodd bynnag, roedd hefyd yn cydnabod y peryglon sydd ynghlwm â chydweithio a phwysleisiodd bwysigrwydd rheolaeth gadarn. Cyflwynodd y Prif Weithredwr sylwadau ar feysydd presennol megis y Cynllun Rheoli Gwastraff Rhanbarthol a'r Siop Arwyddion ble mae Sir Ddinbych wedi gallu cymryd yr arweinyddiaeth yn bositif ar fentrau rhanbarthol.

Dywedodd y Cynghorydd T K Hodgson y gellid bod angen haen ychwanegol o reolaeth er mwyn hyrwyddo cydweithio a chydnabyddai'r Prif Weithredwr fod angen buddsoddi mewn nifer o feysydd er mwyn comisiynu'r gallu i ddatblygu gwaith rhagbaratoawl er mwyn gallu gwireddu'r arbedion.

Roedd y Cynghorydd G O Rowlands yn cydnabod fod angen sicrhau, wrth drafod prosiectau arfaethedig ar y cyd, fod gan Sir Ddinbych nifer fawr o bartneriaid rhag dod yn ddibynnol ar un partner yn unig. Wrth gydnabod y mater hwn cyfeiriodd y Prif Weithredwr hefyd y dylid sicrhau fod y cydbwysedd rhwng polisïau a blaenoriaethau cystadleuol gwahanol awdurdodau lleol yn cael ei dderbyn gan y gallai hynny arwain at dyndra.

Diolchodd yr Arweinydd i'r aelodau am eu cyfraniad i'r cyfarfod a dywedodd y byddai'n cyflwyno eu sylwadau i'r Cabinet yn ei gyfarfod ar 26ain Ebrill 2005, yn benodol y sylwadau ynghylch cefnogi'r sgôp am ryddhau adnoddau. Nododd yr Arweinydd hefyd, yn ogystal i'r prosiectau cenedlaethol a nodwyd, bod gan y Cyngor y potensial i nodi prosiectau lleol y gellid eu hyrwyddo ac awgrymodd y gallai'r Pwyllgorau Archwilio fod yn cymryd rhan weithredol yn y maes hwn o waith yn y dyfodol.

***PENDERFYNWYD –*** *fod y Cyd Bwyllgor Archwilio'n cefnogi'n ffurfiol y cynigion sydd i'w cyflwyno i'r Cabinet gan yr Arweinydd ar y cynigion am gymryd rhan yn y gwaith sy'n cael ei arwain gan Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru ar brosiectau cenedlaethol ar gyfer cydweithredu.*

Daeth y cyfarfod i ben am 10.45pm.

********

**CYD-BWYLLGOR ARCHWILIO**

Cofnodion y Cydbwyllgor Archwilio a gynhaliwyd yn Siambr y Cyngor, Neuadd y Sir, Rhuthun ar ddydd Gwener, 22ain Ebrill 2005 am 11.15am

**YN BRESENNOL**

Y Cynghorwyr G.C. Evans, T.K. Hodgson, N.J. Hughes, N. Hugh-Jones, M.M. Jones, G.K. Kensler, P.W. Owen, G.J. Pickering, G.O. Rowlands, D.A.J. Thomas a C.H. Williams.

**HEFYD YN BRESENNOL**

Prif Weithredwr, Swyddog Diogelwch Cymunedol (M Denman), Swyddog Polisi (J. White), Rheolwr Gwasanaethau Gweinyddol a Swyddog Cefnogi Archwilio (J. Curran).

**DERBYNIWYD YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB ODDI WRTH**

Y Cynghorwyr B. Blakeley, J. Chamberlain Jones, P.C. Duffy, D. Hannam, E.R. Jones, M.A. Webster a G. Williams a E.C. Edwards (Aelod Arweiniol ar gyfer Cymunedau).

**872 PENODI CADEIRYDD AR GYFER Y CYFARFOD**

Cynigiodd y Cynghorydd P.W. Owen, ac eiliodd y Cynghorydd G.C. Evans bod y Cynghorydd T.K. Hodgson yn cael ei benodi'r Gadeirydd ar gyfer y cyfarfod. Yn absenoldeb unrhyw enwebiadau eraill, fe:-

***BENDERFYNWYD*** *penodi'r Cynghorydd T.K. Hodgson yn Gadeirydd ar gyfer y cyfarfod.*

**873 STRATEGAETH DIOGELWCH CYMUNEDOL**

Cyflwynodd y Prif Weithredwr adroddiad ar y Strategaeth Diogelwch Cymunedol, yr oedd y Cyngor ar 12 Ebrill wedi penderfynu y dylid ei hystyried gan Archwilio cyn ei mabwysiadu gan y Cyngor. Esboniodd y Prif Weithredwr y gwaith a wnaed gan y Bartneriaeth Diogelwch Cymunedol wrth ddatblygu'r strategaeth, gan gynnwys cyhoeddi Archwiliad Trosedd ac Anhrefn ym mis Rhagfyr 2004, a oedd wedi ei ddosbarthu i'r aelodau, a darganfyddiadau'r hwn yr oedd y strategaeth yn ceisio eu trin.

Cyfeiriodd y Prif Weithredwr hefyd at gyflwyniadau a dderbyniwyd gan y Cynghorwyr D.A.J. Thomas a D. Hannam ar elfennau penodol y strategaeth a chytunodd y Pwyllgor arolygu'r pryderon hynny i ddechrau.

Mynegodd y Cynghorydd D.A.J. Thomas ei amheuon ynglŷn ag a oedd y flaenoriaeth yn y strategaeth yn manylu'r angen i ddodi mwy o bwyslais ar Symleiddio Trosedd ac Anhrefn (Adran 17) yn ddigonol i alluogi'r cynnydd gofynnol. Yn benodol, teimlai ar hyn o bryd nad oedd Cyngor Sir Ddinbych yn ei drafodaethau yn dodi digon o bwyslais i Adran 17 Deddf Trosedd ac Anhrefn 1998. Mynegodd bryderon hefyd nad oedd tystiolaeth ddigonol yn y strategaeth i ddangos effeithiolrwydd y gwaith a ymgymerwyd hyd yma, yn enwedig gyda Tref Y Rhyl lle cofnodwyd lefelau uwch na'r cyfartaledd o drosedd ac anhrefn. Cyfeiriodd y cynghorydd Thomas hefyd at bryderon tebyg, o ran a allai'r strategaeth ddangos os oedd gwerth gorau wedi ei gyflawni trwy gyfrwng dyraniad grantiau'r Bartneriaeth hyd yma, i alluogi i'r aelodau fod yn sicr bod cynnydd yn cael ei wneud. At hyn, teimlai bod gwybodaeth annigonol i ddangos effeithiolrwydd yr amrywiol weithgorau a oedd yn rhan o'r Bartneriaeth Diogelwch Cymunedol a'r berthynas rhwng y gwahanol lefelau o'r grwpiau. Cytunodd y Pwyllgor archwilio'r pryderon a godwyd gan y Cynghorydd Thomas yn fanwl.

Cyfeiriodd y Prif Weithredwr at y ddyletswydd a roddwyd gan awdurdodau lleol dan Adran 17 Deddf Trosedd ac Anhrefn 1998 a chyfeirio at enghreifftiau megis y Pwyllgor Trwyddedu lle gellid dangos yn glir bod y broses o gymryd penderfyniadau yn cymryd gofynion y Ddeddf i ystyriaeth. Derbyniodd hefyd nad oedd cymhwysiad o'r fath yn gyson ar draws holl feysydd gwaith y Cyngor ac ail-adrodd pwysigrwydd ystyried y Ddeddf wrth gymryd penderfyniadau. Serch hynny, cyfeiriodd hefyd at feysydd deddfwriaeth eraill lle'r oedd angen i'r Cyngor roddi ystyriaeth debyg megis deddfwriaeth

Cydraddoldeb a'r anhawster wrth sicrhau bod holl ofynion o'r fath yn cael eu hystyried yn briodol. Cyfeiriwyd at bwysigrwydd ystyriaeth o'r fath gan aelodau ac fe roddwyd esiampl o'r angen i sicrhau bod y Pwyllgor Cynllunio'n ystyried os oedd datblygiadau newydd wedi eu dylunio i safon sy'n lleihau'r potensial ar gyfer ardaloedd lle byddai trosedd ac anhrefn yn datblygu.

Wrth gefnogi gofynion prif-lifio o'r fath, holodd y Cynghorydd G.M. Kensler a ddylai pob adroddiad a gyflwynwyd er ystyriaeth i aelodau gynnwys goblygiadau Trosedd ac Anhrefn fel rhai safonol, yn wyneb y ffaith bod gwaith mewn perthynas â Diogelwch Cymunedol yn effeithio cymaint o wasanaethau'r Cyngor ac y gallai methu â rhoddi ystyriaeth ddyledus yn y dechrau arwain at oblygiadau cost yn ddiweddarach. Dywedodd y Prif Weithredwr, tra bo angen rhoi ystyriaeth ddyledus, cyfeiriodd at sylwadau blaenorol ar ofynion deddfwriaethol eraill ac awgrymu rhestr wirio i swyddogion a luniai adroddiadau a allai gyflawni diben tebyg.

Dywedodd y Cynghorydd D.A.J. Thomas bod y ffaith bod yr Aelodau yn derbyn diffyg gwybodaeth ar Adran 17 yn y cyfarfod yn pwysleisio'r angen am fwy o hyfforddiant ac anogodd gefnogaeth yr aelodau ar y mater hwnnw. Cyfeiriodd hefyd at gyhoeddiad diweddar gan NACRO a ddosbarthwyd i Gynghorwyr Cymunedol a allai fod o ddiddordeb i aelodau'r Cyngor Sir.

O ran gwerthuso gwaith y partneriaethau hyd yma ac effaith penderfyniadau ariannu, cadarnhaodd y Prif Weithredwr bod angen i weithgorau unigol a ffurfiai ran o'r Bartneriaeth gyffredinol fod yn atebol am ddatblygu cynlluniau. Yn achos cynlluniau yn ardal Y Rhyl, byddai'r Grŵp Llywio lleol wedi derbyn adroddiadau perthnasol ar gynnydd cynlluniau o'r fath. Cadarnhaodd y Swyddog Diogelwch Cymunedol bod dau gynrychiolydd Cyngor Tref Y Rhyl ar y grŵp lleol a'u bod oll yn derbyn holl adroddiadau ar gyfer y Grŵp Llywio hwnnw.

Wrth ystyried gwaith grwpiau lleol, dywedodd y Cynghorydd G.M. Kensler ei bod yn bwysig bod gan grwpiau o'r fath bwrpas gwirioneddol yn hytrach na mynd yn siop siarad a chyfeiriodd at statws trafodaethau trefniadau yn y dyfodol ar gyfer partneriaethau ardal yn Sir Ddinbych. Cadarnhaodd y Prif Weithredwr bod y grwpiau lleol yn y gorffennol wedi derbyn adnoddau i'w dyrannu i brojectau unigol yn eu hardal. Awgrymodd y Cynghorydd G.O. Rowlands y gallai fod o gymorth pe bai'r papurau ar gyfer y grwpiau lleol ar gael o wneud cais i aelodau yn y pedair ardal.

O ran y cyllid a oedd ar gael ar gyfer 2005/06, dywedodd y Prif Weithredwr nad oedd cadarnhad terfynol wedi ei roddi gan y Swyddfa Gartref a Llywodraeth Cynulliad Cymru hyd yma, a dyna pam roedd datganiad yn y strategaeth ar ddyraniad cyllid i'r gweithgorau. O ran gwybodaeth bellach ar y dyraniad ariannu uniongyrchol, awgrymwyd pe byddai aelodau eisiau gwybodaeth ychwanegol ar dderbynwyr grant penodol, y byddai'n briodol i'r aelodau ystyried a hoffent wahardd y wasg a'r cyhoedd o'r cyfarfod.

Felly, ***PENDERFYNWYD*** *dan Adran 100A Deddf Llywodraeth Leol 1972, y dylid gwahardd y Wasg a'r Cyhoedd o'r cyfarfod ar gyfer yr eitem ganlynol oherwydd y byddai'n debygol a datgelwyd gwybodaeth eithriedig fel y diffinnir ym Mharagraff 7 o Ran 1 o Atodlen 12 A i Ddeddf Llywodraeth Leol 1972.*

*(Nodyn: Datganodd y Swyddog Polisi (J. White) ddiddordeb yn wyneb ei gyfranogiad uniongyrchol ym mudiad STARS a gadawodd y cyfarfod)*

Rhoddodd y Prif Weithredwr ddiweddariad ar y sefyllfa gyffredinol mewn perthynas ag ariannu amrywiol brojectau ar gyfer eu hariannu yn y Strategaeth - yn enwedig y rhai ar gyfer STARS a Chanolfan Dewi Sant, Y Rhyl - a thanlinellodd y Swyddog Diogelwch Cymunedol y trefniadau monitro trwyadl a ddefnyddiwyd gan y Swyddfa Gartref a Llywodraeth Cynulliad Cymru wrth fesur gwaith y bartneriaeth. O ran y projectau a fanylwyd, cadarnhaodd y Prif Weithredwr hefyd od y cynlluniau a nodwyd yn y strategaeth, sef Adeiladu Cymunedau Diogelwch, Cronfa Cymunedau Diogelach a Chronfa Cynllun Gweithredu Camddefnyddio Sylweddau, oll yn grantiau penodol gan lywodraeth ganolog. Awgrymwyd y byddai cynnwys gwybodaeth gryno yn y strategaeth yn nodi sut cawsai gwaith y Bartneriaeth ei fonitro yn ychwanegu cryfder i'r ddogfen gyfan. Cyfeiriodd y Cynghorydd T.K. Hodgson hefyd at oblygiadau cost a grybwyllwyd yn yr adroddiad ac awgrymu y gallai fod o fudd ehangu ar beth oedd yn gostau staffio uniongyrchol ac anuniongyrchol mewn perthynas â'r gwaith a oedd yn gysylltiedig gyda Throsedd ac Anhrefn.

Ar y pwynt hwn, aeth y cyfarfod yn ei flaen mewn sesiwn agored.

Holodd y Cynghorydd G.M. Kensler a ddylid cynnwys elfennau eraill a oedd yn gysylltiedig gyda Throsedd ac Anhrefn yn y strategaeth, gan gynnwys darparu teledu cylch cyfyng, y berthynas rhwng y Bartneriaeth a'r llysoedd, lefelau a chymarebau staffio Heddlu Gogledd Cymru a'r gwaith a ymgymerwyd ar leihau gweithgareddau gwrthgymdeithasol megis baw cŵn a sbwriel. Dywedodd y Prif Weithredwr, tra bo'r elfennau uchod yn gysylltiedig gyda lleihau trosedd ac anhrefn, nid oeddynt yn ganolog i rôl benodol y ddogfen strategaeth nac o fewn rheolaeth uniongyrchol y Bartneriaeth. Yn benodol, gan fod achosion megis baw cŵn a sbriel yn droseddau sifil yn hytrach na throseddol, ni fyddant yn ffurfio rhan o'r mesurau yn y strategaeth i ddelio ag ymddygiad gwrthgymdeithasol.

Wrth grynhoi'r drafodaeth, cytunwyd mai'r prif bwyntiau i'w hystyried ymhellach oedd:

- Yr angen i ddatblygu strategaeth gorfforaethol i ddelio gydag anghenion mewn perthynas â hyfforddiant ar gyfer aelodau etholedig a swyddogion ar brif-lifio ac Adran 17 Deddf Trosedd ac Anhrefn 1998, gan gynnwys dosbarthu cyhoeddiad diweddar NACRO i holl aelodau'r Cyngor Sir.

- Yr angen i sicrhau bod yr holl bapurau ar waith y grwpiau ardal lleol ar gael i aelodau ym mhob un o'r pedair ardal os gwnânt gais

- Yr angen i ddiwygio cyflwyniad y wybodaeth ariannol yn y Strategaeth fel atodiad hirach gan gynnwys cyfeiriad at y ffaith bod y cyllid o ben i ben yn grant benodol, esbonio sut cawsai'r arian ei fonitro gan y bartneriaeth, cynnwys esboniad o'r acronymau a ddefnyddiwyd a chynnwys cyfeiriad uniongyrchol i gostau staff yn yr adroddiad cyffredinol

***PENDERFYNWYD*** *yn amodol ar ystyried y materion uchod, bod y Cydbwyllgor Archwilio'n cymeradwyo cyflwyniad y Strategaeth Diogelwch Cymunedol i'r Cyngor.*

Daeth y cyfarfod i ben am 12.55p.m.

********

## CABINET

Cofnodion cyfarfod y Cabinet a gynhaliwyd yn Ystafelloedd Monsanto, Pafiliwn Rhyngwladol Brenhinol, Llangollen ar Ddydd Mawrth, 26 Ebrill, 2005 am 10.00 y bore.

## PRESENNOL

Cynghorwyr S A Davies, Aelod Arweiniol dros Fusnes a Chyfathrebu; P A Dobb, Aelod Arweiniol dros Iechyd a Lles; R W Hughes, Arweinydd ac Aelod Arweiniol dros Adfywiad; M A German, Aelod Arweiniol dros Blant ac Ieuenctid; P J Marfleet, Aelod Arweiniol dros Gyllid a Phersonél; D Owens, Aelod Arweiniol dros Ddysgu Gydol Oes; J Thompson Hill, Aelod Arweiniol dros Reoli Eiddo ac Asedau a'r Cynghorydd E W Williams, Aelod Arweiniol dros yr Amgylchedd a'r Cyfarwyddwr Corfforaethol: Amgylchedd.

Sylwedyddion: Cynghorwyr R E Barton; M Ll Davies; M M Jones a T R Hughes.

## YN BRESENNOL HEFYD

Prif Weithredwr; Dirprwy Brif Weithredwr / Cyfarwyddwr Corfforaethol: Adnoddau: Clec Sirol a'r Rheolwr Cyllid.

## YMDDIHEURIADAU

Cynghorwyr E C Edwards, Aelod Arweiniol dros Gymunedau ac S Roberts, Aelod Arweiniol dros Hyrwyddo Sir Ddinbych.

Estynnodd y Cadeirydd groeso i gyn-gynghorydd Llangollen Tom Clutton a nifer o ieuenctid o Ysgol Dinas Bran Llangollen a Chanolfan Ieuenctid Llangollen.

### 874 MATERION BRYS

Nid oedd unrhyw Faterion Brys.

### 875 COFNODION Y CABINET

Cyflwynwyd Cofnodion cyfarfod y Cabinet a gynhaliwyd ar 22 Mawrth 2005.

***PENDERFYNWYD –*** *y dylid derbyn Cofnodion cyfarfod y Cabinet ar 22 Mawrth 2005 fel cofnod cywir, a'i lofnodi gan yr Arweinydd.*

### 876 STRATEGAETH GOMISIYNU SIR DDINBYCH AR GYFER BOBL HŶN

Cyflwynodd y Cynghorydd P A Dobb yr adroddiad yn ceisio cymeradwyaeth y Cabinet o Strategaeth Gomisiynu Sir Ddinbych a'r Cynllun Gwaith perthynol ar gyfer Gwasanaethau Pobl Hŷn.

Fel y llefarydd dros Bobl Hŷn, amlinellodd y Cynghorydd Dobb y prif negeseuon ar gyfer comisiynu gwasanaethau i'r dyfodol gan amlinellu'r pwysigrwydd o ddatblygu gyda phartneriaid wasanaethau ataliol i gynorthwyo pobl hŷn i gadw eu hannibyniaeth a gwella gwasanaethau tymor hir.

Cyfeiriodd y Cynghorydd Dobb yr Aelodau at y ddarpariaeth Gofal Cartref a'r angen i wneud y ddarpariaeth hon yn fwy arbenigol. Cyfeiriodd hefyd at y Gwasanaethau Ailsefydlu ac Ailhyfforddi ac esboniodd bod ar y gwasanaethau hyn hefyd angen eu gwella. Adroddodd bod 3 o'r awdurdodau cyfagos yn gweithio gyda Sir Ddinbych i sefydlu asesiad unedig o bobl hŷn. Ychwanegodd fod arwyddion yn dangos fod Sir Ddinbych ymhell ar y blaen i weddill Cymru a'i bod yn bwysig bod yr awdurdod yn gallu cadw cofnod o nifer y bobl a oedd yn dod drwy'r system.

Dywedodd y Cynghorydd P J Marfoot ei fod yn cefnogi'r papur ond fod cynllunio yn bwysig a'i bod yn hanfodol bwysig gwybod y categorïau o Bobl Hŷn. Tynnodd sylw Aelodau at lythyr a dderbyniodd oddi wrth Sue Essex, Gweinidog Cyllid, Llywodraeth Leol a Gwasanaethau

Cyhoeddus yn ymwneud ag Asesiad Gwario Safonol yr Awdurdod ac i'r data oedd wedi'i gyhoeddi ar Wefan Uned Data Llywodraeth Leol. Dywedodd fod yn rhaid i'r Awdurdod fod yn sicr bod y data hwn yn gywir ar draws y 30 pennawd gwahanol ar y wefan, a bod y cyllid a glustnodwyd yn ddigonol.

***PENDERFYNWYD*** *- fod y Cabinet yn mabwysiadu Strategaeth Gomisiynu Sir Ddinbych ar gyfer Bobl Hŷn a'i Gynllun Gwaith fel modd i lywio gwasanaethau i Bobl Hŷn yn Sir Ddinbych yn y dyfodol.*

**877 EFFEITHLONRWYDD A CHYD-WEITHIO**

Cyflwynodd yr Arweinydd, y Cynghorydd R W Hughes yr adroddiad yn gofyn i'r Cabinet gefnogi cyfrannu at waith dan arweiniad Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru ar brosiectau cydweithrediad cenedlaethol. Adroddodd fod Llywodraeth Cynulliad Cymru yn edrych am fwy o effeithlonrwydd o safbwynt Cyd-weithio a bod angen dangos ymrwymiad y Cyngor i hyrwyddo effeithlonrwydd drwy wneud hyn.

Adroddodd y Cynghorydd Hughes ei bod wedi mynychu Cyd Bwyllgor Archwilio Gwasanaethau Personol ar 22 Ebrill ymhle y trafodwyd yr eitem hon ac roedd y sylwadau canlynol wedi'u gwneud gan y Pwyllgor:

- os oedd yr Awdurdod yn gweithio tuag at gydweithrediad, mae angen gwella ar lif gwybodaeth a chytuno ar brotocolau;
- dyma gyfle i'r Awdurdod adeiladu timau gydag arbenigedd, a
- bod yn rhaid i'r Awdurdod ofalu nad oedd yn ymateb i agendâu cudd ynglŷn ag ad-drefnu.

Dywedodd y Cynghorydd Hughes, cyn belled â bod Sir Ddinbych yn y cwestiwn, bod tystiolaeth i ddangos bod yr Awdurdod yn ceisio mwy o effeithlonrwydd drwy gyd-weithio, ond bod angen cael gwared â biwrocratiaeth a phroses diangen a sicrhau arbedion sylweddol drwy wella caffaeliad er mwyn symud adnoddau i wasanaethau rheng flaen.

Adroddodd y Cynghorydd Hughes ei bod yn bwysig na ddylai'r Awdurdod gydweithredu er ei fwyn ei hunan yn unig, gan nad oedd bob enghraifft o gydweithredu wedi bod yn llwyddiannus yn y gorffennol. Cyfeiriodd at Gonsortiwm Prynu'r Wirral a Gogledd Cymru a'r gwersi a ddysgwyd yn dilyn y profiad hwnnw.

Cyfeiriodd y Cynghorydd Hughes yr Aelodau at yr atodiad gan amlygu'r pum maes allweddol a oedd wedi'u blaenoriaethu ar gyfer archwilio pellach: Caffaeliad Cydweithredol; Rheolaeth Gwastraff; Trethi Busnes; Gofalu Am Blant - Lleoliadau Tu allan i'r Sir; a Cynlluniau Cyfalaf/Gofalu am Asedau.

Mewn ymateb i gwestiwn y Cynghorydd P A Dobb a fyddai Trethi Annomestig o fudd i gymorth trethi annomestig gwledig, esboniodd y Prif Weithredwr fod hwn yn ymwneud â'r broses gasglu yn unig, ac nid y rheoliadau yn ymwneud â'r cymorth. Pe byddai'r Awdurdod yn symud i system o'r fath, fe fyddai'n rhaid wrth gynllunio i ganiatáu peth hyblygrwydd.

Dywedodd y Cynghorydd E W Williams ei fod yn falch fod Rheolaeth Gwastraff wedi'i gynnwys fel un o'r meysydd allweddol. Cyfeiriodd at gyfarfod diweddar yr oedd wedi'i fynychu gyda thri Awdurdod arall a Carwyn Jones, Gweinidog dros yr Amgylchedd, Cynllunio a Chefn Gwlad. Mynegodd y Cynghorydd E W Williams ei bryder ynglŷn â'r hyn a godwyd yn y trafodaethau, a'i bod yn glir nad oedd cyllid digonol i gyflawni'r gwaith. Esboniodd ei bod yn hawdd iawn i Awdurdodau gytuno i gyd-weithio, ond fod yn rhaid i'r cyllid fod yna hyd nes y byddai'r gwaith wedi'i gwblhau. Teimlai fod angen cynnal trafodaethau a llunio brasamcanion ar ddechrau bob blwyddyn ariannol.

Cytunodd y Cynghorydd P J Marfleet gyda phryderon y Cynghorydd E W Williams, a nododd fod Rheolaeth Gwastraff yn enghraifft dda o ble y gallai'r Awdurdod gael y budd mwyaf ar fater rhanbarthol.

Mynegodd fod yn rhaid i'r Awdurdod wybod beth oedd yn mynd i'w wneud, gan y gallai cydweithredu fod yn ymarfer costus iawn. Gallai costau fod yn drwm iawn ar y dechrau a dylid adnabod y costau hyn cyn i'r Awdurdod ddechrau ar y gwaith. Fe fyddai materion statudol yn dod o flaen ein blaenoriaethau ni. Ychwanegodd ei bod yn bosibl sicrhau effeithlonrwydd drwy gydweithredu cyn belled â bod cynllunio manwl o ran costiadau wedi digwydd o flaen llaw.

Teimlai'r Arweinydd y dylai'r Awdurdod edrych ar yr hyn oedd orau i Sir Ddinbych.

Teimlai'r Cynghorydd E W Williams y dylai'r Awdurdod fod yn edrych ar y prif faterion ac edrych ar yr hyn yr oedd gan yr Awdurdod i'w gynnig. Dylai'r holl Aelodau Arweiniol fod yn cyfrannu at beth gredant hwy yw cyd-weithio a thynnu sylw at faterion sy'n codi o'u portffolios unigol.

***PENDERFYNWYD –*** *fod y Cabinet yn cefnogi'r gwaith sy'n cael ei arwain gan Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru ar brosiectau cydweithredu cenedlaethol.*

**878 CABINET A RHAGLEN GWAITH YMLAEN**

Cyfeiriodd y Cynghorydd S A Davies at y Rhaglen Gwaith Ymlaen a gofynnodd i'r Cabinet nodi ei chynnwys. Gofynnodd y Cynghorydd Davies i swyddogion sicrhau fod Aelodau Arweiniol yn cymryd rhan lawn mewn datblygu Rhaglen Gwaith Ymlaen y Cabinet o'r dechrau.

Gofynnodd y Cynghorydd Davies i Aelodau edrych ar y rhaglen waith a sicrhau eu bod wedi derbyn gwybodaeth lawn gan y Swyddogion o'r eitemau a restrir yn erbyn eu portffolios. Gan fod cyfathrebu yn broses dwy ffordd, awgrymodd hefyd y dylai Aelodau Arweiniol cyn i adroddiad gael ei gyflwyno i'r Cabinet, fod yn cyfathrebu gyda'u grwpiau gwleidyddol unigol, er mwyn eu hysbysu'n llawn o'r materion i'w trafod, gan fod tystiolaeth o ddiffyg cyfathrebu ar draws yr Awdurdod, ac nid o ran y Swyddogion yn unig.

Cyfeiriodd y Cynghorydd Davies at yr eitem ar Reoli Lleoedd Ysgol a restrwyd yn Tachwedd 2005 ac i'r 3 seminar a drefnwyd i Aelodau gael trafod y Rhaglen Rheoli Ysgolion. Hyd yn hyn, 25 Aelod yn unig sydd wedi cadarnhau y byddant yn mynychu; erfyniodd ar yr holl Aelodau i fynychu un o'r Seminarau.

Esboniodd y Cynghorydd P J Marfleet nad oedd unrhyw eitemau ar y Rhaglen Gwaith Ymlaen y gellid eu hystyried ar wahân. Roedd yn rhaid edrych ar yr holl eitemau fel darlun cyfansawdd i weld pa ffurf y byddai Sir Ddinbych ynddo ymhen 10 mlynedd. Fe fyddai'n rhaid ystyried sut fyddai'r eitemau hyn yn ffitio i gynlluniau fel y Cynllun Gofodol/Cynllun Datblygu a Seilwaith Unedol.

Dywedodd y Cynghorydd E W Williams fod angen cynnal trafodaethau cyn Cyfarfod Pwyllgor. Mae holl Aelodau yn derbyn copïau o agendâu, ac os oedd unrhyw faterion yn codi allan o adroddiad penodol, yna mae angen i Aelodau godi hwy gyda'r Aelod Cabinet perthnasol fel y gellid ystyried eu safbwyntiau cyn i'r trafodaethau ddigwydd yn y Pwyllgor.

***PENDERFYNWYD*** – *y dylai'r Cabinet nodi cynnwys y Rhaglen Gwaith Ymlaen*.

**879 EISTEDDFOD YR URDD: TREFNIADAU ARIANNOL**

(Mynegodd y Cynghorydd E W Williams ei fod â diddordeb yn yr eitem ganlynol, a gadawodd y cyfarfod tra roedd yr eitem dan ystyriaeth).

Cyflwynodd y Cynghorydd D Owens, Aelod Arweiniol dros Ddysgu Gydol Oes yr adroddiad yn ceisio cytundeb y Cabinet dros gyflwyno rhagdaliad o £150k i'r Urdd ar unwaith.

Nododd y Cynghorydd Owens fod Sir Ddinbych yn ffodus iawn o gael cynnig cartref i'r Eisteddfod yn Rhuthun yn 2006. Atgoffodd Aelodau o'r gweithgareddau amrywiol a fydd yn cael eu cynnal dros y dyddiau nesaf fel rhan o'r wythnos gyhoeddi, a gofynnodd i Aelodau geisio mynychu rhai o'r gweithgareddau a fydd yn digwydd ar draws y Sir.

Adroddodd yr Arweinydd fod cymunedau lleol yn gwneud gwaith pwysig iawn wrth godi arian, a bod bob tref/pentref wedi cael targedau penodol i'w cyrraedd.

Gofynnodd y Cynghorydd M Ll Davies a oedd yn rhaid i Aelodau sy'n cyfrannu at y broses o godi arian gyda'u cymunedau lleol, fynegi'r diddordeb hwn pan fyddai eitemau yn ymwneud â'r Eisteddfod yn cael eu trafod. Wrth ateb, esboniodd y Clerc Sirol nad oedd yr Aelodau yn cael budd ariannol personol o'r codi arian hwn, a gan nad oeddynt yn gweithio i'r Urdd mewn unrhyw fodd, nid oedd gofyn iddynt ddatgan diddordeb yn y mater.

***PENDERFYNWYD***:

*(a) fod Aelodau yn cytuno i ryddhau'r rhagdaliad o £150k ar unwaith, a*

*(b) fod Aelodau yn cytuno y dylai'r Cyfarwyddwr Corfforaethol dros Ddysgu Gydol Oes drafod gyda'r Urdd swm ac amseriad y gweddill o fewn y £300k y cytunwyd arno, a chytuno ar unrhyw gefnogaeth arall y mae'r Urdd yn gofyn amdano.*

## 880 EITEMAU BRYS

Nid oedd unrhyw Faterion Brys.

Ar yr amser hwn, esboniodd yr Arweinydd i'r aelodau o'r cyhoedd a oedd yn bresennol fod y Cabinet ar fin symud ymlaen i drafodaethau cyfrinachol dan Rhan 2 o'r agenda, a gofynnodd iddynt a oedd unrhyw sylwadau neu gwestiynau ganddynt.

Ymatebodd person ifanc a oedd yn cynrychioli Clwb Ieuenctid Llangollen i'r cwestiynau a godwyd gan Aelodau o'r Cabinet ynglŷn â'r parc sglefyrddio. Nododd fod y Clwb Ieuenctid wedi cyfrannu at gynllun y parc sglefyrddio a'i fod yn gobeithio y byddai llawer iawn yn gwneud defnydd ohono.

Cyfeiriodd aelod arall o'r cyhoedd at Ysgol Glyndyfrdwy gan ofyn sut allai cynghorwyr cymuned leol geisio cadw ysgolion ar agor. Gofynnodd a oedd gan gynghorwyr cymuned leol y pwerau i wneud rhywbeth.

Ymatebodd yr Arweinydd drwy esbonio nad oedd gan Gynghorwyr Lleol unrhyw bwerau, ond y gallent, er hynny, gymryd rhan yn y broses ymgynghori. Cyfeiriodd yr Arweinydd at gyfarfod rhwng yr Awdurdod a Chymdeithas Un Llais Cymru a nododd fod penderfyniad wedi'i wneud yn y cyfarfod hwnnw y byddent yn cyd-weithio.

Cyfeiriodd yr Arweinydd hefyd at y gwaith a oedd yn cael ei wneud gan ddarpar Gadeirydd y Cyngor Sir, sef y Cynghorydd J. Smith. Roedd cyfarfodydd gyda phobl ifanc wedi'u trefnu ac roedd y Cynghorydd Smith yn bwriadu clustnodi 2005/2006 fel Blwyddyn Bobl Ifanc yn Sir Ddinbych.

Diolchodd yr Arweinydd i bawb am fynychu'r cyfarfod ac am ddangos diddordeb yng ngwaith y Cabinet.

Gohiriwyd y cyfarfod am 10 munud i alluogi Aelodau i gael lluniaeth ysgafn.

## GWAHARDD Y WASG A'R CYHOEDD

***PENDERFYNWYD*** *– yn unol ag Adran 100A(4) Deddf Llywodraeth Leol 1972, dylid gwahardd y Wasg a'r Cyhoedd rhag mynychu cyfarfod i'r eitemau busnes canlynol ar y sail eu bod yn ymdrin â'r posibilrwydd o ddatgelu gwybodaeth a eithriwyd fel y diffinir ym mharagraffau 8 a 9 Ran 1 Atodlen 12A o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972.*

## RHAN II

## 881 PROSIECTAU CYFALAF CYMUNEDOL

(Mynegodd y Cynghorydd S. A. Davies ei fod â diddordeb yn 8(a)(i) a mynegodd y Cynghorydd M. Ll. Davies ei fod â diddordeb yn 5(a)(iv), a gadawodd y ddau'r cyfarfod tra roedd y ceisiadau yn cael eu hystyried).

Cyflwynodd yr Arweinydd, y Cynghorydd R W Hughes yr adroddiad yn ceisio cymeradwyaeth y Cabinet i geisiadau a wnaed am gymorth ariannol o'r arian a neilltuwyd i Brosiectau Cyfalaf Cymunedol. Mae'r Cyngor Sir wedi neilltuo swm o £330,000 yn ei gynllun cyfalaf ar gyfer 2005/06 i gefnogi prosiectau cyfalaf cymunedol ynghyd â swm sy'n weddill o 2004/2005.

Roedd aelodau o'r Pwyllgor Archwilio Adnoddau wedi argymell y canlynol wrth ymdrin â'r 8 prosiect sydd i'w hystyried: dylid argymell derbyn 3 ohonynt, dylid argymell derbyn 1 ohonynt yn amodol a hynny'n ddilys am 6 mis, yn amodol ar y sawl sy'n ymgeisio yn sicrhau arian nawdd cyfatebol, a dylid gohirio penderfyniad ar 4 ohonynt er mwyn rhoi cyfle i'r sawl sy'n ymgeisio chwilio am arian nawdd cyfatebol i'w prosiectau.

Cyfeiriodd y Cynghorydd P J Marfleet at e-bost a dderbyniodd yn dynodi mai 16 Mai 2005 oedd y dyddiad cau ar gyfer ceisiadau, a gofynnodd sut oedd y ceisiadau a oedd gerbron y Cabinet yn ffitio i'r amserlen hon. Gofynnodd a oedd modd ymestyn y dyddiad hyd ddiwedd Mai er mwyn cyd-fynd â'r wybodaeth ar y wefan.

Esboniodd y Prif Reolwr Adfywio fod yn rhaid i'r holl arian a neilltuwyd cwrdd â chostau'r ceisiadau sydd gerbron heddiw a'r ceisiadau a dderbynnir cyn y dyddiad cau sef 16 Mai 2005. Roedd y Pwyllgor Archwilio Adnoddau wedi argymell y dylid ystyried yr 8 cais ar ffeil ac y dylai'r Cabinet ddod i benderfyniad yn ei gyfarfod ar 26 Ebrill 2005. Fe fyddai unrhyw geisiadau eraill a ddeuai i law cyn y dyddiad cau yn cael eu hystyried mewn cyfarfod pellach yn y dyfodol.

Cafwyd trafodaeth fanwl o'r materion sy'n ymwneud â sicrhau arian nawdd cyfatebol i brosiectau yn dilyn yr argymhellion a wnaed gan y Pwyllgor Archwilio Adnoddau i ohirio gwneud penderfyniadau ar rai o'r ceisiadau.

Cododd y Cynghorydd E W Williams gwestiynau ynglŷn â'r amod a roddwyd ar rai ymgeiswyr i ddefnyddio'r arian a neilltuwyd iddynt o fewn chwe mis, neu wynebu gorfod ad-dalu'r arian i gronfa Cyfalaf Cymunedol y Cyngor.

Esboniodd y Prif Reolwr Adfywio fod rheolau'r cynllun yn nodi fod cynnig yn ddilys am 18 mis ac eithrio'r sawl sy'n cael caniatâd yn amodol am 6 mis, i'w galluogi i chwilio am arian allanol.

Cyfeiriodd y Cynghorydd E W Williams at y biliau yswiriant sylweddol yr oedd grwpiau cymunedol yn eu hwynebu a chostau uchel cynnal prosiectau. Gofynnodd a allai'r Awdurdod edrych ar gynorthwyo grwpiau cymunedol gyda'u costau yswirio.

Cytunodd y Cynghorydd P J Marfleet a dywedodd y dylai'r Awdurdod edrych ar beth allai ei gynnig. Roedd yn rhaid ymchwilio i weld allai'r Awdurdod ddefnyddio yswiriant blanced ar gyfer parciau sglefyrddio/meysydd chwarae plant.

Trafodwyd yr 8 cais ddaeth i law yn fanwl, ac wedi ystyried yr argymhellion a wnaed gan y Pwyllgor Archwilio Adnoddau,

***PENDERFYNWYD***

*(a) y dylid ymestyn y dyddiad ar gyfer cyflwyno ceisiadau hyd 31ain Mai, 2005 , ac*

*(b) y dylid cymeradwyo'r ceisiadau canlynol:-*

*8(a)(i) Partneriaeth Llangollen – Gwelliannau i Riverside Park*

*8(a)(ii) Ysgolion Cerdd Gogledd Cymru, Rhuddlan*

*8(a)(iii) Cymdeithas Ganolog Trigolion De Orllewin Rhyl*

*8(a)(iv) Neuadd Bentref a Chofadail Trefnant*
*cytunwyd i roi caniatad amodol, yn amodol ar sicrhau arian nawdd cyfatebol,*

*(c) y dylid gohirio penderfyniad ar y 4 cais arall i chwilio am arian nawdd cyfatebol i'r prosiectau.*

**882 CYTUNDEB GOSOD FFENESTRI A DRYSAU NEWYDD – EIDDO TAI CYNGOR**

Cyflwynodd y Cynghorydd P A Dobb, yr Aelod Arweiniol dros Iechyd a Lles yr adroddiad yn gofyn i'r Cabinet gymeradwyo cyflwyno'r cytundeb i'r Tendrwr a gyflwynodd y tendr mwyaf cost effeithiol. Esboniodd ei fod yn gytundeb sylweddol i gyflenwi a gosod 20,500 o ffenestri PVCu a 4,500 o ddrysau i 2,500 o dai'r Cyngor. Roedd yr Adran Dai wedi cynnal sioe deithiol yn rhoi gwahoddiad i denantiaid ddod i weld y ffenestri a'r drysau. Roedd y sawl ddaeth i'w gweld yn fodlon iawn gyda'r hyn a welwyd.

Cyfeiriodd y Cynghorydd Dobb at y modd y gwerthuswyd y tendrau gan ddefnyddio matrics a oedd yn ystyried ansawdd gweithredol ac ariannol yn ogystal â phris. Esboniodd i'r aelodau fod nifer o fesurau ar waith neu wedi'u cynnal eisoes i leihau'r risg ariannol i'r Awdurdod.

Cafwyd trafodaeth i ddilyn ynglŷn â'r amrywiadau posibl ym meintiau'r ffenestri a'r drysau i'w gosod. Awgrymodd Aelodau hefyd y dylid ystyried safle'r trothwy a'r handlenni wrth osod drysau i'r henoed er mwyn sicrhau nad oeddynt yn rhy uchel.

Rhoddodd y Swyddogion sicrhad i'r Aelodau y byddai'r trothwy a'r handlenni yn cael eu gosod yn unol â Rhan M o'r Rheoliadau Adeiladau sy'n ymdrin ag uchder trothwy'r drysau a safleoedd yr handlenni.

Cyfeiriodd y Cynghorydd M A German hefyd at y ffordd y gosodir y drysau, gan esbonio fod y rhaid codi'r handlen os am gloi'r drws, ac y gallai hyn fod yn anodd iawn i'r henoed. Mae'n bwysig iawn fod y drysau yn cael eu gosod yn iawn.

Esboniodd Pennaeth Gwasanaethau Tai fod yn rhaid i'r rhaglen hon ddechrau ac y byddai Gwasanaethau Tai yn gweithio'n agos iawn gyda'r Tîm Cysylltiadau Cyhoeddus i drefnu bod sesiwn tynnu lluniau yn digwydd ar ôl gosod y ffenestri a drysau newydd yn yr ychydig dai cyntaf.

***PENDERFYNWYD** – yn unol â Rheol Gweithdrefnau Cytundeb (C.P.R) 25.4.c, dylid cymeradwyo'r tendr mwyaf economaidd fanteisiol a gyflwynwyd i'r Rhaglen Gosod Ffenestri a Drysau newydd.*

**883 HAMDDEN CLWYD: DYRANNU GRANTIAU**

Cyflwynodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol Dros Ddysgu Gydol Oes dros dro yr adroddiad yn gofyn am gymeradwyaeth y Cabinet i wrthod cais Hamdden Clwyd am swm ychwanegol o arian ar gyfer yswiriant adeiladau ar y sail fod yr awdurdod wedi bod yn deg a rhesymol wrth ariannu Hamdden Clwyd. Fe amlinellodd y cefndir i'r cais sy'n dyddio nôl i'r cyfnod pan sefydlwyd Hamdden Clwyd yn 2001.

Yn dilyn trafodaeth

***PENDERFYNWYD** – y dylai'r Cyngor wrthod cais Hamdden Clwyd am swm ychwanegol o arian ar gyfer yswiriant adeiladu ar y sail fod yr awdurdod wedi bod yn deg a rhesymol wrth ariannu Hamdden Clwyd.*

Daeth y cyfarfod i ben am 11.55 y bore.

*********

## PWYLLGOR TRWYDDEDU

Cofnodion cyfarfod o'r Pwyllgor Trwyddedu a gynhaliwyd yn Siambr y Cyngor, Neuadd y Sir, Ffordd Wynnstay, Rhuthun ar ddydd Mercher 27ain Ebrill 2005 am 10.00 a.m.

**YN BRESENNOL**

Y Cynghorwyr K.N. Hawkins (Cadeirydd), R.E. Barton (sylwedydd), J. Butterfield, P.C. Duffy, D. Hannam, T.K. Hodgson, C.L. Hughes, M.M. Jones, J. Thompson-Hill a C.H. Williams

**HEFYD YN BRESENNOL**

Pennaeth Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd, Pennaeth Cynorthwyol Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd, Swyddog Trwyddedu (N. Jones), Rheolwr Gwasanaethau Cyfreithiol a'r Swyddog Gweinyddol (K.E. Jones)

**DERBYNIWYD YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB ODDI WRTH**

Y Cynghorydd B. Blakeley

### 884 ADRAN 34(5E) DEDDF HAPCHWARAE 1968: MR. B'S, 31/33 RHODFA'R GORLLEWIN, Y RHYL

Cyflwynodd y Pennaeth Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd adroddiad (a ddosbarthwyd ymlaen llaw) ar:-

(i) gais a dderbyniwyd am drwydded difyrion gyda gwobrau mewn perthynas â'r eiddo a nodir uchod;

(ii) bod y cais yn ymwneud â pheiriannau Adran 34(5E) - peiriannau arian yn unig gyda gwobr fwyaf o £25 a pheiriannau Adran 34(1) - gwobr ariannol heb fod yn fwy na £5.00 neu wobr anariannol heb fod yn fwy na £8.00;

(iii) trwydded Adran 34(5E) ar gyfer defnyddio peiriannau Adran 34(1) gan ddileu'r angen am drwydded ar wahân ar gyfer y peiriannau gwobrau is;

(iv) cyfyngu defnyddio'r peiriannau 34(5E) i'r sawl sy'n 18 oed neu drosodd, gan ei gwneud yn ofynnol eu gwahanu o'r peiriannau 34(1);

(v) polisi'r cyngor mewn perthynas â rhoi trwyddedau ar gyfer peiriannau hapchwarae i ddarparu difyrion gyda gwobrau a bod rhesymau cyfyngedig dros wrthod rhoi neu adnewyddu trwyddedau;

(vi) bod yr eiddo wedi cael caniatâd cynllunio yn 2004 i newid defnydd i arcêd difyrion, a

(vii) nad oedd gan Heddlu Gogledd Cymru a Gwasanaeth Tân Gogledd Cymru wrthwynebiad i'r cais.

Cyflwynodd y Pennaeth Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd fanylion y cais a hysbysu'r aelodau bod cynrychiolydd yr ymgeisydd, Mr. P. Williams o Gamlins, Cyfreithwyr, yn bresennol yn y cyfarfod pe byddai'r aelodau eisiau gofyn unrhyw gwestiynau.

***PENDERFYNWYD*** *caniatáu'r cais ar yr amodau a'r telerau arferol.*

### 885 DEDDF TAI LLUNIAETH HWYR 1969: PIZZA COTTAGE, 208 STRYD FAWR, PRESTATYN

Cyflwynodd y Pennaeth Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd adroddiad (a ddosbarthwyd ymlaen llaw) ar:-

(i) gais a dderbyniwyd ar gyfer trwydded tai lluniaeth hwyr mewn perthynas â'r eiddo a nodir uchod, yn gofyn am oriau a ganiateir hyd at 3.00 a.m.;

(ii) y Ddeddf Tai Lluniaeth Hwyr 1969 yn ei gwneud yn ofynnol i eiddo a gedwir yn agored ar gyfer lluniaeth cyhoeddus, lle i fynd ac adloniant ar unrhyw adeg rhwng 10.00pm a 5.00am i ddal trwydded flynyddol;

(iii) hawliau'r cyngor wrth benderfynu ar geisiadau am drwyddedau tai lluniaeth hwyr a'i hawliau i wahardd agor neu gadw ar agor eiddo o'r fath er mwyn osgoi unrhyw aflonyddiad afresymol i drigolion yn y gymdogaeth;

(iv) bod yr eiddo yn destun amod cynllunio sy'n cyfyngu oriau agor rhwng 8.00 a.m. a 11.00 p.m;

(v) nad yw Heddlu Gogledd Cymru wedi gwrthwynebu’r cais ond eu bod yn argymell bod staff drws yn bresennol ar ôl 11.00 p.m. i helpu ymladd trosedd ac anhrefn;

(vi) bod gan yr Adran Rheoli Llygredd amheuon ynglŷn ag unrhyw sefydliad Lluniaeth Hwyr sy'n agos at eiddo preswyl, ond nad ydynt wedi gwrthwynebu'r cais yn amodol ar awr olaf o 11.00 p.m. yn unol â'r amod cynllunio, a

(vii) bod yr ymgeisydd wedi ei wahodd i gyfarfod heddiw i gefnogi'r cais.

Arweiniodd y Pennaeth Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd yr Aelodau trwy'r adroddiad a'u hysbysu bod yr ymgeisydd, Mr. Gediminas Krujelis yn bresennol yn y cyfarfod. Anerchodd Mr. Krujelis y pwyllgor i gefnogi ei gais gan ddweud ei fod eisiau buddsoddi yn y busnes ac ymestyn yr oriau agor i ddarparu ar gyfer ei gwsmeriaid.

Roedd y pwyllgor yn siomedig o nodi nad oedd darpariaeth dan y Ddeddf Tai Lluniaeth Hwyr yn ei gwneud y ofynnol bod yr ymgeisydd yn cyhoeddi hysbysiad cyhoeddus o'i gais, yn enwedig o ystyried agosrwydd yr eiddo i eiddo preswyl. Ystyriodd yr aelodau'n gyffredinol y dylai'r awdurdod gymryd y cyfrifoldeb hwnnw pan nad oded gofyniad penodol yn y Ddeddf. Wrth drafod haeddiannau'r cais, nododd yr aelodau bod yr amod cynllunio'n cyfyngu oriau agor yr eiddo i 11.00 p.m. a theimlasant y dylai'r ymgeisydd fod wedi gwneud cais am ganiatâd cynllunio i ymestyn yr oriau agor presennol cyn ceisio am drwydded tan 3.00 a.m. Cyfeiriodd y Pennaeth Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd at yr ad-drefnu diweddar yng Nghyfarwyddiaeth yr Amgylchedd a fyddai wedi arwain at gydweithio mwy ystyrlon rhwng yr Adran Gynllunio a Gwarchod y Cyhoedd. Cadarnhaodd hefyd y cawsai drafodaeth anffurfiol gyda Mr. Krujelis ar ôl y cyfarfod i esbonio'r drefn briodol pe byddai'r ymgeisydd yn penderfynu gwneud cais am ganiatâd cynllunio i ymestyn yr oriau agor presennol. Atgoffwyd yr aelodau na allai'r pwyllgor bennu unrhyw amodau yn gyfreithlon mewn perthynas â'r eiddo ac eithrio cyfyngu'r amser cau, ond gellid gwneud argymhellion.

***PENDERFYNWYD*** *caniatáu'r cais yn amodol ar y telerau a'r amodau arferol a chan gyfyngu'r amser cau i 11.00 p.m. yn unol â'r amod cynllunio.*

**886 TRWYDDEDU ADLONIANT CYHOEDDUS: CEISIADAU AM ADNEWYDDU AC AMRYWIO TRWYDDEDAU ADLONIANT CYHOEDDUS CYFREDOL – DEDDF LLYWODRAETH LEOL (DARPARIAETHAU AMRYWIOL) 1982**

Cyflwynodd y Pennaeth Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd adroddiad (a ddosbarthwyd ymlaen llaw) ar:-

(i) cyfarfod y Pwyllgor Trwyddedu a gynhaliwyd ar 2il Rhagfyr 2004 a oedd wedi dirprwyo hawliau i'r Prif Weithredwr i adnewyddu ceisiadau am drwyddedau adloniant cyhoeddus, cyn belled â nad oedd unrhyw amrywiad yn y cais a chyn belled â na chyflwynwyd gwrthwynebiadau o ganlyniad i ymgynghoriad;

(ii) atodlen o geisiadau (gydag un hwyr yn cael ei ddosbarthu yn y cyfarfod) i adnewyddu trwyddedau adloniant cyfredol lle derbyniwyd amrywiadau a / neu wrthwynebiadau;

(iii) bod atodiadau ar wahân wedi eu llunio mewn perthynas ag eiddo unigol lle derbyniwyd gwrthwynebiadau neu sylwadau ychwanegol (Atodiadau 1 - 4 ynghlwm wrth yr adroddiad);

(iv) bod ymgeiswyr wedi derbyn copïau o unrhyw wrthwynebiadau neu argymhellion ac wedi eu gwahodd i fynychu'r cyfarfod i gefnogi'r ceisiadau, ac roedd gwahoddiad i fynychu hefyd wedi ei roddi i'r gwrthwynebwyr hynny a oedd wedi cyflwyno sylwadau ysgrifenedig;

(v) bod trwyddedai wedi eu gwahodd i wneud cais i adnewyddu trwyddedau er mwyn parhau i ddarparu cerddoriaeth a dawnsio mewn eiddo trwyddedig tan fis Tachwedd (Yr Ail Ddiwrnod Apwyntiedig dan Ddeddf Trwyddedu 2003), a

(vi) bod ymgeiswyr a oedd yn dymuno parhau i ddarparu cerddoriaeth a dawnsio ar ôl Tachwedd 2005 yn gorfod gwneud cais i drosi eu trwydded bresennol dan Ddeddf Trwyddedu 2003 erbyn 6ed Awst 2005.

Ystyriodd yr aelodau bob cais, fel y manylwyd yn yr atodlen trwyddedu adloniant cyhoeddus, ar ei haeddiannau ei hun, gan ddelio gyda hynodrwydd ceisiadau unigol yn unol â'r trefniadau trwyddedu. Ar ôl ystyried y ceisiadau hynny am amrywiad lle na dderbyniwyd gwrthwynebiadau, fe:-

***BENDERFYNWYD** canlyniadau'r ceisiadau a nodir isod am adnewyddu ac amrywio trwyddedau cyfredol o 1af Mawrth 2005 yn amodol ar Reoliadau Adloniant Cyhoeddus y Cyngor a thelerau ac amodau priodol eraill sy'n bodoli, cwblhau unrhyw waith sydd angen ei wneud megis ar gyfer diogelwch tân neu ragofalon tân eraill yn unol â'r gofynion a ystyrir yn angenrheidiol gan y Cyngor a chyflwyno (os na dderbyniwyd y rhain eisoes) tystysgrif drydanol foddhaol a hysbysiad cyhoeddus:-*

| *Rhif.* | *Ymgeisydd* | *Eiddo* | *Amrywiad* |
|---|---|---|---|
| *05/05* | *Denbigh Wings Club* | *Denbigh Wings Club<br>Trenchard House<br>Rosemary Lane<br>Dinbych* | *Llun i Iau<br>hanner dydd – 1.00 a.m.<br>Gwener i Sadwrn<br>Hanner dydd – 2.00 a.m.<br>Dul<br>Hanner dydd – hanner Nos* |
| *06/05* | *Christine Wright* | *George Hotel<br>37 Queen Street<br>Y Rhyl* | *Llun i Sadwrn<br>10.00 a.m. – 3.00 a.m.<br>Sul<br>10.00 a.m. – 1.30 a.m./<br>3.00 a.m. ar y Sul<br>cyn Gŵyl y Banc<br>(ac eithrio'r Pasg)* |
| *07/05* | *Karen C. Wright* | *Haven Hotel<br>89/90 Rhodfa'r Gorll.<br>Y Rhyl* | *Llun i Sadwrn<br>10.00 a.m. – 3.00 a.m.<br>Sul<br>10.00 a.m. – 12.30 a.m./<br>3.00 a.m. ar y Sul<br>cyn Gwyl y Banc<br>(ac eithrio'r Pasg)* |
| *08/05* | *S.P. & G. Howen* | *Prince of Wales<br>Regent Street<br>Llangollen* | *Llun i Sadwrn<br>7.00 p.m. – 1.00 a.m.* |
| *09/05* | *Cymdeithas Eirianfa* | *Canolfan Ddydd Eirianfa<br>Factory Place<br>Dinbych* | *Dyddiol<br>10.00 a.m. – 10.00 p.m.* |

| | | | |
|---|---|---|---|
| *10/05* | *Sean Russell McHale* | *Bliss<br>37/41 Water Street<br>Y Rhyl* | *Llun i Sadwrn<br>10.00 a.m. – 3.00 a.m.<br>Sul<br>10.00 a.m. – 1.00 a.m./<br>3.00 a.m. ar y Sul<br>cyn Gwyl y Banc<br>(ac eithrio'r Pasg)* |
| *11/05* | *Clwb Rygbi'r Rhyl<br>a'r Ardal* | *Clwb Rygbi'r Rhyl<br>a'r Ardal<br>Vale Road<br>Y Rhyl* | *Llun i Sadwrn<br>10.00 a.m. – 1.00 a.m.<br>Sul<br>10.00 a.m. – 12.30 a.m.* |

Yna ystyriodd yr aelodau'r ceisiadau adnewyddu hynny lle derbyniwyd gwrthwynebiadau.

**Archies, 145 - 151 Stryd Fawr, Prestatyn**

Cyfeiriodd y Pennaeth Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd at gais a dderbyniwyd ynghyd â dau lythyr gan drigolion lleol yn gwrthwynebu amrywio'r drwydded i 1.00 a.m. ar nos Wener a Sadwrn oherwydd niwsans sŵn (dosbarthwyd fel Atodiad 1). Hysbyswyd yr aelodau bod yr ymgeisydd, Mr. J. McGeown yn bresennol yn y cyfarfod ond nad oedd unrhyw wrthwynebydd yn bresennol.

Anerchodd Mr. McGeown y pwyllgor i gefnogi'r cais, gan nodi ei fod eisiau estyniad tan 1.00 a.m. i ddarparu ar gyfer ei gwsmeriaid, yn enwedig y sawl a oedd wedi mwynhau pryd o fwyd yn y bwyty i fyny'r grisiau a oedd yna eisiau mynd i'r bar i lawr y grisiau. Wrth ddelio gyda'r llythyrau o wrthwynebiad, dywedodd Mr. McGeown bod un o'r llythyrau heb ei anfon gan breswylydd lleol ac felly dylid ei anwybyddu. Roedd yr ail lythyr o wrthwynebiad wedi ei lofnodi gan nifer o unigolion ond roedd yn tarddu o gyn-weithiwr a gofynnodd i'r aelodau nodi nad oedd gwrthwynebwyr yn bresennol yn y cyfarfod i gefnogi'r honiadau bod niwsans sŵn ac nid odd unrhyw gwynion am sŵn wedi eu derbyn gan drigolion yn byw naill ochr i'r eiddo. I gloi, dywedodd Mr. McGeown ei fod yn gadeirydd Pwyllgor Gwylio Tafarndai Prestatyn a'r Ardal a bod Archies yn sefydliad a redid yn dda gyda rheolaeth swn yn bodoli. Cadarnhaodd nad oded yn gweini rhai nad 21 a bod staff drws gyda chymwysterau wedi eu cyflogi yn yr eiddo. Mewn ymateb i gwestiwn gan aelod, dywedodd Mr. McGeown nad oedd wedi derbyn unrhyw gwynion sŵn swyddogol ond bod camau wedi eu cymryd i leihau allyriant sŵn gan gynnwys gosod offer monitro lefelau sŵn, gosod bafflau i'r system echdynnu a gwaith acwsteg arall.

Nododd yr aelodau nad oedd Adran Rheoli Llygredd y Cyngor wedi derbyn unrhyw gwynion am sŵn ac ar ôl ystyried haeddiannau’r cais fe:-

***BENDERFYNWYD*** *caniatáu adnewyddu ac amrywio'r drwydded adloniant cyhoeddus ar gyfer Archies, 145 - 151 Stryd Fawr, Prestatyn ar yr amodau a'r telerau arferol.*

**Morville Hotel, 25 - 27 Rhodfa'r Dwyrain, Y Rhyl**

Cyfeiriodd y Pennaeth Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd at gais a dderbyniwyd ynghyd â sylwadau gan Heddlu Gogledd Cymru yn gwrthwynebu adnewyddu'r drwydded am resymau trosedd ac anhrefn, a phryderon mewn perthynas â rheoli'r eiddo (Atodiad 3). Roedd yr ymgeisydd, Mr. P. O’Dwyer a'i gynrychiolydd, Mr. R. Johnson o Edward Hughes, Cyfreithwyr, yn bresennol yn y cyfarfod i gefnogi'r cais application.

Anerchodd Mr. R. Johnson y pwyllgor a dywedodd bod y cais adnewyddu'n ymwneud â'r Cabaret/Bar Sioe yn yr eiddo a bod y math o ddigwyddiadau yn cynnwys disgo ar nos Sadwrn a Noson y Felan ar nos Lun ar gyfer cwsmeriaid cyffredinol hyn. Cynhaliwyd digwyddiadau preifat eraill megis priodasau a phartïon gydag elfen o adloniant cyhoeddus. Mewn perthynas â'r llythyr a dderbyniwyd gan Heddlu Gogledd Cymru, hysbyswyd yr aelodau bod yr Heddlu eisiau diddymu trwydded wirodydd yr ymgeisydd a bod gwrandawiad dau ddiwrnod yn y Llys Ynadon ar 27ain a 28ain Mehefin 2005 wedi ei alw mewn perthynas â hynny. Dywedodd Mr. Johnson bod yr agweddau adloniant cyhoeddus a thrwydded wirodydd yn gysylltiedig a gofynnodd i'r aelodau ganiatáu'r cais nes ceid y gwrandawiad yn Llys yr Ynadon, pan fyddai manylion cynhwysfawr y dystiolaeth i'w chyflwyno gan y ddwy ochr yn cael

eu hystyried. Sail gwrthwynebiadau'r Heddlu oedd bod ganddynt dystiolaeth o ddigwyddiadau a oedd yn gysylltiedig gyda'r gwesty, ond nid oedd yr ymgeisydd yn derbyn yr honiadau hynny. Ymhellach, dadleuodd nad y drwydded adloniant cyhoeddus oedd achos yr anawsterau a oedd yn digwydd ym mhen dwyreiniol Y Rhyl. Dywedodd Mr. Johnson ymhellach bod y Morville Hotel yn lletya unigolion a ellid eu dosbarthu fel rhai risg uchel h.y. defnyddiwyd y gwesty fel cyfeiriad mechnïaeth weithiau a chartrefwyd yno unigolion gyda chaniatâd a gwybodaeth y Gwasanaethau Cymdeithasol. Wrth ddelio gyda materion rheoli a goruchwyliaeth, hysbyswyd yr aelodau y byddai'r ymgeisydd yn camu'n ôl o'r agwedd drwyddedu yn y gwesty a'i fod yn y broses o gyflogi unigolyn i redeg y drwydded. Roedd yr ymgeisydd hefyd wedi defnyddio gwasanaethau Mr. M. Walsh i sicrhau bod staff drws a gyflogwyd yn yr eiddo yn meddu ar y cymwysterau priodol a bod ceisiadau i'r diwydiant diogelu nawr yn cael eu prosesu. Yn olaf, dadleuodd Mr. Johnson y byddai'r digwyddiadau yn Rhodfa'r Dwyrain wedi digwydd pe byddai'r gwesty'n gweithredu ai peidio, a gofynnodd i'r aelodau roddi'r drwydded fel mesur dros dro nes ceid Gwrandawiad y Llys Ynadon ym Mehefin 2005. Cadarnhaodd y byddai'r ymgeisydd yn barod i dderbyn unrhyw amodau yr hoffai'r pwyllgor eu pennu mewn perthynas â hynny.

Mewn ymateb i gwestiynau'r aelodau, dywedodd Mr. Johnson:-

- bod yr ymgeisydd yn gwrthwynebu fersiwn yr Heddlu o ba ddigwyddiadau a oedd yn gysylltiedig gyda'r eiddo ac yn dadlau nad odd y drwydded adloniant cyhoeddus yn gweithredu fel catalydd i'r digwyddiadau hynny, a

- bod yr ymgeisydd wedi derbyn cyngor i gamu'n ôl o'r agwedd drwyddedu o redeg y busnes a'i fod yn y broses o benodi trwyddedai gyda'r bwriad o drosglwyddo'r trwyddedau perthnasol i'r person hwnnw ar ôl cyfnod prawf.

Gofynnodd yr aelodau am eglurhad gan y Pennaeth Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd, a gadarnhaodd bod cais am drwydded adloniant cyhoeddus wedi ei chyflwyno ar gyfer y Morville Hotel ac mai'r ymgeiswyr oedd Mr. Philip O'Dwyer a Ms. Jean Hughes.

Gwrthwynebodd Arolygydd R. Schwarz o Heddlu Gogledd Cymru yn ffurfiol i'r cais i adnewyddu'r drwydded adloniant cyhoeddus, yn seiliedig ar gyflwyniadau ysgrifenedig a anfonwyd at y cyngor (Atodiad 2), yn manylu problemau trosedd ac anhrefn a oedd yn gysylltiedig gyda'r Morville Hotel gan gynnwys lladrad, niwed troseddol, ymosodiadau treisgar, achosion o ymddygiad gwrthgymdeithasol ac anhrefn cyhoeddus. Manylodd yr Arolygydd Schwarz ar y problemau trosedd ac anhrefn a oedd yn gysylltiedig â'r Morville Hotel gan gynnwys tair marwolaeth a oedd yn gysylltiedig gyda'r eiddo rhwng Hydref 2004 a Ionawr 2005, a'r amgylchiadau dan y rhai y cysylltwyd yr eiddo. Codwyd pryderon difrifol hefyd ynglŷn â goruchwyliaeth annigonol a didrwydded yn yr eiddo ac er gwaethaf nifer o ymdrechion i ddatrys y problemau hynny gyda mesurau rheoli, bod yr ymgeiswyr naill ai wedi bod yn amharod neu'n analluog i lynu at gyngor a roddwyd iddynt mewn perthynas â rhedeg yr eiddo.

I gloi, mynegodd yr Arolygydd Schwarz ei bryder mewn perthynas â diogelwch cyhoeddus pe byddi'r aelodau'n adnewyddu'r drwydded ar gyfer y Morville Hotel. Mewn ymateb i gwestiynau, cadarnhaodd yr Arolygydd Schwarz bod y cwsmeriaid y lletywyd yn y gwesty yn cynnwys rhai gyda phroblemau alcohol a/neu gyffuriau a bod gorchymyn cau wedi ei gyflwyno ar yr eiddo er budd diogelwch cyhoeddus, a oedd yn rhaid ei dynnu'n ôl oherwydd camgymeriad trefniadol. Roedd camau diddymu'r drwydded wirodydd wedi cychwyn gan arwain at y gwrandawiad ym mis Mehefin 2005.

Cymerodd Mr. Johnson y cyfle i holi'r Arolygydd Schwarz a nododd:-

- bod yr Heddlu'n parhau i ymweld â'r eiddo ond eu bod yn ymwybodol bod llinell fain rhwng goruchwyliaeth briodol ac aflonyddiad; a theimlai bod angen llai o ymweliadau ar hyn o bryd gan fod yr ymgeisydd yn gwybod ei fod dan archwiliad mawr, a

- bod problemau wedi digwydd ers i'r Heddlu gychwyn camau diddymu a bod ymosodiad wedi bod yn yr eiddo ar 24ain Mawrth 2005.

Dywedodd Mr. Johnson y gallai ofyn nifer o gwestiynau i'r Arolygydd Schwarz ond byddai mynd i'r dystiolaeth a gyflwynwyd gan yr Heddlu yn ymarfer ar gyfer gwrandawiad y Llys Ynadon, a gymerai ddau ddiwrnod. Roedd yn bryderus bod yr aelodau ond yn clywed un ochr o'r stori.

Gwnaeth y Pennaeth Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd ddatganiad terfynol a chrynhoi'r ystyriaethau perthnasol a ddylid eu cadw mewn cof, yn enwedig Adran 17 Deddf Trosedd ac Anhrefn 1998 a ddodai dyletswydd gofal ar yr awdurdod i ystyried materion trosedd ac anhrefn wrth gymryd penderfyniadau trwyddedu. Gofynnodd i'r aelodau roddi sylw priodol i'r holl ffactorau perthnasol, gan gynnwys unrhyw oblygiadau mewn cysylltiad â'r posibilrwydd i'w penderfyniad gan effaith ar drosedd ac anhrefn yn yr ardal.

I grynhoi, dywedodd Mr. Johnson na fyddai'n gwneud unrhyw sylwadau ar y gwrthwynebiadau a godwyd gan yr Heddlu, a gawsai eu hystyried gan Lys yr Ynadon ym mis Mehefin. Dadleuodd nad oedd y dystiolaeth a gyflwynwyd gan yr Heddlu yn ffaith, ond i'w phenderfynu, a dywedodd nad oedd yr aelodau wedi clywed barn yr ymgeisydd ar y dystiolaeth honno. Byddai'r ymgeisydd yn rhoi'r gorau i fod yn drwyddedai a byddai cyflogi trwyddedai newydd yn gychwyn newydd. Gofynnodd Mr Johnson i'r aelodai dderbyn nad oedd gweithredu'r drwydded adloniant cyhoeddus yn gatalydd ar gyfer y problemau trosedd ac anhrefn a chaniatáu'r drwydded yn amodol ar arolwg wedi Gwrandawiad yr Ynadon ym mis Mehefin.

Ar y pwynt hwn, gadawodd holl drydydd partïon a swyddogion y cyngor ac eithrio cyfieithydd y cyngor, cynghorydd cyfreithiol y cyngor a'r person a oedd yn cymryd y cofnodion, y cyfarfod tra byddai'r aelodau'n ystyried haeddiannau'r cais.

I ddechrau, ystyriodd yr aelodau farn Mr. Johnson a'i gais i ganiatáu'r adnewyddu nes ceid canlyniad Gwrandawiad yr Ynadon ym Mehefin 2005 pan ystyriwyd diddymiad y drwydded wirodydd. Gan mai cyfrifoldeb y cyngor oedd rhoi trwydded adloniant cyhoeddus ac nid y Llys Ynadon, gwrthododd yr aelodau'r cais hwnnw. Ar ôl ystyried y dystiolaeth a gyflwynwyd, mynegodd yr aelodau bryderon difrifol ynglŷn â'r problemau trosedd ac anhrefn a oedd yn gysylltiedig gyda'r eiddo, gan gynnwys pryderon am ddiogelwch cyhoeddus, a chan gofio cyfrifoldebau'r cyngor dan Adran 17 Deddf Trosedd ac Anhrefn 1998 fe:-

***BENDERFYNWYD*** *gwrthod y cais i adnewyddu'r drwydded adloniant cyhoeddus ar gyfer y Morville Hotel, 25-27 Rhodfa;r Dwyrain, Y Rhyl.*

Yna hysbysodd y Cadeirydd yr ymgeisydd a phartion â diddordeb o benderfyniad y pwyllgor.

Ar y pwynt hwn (11.45 a.m.) gohiriwyd y cyfarfod am ddeng munud i ganiatáu i'r aelodau gael lluniaeth.

**Royal Hotel, Bridge Street, Llangollen**

Ar ôl ail-gychwyn, cyfeiriodd y Pennaeth Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd at gais a dderbyniwyd, ynghyd â sylwadau gan Heddlu Gogledd Cymru a Grŵp Trosedd ac Anhrefn Llangollen, yn gwrthwynebu'r cais i adnewyddu am resymau trosedd ac anhrefn, ynghyd â phryderon ynglŷn â rheoli'r eiddo (dosbarthwyd eisoes yn Atodiad 2). Roedd yr ymgeisydd, Mr. Manfouz a'i gynrychiolydd Miss. C. Scott o Rowe Cohen, Cyfreithwyr, yn bresennol yn y cyfarfod i gefnogi'r cais.

Anerchodd Miss. C. Scott y pwyllgor a dywedodd:-

- bod y Royal Hotel yn adeilad rhestredig a oedd yn cael ei adfer ar hyn o bryd, ac yna bwriadwyd ailwampio pellach i ail-adeiladu'r Dee Bar (sef y darn a oedd yn destun y cais) yn ystafell ddigwyddiadau wedi ei chyfyngu i briodasau a defnydd cwsmeriaid, a

- bod yr ymgeisydd yn derbyn bod alcohol yn ffactor a oedd yn gysylltiedig gyda'r digwyddiadau yn Llangollen ac y byddai'n gweithredu'n gyfrifol i gadw trosedd ac anhrefn i'r lefel leiaf; derbyniodd hefyd bod achosion wedi bod yn y Dee Bar ond nid oedd yn derbyn cyfrifoldeb llawn am holl achosion o drosedd ac anhrefn yn y dref, yn enwedig gan fod eiddo arall yn yr ardal gydag oriau estynedig.

Mewn ymateb i recordiad teledu cylch cyfyng o ddigwyddiad yn yr eiddo ar 22ain Ionawr 2005 a gyflwynwyd gan Heddlu Gogledd Cymru, dywedodd Miss. Scott:-

- bod nifer cywir staff drws wedi eu cyflogi yn yr eiddo yn unol â'r rheoliadau adloniant cyhoeddus;

- bod yr ymgeisydd wedi ffonio'r heddlu unwaith y sylweddolodd y byddai angen eu presenoldeb;

- na fyddai gan y staff drws unrhyw ffordd o wybod pa gwsmeriaid a fyddai â thuedd i drais, a

- bod problemau wedi bod yn y gorffennol gyda staff drws yn bod yn gyfeillgar gyda phobl leol a chaniatáu mynediad iddynt.

Cyfeiriodd Miss. Scott at y mesurau a gymerwyd ers 29ain Ionawr 2005 i ddelio gyda rhai o'r problemau a nodwyd gan yr heddlu, gan gynnwys cyflogi staff drws newydd yn gwahardd mynediad i grwpiau mawr o ddynion oni fo trefniant ymlaen llaw; cyflwyno polisi newydd yn gwahardd mynediad i'r eiddo ar ôl 10.30 p.m. a oedd yn cael ei orfodi'n llym, a chyflwyno ffi mynediad o £2.00. Ers y digwyddiad ar 22ain Ionawr, ni chafwyd unrhyw achosion treisgar eraill yn yr eiddo nac yn y cyffiniau, a oedd yn awgrymu bod y trefniadau newydd yn gweithio. Hysbyswyd yr aelodau bod yr ymgeisydd yn gwneud ei orau i sicrhau lle di-drwbl a chadarnhaodd ei fod yn barod i dderbyn amodau ynghlwm wrth y drwydded i wahardd mynediad i'r eiddo ar ôl 10.30 p.m. a lleihau oriau agor o 1.00 a.m. i hanner nos. Wrth ymateb i bryderon yr heddlu bod mesurau rheoli a gytunwyd yn y gorffennol heb eu gweithredu, esboniodd Miss. Scott bod peth dryswch wedi bod ynglŷn â rhai mesurau, yn enwedig polisi mynediad i rai 21 oed a throsodd yn unig. Nid oedd yr ymgeisydd eisiau colli ei brif elfen cwsmeriaid a oedd yn 19/20 oed ac roedd wedi cytuno bod y rhai a oedd yn edrych yn iau na 21 yn darparu prawf i sicrhau eu bod dros 18 oed. Cyfeiriodd hefyd at anawsterau gweithredu'r cynllun aelodaeth gan nad oedd cwsmeriaid wedi bod yn barod i ymuno, er bod aelodaeth am ddim.

I gloi, dywedodd Miss. Scott bod yr ymgeisydd yn derbyn ei ddyletswyddau a'i gyfrifoldeb fel trwyddedai ac y byddai'n cysylltu gyda'r heddlu o ran y mesurau rheoli. Roedd yr eiddo'n westy teuluol lle croesawyd twristiaid ac nid oedd yr ymgeisydd eisiau peryglu'r fasnach dwristiaeth yn y dref.

Mewn ymateb i gwestiynau gan yr aelodau, dywedodd Miss. Scott:-

- ei bod wedi ei hysbysu gan yr ymgeisydd na fydd unrhyw ddigwyddiadau arwyddocaol yn yr eiddo ers pan gyrhaeddodd y staff drws newydd ar 19eg Ionawr;

- nad oedd yr ymgeisydd wedi deall goblygiadau'r cynllun gweithredu a gytunodd gyda'r heddlu; roedd ei gwsmeriaid yn bennaf yn bobl ifanc 19/20 oed a byddai gwahardd mynediad i'r grŵp oedran hwnnw yn codi goblygiadau ariannol difrifol; yn hytrach, cytunodd ofyn am brawf oedran gan gwsmeriaid a oedd yn edrych yn iau na 21 oed, er mwyn ymladd yn erbyn yfed dan oed.

- bod eiddo tebyg yn y dref ac y byddai unigolion yn cyflawni troseddau os oeddynt wedi bod yn y gwesty ai peidio, a

- bod yr ymgeisydd wedi dal trwydded adloniant cyhoeddus ar gyfer y gwesty ers 2001.

Cyfeiriodd Mr. Simon Roscoe, Rheolwr Trwyddedu’r Heddlu ar gyfer Heddlu Gogledd Cymru, at y sylwadau ysgrifenedig a gyflwynwyd i'r cyngor (Atodiad 2) yn manylu'r problemau trosedd ac anhrefn difrifol a oedd yn gysylltiedig gyda'r Royal Hotel gan gynnwys lladrad, niwed troseddol, ymosodiadau a gofnodwyd ac achosion o anhrefn cyhoeddus. Tra'n derbyn na ellid dal y gwesty'n gyfrifol am holl drosedd ac anhrefn yn yr ardal, dywedodd Mr. Roscoe y gellir priodoli 10% o'r lefelau trosedd yn Nyffryn Dyfrdwy i'r eiddo hwnnw. Mynegwyd pryderon difrifol hefyd ynglyn â diffyg goruchwyliaeth yn yr eiddo ac er gwaethaf sicrhad gan y trwyddedai, roedd wedi methu dro ar ôl tro gweithredu cyfres o fesurau rheoli a gytunwyd er mwyn ceisio lleihau'r nifer arwyddocaol o ddigwyddiadau yn yr eiddo.

Cyflwynodd Mr. Roscoe dâp recordiad teledu cylch cyfyng dyddiedig 22ain Ionawr 2005 pan gafwyd digwyddiad difrifol yn y gwesty a oedd yn dangos yn glir y diffyg goruchwyliaeth yn yr eiddo. Roedd PC Williams a PC Powell wedi eu galw i'r eiddo i ddelio gyda'r digwyddiad ac arweiniasant yr aelodau trwy'r tâp fidio, gan esbonio materion mewn ymateb i gwestiynau'r aelodau arno. Derbyniwyd bod angen, dan y rheoliadau adloniant cyhoeddus, dim ond dau staff drws ar ddyletswydd. Serch hynny, roedd yn amlwg nad oedd dau yn ddigon i ddelio gyda'r digwyddiad. Dadleuodd Mr. Roscoe, pe byddai mynediad olaf i'r clwb wedi dod i ben am 10.30 p.m. fel y cytunwyd, efallai na fyddai cymaint o gwsmeriaid wedi bod yn y dderbynfa. Nid oedd y staff drws wedi medru dweud faint o gwsmeriaid oedd yn yr eiddo, oherwydd gallai cwsmeriaid ddod i'r eiddo heb iddynt wybod. Yn olaf, dywedodd Mr Roscoe bod merch 17 oed wedi ei restio ar Sul y Pasg am fod yn chwil ac anhrefnus ar ôl gadael y Dee Bar.

Cyflwynodd Miss. Scott wrthwynebiadau i Mr. Roscoe yn rhoi tystiolaeth uniongyrchol pan nad oedd yn bresennol yn ystod y digwyddiad.

Mynegodd yr aelodau bryderon ynglyn â'r rheoliadau diogelwch tân yn ymwneud â'r dderbynfa a dywedodd y Pennaeth Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd bod Gwasanaeth Tân Gogledd Cymru wedi archwilio'r eiddo a heb wrthwynebu'r cais i adnewyddu'r drwydded, ond wedi argymell bod nifer o fân faterion yn cael eu trin.

Mewn ymateb i gwestiynau, dywedodd Mr. Roscoe:-

- bod pedwar o bobl wedi eu restio ar ôl y digwyddiad ar 22ain Ionawr 2005;
- bod nifer arwyddocaol o swyddogion heddlu wedi eu hanfon i'r digwyddiad, ac oedd â goblygiadau adnoddau i blismona mewn ardaloedd eraill;
- bod digwyddiadau tebyg yn codi'n rheolaidd a bod yr heddlu wedi methu â dod i gytundeb boddhaol gyda'r trwyddedai ar sut i ddelio gyda'r problemau trosedd ac anhrefn, a
- bod y tâp TCC yn para rhyw ugain munud a'i bod ond wedi cymryd ychydig o funudau i'r heddlu gyrraedd yr eiddo unwaith yr hysbyswyd hwy o'r digwyddiad.

Ymatebodd Miss. Scott i gyflwyniad yr heddlu trwy ddweud nad oedd yr amgylchiadau mewn perthynas â'r 44 digwyddiad yn y lleoliad ers Mawrth 2003 wedi eu darparu ac felly byddai'n annheg eu cysylltu gyda'r eiddo ac y byddai'n gofyn iddynt gael eu hanwybyddu. Mewn perthynas â'r digwyddiad ar Sul y Pasg, dywedodd yr ymgeisydd bod y ferch wedi cael cais i adael yr eiddo oherwydd ei bod yn chwil.

Trwy gyfeirio at y llythyr o wrthwynebiad (a ddosbarthwyd ymlaen llaw) gan Dîm Gweithredu Trosedd ac Anhrefn Llangollen, anerchodd Ms. Judith Dodd, Cadeirydd y Tîm Gweithredu y pwyllgor, a gwrthwynebu'n ffurfiol i'r cais i adnewyddu. Awgrymodd bod llawer o'r problemau yn Llangollen ar benwythnosau yn deillio o'r Royal Hotel a theimlai y byddai gwelliant mawr yn y nifer o droseddau a adroddwyd ac yn ymddygiad gwrthgymdeithasol y dref pe byddai'r Dee Bar yn cael ei gau. Roedd yn arbennig o bryderus oherwydd bod Llangollen yn dibynnu'n fawr ar yr economi twristiaeth a bod achosion o ymddygiad gwrthgymdeithasol ar benwythnosau yn medru bod yn ataliad difrifol i ymwelwyr, yn enwedig rhai gyda theuluoedd. Mewn ymateb i gwestiynau Miss. Scott ynglŷn ag a oedd gan Ms. Dodd unrhyw dystiolaeth bod yr economi wedi dirywio neu a fyddai cau'r Dee Bar yn gwella'r problemau yn Llangollen, dywedodd Ms Dodd nad oedd tafarndai eraill ar Bridge Street a bod ymddygiad gwrthgymdeithasol cwsmeriaid yn gadael y Dee Bar wedi ei weld.

Gwnaeth y Pennaeth Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd ddatganiad terfynol a chrynhoi'r ystyriaethau perthnasol a ddylid eu cadw mewn cof, yn enwedig Adran 17 Deddf Trosedd ac Anhrefn 1998 a ddodai dyletswydd gofal ar yr awdurdod i ystyried materion trosedd ac anhrefn wrth gymryd penderfyniadau trwyddedu. Gofynnodd i'r aelodau roddi sylw priodol i'r holl ffactorau perthnasol, gan gynnwys unrhyw oblygiadau mewn cysylltiad â'r posibilrwydd i'w penderfyniad gan effaith ar drosedd ac anhrefn yn yr ardal.

Crynhodd Miss. Scott y cais ac atgoffa'r aelodau bod y rhan fwyaf o'r polisïau a gytunwyd gyda'r heddlu, ers y digwyddiad anffodus ar 22in Ionawr 2005, wedi eu gweithredu ac y byddai Mr. Manfouz yn barod i drafod y polisi mynediad 21 oed i gadw ei fusnes yn ariannol hyfyw.

Ar y pwynt hwn, gadawodd holl drydydd partion a swyddogion y cyngor ac eithrio cyfieithydd y cyngor, cynghorydd cyfreithiol y cyngor a'r person a oedd yn cymryd y cofnodion, y cyfarfod tra byddai'r aelodau'n ystyried haeddiannau'r cais.

Ar ôl ystyried yr holl dystiolaeth, mynegodd yr aelodau bryderon ynglyn â'r problemau trosedd ac anhrefn a oedd yn gysylltiedig â'r eiddo ers Ionawr 2003, ond cymerwyd i ystyriaeth y mesurau rheoli a weithredwyd gan yr ymgeisydd ers 29ain Ionawr 2005 a'r ffaith mai dim ond un digwyddiad a gofnodwyd ers hynny. Yn wyneb y gwelliannau amlwg, teimlai'r aelodau y byddai'n rhesymol caniatáu'r cais, gydag amodau, am gyfnod prawf o dri mis, ac yna dylid dwyn y cais yn ôl gerbron y pwyllgor er mwyn ei arolygu. Felly, fe:-

***BENDERFYNWYD*** *caniatáu'r cais i adnewyddu trwyddedu adloniant cyhoeddus ar gyfer y Royal Hotel, Bridge Street, Llangollen am gyfnod prawf o dri mis yn amodol ar yr amodau canlynol a gynigiwyd gan yr ymgeisydd:-*

- *cyfyngu'r amser cau i hanner nos, a*
- *mynediad olaf i'r eiddo yn cael ei gyfyngu i 10.30 p.m.*

Yna hysbysodd y Cadeirydd yr ymgeisydd a phartion eraill â diddordeb o benderfyniad y pwyllgor.

**Ponsonby Arms, Llangollen**

Cyfeiriodd y Pennaeth Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd at gais a dderbyniwyd ynghyd â thri llythyr gan drigolion lleol yn gwrthwynebu'r cais i adnewyddu am resymau niwsans sŵn a phroblemau ymddygiad gwrthgymdeithasol a oedd yn gysylltiedig gyda chwsmeriaid yn gadael yr eiddo (dosbarthwyd yn Atodiad 4). Hysbyswyd yr aelodau bod yr ymgeisydd, Mr. P. Armstrong yn bresennol yn y cyfarfod ond nad oedd unrhyw wrthwynebwyr yn bresennol.

Anerchodd Mr. Armstrong y pwyllgor i gefnogi'r cais a dywedodd ei fod wedi ei synnu gan y cwynion, gan ei fod yn cymryd ei gyfrifoldebau fel trwyddedai o ddifrif, ac yn cymryd gofal i sicrhau y byddai ychydig neu ddim sŵn yn dod o'r eiddo trwy gau'r drws wrth ddarparu adloniant. Arddangoswyd hysbysebion yn yr eiddo hefyd, yn gofyn i gwsmeriaid adael yn dawel. Hysbysodd Mr. Armstrong yr aelodau iddo dderbyn llythyrau gan ddau drigolyn lleol ynghyd â deiseb wedi ei llofnodi yn gwrthwynebu'r gwrthwynebiadau. Wrth wadu'r honiadau o niwsans sŵn, dywedodd Mr. Armstrong, yn groes i'r honiad bod ffenestri'n cael eu gadael ar agor, nid oedd y ffenestri yn nhu blaen yr eiddo yn agor, ac nid oedd un gwrthwynebydd yn byw'n agos at yr eiddo. Mewn ymateb i gwestiwn gan aelod, cadarnhaodd Mr. Armstrong iddo fod yn landlord yr eiddo am ryw ddeunaw mis.

Cadarnhaodd y Pennaeth Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd na dderbyniwyd unrhyw gwynion ynglyn â niwsans sŵn gan yr Adran Rheoli Llygredd.

Wrth grynhoi ei gais, dywedodd Mr. Armstrong ei fod yn aelod gweithgar o'r Cynllun Gwylio Tafarndai a bod ganddo berthynas dda gyda'r heddlu lleol, nad oedd wedi gwrthwynebu ei gais i adnewyddu.

Ar ôl ystyriaeth, fe:-

***BENDERFYNWYD*** *caniatáu’r cais i adnewyddu trwydded adloniant cyhoeddus mewn perthynas â'r Ponsonby Arms, Bridge Street, Llangollen ar yr amodau a'r telerau arferol.*

Daeth y cyfarfod i ben am 1.40 p.m.

**********

## CYD-BWYLLGOR ARCHWILIO

Cofnodion cyd-gyfarfod o Bwyllgor Archwilio'r Amgylchedd a'r Pwyllgor Archwilio Gwasanaethau Personol a gynhaliwyd yn Siambr y Cyngor, Rhuthun ar ddydd Iau 28ain Ebrill 2005 am 10.30am

### YN BRESENNOL

Y Cynghorwyr J.R. Bartley, R.E. Barton (Sylwedydd), B. Blakeley, P.C. Duffy, G.C. Evans (Sylwedydd), H.H. Evans, D. Hannam, T.K. Hodgson, N.J. Hughes, R.W. Hughes (Arweinydd), T.R. Hughes (Sylwedydd), N. Hugh-Jones (Sylwedydd), P.W. Owen, S. Thomas (Sylwedydd), C.H. Williams, E.W. Williams (Aelod Arweiniol Cabinet ar gyfer yr Amgylchedd) ac R.Ll. Williams (Sylwedydd).

### HEFYD YN BRESENNOL

Cyfarwyddwr Corfforaethol Yr Amgylchedd, Cyfarwyddwr Corfforaethol Gwasanaethau Personol, Pennaeth Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd, Rheolwr Polisi, Ymchwil a Gwybodaeth, Rheolwr Strategaeth Dai, Swyddog Cefnogi Archwilio (S. Price) a swyddogion eraill gan gynnwys y Swyddog Gweinyddol (C.I. Williams).

### YMDDIHEURIADAU

Y Cynghorwyr P.A. Dobb, J. Chamberlain Jones, E.R. Jones a D.A.J. Thomas.

### 887 PENODI CADEIRYDD

***PENDERFYNWYD*** *penodi'r Cynghorydd T.K. Hodgson yn Gadeirydd y Cydbwyllgor Archwilio.*

### 888 CYFARWYDDYD CYNLLUNIO ATEGOL DRAFFT (CCA) AR DAI FFORDDIADWY MEWN CYNLLUNIAU PRESWYL

Roedd copi o adroddiad gan y Pennaeth Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd, a oedd yn amlinellu canlyniad yr ymarfer ymgynghori cyhoeddus ar y Cyfarwyddyd Cynllunio Ategol drafft (CCA) yn rhoi ymateb swyddogion i'r cyflwyniadau a dderbyniwyd ac yn cynnwys argymhellion swyddogion mewn perthynas â newidiadau arfaethedig i'r CCA drafft, wedi ei ddosbarthu gyda'r papurau ar gyfer y cyfarfod.

Tanlinellwyd gan y swyddogion arwyddocâd Cytundeb Cyfreithiol Adran 106 sydd i'w ddodi ynghlwm wrth ganiatâd a roddir ar gyfer cynlluniau Landlordiaid Cymdeithasol Anghofrestredig i sicrhau bod tai fforddiadwy yn bodloni profion fforddiadwyedd lleol a bod fforddiadwyedd (cymhorthdal/disgownt) yn para cyn belled â bod angen am dai fforddiadwy yn bodoli yn yr ardal. Roedd yr adroddiad yn cyfeirio at yr amserlenni yn ymwneud â chwblhau Cytundeb Cyfreithiol Adran 106 ac awgrymu y dylid gofyn i Glerc y Sir ystyried sut gellid rhoi adnoddau ychwanegol i gwblhau Cytundebau Cyfreithiol Adran 106. Roedd yr adroddiad hefyd yn gofyn bod y Pwyllgor Rheoli Asedion a'r Gweithgor Tai Fforddiadwy yn ystyried sut gellid defnyddio asedion y Cyngor orau, megis tir ac eiddo, i gyfrannu at Dai Fforddiadwy.

Darparodd y Rheolwr Polisi, Ymchwil a Gwybodaeth grynodeb manwl o'r adroddiad ac esboniodd, ar ôl yr ymarfer ymgynghoriad cyhoeddus ac ystyriaeth bellach gan y Cydbwyllgor Archwilio, roedd yr Aelod Arweiniol ar gyfer yr Amgylchedd eisiau cyflwyno adroddiad ar y CCA drafft i'r Cabinet, ac yna i'r Cyngor Llawn i alluogi ystyriaeth lawn a phriodol o bolisi cynllunio'r Cyngor ar y cyfraniad a ellid ei wneud i Dai Fforddiadwy mewn cynlluniau preswyl newydd sydd angen caniatâd cynllunio.

Esboniodd y Pennaeth Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd bod nifer o faterion trawsadrannol yn ymwneud â Thai Fforddiadwy a chyfeiriwyd at arwyddocâd y Strategaeth Gymunedol, gyda Thai Fforddiadwy wedi ei nodi gan yr aelodau fel un o'r 10 blaenoriaeth uchaf, yr effaith ar y Cynllun Datblygiad Unedol a'r Cytundeb Polisi a lofnodwyd gyda Llywodraeth Cynulliad Cymru. Pwysleisiodd hefyd bwysigrwydd yr angen i ymgynghori gydag Aelodau yn gynnar yn y broses a chadarnhau y byddai swyddogion yn y dyfodol yn rhagweithiol o ran ymgynghori gydag Aelodau mewn perthynas â cheisiadau cynllunio a dderbyniwyd yn eu hardaloedd hwy.

Rhoddodd y Rheolwr Strategaeth Dai gyflwyniad i'r aelodau, prif bwyntiau hwn a oedd yn cynnwys manylion materion tai allweddol a gweithredoedd, y strategaeth dai leol, tai yn ôl deiliadaeth yn Sir Ddinbych. Rhoddodd hefyd wybodaeth bellach ar dai fforddiadwy a Nodyn Cyngor Technegol 2 Llywodraeth Cynulliad Cymru ar Dai Fforddiadwy.

Mewn ymateb i bryderon a fynegwyd gan yr aelodau, cytunwyd y dylid cyflwyno adroddiadau pellach i Bwyllgor Archwilio'r Amgylchedd ac i'r Pwyllgor Archwilio Gwasanaethau Personol, i ddelio gydag unrhyw faterion yn ymwneud â thai fforddiadwy nad oeddynt yn faterion i'w hystyried dan y CCA (e.e. costau isadeiledd, tai cymdeithasol ac ati). Cytunodd y swyddogion y dylai'r adroddiadau hefyd gynnwys manylion gwaith a oedd yn cael ei wneud gan awdurdodau lleol eraill.

Pwysleisiodd yr aelodau bwysigrwydd rhoi help a chymorth i bobl ifanc a phobl leol a oedd eisiau aros a byw yn yr ardal; cadarnhaodd y swyddogion ei bod yn amlwg bod prinder o dai fforddiadwy yn lleol ac y byddai'n bwysig delio gyda materion yn ymwneud â gwerth tir.

Roedd manylion yn ymwneud â chefndir y CCA ar Dai Fforddiadwy wedi eu cynnwys yn yr adroddiad a phwysleisiwyd y meysydd a'r pynciau canlynol:-

(i) polisi cynllunio cenedlaethol a lleol
(ii) diwygio i TAN 2 LlCC ar Dai Fforddiadwy yn y man.
(iii) Blaengaredd newydd
(iv) Awdurdodau Cynllunio Lleol eraill yng Ngogledd Cymru (Atodiad 2 i'r adroddiad)
(v) Sefyllfa datblygwyr.
(vi) Hyfywedd economaidd cynlluniau
(vii) Materion polisi allweddol CCA drafft (Ionawr 2005) a
(viii) Caniatâd Tai Fforddiadwy a rhai wedi eu cwblhau

Hysbyswyd yr aelodau bod y CCA drafft wedi ei anfon allan ar gyfer ymgynghoriad cyhoeddus rhwng 6ed Ionawr 2005 a 14eg Chwefror 2005, a chyfeiriwyd at Atodiad 3 i'r adroddiad a oedd yn nodi rhestr yr ymgynghorai a manylion yn nodi os oedd ymateb wedi ei dderbyn ai peidio. Esboniodd y swyddogion bod yr ymgynghoriad wedi cynnwys holl Gynghorau Tref a Chymuned, asiantwyr lleol, Ffederasiwn Adeiladwyr Tai ac Awdurdod Datblygu Cymru, ac fe gadarnhawyd bod gwahoddiad wedi ei ddosbarthu yn nodi y byddai'r Cyngor Sir yn barod i gyfarfod gyda chyrff i esbonio a chyfiawnhau'r polisi.

Esboniodd y swyddogion bod y CCA drafft wedi ei newid, fel y nodwyd yn Atodiad 1 i'r adroddiad, yn seiliedig ar y sylwadau a dderbyniwyd a'r ymatebion a awgrymwyd

Cadarnhawyd bod manylion y newidiadau arfaethedig allweddol hefyd wedi eu cynnwys yn yr adroddiad er gwybodaeth. Hysbyswyd yr aelodau y byddai'r CCA, pan gawsai ei gadarnhau, yn cael ei ddefnyddio mewn perthynas â pholisi'r Cynllun Datblygiad Unedol ac i gynorthwyo gyda phenderfynu ceisiadau cynllunio o ran helpu cynyddu darpariaeth Tai Fforddiadwy, gan fod angen heb ei ddiwallu a ellid ei ddangos.

Darparodd y Rheolwr Polisi, Ymchwil a Gwybodaeth grynodeb manwl o'r Nodyn Cyfarwyddyd Cynllunio Ategol ar Dai Fforddiadwy ac esbonio bod y newidiadau a gytunwyd eisoes wedi eu nodi mewn print trwm yn y ddogfen. Ystyriodd yr aelodau y ddogfen yn ofalus a chytunwyd a nodwyd y materion a'r pynciau canlynol:-

Tud 13. 5.2.1 Polisi TFf cyffredinol – cytunodd yr aelodau bod polisi cyffredinol y CCA hwn ar TFf yn cael ei newid i ddarllen:

“Gofynnir am ddarpariaeth o ryw 30% o unedau TFf yn seiliedig ar bolisi o ddwysedd o 30 annedd yr hectar trwy drafodaeth ar safleoedd o 3 tŷ annedd neu fwy neu 0.1 hectar pa un bynnag yw'r lleiaf. Gofynnir i ymgeiswyr ddangos sut mae darpariaeth fforddiadwy i'w wneud. Bydd trafodaethau'n seiliedig ar y canlynol”.

Tud 15. (c) Math o Dai Fforddiadwy– cytunodd yr Aelodau bod cyfeiriad at hunan-adeiladu'n cael ei gynnwys yn 5.2.3 ac yn yr Eirfa.

Tud 20. 5.2.9 Prisiau/gwerth lleiniau a symiau cymudedig. Darpariaeth oddi ar y safle - cytunodd y swyddogion gydnabod pryderon y gellid colli darpariaeth oddi ar y safle mewn perthynas â safleoedd a datblygiadau mwy.

Mewn ymateb i gais gan yr aelodau, cytunodd y swyddogion y gellid cynnwys hunan-adeiladu yn y Cyfarwyddyd Cynllunio Ategol Drafft ar Dai Fforddiadwy. Cytunodd y swyddogion hefyd y gellid ystyried y posibilrwydd o gynnwys tai adfeiliedig megis ffermdai. Fodd bynnag, esboniwyd y gallai hyn olygu amrywio polisi lleol a chenedlaethol.

***PENDERFYNWYD*** *yn amodol ar y newidiadau a gytunwyd uchod*

*(i)* *cymeradwyo'r Cyfarwyddyd Cynllunio Ategol Drafft ar Dai Fforddiadwy fel y nodwyd yn yr adroddiad*

*(ii)* *gofyn i Glerc y Sir ystyried sut gellid dyrannu adnoddau ychwanegol i alluogi paratoi a chwblhau Cytundebau Cyfreithiol Adran 106 i'w dodi ynghlwm wrth ganiatâd cynllunio yn cynnwys Tai Fforddiadwy cyn gynted ag y bo modd - gan gynnwys paratoi a defnyddio cytundebau drafft enghreifftiol, a*

*(iii)* *gofyn i'r Pwyllgor Rheoli Asedion a'r Gweithgor Tai Fforddiadwy ystyried sut orau i ddefnyddio asedion y Cyngor - gan gynnwys tir ac eiddo - i gyfrannu tuag at Dai Fforddiadwy.*

*(iv)* *cyflwyno adroddiadau pellach i'r Pwyllgorau Archwilio Gwasanaethau Personol a'r Amgylchedd i ddelio gyda materion yn ymwneud â thai fforddiadwy (h.y. tai cymdeithasol, costau isadeiledd) nad oedd yn faterion i'w hystyried dan y CCA, a chynnwys manylion gwaith yn cael ei wneud gan awdurdodau lleol eraill*

*(v)* *cynnwys hunan-adeiladu yn y Cyfarwyddyd Cynllunio Ategol Drafft ar Dai Fforddiadwy.*

Daeth y cyfarfod i ben am 12.50 p.m.

*********

**CYNGOR SIR DDINBYCH**

Cofnodion o'r Cyfarfod Blynyddol a gynhaliwyd yn Siambr y Cyngor, Neuadd y Sir, Rhuthun ddydd Mawrth, 10 Mai 2005.

**PRESENNOL**

Y Cynghorwyr M Ll Davies (Cadeirydd), J R Bartley, R E Barton, B Blakeley, J Chamberlain Jones, D Cooper, J M Davies, S A Davies, P A Dobb, P C Duffy, E C Edwards, G C Evans, H H Evans, I M German, M A German, D Hannam, K N Hawkins, T K Hodgson, C L Hughes, N J Hughes, R W Hughes, T R Hughes, N Hugh-Jones, D Jones, E R Jones, G A Jones, H Jones, M M Jones, G M Kensler, P J Marfleet, P W Owen, D Owens, G J Pickering, N P Roberts, G O Rowlands, J A Smith, D A J Thomas, S Thomas, J Thompson-Hill, C H Williams, G Williams a R Ll Williams.

**HEFYD YN BRESENNOL**

Y Prif Weithredwr, Cyfarwyddwyr Corfforaethol, Clerc y Sir a'r Rheolwr Gwasanaethau Gweinyddol.

**GWEDDI**

Cyflwynwyd gweddi gan y Parchedig R W Roberts ar ddechrau'r cyfarfod.

**DERBYNIWYD YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB ODDI WRTH**

Y Cynghorwyr J Butterfield, S Frobisher, S Roberts, M A Webster ac E W Williams.

**889 PENODI CADEIRYDD 2005/2006**

Gwahoddodd y Cadeirydd ar fin cyrraedd diwedd ei gyfnod yn y swydd i'r Aelodau gynnig enwebiadau ar gyfer penodi Cadeirydd ar gyfer 2005/06. Cynigiodd y Cynghorydd H H Evans y dylid ethol y Cynghorydd J A Smith yn Gadeirydd y Cyngor yn ystod blwyddyn dinesig 2005/06. Cyfeiriodd y Cynghorydd Evans at y cyfoetho o brofiad sydd gan y Cynghorydd Smith fel cyn aelod o'r CAbinet a Maes Cyngor Dinas Llanelwy a theimlai y byddai'n llysgennad gwych i'r Cyngor Sir. Ategwyd y teimladau hynny gan y Cynghorydd D Owens ac eiliodd y cynnig. Gan nad oedd unrhyw enwebiadau eraill etholwyd y Cynghorydd J A Smith yn Gadeirydd y Cyngor yn ystod blwyddyn dinesig 2005/06.

Cyflwynodd y Cadeirydd ar fin cyrraedd diwedd ei gyfnod yn y swydd Gadwyn y Cadeirydd i'r Cynghorydd J A Smith a gwnaeth yntau lofnodi ei Ddatganiad Derbyn y Swydd. Cyflwynodd Boneddiges y Cadeirydd ar fin cyrraedd diwedd ei chyfnod y Gadwyn i Foneddiges y Cadeirydd. Dywedodd y cyn Gadeirydd ei bod wedi bod yn anrhydedd cynrychioli'r Cyngor Sir fel Cadeirydd dros y 10 mis a chyfeiriodd at restr o ddigwyddiadau y roedd wedi'u mynychu/cynnal yn ystod Ebrill 2005 (dosbarthwyd yn y cyfarfod). Yn benodol cyfeiriodd at fod yn bresennol yn Seremoni Gyflwyno Eversheds yng Nghaerdydd lle cyflwynwyd gwobr RCIS i Gynllun Trefadaeth Treflun Dinbych. Dangosodd y Cynghorydd M Ll Davies y plac yn y cyfarfod a llongyfarchodd Mr P Ebrell a Mr N Blanchard am eu gwaith rhagorol gyda'r prosiect.

Diolchodd i'w wraig, y Prif Weithredwr a'i staff, y Dirprwy Gadeirydd a'r Cynghorwyr, ei Gaplan ac etholwyr ei ward am eu holl gymorth dros y 12 mis diwethaf. Diolchodd yn arbennig i'r Swyddog Dinesig (Ms Eleri Woolford) am ei chymorth yn trefnu ei bresenoldeb yn y gwahanol ddigwyddiadau dinesig. I gloi diolchodd y Cadeirydd ar fin gorffen ei gyfnod yn y swydd i'w gyd Gynghorwyr am gefnogi ei Ddawns Elusennol, ac yn sgîl yr holl gyfraniadau cyflwynodd siec am £2000 i Mr Graham Thompson Ymchwil Arthritis Cymru. Ar y pwynt yma cyflwynodd Boneddiges y Cadeirydd dusw o flodau i Foneddiges y Cadeirydd blaenorol.

Diolchodd y Cadeirydd newydd i'w gynigydd a'i eilydd am ei enwebu. Hefyd talodd deyrnged i'r gwaith a wnaed gan y Cadeirydd blaenorol a chyflwyno Fathodyn a Phlac Cyn Gadeirydd iddo. Dywedodd y Cadeirydd ei fod yn edrych ymlaen at ei gyfnod yn y swydd a diolchodd i'r Prif Weithredwr a'i staff a chyd Gynghorwyr am eu cefnogaeth. Nododd y Cynghorydd J A Smith mai ei thema am y flwyddyn fyddai

'Plant a Phobl Ifanc' ac y byddai'n ceisio rhoi proffil llawer uwch i'r grŵp yma yn ystod ei gyfnod yn y swydd.

Adroddodd y Cadeirydd mai'r Parchedig Andrew Sully fyddai ei Gaplan yn ystod y flwyddyn nesaf.

**890 PENODI IS-GADEIRYDD**

Gofynnodd y Cadeirydd am enwebiadau ar gyfer penodi Is-gadeirydd ar gyfer 2005/06.

Cynigiodd y Cynghorydd G M Kensler enw'r Cynghorydd N J Hughes i'w ethol yn Is-gadeirydd y Cyngor ar gyfer 2005/06. Dywedodd y Cynghorydd Kensler ei bod wedi adnabod y Cynghorydd Hughes ers pum mlynedd ar hugain yn ei rôl swyddog cyswllt yr heddlu, aelod o Blaid Cymru a Chynghorydd Sir. Teimlai fod y Cynghorydd Hughes yn aelod o'r gymuned y roedd parch mawr iddo yn Ninbych ac y byddai'n gynrychiolydd delfrydol ar ran y Cyngor yn ystod y cyfnod yn arwain at Eisteddfod yr Urdd 2006. Eiliodd y Cynghorydd R Ll Williams y cynnig ar ran y Grŵp Annibynnol a thalodd deyrnged i'r gwaith a wnaed gan y Cynghorydd Hughes gyda chyn Gyngor Dosbarth Glyndŵr a Chyngor Sir Ddinbych. Cyfeiriodd y Cynghorydd R E Barton at y cymorth mawr roedd wedi'i dderbyn gan y Cynghorydd Hughes ers ei ethol i'r Cyngor a dywedodd ei fod yn llwyr gefnogi'r enwebiad.

Gan nad oedd unrhyw enwebiadau eraill etholwyd y Cynghorydd N J Hughes yn Is-gadeirydd y Cyngor ar gyfer 2005/06 a chyflwynodd y Cadeirydd Gadwyn yr Is-gadeirydd i'r Cynghorydd N J Hughes ac yna llofnododd ei Ddatganiad Derbyn y Swydd. Diolchodd yr Is-gadeirydd i'r Aelodau am ei enwebu ac addawodd gynorthwyo a chefnogi'r Cadeirydd dros y 12 mis nesaf. Cyflwynodd gwraig y Cadeirydd Gadwyn y Swydd i wraig yr Is-gadeirydd newydd.

Dywedodd y Cynghorydd J R Bartley ei fod wedi adnabod y Cynghorydd Hughes am 40 mlynedd ac fe'i llongyfarchodd ar ei benodiad ar ran Cyngor Tref Dinbych.

Ar y pwynt yma gwnaeth cynrychiolwyr o'r holl Grwpiau Gwleidyddol dalu teyrnged i waith y cyn Gadeirydd a llongyfarch y Cadeirydd a'r Is-gadeirydd newydd ar eu penodiadau.

Gohiriwyd y cyfarfod am ginio am 11.45am.

**CYNGOR SIR DDINBYCH**

Cofnodion cyfarfod y Cyngor Sir wedi ailymgynnull yn Siambr y Cyngor, Neuadd y Sir, Rhuthun, ddydd Mawrth, 20 Mai 2005 am 1.00pm.

**PRESENNOL**

Y Cynghorwyr J A Smith (Cadeirydd), J R Bartley, R E Barton, B Blakeley, J Chamberlain Jones, D Cooper, M Ll Davies, S A Davies, P A Dobb, P C Duffy, E C Edwards, G C Evans, H H Evans, I M German, M A German, D Hannam, K N Hawkins, T K Hodgson, C L Hughes, N J Hughes, R W Hughes, T R Hughes, N Hugh-Jones, D Jones, E R Jones, G A Jones, H Jones, M M Jones, G M Kensler, P J Marfleet, P W Owen, D Owens, G J Pickering, N P Roberts, G O Rowlands, D A J Thomas, S Thomas, J Thompson-Hill, C H Williams, G Williams a R Ll Williams.

**HEFYD YN BRESENNOL**

Y Prif Weithredwr, Cyfarwyddwyr Corfforaethol, Clerc y Sir a'r Rheolwr Gwasanaethau Gweinyddol.

**DERBYNIWYD YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB ODDI WRTH**

Y Cynghorwyr J Butterfield, J M Davies, S Frobisher, S Roberts, M A Webster ac E W Williams.

Cyn dechrau'r cyfarfod atgoffodd y Cadeirydd yr Aelodau, yn unol â'r Cyfansoddiad, mai ei ddyletswydd cyffredinol oedd sicrhau bod y Cyngor yn cynnal ei gyfarfodydd yn unol â Rheolau Sefydlog y Cyngor. Nododd y byddai'n gweithredu'r Rheolau Sefydlog yn gadarn ond yn deg.

**891 EITEMAU BRYS**

Dim eitemau brys i'w trafod.

**892 COFNODION Y CYNGOR**

Cyflwynwyd cofnodion cyfarfod y Cyngor Sir a gynhaliwyd ar 12 Ebrill 2005 (a ddosbarthwyd yn flaenorol).

**Cywirdeb**
Cofnod rhif 13 (Rhybudd o Gynnig – Rheoli Lleoedd Ysgol) – ar gais y Cynghorydd R E Barton cytunwyd i ddileu'r geiriau "rhybudd o" o'r cynnig, gwelliant a'r penderfyniad.

**Materion yn codi**

Cofnod Rhif 2 (ii) (Cyngor Sir 11 Mawrth 2005) – adroddodd Clerc y Sir fod yr ymchwiliad i'r tor-cyfrinachedd yn parhau a'i fod bron â'i gwblhau.

***PENDERFYNWYD,*** *yn amodol ar y newid uchod, derbyn cofnodion cyfarfod cyffredin y Cyngor Sir fel cofnod cywir.*

**893 SAFLE HEN YSBYTY GOGLEDD CYMRU, DINBYCH**

(cafodd yr eitem hon ei symud ymlaen ar yr agenda gyda chaniatâd y Cadeirydd)

Cyflwynwyd adroddiad ar y cyd gan y Pennaeth Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd a Chlerc y Sir (a ddosbarthwyd yn flaenorol) yn gofyn i'r Cyngor benderfynu ar gais cynllunio i ddatblygu safle hen Ysbyty Gogledd Cymru, Dinbych.

Cyfeiriodd y Pennaeth Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd at y cais cynllunio i ddatblygu'r safle a wrthodwyd gan y Pwyllgor Cynllunio ar 23 Mawrth 2005 yn groes i argymhelliad y Swyddog. Cyfeiriwyd y mater yn ôl i'r Pwyllgor Cynllunio ar 20 Ebrill 2005 i drafod union eiriad y gwrthodiad fel a amlinellwyd ym mharagraff 9.2 yr adroddiad a oedd yn nodi y byddai'r cynigion yn groes i Bolisi MDA4 Cynllun Datblygu Unedol Sir Ddinbych.

Hefyd cyfeiriodd y Pennaeth Gwasanaeth at Atodiadau B ac C yr adroddiad yn rhoi manylion am y sylwadau a dderbyniwyd gan asiant yr ymgeisydd a chyfreithiwr yn gweithredu ar ran gwrthwynebwyr trydydd parti yn ymwneud â chostau potensial apêl ac adolygiad barnwrol yn ôl eu trefn. Hefyd cyfeiriodd at adendwm a ddosbarthwyd yn y cyfarfod yn rhoi crynodeb o sylwadau a dderbyniwyd gan wrthwynebwyr ac asiant yr ymgeisydd a'r ffaith ei fod wedi derbyn cais i ystyried yr angen am Asesiad Effaith ar Iaith. Ar ôl ystyried yr holl faterion yn ymwneud â'r cais roedd y Swyddog Monitro wedi dod i'r casgliad ei bod yn briodol cyflwyno adroddiad ar y cais gerbron y Cyngor llawn i benderfynu arno.

Cyfeiriodd y Pennaeth Gwasanaeth at y materion a ganlyn i'w hystyried wrth benderfynu ar y cais:-

- mae'r Adeiladau Rhestredig Gradd II yn mynd yn adfail ac mae dyletswydd statudol ar y perchnogion/Cyngor i drwsio'r adeiladau.
- mae Polisi MDA4 y Cynllun Datblygu Unedol wedi derbyn yr egwyddor a gydnabyddir yn gyffredinol nad oes unrhyw debygolrwydd o adfer yr adeiladau gan ddatblygwr preifat heb unrhyw ddatblygiad galluogol cysylltiedig oherwydd yr ecwiti negyddol sylweddol yn yr adeiladau.
- canfyddiadau adroddiad King Sturge fod Polisi MDA4 a oedd yn dibynnu yn bennaf ar ddatblygiad cyflogaeth yn annichonadwy yn fasnachol ac mai dim ond adeiladau preswyl newydd ac addasiadau i ddefnydd preswyl fyddai'n sicrhau'r cyllid cyfalaf sy'n angenrheidiol i gyfrannu at adfer yr adeiladau rhestredig allweddol.
- gellid ystyried ystyriaethau perthnasol wrth benderfynu ar y cais, a bod adroddiad King Sturge yn goresgyn Polisi MDA4

- roedd y cynnig yn un amlinellol yn unig, ac os y'i caniateir, byddai ceisiadau manwl yn cael eu cyflwyno gerbron y Pwyllgor Cynllunio yn unol â'r Cytundeb Adran 106.

Ar y pwynt yma datganodd y Cynghorydd T M Hodgson fudd yn y cais a gadawodd y Siambr yn ystod y drafodaeth a'r pleidleisio ar yr eitem hon.

Cyfeiriodd y Pensaer Cadwraeth at Atodiad 1 yr adroddiad yn rhoi manylion am Gynllun Meistr arfaethedig y Safle a'r cynigion amlinellol ar gyfer pob ardal datblygu. Rhoddodd fanylion am y defnydd arfaethedig ymhob ardal a theimlai mai'r cynllun hwn oedd un o'r cynigion mwyaf cynhwysfawr yr oedd wedi'u gweld.

Cyfeiriodd y Pennaeth Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd at y materion eraill a godwyd yn y Pwyllgor Cynllunio yn ymwneud â'r iaith Gymraeg a'r diwylliant Cymreig; tai fforddiadwy; darpariaeth gwagle agored i'r cyhoedd; addasrwydd y rhwydwaith priffyrdd a'r pwysau ar wasanaethau ac isadeiledd lleol, yn cynnwys ysgolion. Hefyd cyfeiriodd at y goblygiadau cost petai'r Cyngor yn gwrthod caniatâd yn groes i argymhelliad y swyddog ac anogodd y Cyngor i ganiatáu'r cais am y rhesymau a nodwyd yn yr adroddiad.

Roedd Clerc y Sir yn ategu ac yn cadarnhau'r sylwadau a wnaed gan y Pennaeth Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd.

Roedd y Cynghorydd J Thompson-Hill yn derbyn bod tystiolath glir fod Polisi MDA4 wedi'i oresgyn gan yr adroddiad King Sturge ac y dylai'r Cyngor dalu sylw i'r cyngor gan y swyddogion. Teimlai na allai unrhyw gynllun arall greu arian digonol i gyfrannu at gadwraeth yr Adeiladau Rhestredig a chynigiodd ganiatáu'r cais cynllunio. Eiliwyd y cynnig gan y Cynghorydd S A Davies.

Teimlai Clerc y Sir bod yr ystyriaethau perthnasol yn yr adroddiad King Sturge yn goresgyn Polisi MDA4 a bod y Cyngor yn wynebu risg o ddyfarnu costau sylweddol yn ei erbyn petai'r cais yn cael ei wrthod.

Gofynnodd y Cynghorydd D A J Thomas am gynnal pleidlais wedi'i chofnodi ar y cais.

Roedd y Cynghorydd D Jones o'r farn bod y Cyngor wedi caniatáu i'r safle ddirywio ac roedd yn gobeithio y byddai'r cais yn cael ei ganiatáu er mwyn cyflawni peth datblygiad ar y safle. Teimlai'r Cynghorydd G M Kensler fod yr adroddiad yn anghytbwys ac nad oedd y swyddogion wedi nodi unrhyw gostau yn achos adolygiad barnwrol posibl. Mynegodd bryder nad oedd yr aelodau wedi gweld yr adroddiad King Sturged a bod y cyfeiriad at y datblygiad yn Ne Ddwyrain y Rhyl yn adroddiad y swyddogion yn amherthnasol i'r cais. Hefyd cwestiynodd y Cynghorydd G M Kensler y datganiad yn yr adroddiad nad oedd gan berchennog y safle unrhyw asedau sylweddol er mwyn cyflawni'r gwaith ar yr adeiladau rhestredig. Teimlai'r Cynghorydd J R Bartley y dylai'r ymgeisydd leihau nifer y tai/fflatiau ar y safle a mynegodd bryderon am sut y byddai'r rhwydwaith priffyrdd lleol yn ymdopi â'r traffig ychwanegol.

Teimlai'r Cynghorydd P J Marfleet bod yr adroddiad yn gytbwys a nododd fod y ddau aelod lleol o blaid y cais. Mynegodd bryderon dybryd am y goblygiadau ariannol posibl petai'r cais yn cael ei wrthod ac nid allai ragweld y Cyngor yn cymryd y cyfrifoldeb am gadwraeth yr adeiladau rhestredig.

Roedd y Cynghorydd C L Hughes yn falch o nodi y byddai Ardal 2 yn cael ei agor i aelodau'r cyhoedd a nododd fod llawer iawn o waith wedi'i wneud gan y Bartneriaeth dros y 2 ½ ddiwethaf. Teimlai y byddai'r datblygiad yn dod â chyflogaeth o ansawdd da i bobl ifanc Dinbych ac roedd o blaid y cais. Teimlai'r Cynghorydd S Thomas fod y datblygiad yn bwysig i Ddinbych ac roedd wedi'i frawychu o weld i ba raddau yr esgeuluswyd yr adeiladau rhestredig yn ystod ymweliad safle. Cynigiodd y Cynghorydd Thomas, wedi'i eilio gan y Cynghorydd N H Jones, petai'r cais yn cael ei ganiatáu y dylid sefydlu gweithgor gwleidyddol gytbwys i fonitro'r datblygiad ac adrodd yn ôl i'r Cyngor. Nododd y Cynghorydd J Thompson-Hill ei fod yn fodlon cynnwys y cynnig hwnnw gyda'i gynnig gwreiddiol.

Teimlai'r Cynghorydd N J Hughes na allai gefnogi'r cais a mynegodd bryderon am y cynnydd mewn traffig yn Ninbych Uchaf petai'r cais yn cael ei ganiatáu. Awgrymodd fod mwyafrif pobl Dinbych yn erbyn y cais.

Awgrymodd y Cynghorydd R E Barton fod adroddiad y swyddogion yn negyddol iawn a theimlai y dylid sefydlu gweithgor lleol yn cynnwys y Cyngor Tref ac aelodau lleol i oruchwylio'r datblygiadau ar y safle. Nododd fod yr adroddiad King Sturge yn groes i Bolisi MDA4 a mynegodd bryder nad oedd yr astudiaeth dichonoldeb ar gael i'r cyhoedd fwrw golwg arni. Hefyd mynegodd y Cynghorydd Barton bryderon ynghylch y tai fforddiadwy yn y cynllun.

Adroddodd y Pennaeth Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd y byddai'r datblygiad yn creu isafswm o 400 o gyfleoedd cyflogaeth a chymaint â 800 o bosibl, bod yr ymgeisydd wedi cynnig darparu canolfan feddygol ar y safle a fyddai'n cael ei gynnwys yn y Cytundeb 106.

Mewn ymateb i gwestiynau'r aelodau ynghylch argaeledd yr astudiaeth dichonoldeb nododd y Prif Weithredwr fod tri chorff cyhoeddus yn rhan o'r bartneriaeth ac felly bod y ddogfen yn ddarostyngedig i'r Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth. Fodd bynnag teimlai y gallai'r adroddiad gynnwys materion o sensitifrwydd masnachol na fyddai'n addas i'w ryddhau i'r cyhoedd.

Cynigiodd y Cynghorydd R E Barton welliant, a eiliwyd gan y Cynghorydd C L Hughes, petai'r cais yn cael ei ganiatáu y dylid sefydlu gweithgor lleol yn cynnwys y Cyngor Tref ac aelodau lleol i fonitro'r datblygiad. Ar ôl ei roi i'r bleidlais datganwyd fod y gwelliant wedi **METHU.**

Ar ôl i'r nifer gofynnol o Gynghorwyr nodi, yn unol â Rheol Sefydlog 14.5, eu bod yn dymuno cael pleidlais wedi'i chofnodi, cofnodwyd y pleidleisio fel a ganlyn:-

O blaid y cais (29)
Y Cynghorwyr B Blakeley, J Chamberlain Jones, D Cooper, S A Davies, P A Dobb, P C Duffy, E C Edwards, G C Evans, H H Evans, I M German, K N Hawkins, C L Hughes, R W Hughes, N Hugh-Jones, D Jones, E R Jones, G A Jones, P J Marfleet, P W Owen, D Owens, G J Pickering, N P Roberts, G O Rowlands, J A Smith, D A J Thomas, S Thomas, J Thompson-Hill, G Williams a R Ll Williams.

Yr erbyn y cais (8)
Y Cynghorwyr J R Bartley, D Hannam, N J Hughes, T R Hughes, H Jones, M M Jones, G M Kensler a C H Williams.

Atal pleidlais (3)
Y Cynghorwyr R E Barton, M Ll Davies a M A German.

***PENDERFYNWYD***

*(a)* *caniatáu'r cais i ddatblygu hen safle Ysbyty Gogledd Cymru (cyfeirnod 01/2004/1445/P0) yn amodol ar Gytundeb Adran 106 (yn cynnwys darparu canolfan feddygol) ac amodau fel a nodwyd yn yr adroddiad i'r Pwyllgor Cynllunio ar 24 Mawrth 2005) a*

*(b)* *sefydlu gweithgor gwleidyddol gytbwys o aelodau i fonitro'r cytundeb Adran 106 ac unrhyw gytundebau eraill ac adrodd yn ôl i'r Cyngor Sir.*

## 894 ADRODDIAD BLYNYDDOL Y PWYLLGORAU ARCHWILIO

Cyflwynodd y Cynghorydd T K Hodgson, Cadeirydd y Pwyllgor Archwilio Gwasanaethau Personol, yr adroddiad a nododd y cefndir i drydydd adroddiad blynyddol y Pwyllgorau Archwilio gyda'r nod o hysbysu'r holl aelodau, swyddogion a'r cyhoedd am y gwaith a gyflawnwyd gan y Pwyllgorau Archwilio yn ystod y deg mis diwethaf. Nododd y Cynghorydd Hodgson y bu'n flwyddyn heriol iawn gyda chymaint o Gynghorwyr newydd yn ddieithr i'r broses Archwilio. Serch hynny roedd wedi ei blesio'n fawr gan y cynnydd a wnaed, yn enwedig y gweithoi ar y cyd ar fater tai fforddiadwy, rheoli'r stoc tai cyngor a'r Strategaeth Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Lles ddrafft.

Yna cyflwynodd y Cynghorwyr T K Hodgson, P W Owen (is-gadeirydd), N H Jones a G O Rowlands eu adroddiadau blynyddol yn ôl eu trefn ar gyfer yr Pwyllgorau Archwilio Gwasanaethau Personol, yr Amgylchedd, Dysgu Gydol Oes ac Adnoddau. Cyfeiriodd bob un o'r Cadeiryddion at y cymorth rhagorol

gan y Swyddogion Cynnal Archwilio a diolchasant i aelodau eu Pwyllgorau hefyd, Aelodau Lleol a swyddogion am eu cefnogaeth barhaus.

Manteisiodd yr aelodau ar y cyfle i holi am faterion gyda'r cadeiryddion, gan gyfeirio'n benodol at y broses Rheoli Lleoedd Ysgol, aelodaeth y Pwyllgor Archwilio Dysgu Gydol Oes a'r gyllideb cynnal a chadw ysgolion.

Mewn ymateb i gwestiwn gan y Cynghorydd H H Evans adroddodd Clerc y Sir, yn amodol at gytundeb y Pwyllgor Llywodraethiad Corfforaethol, y byddai adroddiad blynyddol ar waith y Pwyllgor hwnnw yn cael ei gyflwyno gerbron y Cyngor ym mis Gorffennaf.

***PENDERFYNWYD*** *derbyn a nodi adroddiadau blynyddol y Pwyllgorau Archwilio.*

**895 STRATEGAETH DIOGELWCH CYMUNEDOL 2005-2008**

Cyflwynodd yr Aelod Arweiniol dros Gymunedau adroddiad (a ddosbarthwyd yn flaenorol) yn gofyn i'r Cyngor fabwysiadu Strategaeth Diogelwch Cymunedol Sir Ddinbych am y cyfnod 2005-2008. Adroddodd y Cynghorydd E C Edwards fod y strategaeth ddrafft wedi'i chyflwyno i gyd-gyfarfod y Pwyllgorau Archwilio ar 22 Ebrill 2005 a bod y sylwadau a wnaed gan yr Aelodau wedi'u cynnwys yn y drafft diwygiedig. Roedd yr Aelodau wedi gofyn yn benodol am ddatblygu rhaglen hyfforddiant i aelodau a swyddogion o ran goblygiad Adran 17 y Ddeddf Trosedd ac Anhrefn.

Teimlai'r Cynghorydd D A J Thomas y dylai'r sylwadau a wnaed gan aelodau'r cyd-bwyllgor Archwilio gael eu cynnwys fel 'argymhelliad' ac nid fel 'blaenoriaeth' fel a nodwyd ar dudalen 10 y strategaeth ddrafft. Derbyniodd y Cynghorydd E C Edwards y gwelliant a gynigiwyd gan y Cynghorydd D A J Thomas.

***PENDERFYNWYD,*** *yn amodol ar y gwelliant uchod, fabwysiadu'r Strategaeth Diogelwch Cymunedol 2005 – 2008.*

**896 NEWIDIADAU I'R CYFANSODDIAD A MATERION YN CODI O'R PANEL MODERNEIDDIO**

Cyflwynodd Glerc y Sir adroddiad (a ddosbarthwyd yn flaenorol) yn gofyn i'r Cyngor ystyried cynigion i wella'r cyfansoddiad a gweithredu busnes y Cyngor a chais gan y Panel Moderneiddio bod y Cyngor yn ailystyried lefel y Lwfansau sy'n daladwy i Aelodau.

O ran Cynllun Lwfansau Aelodau (eitem 2) cyfeiriodd y Cynghorydd P J Marfleet at y drafodaeth fanwl yn y Cyngor ym mis Medi 2004 pan gytunodd yr Aelodau i barhau â'r patrwm o dalu lwfansau flwyddyn ar ôl cyfraddau'r Cynulliad. Nododd y Cynghorydd R W Hughes nad oedd y gwariant ychwanegol i fodloni cynnydd y Cynulliad wedi'i gynnwys yn y gyllideb a chynigiodd bod y Cyngor yn ailgadarnhau ei benderfyniad blaenorol i barhau i dalu lwfansau flwyddyn ar ôl y cynnydd.

Cynigiodd y Cynghorydd D Owens y dylid cyfeirio 'amser cyfarfodydd' (eitem 4) yn ôl i'r Panel Moderneiddio gyda'r nod o gynnwys rhai cyfarfodydd gyda'r nos.

***PENDERFYNWYD***

*(a) cymeradwyo argymhellion 1, 3, 5–12 fel a nodwyd yn yr adroddiad.*

*(b) bod y Cyngor yn ailgadarnhau ei benderfyniad blaenorol i barhau â'r patrwm o dalu Lwfansau Aelodau flwyddyn ar ôl y cynnydd a*

*(c) cyfeiriod 'amser cyfarfodydd' yn ôl i'r Panel Moderneiddio gyda'r nod o gynnwys rhai cyfarfodydd gyda'r nos.*

**897 PENSIYNAU AELODAU**

Cyflwynodd y Prif Weithredwr adroddiad (a ddosbarthwyd yn flaenorol) yn gofyn i'r Cyngor ystyried argymhellion a chanfyddiadau Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol o ran cymhwysedd Aelodau i dderbyn pensiwn.

Cyfeiriodd y Prif Weithredwr yn gryno at argymhellion y Panel fel a nodwyd yn Atodiad 1 yr adroddiad a chyfeiriodd at y dogfennau a ddosbarthwyd i'r Aelodau gan Glerc y Sir. Nododd y byddai'n ofynnol i aelodau ymaelodi â'r cynllun a chyflwyno eu ffurflenni cais i'r Pennaeth Personél gynted ag y bo modd. Cynigiodd y Cynghorydd K N Hawkins, ac eiliwyd gan y Cynghorydd S Thomas, y dylid derbyn yr argymhellion. Croesawodd yr Aelodau adroddiad Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol, ac ar ôl ystyried a gwerthuso goblygiadau cost pensiynau i Gynghorwyr

***PENDERFYNWYD**:-*

*(a) bod holl aelodau etholedig presennol y Cyngor Sir ac aelodau etholedig yn y dyfodol, yn cynnwys Meiri etholedig, sy'n derbyn lwfans sylfaenol a, lle bo'n briodol, lwfansau cyfrifoldeb arbennig, yn cael eu hystyried yn 'gynghorwyr cymwys' at ddibenion penderfynu ar eu hawl i bensiwn cyn belled nad oedd unrhyw unigolyn o'r fath wedi derbyn taliad dan Cynllun Gwobrwyo Gwasanaeth Blaenorol.*

*(b) gofyn i weinyddwyr Cynllun Pensiwn Clwyd wneud trefniadau fel bod 'diwrnod cyntaf y cyfnod taliad cyntaf' dan Reoliadau'r Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol ar gyfer cynghorydd cymwys yn ddyddiad heb fod yn hwyrach na fyddai ar gyfer cyflogai'n rhan o'r cynllun.*

*(c) bod Cynghorwyr presennol yn gymwys o 10 Mai 2005. Yn achos Cynghorwyr yn y dyfodol, dylid darparu ffurflen gais i'r cynllun pensiwn a gwybodaeth atodol iddynt, yn cynnwys y canllawiau a gynhyrchwyd gan Gymdeithas y Cyflogwr Llywodraeth Leol, "A Guide to the Local Government Pension Scheme for eligible councillors in England and Wales" gynted ag y bo modd ar ôl eu hethol i'r swydd.*

*(ch) ceisio cymorth Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru i bwyso ar Lywodraeth Cynulliad Cymru i sicrhau deddfwriaeth diwygio fel bod aelodaeth Cynghorwyr presennol yn cael ei ôl-ddyddio i 10 Mehefin 2004.*

**898 ADOLYGU CYDBWYSEDD GWLEIDYDDOL**

Cyflwynodd Glerc y Sir adroddiad (a ddosbarthwyd yn flaenorol) yn gofyn i'r Cyngor gynnal yr adolygiad statudol blynyddol o'r cydbwysedd gwleidyddol a phenodi aelodaeth Pwyllgorau/Panelau.

Cyfeiriodd y Clerc at y rhestr Pwyllgorau/Panelau diwygiedig a ddosbarthwyd yn y cyfarfod sy'n adlewyrchu'r newidiadau a wnaed gan Grŵp Plaid Cymru yn dilyn diwedd cyfnod swydd y Cadeirydd (y Cynghorydd M Ll Davies) a phenodiad Is-gadeirydd y Cyngor (y Cynghorydd N J Hughes). Nododd nad oedd cydbwysedd gwleidyddol y Cyngor wedi newid dros y 12 mis diwethaf.

Cynigiodd y Cynghorydd R W Hughes, ac eiliodd y Cynghorydd P J Marfleet, y dylid derbyn yr argymhellion. Ar ôl ei roi i'r bleidlais

***PENDERFYNWYD***

*(a) cymeradwyo'r tabls i gyflawni dosraniad gwleidyddol gytbwys o seddau fel a nodwyd yn Atodiad 1 i'r adrodddiad, a*

*(b) chymeradwyo dosraniad y seddi (Atodiad 2) a'r rhestr Pwyllgorau/Panelau diwygiedig (a ddosbarthwyd yn y cyfarfod).*

Gorffennodd y cyfarfod am 3.40 p.m.

**************

## CYD-BWYLLGOR YMGYNGHOROL LLEOL

Cofnodion cyfarfod o'r Cydbwyllgor Ymgynghorol Lleol a gynhaliwyd yn Siambr y Cyngor, Swyddfeydd y Cyngor, Tŷ Russell, Y Rhyl ar ddydd Iau 19eg Mai 2005 am 2.30 p.m.

### YN BRESENNOL

**Cynrychiolwyr y cyflogwr**
Y Cynghorwyr M. Ll. Davies, G. A. Jones, P. J. Marfleet, R. Ll. Williams,
Alan Evans Dirprwy Brif Weithredwr ac L. Atkin Pennaeth Personél.

**Cynrychiolwyr y gweithwyr**
UNSAIN - A. Rutherford, G. Butler
GMB – J. Drummond
TGWU - D. Hughes, C. Edwards

### HEFYD YN BRESENNOL

Mark Jones, Trefnydd Rhanbarthol GMB, Prif Swyddog Personél (R. Singfield), Rheolwr Gwasanaethau Gweinyddol (R. Davies) a Chlerc Pwyllgor (Mrs J. V. Pring). Mynychodd y Cynghorydd R.E. Barton fel sylwedydd.

### DERBYNIWYD YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB ODDI WRTH

Ochr y cyflogwyr – Y Cynghorydd G. O. Rowlands a'r Prif Weithredwr,
Ochr y gweithwyr - I. Ellison, E. Stephens (UNSAIN) a K. Wiggans (GMB)

Atgoffodd y Rheolwr Gwasanaethau Gweinyddol yr Aelodau y dylid ethol Cadeirydd y Pwyllgor ar gyfer 2005/06, yn unol â'r Cyfansoddiad, o blith cynrychiolwyr y cyflogwr a'r Is-gadeirydd o blith cynrychiolwyr y Gweithwyr.

### 1 PENODI CADEIRYDD

Cynigiwyd ac eiliwyd bod y Cynghorydd M. Ll. Davies yn cael ei benodi fel Cadeirydd, Yn absenoldeb unrhyw enwebiadau eraill, fe:-

***BENDERFYNWYD*** *penodi'r Cynghorydd M. Ll. Davies yn Gadeirydd y Pwyllgor ar gyfer y flwyddyn i ddod.*

### 2 PENODI IS-GADEIRYDD

Cynigiwyd ac eiliwyd bod Andy Rutherford (UNSAIN) yn cael ei benodi'n Is-gadeirydd y Pwyllgor ar gyfer y flwyddyn i ddod. Yn absenoldeb unrhyw enwebiadau eraill, fe

***BENDERFYNWYD*** *penodi Andy Rutherford yn Is-gadeirydd y Pwyllgor ar gyfer y flwyddyn i ddod.*

### 3 MATERION BRYS

Nid oedd unrhyw faterion brys.

### 4 COFNODION

Cyflwynwyd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 14eg Hydref 2004.

tud 1 – nodwyd bod enw'r Cynghorydd R.E. Barton wedi ei adael oddi ar y rhestr o'r rhai a fynychodd.

tud 3 – (Polisi Dim Ysmygu) Newid sylwadau'r Cynghorydd G.A. Jones i ddarllen 'roedd wedi derbyn adroddiadau am gontractwyr a gyrwyr annibynnol yn ysmygu tra ar ddyletswydd'

***PENDERFYNWYD*** *, yn amodol ar y cywiriadau uchod, derbyn cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 14eg Hydref 2004.*

Materion yn codi:-

tud 2 (T.O.I.L/Amser Hyblyg) – cyfeiriodd y Cynghorydd R.E. Barton at anawsterau a gafodd yn ddiweddar o ran cysylltu gyda rhai swyddogion, ac awgrymu bod hyn wedi cyd-daro gyda diwedd y cyfnod hyblyg pedair wythnos. Gofynnodd a allai'r Aelodau dderbyn manylion y dyddiadau olaf bob mis. Cytunwyd y byddai hyn yn cael ei drafod ymhellach dan eitem 7(i) ar y rhaglen.

**5 COFNODION CYFARFODYDD YMGYNGHOROL Y CYFARWYDDIAETHAU**

Cyflwynwyd cofnodion cyfarfodydd ymgynghorol lleol fel a ganlyn :

i) Dysgu Gydol Oes– 14eg Rhagfyr 2004

Cyfeiriodd y Rheolwr Gwasanaethau Gweinyddol at yr eitem ar Ariannu ar gyfer Cynhwysiant, gan nodi y dylid bod wedi cofnodi datganiad y Comisiwn Archwilio fel *'darparodd yr Awdurdod wasanaeth teg gyda rhagolygon ansicr ar gyfer y dyfodol'*.

Cyfeiriodd Andy Rutherford (UNSAIN) at anawsterau posibl yn deillio o drosglwyddo gweithwyr Sir Ddinbych i'r ysgolion lle maent yn gweithio dan y cynnig i ddatganoli cyllid AAA i ysgolion. Er yn dal i gael eu cyflogi gan Sir Ddinbych, byddai'r trosglwyddiad yn golygu eu bod yn cael eu rheoli gan eu hysgolion unigol trwy gyfrwng y Corff Llywodraethol. Oherwydd diffyg arbenigrwydd neu ddealltwriaeth gan Gyrff Llywodraethol Ysgolion ar faterion megis disgyblaeth, cwynion a materion diswyddaeth, roedd risg arwyddocaol y byddai gweithwyr yn anymwybodol o'u hawliau ac, o ganlyniad, yn ddi-os yn cael eu heffeithio'n niweidiol a'u hanfanteisio.

Roedd y Pennaeth Personél yn rhannu'r pryderon hyn, gan ddweud bod Swyddogion Cyswllt Ysgol - nad oeddynt yn medru cynnig cyngor a chyfarwyddyd proffesiynol - yn cael ceisiadau i ddelio gyda materion staffio y tu allan i'w hamodau cyfeirio. Cytunwyd y dylid dwyn y pryderon y Pwyllgor i sylw'r Cyrff Llywodraethol ac awgrymwyd y dylid annog Llywodraethwyr Ysgol i ymgymryd â hyfforddiant i'w helpu i ddelio gyda'u rôl a'u cyfrifoldebau ychwanegol. I grynhoi, gofynnodd y Cadeirydd bod llythyr yn cael ei anfon i bob ysgol yn Sir Ddinbych yn gofyn iddynt ystyried buddsoddi mewn hyfforddiant o'r fath ar gyfer eu llywodraethwyr ysgol. Gofynnwyd am adroddiad llawn ar y cynnydd ar gyfer cyfarfod nesaf y pwyllgor ym mis Gorffennaf 2005.

ii) Cyfarwyddiaeth Adnoddau – 16eg Rhagfyr 204

tud 3 - Cyfeiriodd Andy Rutherford at y problemau parhaus gyda materion staffio Iechyd a Diogelwch yn Nhŷ Russell, Y Rhyl, yn enwedig o ran diffyg mannau parcio ceir. Mae'r Pwyllgor Iechyd, Diogelwch a Lles Corfforaethol wedi ei hysbysu o'r problemau hyn ac anfonwyd cyflwyniadau at y Prif Weithredwr ond hyd yma, ni chafwyd ymateb. Cyfeiriodd y Cynghorydd P. J. Marfleet hefyd at anawsterau parcio yn Neuadd y Sir, Rhuthun.

Awgrymodd Gwen Butler (UNSAIN) y dylid ystyried rhoi'r gorau i fannau wedi eu tirweddu er mwyn darparu mwy o le parcio yn Nhŷ Russell.

Atgoffodd y Prif Swyddog Personél yr aelodau nad oedd gan y Cyngor ddyletswydd statudol i ddarparu lle parcio i'w weithwyr. Wrth gydnabod hyn, awgrymodd Andy Rutherford y dylai Sir Ddinbych dderbyn rhyw lefel o gyfrifoldeb yn wyneb ei arfer o adleoli staff o amgylch y Sir. Gan nad oedd gweithwyr yn medru manteisio ar rwydweithiau bws a thrên da, roedd defnyddio eu cludiant eu hunain i deithio i'w man gwaith, yn y rhan fwyaf o achosion, yn hanfodol.

Cytunwyd gofyn i'r Prif Weithredwr ymateb i'r llythyr ar faterion Iechyd a Diogelwch yn Nhŷ Russell, Y Rhyl a chysylltu gyda'r uned Eiddo Corfforaethol gyda golwg ar ofyn am arolwg o brif feysydd parcio staff Sir Ddinbych.

(iii) Dysgu Gydol Oes– 11eg Ebrill 2005 (Cyflwynwyd y cofnodion hyn yn y cyfarfod)

Tud 2 - Rheoli Lleoedd Ysgolion - Mewn ymateb i gwestiwn gan Andy Rutherford ar gynnwys yr Undebau Llafur yn y broses ymgynghorol, dywedodd y Cynghorydd Marfleet bod Fforwm Ysgolion Sir Ddinbych wedi ysgrifennu at holl ysgolion yn gwahodd cynrychiolwyr i fynychu trafodaethau. Cytunwyd y byddai'r Cynghorydd P.J. Marfleet yn gofyn i'r Fforwm roddi gwahoddiad tebyg i'r Undebau Llafur perthnasol.

***PENDERFYNWYD*** *derbyn a chydnabod cofnodion Pwyllgorau Ymgynghorol y Cyfarwyddiaethau a gofyn i'r swyddogion symud ymlaen ar yr amrywiol weithredoedd a fanylwyd uchod*.

## 6 STATWS SENGL

Cyflwynodd y Prif Swyddog Personél adroddiad, a ddosbarthwyd ymlaen llaw, yn hysbysu'r aelodau o'r cynnydd hyd yma. Atgoffodd yr adroddiad yr aelodau o hanes a chefndir yr arolwg a chyfeirio at y cytundeb i fabwysiadu proses dau gam gan ddefnyddio cynlluniau GLPC a HAY. Y gofyniad cenedlaethol oedd cwblhau'r ddau gam erbyn 1af Ebrill 2007.

Roedd y cam cyntaf yn mynd yn dda ac roedd yr adroddiad yn darparu crynodeb o'r broses o ran gwerthuso, archwilio a dilysu swyddi. Ymgymerwyd â gwaith arwyddocaol yn enwedig yn y Gwasanaethau Amgylcheddol a Gwasanaethau Personol.

Er bod y broses i'w chroesawu, roedd yr Undebau Llafur yn ddiweddar wedi gofyn am gael bod yn fwy agored a mwy o gyfranogiad gyda gweithwyr. Pwysleisiodd y Cynghorydd P.J. Marfleet bwysigrwydd sicrhau bod y broses yn cael ei thrin yn briodol ac o fewn yr amserlen briodol.

***PENDERFYNWYD*** *derbyn yr adroddiad a chydnabod a chymeradwyo'r sefyllfa mewn perthynas â statws sengl.*

## 7 EITEMAU SEFYDLOG

(i) Amser hyblyg/TOIL - Hysbysodd y Prif Swyddog Personél yr aelodau, er y tybiwyd bod cytundeb wedi ei gael ar ôl y cynnig i wahanu Amser Hyblyg a TOIL, bu anawsterau yn ymwneud â'r amrywiol arferion mewn bodolaeth mewn gwahanol Gyfarwyddiaethau. Gan gyfeirio at y sylwadau a wnaed gan y Cynghorydd R.E. Barton yn gynharach yn y cyfarfod, esboniodd mai un o brif ofynion y cynllun gweithio'n hyblyg oedd sicrhau bod anghenion y gwasanaeth yn cael eu diwallu. Cyfrifoldeb rheolwyr oedd sicrhau bod staff digonol yn eu hunedau bob amser.

Dywedodd Andy Rutherford yr hoffai'r Undebau Llafur weld tynhau ar faterion TOIL gan nad oedd staff llaw ar y cynllun hyblyg. Cyfeiriodd at achosion lle na chaniatawyd i weithwyr gario drosodd amser yn lle oriau a weithiwyd. Cyfeiriodd cynrychiolwyr undebau eraill at broblemau tebyg yn deillio o amrywiaeth o arferion gwaith. Dywedodd y Swyddog Personél bod natur y gwaith yn cael effaith arwyddocaol ar ba system a ddefnyddiwyd, gan bwysleisio mai'r brif ystyriaeth oedd cynnal effeithiolrwydd y gwasanaeth a ddarperid.

Mewn perthynas â'r newid arfaethedig yn lled y bandiau amser hyblyg, teimlai Andy Rutherford bod angen cynnydd yn yr amser a ganiateir i weithwyr ei gymryd i ffwrdd bob mis. Ychwanegodd Gwen Butler (UNSAIN) ei bod yn bwysig bod yr oriau eisoes wedi eu gweithio cyn cymryd amser hyblyg i ffwrdd.

Nododd Mark Jones (GMB) hefyd y bu goblygiadau ariannol i'r Awdurdod yn y gorffennol yn deillio o'r angen i gyflogi contractwyr allanol yn lle staff cynnal a chadw tiroedd oherwydd nad oedd amser terfyn ar gyfer oriau wedi eu bancio.

Awgrymodd y Pennaeth Personél y gellid delio gyda'r materion a godwyd, a'u trafod yn y cyd-gyfarfod Personél/Undebau Llafur y Llun canlynol, 23ain Mai 2005. Awgrymwyd hefyd y dylid cyflwyno adroddiad ar Amser Hyblyg/TOIL i gyfarfod nesaf y CBYLI ym mis Gorffennaf 2005.

(ii) Trefniadau disgyblu

Atgoffodd y Prif Swyddog Personél yr aelodau bod y polisi disgyblu wedi ei gyflwyno ym 1996. Roedd Gwasanaeth Cynghori, Cymodi a Chyflafareddiad (ACAS) yn ddiweddar wedi cyhoeddi cod disgyblu newydd a fyddai'n gofyn am newidiadau i bolisi Sir Ddinbych. Ymgynghorwyd gyda'r Undebau Llafur ar y drafft cychwynnol a gobeithiwyd y byddai'r fersiwn terfynol yn barod i'w gyflwyno i'r cyfarfod nesaf ym mis Gorffennaf.

(iii) Dim Ysmygu

Atgoffodd y Prif Swyddog Personél y Pwyllgor bod y polisi Dim Ysmygu wedi ei gyflwyno ar 1af Medi 2004 ac felly y byddai'r consesiynau a gynhwyswyd yn y polisi yn dod i ben ar 31ain Awst 2005.

Awgrymodd y dylid anfon unrhyw sylwadau neu broblemau mewn perthynas â'r polisi ato ef yn yr ychydig wythnosau nesaf er mwyn medru paratoi adroddiad a'i gyflwyno i gyfarfod mis Gorffennaf ar gyfer arolwg a thrafodaeth.

***PENDERFYNWYD***:-

*(i)* *cyflwyno adroddiad ar amser hyblyg /TOIL i gyfarfod nesaf y pwyllgor ym mis Gorffennaf 2005;*

*(ii)* *bod y sefyllfa mewn perthynas â'r Polisi Disgyblu diwygiedig yn cael ei chydnabod, a*

*(iii)* *bod adroddiad arolygu ar y Polisi Dim Ysmygu yn cael ei gyflwyni i gyfarfod nesaf y Pwyllgor ym mis Gorffennaf 2005.*

Daeth y cyfarfod i ben am 3.50 p.m.

*********

**PWYLLGOR SAFONAU**

Cofnodion cyfarfod y Pwyllgor Safonau a gynhaliwyd yn yr Ystafell Gynadledda, Tŷ Nant, Prestatyn, ddydd Gwener 20fed Mai, 2005 am 10.00 a.m.

**YN BRESENNOL**

Mr C.B. Halliday (Cadeirydd), y Cynghorydd P.A. Dobb, y Cynghorydd P. Glynn, Mr I. Lawson a Mr G.F. Roberts.

**HEFYD YN BRESENNOL**

Y Swyddog Monitro a'r Swyddog Gweinyddol (C.I. Williams).

**8 MATERION BRYS**

Ni chodwyd unrhyw eitemau a oedd, ym marn y Cadeirydd, yn rhai y dylid eu trafod yn y cyfarfod fel materion brys yn unol ag Adran 100B(4) Deddf Llywodraeth Leol 1972.

**9 COFNODION**

Cafodd Cofnodion cyfarfod y Pwyllgor Safonau a gynhaliwyd ddydd Gwener 15fed Ebrill, 2005 eu cyflwyno.

Materion yn codi:-

4. Monitro'r Cod Ymddygiad — (ii) Y gair "delay" yn y fersiwn Saesneg i gael ei newid i "delayed".

5. Gollyngiadau — dywedodd y Swyddog Monitro wrth yr Aelodau fod copïau o'r llythyr a'r pro fforma wedi eu hanfon at Un Llais Cymru er mwyn ymofyn eu barn a'u sylwadau, ac eglurodd ei fod yn dal i aros am ymateb. Pwysleisiodd Aelodau bwysigrwydd codi ymwybyddiaeth Cynghorau Tref a Chymuned ynglŷn â'r Cod Ymddygiad a gwaith y Pwyllgor Safonau. Mewn ymateb, cadarnhaodd y Swyddog Monitro y byddai copïau o'r llythyr a'r pro fforma'n cael eu cylchredeg i Glercod yr holl Gynghorau Tref a Chymuned. Yn ystod y drafodaeth a ddilynodd, mynegodd yr Aelodau eu pryderon ynglŷn â nifer y ceisiadau a dderbyniwyd hyd yma am Ollyngiadau.

Mewn ymateb i gwestiynau gan Aelodau, cadarnhaodd y Swyddog Monitro y byddai cofrestr yn cael ei chadw a oedd yn cofnodi'r Gollyngiadau a roddid i Gynghorwyr.

Cytunwyd i ychwanegu'r gair "be" ar ôl y gair "would" ym mharagraff olaf ond un y fersiwn Saesneg.

8. Cyfarfodydd i'r Dyfodol — Ar gais y Cadeirydd, cytunodd yr Aelodau y byddai cyfarfod nesaf y Pwyllgor Safonau'n cael ei gynnal ar 29ain Gorffennaf, 2005, ac nid ar 1af Gorffennaf, 2005 fel y cytunwyd yn flaenorol.

***PENDERFYNWYD** — derbyn y Cofnodion a'u cymeradwyo fel rhai cywir, yn amodol ar yr uchod.*

**10 PRESENOLDEB MEWN CYFARFODYDD**

**(a) Y Panel Moderneiddio**

Yr oedd copi o adroddiad gan Mr G.F. Roberts, a oedd yn rhoi manylion am ei bresenoldeb mewn cyfarfod o'r Panel Moderneiddio a gynhaliwyd yn Rhuthun ddydd Mawrth 19eg Ebrill, 2005, wedi ei gylchredeg gyda'r papurau ar gyfer y cyfarfod.

Darparodd Mr Roberts grynodeb byr o'r adroddiad, a oedd yn amlinellu trafodion y cyfarfod. Rhannai'r Aelodau bryderon Mr Roberts ynglŷn â'r ffaith nad oedd yn glir pwy oedd â'r cyfrifoldeb am ddarparu gwybodaeth i Gynghorau Tref a Chymuned ynglŷn â rheolau a gweithdrefnau; ac awgrymwyd y dylai'r Cyngor Sir ddarparu'r cymorth gofynnol, o bosib gyda chymorth gweithdai a chyfarfodydd gyda chlercod ac ysgrifenyddion y Cynghorau priodol.

***PENDERFYNWYD*** *— derbyn a chymeradwyo'r adroddiad.*

**(b) Y Pwyllgor Archwilio Dysgu Gydol Oes**

Rhoddodd Mr G.F. Roberts wybod i'r Aelodau ei fod wedi mynd i gyfarfod o'r Pwyllgor Archwilio Dysgu Gydol Oes a gynhaliwyd ddydd Mawrth 19eg Ebrill, 2005, a chafodd copïau o adroddiad ar y cyfarfod, a oedd wedi ei gyflwyno i'r Swyddog Monitro, eu cylchredeg i Aelodau'r Pwyllgor yn y cyfarfod.

Darparodd Mr Roberts grynodeb byr o'i adroddiad, a oedd yn amlinellu trafodion y cyfarfod. Rhoddodd wybod i Aelodau'r Pwyllgor am ei bryderon, ac eglurodd ei fod o'r farn fod yna ddiffyg craffu effeithiol wedi bodoli. Fodd bynnag, yr oedd yn teimlo y byddai angen aros tan i'r Cofnodion gael eu cyhoeddi cyn cynnal unrhyw drafodaeth ar y mater hwn.

Yn ystod y drafodaeth a ddilynodd, ystyriodd yr Aelodau faint eu cylch cyfrifoldeb mewn perthynas â monitro a hyfforddiant, yn enwedig mewn perthynas â gwneud penderfyniadau dan baragraff 8 y Cod Ymddygiad (Gwrthrychedd a Phriodoldeb). Gallai diffygion yn y broses benderfynu fod yn doriad o'r Cod, ac felly'n fater safonau, a hefyd yn gamweinyddu, nad oedd gan y Pwyllgor swyddogaeth yn ei gylch.

***PENDERFYNWYD*** *— Derbyn yr adroddiad, a bod y Swyddog Monitro i ymofyn arweiniad gan yr Ombwdsmon ynglŷn â maint ei awdurdodaeth, ac adrodd yn ôl.*

**(c) Y Pwyllgor Trwyddedu**

Dywedodd y Cadeirydd ei bod wedi mynd i gyfarfod y Pwyllgor Trwyddedu a gynhaliwyd ar 27ain Ebrill, 2005. Cyfeiriodd at y modd y rhoddwyd ystyriaeth i geisiadau yn y cyfarfod, a mynegodd bryderon ynglŷn â materion a oedd yn ymwneud â'r angen i Aelodau wahaniaethu rhwng gofyn cwestiynau a gwneud datganiadau.

Cadarnhaodd y Swyddog Monitro fod yna ganllawiau caeth ar gyfer ystyried ceisiadau, a chytunodd i drafod y pryderon a fynegwyd gan y Cadeirydd gyda'r swyddogion priodol.

Mewn ymateb i gwestiwn gan Mr G.F. Roberts, cytunodd y Swyddog Monitro i ymchwilio i'r posibilrwydd o nodi enwau Cadeiryddion cyfarfodydd yn yr agendâu priodol.

***PENDERFYNWYD****:*

*(a) derbyn yr adroddiad;*

*(b) bod y Swyddog Monitro i drafod, gyda'r swyddogion priodol, y pryderon sydd wedi eu codi ynglŷn â chydymffurfiad â chanllawiau wrth drafod ceisiadau trwyddedu, ac*

*(c) bod y Swyddog Monitro'n ymchwilio i'r posibilrwydd o nodi enwau Cadeiryddion cyfarfodydd yn yr agendâu priodol.*

**11 MONITRO'R COD YMDDYGIAD**

**(i) Adroddiad Blynyddol y Pwyllgor Safonau mewn Bywyd Cyhoeddus, 2004**

Cyfeiriodd y Swyddog Monitro at gyfarfod y Pwyllgor Safonau a gynhaliwyd ar 15fed Ebrill, 2005, pan benderfynwyd:-

(a) gohirio'r eitem nes derbynnid Adroddiad Blynyddol y Pwyllgor Safonau mewn Bywyd Cyhoeddus, a

(b) cylchredeg yr adroddiad i aelodau'r Pwyllgor Safonau pan fyddai'n dod i law.

Rhoddwyd gwybod i'r Aelodau fod yr adroddiad bellach wedi dod i law, a bod copi wedi ei gylchredeg i Aelodau'r Pwyllgor Safonau cyn y cyfarfod.

Cyfeiriwyd at drefniad y ddogfen, ac awgrymodd Aelodau y gellid mabwysiadu'r diwyg hwn ar gyfer cyflwyno dogfennau tebyg yn y dyfodol.

***PENDERFYNWYD*** *— Derbyn Adroddiad Blynyddol y Pwyllgor Safonau mewn Bywyd Cyhoeddus am 2004.*

**(ii) Ymgynghoriad Llywodraeth Cynulliad Cymru ynglŷn ag adolygiad o'r Cod Ymddygiad Enghreifftiol**

Yr oedd copi o adroddiad gan y Swyddog Monitro, a oedd yn gofyn am drafodaeth ar ymateb i ymgynghoriad Llywodraeth Cynulliad Cymru, dyddiedig 28ain Ebrill, 2005, ynlŷn ag adolygiad o'r Cod Ymddygiad Enghreifftiol, wedi ei gylchredeg gyda'r papurau ar gyfer y cyfarfod.

Cadarnhaodd y Swyddog Monitro fod Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi cychwyn ei ymgynghoriad ynglŷn ag adolygu'r Cod Ymddygiad Enghreifftiol, a bod copi o'r llythyr a dderbyniwyd oddi wrth Lywodraeth Cynulliad Cymru wedi ei gynnwys yn Atodiad 1 i'r adroddiad.

Eglurodd fod adroddiad gan y Grŵp Adolygu — atodiad a oedd yn rhestru argymhellion y Grŵp Adolygu, ynghyd â chyfres o gwestiynau y gofynnwyd am ymatebion penodol iddynt — a drafft o Offeryn Statudol galluogi a fyddai'n cyfuno'r Egwyddorion Ymddygiad a'r Cod Ymddygiad Enghreifftiol gwirioneddol, wedi eu hamgáu gyda'r llythyr.

Rhoddodd Aelodau'r Pwyllgor ystyriaeth fanwl i Atodiad 1(ii) — Holiadur yr Ymgynghoriad ynglŷn â'r Adolygiad o God Ymddygiad Enghreifftiol Llywodraeth Leol yng Nghymru — ac i Atodiad 2 — Ymateb Drafft i Holiadur yr Ymgynghoriad ynglŷn â'r Adolygiad o God Ymddygiad Enghreifftiol Llywodraeth Leol yng Nghymru; a chafodd y problemau a'r materion canlynol eu codi:-

A2 (b) — Eglurodd Mr G.F. Roberts nad oedd y Pwyllgor Safonau wedi eu bodloni gan yr ymateb a dderbyniwyd yn flaenorol mewn perthynas â'r cwestiwn.

C4 — Cyfeiriodd y Swyddog Monitro at Baragraff 3 y Cod Ymddygiad drafft newydd, a oedd yn dangos y byddai'r ateb yn gadarnhaol.

C8 — Mewn ymateb i gwestiynau gan yr Aelodau, cadarnhaodd y Swyddog Monitro fod diffiniad o "weithiwr" wedi ei ddarparu.

C9 — Eglurodd y Swyddog Monitro y byddai'n bwysig diffinio'r geiriad er mwyn bodloni'r prawf cyfrinachedd.

C15 — Mewn perthynas ag addasrwydd y cyfeiriadau diwygiedig at swyddogion, yr oedd barn y Grŵp Adolygu wedi ei chefnogi.

C17 — Rhoddwyd gwybod i'r Aelodau y byddai'n fater i'r Pwyllgor ei benderfynu, ar sail teilyngdod yr achosion priodol.

C24 — Cytunodd Aelodau'r Pwyllgor Safonau y dylai'r ffigwr isafswm a fyddai'n gwneud cofrestriad yn ofynnol gael ei bennu'n lleol.

***PENDERFYNWYD*** *— y dylai'r ymateb i Ymgynghoriad Llywodraeth Cynulliad Cymru dyddiedig 28ain Ebrill, 2005 ynglŷn ag adolygiad o'r Cod Ymddygiad Enghreifftiol gael ei gyflwyno i'r Pwyllgor Rheolaeth Gorfforaethol i'w ystyried, yn amodol ar yr uchod.*

## 12 GOLLYNGIADAU

Rhoddodd y Swyddog Monitro wybod i'r Aelodau fod cais am Ollyngiad wedi ei dderbyn oddi wrth y Cynghorydd C.L. Hughes, er mwyn ei alluogi i bleidleisio ar faterion a oedd yn ymwneud â rheoli lleoedd mewn ysgolion. Rhoddodd yr Aelodau ystyriaeth i'r cais, a:–

***PHENDERFYNWYD** — bod y Pwyllgor Safonau'n caniatáu gollyngiad i'r Cynghorydd C.L. Hughes er mwyn ei alluogi i bleidleisio ar faterion sy'n ymwneud â'r adolygiad o reolaeth dros leoedd mewn ysgolion, ac eithrio mewn achosion lle mae ganddo blentyn neu ŵyr sy'n mynychu ysgol sy'n cael ei heffeithio gan y cynigion sy'n codi o'r adolygiad, neu berthynas sy'n cael ei g/chyflogi mewn ysgol o'r fath.*

**13 CYFARFODYDD Y PWYLLGOR SAFONAU I'R DYFODOL**

Nododd yr Aelodau ddyddiadau ar gyfer cyfarfodydd y Pwyllgor Safonau i'r dyfodol.

***PENDERFYNWYD** — nodi a chytuno'r amseroedd a'r dyddiadau canlynol ar gyfer cyfarfodydd y Pwyllgor Safonau i'r dyfodol:-*

*(a) Dydd Gwener, 29ain Gorffennaf, 2005 yn yr Ystafell Gynadledda, Caledfryn, Dinbych, a*

*(b) Dydd Gwener, 7fed Hydref, 2005 am 10.00 a.m. yn Ystafell Gynadledda 3, Neuadd y Sir, Rhuthun.*

Daeth y cyfarfod i ben am 12.05 p.m.

*******

## CABINET

Cofnodion cyfarfod y Cabinet a gynhaliwyd yn Ystafell Gynadledda 1, Neuadd y Sir, Rhuthun, ddydd Mawrth, 24 Mai 2005 am 10.00 a.m.

## PRESENNOL

Y Cynghorwyr S A Davies, Aelod Arweiniol dros Business & Communications; P A Dobb, Aelod Arweiniol dros Iechyd a Lles; E C Edwards, Aelod Arweiniol dros Gymunedau; R W Hughes, Leader and Aelod Arweiniol dros Adfywio; M A German, Aelod Arweiniol dros Blant a Phobl Ifanc; P J Marfleet, Aelod Arweiniol dros Gyllid a Phersonél; D Owens, Aelod Arweiniol dros Lifelong Learning; S Roberts, Aelod Arweiniol dros Hyrwyddo Sir Ddinbych; J Thompson Hill, Aelod Arweiniol dros Reoli Asedau ac Eiddo ac E W Williams, Aelod Arweiniol dros yr Amgylchedd.

Arsylwyr: Y Cynghorwyr R E Barton; J Chamberlain Jones; M Ll Davies a G C Evans.

## HEFYD YN BRESENNOL

Y Prif Weithredwr; Dirprwy Brif Weithredwr / Cyfarwyddwr Corfforaethol: Adnoddau, Clerc y Sir a'r Rheolwr Ariannol.

## YMDDIHEURIADAU

Dim.

### 14 MATERION BRYS

Dim materion brys.

### 15 COFNODION Y CABINET

Cyflwynwyd cofnodion cyfarfod y Cabinet a gynhaliwyd ar 26 Ebrill 2005.

Eitem 3 Strategaeth Gomisiynu ar gyfer Pobl Hŷn Sir Ddinbych: gofynnodd y Cynghorydd P A Dobb am newid paragraff 3 i nodi: Roedd angen datblygu'r Gwasanaethau Ailalluogi ac Ailsefydlu ymhellach. Hefyd nododd fod Sir Ddinbych yn cydweithio â Chyngor Bwrdeistref Sirol Conwy ac nid tri awdurdod cyfagos.

Eitem 5 Blaen Raglen Waith y Cabinet: Manteisiodd y Cynghorydd R W Hughes ar y cyfle i ddiolch i'r holl swyddogion am eu gwaith gyda'r Seminarau Rheoli Lleoedd Ysgol a gynhaliwyd yn ddiweddar. Ar gais y Cynghorydd E W Williams cedwir rhestr o'r Cynghorwyr hynny oedd wedi mynychu'r Seminarau. Dywedodd y Cynghorydd Hughes y byddai Seminar arall yn cael ei gynnal i sicrhau bod yr Aelodau'n parhau i dderbyn y wybodaeth ddiweddaraf.

Eitem 8 Prosiectau Cyfalaf Cymunedol: dywedodd y Cynghorydd R W Hughes y byddai'r Cynllun Corwen a ohiriwyd yn y cyfarfod diwethaf yn cael ei ystyried yng nghyfarfod y Cabinet ym mis Mehefin 2005 gan fod ariannu cyfataebol wedi'i sicrhau ar gyfer y prosiect.

***PENDERFYNWYD**, yn amodol ar yr uchod, gymeradwyo cofnodion cyfarfod y Cabinet a gynhaliwyd ar 26 Ebrill 2005 fel cofnod cywir a'u llofnodi gan yr Arweinydd.*

### 16 CYMERADWYO'R CYNLLUN GWELLA 2005-2006

Cyflwynodd y Cynghorydd R W Hughes yr adroddiad yn gofyn i'r Cabinet argymell y Cynllun Gwella 2005-2006 i'r Cyngor ym mis Mehefin 2005 i'w gymeradwyol a dirprwyo awdurdod i'r Prif Weithredwr wneud y newidiadau angenrheidiol i'r Cynllun lle bo angen, mewn ymgynghoriad â'r Arweinydd.

Dywedodd y Cynghorydd Hughes y byddai'n angen awgrymiadau i dynnu sylw at nodau'r strategaeth gymunedol a hefyd amcanion y Cyngor. Byddai arbedion effeithlonrwydd, nid toriadau, yn arwain at ffyrdd gwell o weithio. Byddai Sesiwn Gweledigaeth yr awdurdod yn cael ei chynnwys.

Cyfeiriodd y Cynghorydd E W Williams at y prosesau tendro sy'n cymryd llawer o amser, ond sy'n angenrheidiol, a gofynnodd a wnaed unrhyw arbedion o ran un ai amser neu arian o ganlyniad i hyn. Byddai'n ddefnyddiol cael adroddiad yn dangos yn union pa arbedion a wnaed. Dywedodd fod llawer o'r staff yn ystyried arbedion effeithlonrwydd fel cwtogi ar staff ond nid oedd hyn yn wir bob amser.

Dywedodd y Dirprwy Brif Weithredwr / Cyfarwyddwr Corfforaethol: Adnoddau ei fod ef a Chlerc y Sir yn gweithio ar symleiddio'r Rheolau Ariannol ond byddai rhai eitemau'n parhau'n orfodol gan eu bod yn deillio o ddeddfwriaeth, er enghraifft, materion Ewropeaidd. Rhaid dangos gonestrwydd ariannol wrth gaffael.

Cytunodd y Cynghorydd P J Marfleet â'r Dirprwy Brif Weithredwr a dywedodd ei bod yn bwysig dangos yr hyn a gyflawnwyd eisoes. Roedd Llywodraeth Cynulliad Cymru yn debygol o fod yn chwilio am arbedion effeithlonrwydd o 1% eto y flwyddyn nesaf, ac yn y blynyddoedd dilynol hefyd fwy na thebyg. Roedd angen cyflenwi gwasanaethau a sicrhau arbedion effeithlonrwydd uwch na hyn a byddai'n gweitho'n agos â'r Rheolwr Ariannol ar y gyllideb tair blynedd i gyflawni'r arbedion.

***PENDERFYNWYD*** *fod y Cabinet yn argymell y Cynllun Gwella 2005-2006 drafft i'r Cyngor ym mis Mehefin 2005 i'w gymeradwyo, a dirprwyo awdurdod i'r Prif Weithredwr wneud y newidiadau angenrheidiol i'r Cynllun lle bo angen, mewn ymgynghoriad â'r Arweinydd.*

**17 DIWEDDARIAD AR YR ASESIAD GWELLA CORFFORAETHOL**

Cyflwynodd y Cynghorydd P J Marfleet yr adroddiad i'r Cabinet nodi'r cynnydd a wnaed hyd yma a chytuno ar y gwaith sy'n parhau. Dywedodd yr ymdriniwyd â phob eitem a nodwyd fel problem neu fod swyddogion yn parhau i weithio arnynt.

Dywedodd y Cynghorydd R W Hughes y dylid gwerthuso'r Rhaglen Datblygiad Aelodau ac adolygu'r hyfforddiant i sicrhau bod Aelodau'n derbyn yr hyfforddiant sy'n ofynnol. Dywedodd y Cynghorydd P A Dobb fod y Pwyllgor Safonau wedi tynnu sylw at anghenion hyfforddiant mewn meysydd penodol i Aelodau.

***PENDERFYNWYD*** *fod y Cabinet yn nodi'r cynnydd a wnaed hyd yma a chytuno ar y gwaith sy'n parhau.*

**18 ADRODDIAD PERFFORMIAD CORFFORAETHOL CHWARTEROL YN ERBYN CYNLLUN GWELLA 2004/05**

Cyflwynodd y Cynghorydd P J Marfleet yr adroddiad yn gofyn i'r Aelodau ystyried yr Adroddiad Perfformiad Corfforaethol Chwarterol yn erbyn y Rhaglen Waith yng Nghynllun Gwella 2004 / 2005 ac anogodd yr Aelodau i fonitro'r cynnyd sy'n cael ei wneud yn erbyn risgiau corfforaethol a gwasanaeth yn ofalus, gan gyfeirio at ddangosyddion perfformiad lleol a'r cynnydd tuag at dargedau dangosyddion statudol, gyda'r nod o ystyried unrhyw fater penodol yn fwy manwl fel bo angen.

Tynnodd y Cynghorydd Marfleet sylw at ddatganiad y Rheolwr Ariannol ym mharagraff 5 a mynegodd ei bryder bod lefel mor uchel o brosiect y tu ôl i'w darged a bod y cyllid arbennig o £1m y flwyddyn dros gyfnod tair blynedd a ddarparwyd gan Lywodraeth Cynulliad Cymru i gynorthwyo gyda chyflawni'r targedau yn dibynnu ar gyrraedd y targedau hynny. Gallai unrhyw fethiant sylweddol i gyrraedd y targedau arwain at adfachu peth o'r grant a dalwyd ac roedd yr Awdurdod yn wynebu risg o adfachu cyfran sylweddol o'r £3m o gyllid grant.

O ran Cyllid, gwnaed peth cynnydd gyda chanran yr anfonebau dianghydfod a dalwyd o fewn 30 diwrnod, ond roedd angen rhagor o waith ar hyn. Roedd y cynnydd a wnaed gan y Tîm Budd-daliadau yn dda ond nid oedd llawer o'r bobl oedd yn gymwys i dderbyn budd-daliadau yn eu hawlio. Roedd yr Adran Personél yn canolbwyntio ar y system personél cyfrifiadurol newydd. Roedd rhai targedau Personél na allai'r Awdurdod wneud fawr i'w newid ac roedd rhaid edrych ar rai ohonynt yn realistig.

Dywedodd y Cynghorydd S Roberts fod Diwylliant a Hamdden wedi cyrraedd eu targedau cenedlaethol ac wedi goresgyn y dangosyddion lleol. Gwnaed cynnydd da ym mae y Celfyddydau. Serch hynny, roedd y Gwasanaeth Llyfrgell a Gwybodaeth yn wynebu galw uchel am ragor o wasanaethau TGCh ac roedd £40k wedi'i sicrhau er mwyn denu cwsmeriaid newydd i'r llyfrgelloedd. Dywedodd y Gyfarwyddwraig Gynorthwyol : Diwylliant a Hamdden fod pennu targedau yn bwysig ac yn herio'r staff i gyflenwi'r gwasanaethau.

Dywedodd y Cynghorydd S A Davies fod y Fforwm Dwyieithrwydd yn diweddaru'r Cynllun Iaith Gymraeg ar hyn o bryd. Fodd bynnag, dylid ystyried rhai ffigyrau Dangosyddion Perfformiad mewn modd mwy realistig, er enghraifft, nifer y bob sy'n pleidleisio mewn etholiadau, a oedd y tu hwnt i reolaeth yr Awdurdod.

Dywedodd y Cynghorydd E C Edwards fod Cynllun Gwella'r Cyngor yn rhoi gwell darlun o berfformiad yr Awdurdod i'r Aelodau a'r cyhoedd na rhai o'r ffigyrau yn y dangosyddion. Roedd ffigyrau troseddau treisgar ar gynnydd yn genedlaethol. Mae'r Awdurdod yn cydweithio'n agos â'r Grwpiau Llywio, gydag un ohonynt yn cael ei gadeirio gan y Prif Weithredwr. Roedd y Grwp Cymunedau Diogelwch yn perfformio'n dda yn Sir Ddinbych. Unwaith y bydd Llywodraeth Cynulliad Cymru yn newid y dangosyddion dim ond dangosydd 1.7 fydd yn parhau o dan Diogelwch Cymunedol. Dywedodd y Prif Weithredwr fod peth amrywiaeth rhwng yr adroddiad Dangosyddion Perfformiad a'r Cynllun Gwella a chytunodd mai'r ffigyrau yn y Cynllun Gwella yw'r ffigyrau cywir. Sicrhaodd yr Aelodau y byddai'r ffigyrau cywir yn cael eu cynnwys yn y Cynllun Gwella a gyhoeddir.

Dywedodd y Cynghorydd D Owens fod perfformiad disgyblion ifanc yng Nghyfnod Allweddol 1 wedi aros ar lefel cyson uchel ers 2000 ac yn y chwartel uchaf yn genedlaethol. Mewn Cyfnodau Allweddol eraill, er na chyrhaeddwyd y targedau o ran nifer o Ddangosyddion Perfformiad Statudol yn ymwneud â pherfformiad disgyblion, mae'r tueddiad mewn perfformiad yng Nghyfnod Allweddol 2 a 3 wedi dangos gwelliant ers 2000. Serch hynny, roedd y perfformiad ar lefel TGAU yn parhau'n gyson heb unrhyw gynnydd sylweddol.

O ran methu â bodloni ffigwr targed presenoldeb mewn ysgolion uwchradd Llywodraeth Cynulliad Cymru, roedd ffigyrau presenoldeb isel mewn dwy ysgol uwchradd ac un ysgol arbennig wedi cael effaith negyddol ar berfformiad y sir. Mae'r Gweithwyr Cymdeithasol Addysg yn cydlynu strategaethau mewn cydweithrediad â'r ysgolion i ymdrin â hyn. Mae ESTYN yn barnu fod ysgolion â lefel presenoldeb is na 90% yn anfoddhaol.

Roedd cryn bwysau yn parhau mewn rhai ysgolion yn ardal y glannau i gydymffurfio g argymhellion Llywodraeth y Cynulliad o gyfyngu maint dosbarthiadau i 30 o ddisgyblion. Mae'r boblogaeth symudol yn y Rhyl a phrinder dybryd llefydd mewn grwpiau blwyddyn penodol yn ysgolion y Rhyl a Phrestatyn wedi cael effaith negyddol.

Mewn ymateb i gwestiwn gan y Cynghorydd R E Barton, dywedodd y Pennaeth Gwasanaethau Addysg fod rhai targedau'n cael eu pennu ddwy flynedd ymlaen llaw gan Lywodraeth y Cynulliad. Roedd yn bwysig cofio fod gan bob ysgol broffilau unigol ar gyfer pob disgybl ac roedd gwaith yn digwydd yn barhaus gyda'r holl ysgolion i wella perfformiad. Serch hynny, nid yw'r dangosyddion yn mesur perfformiad yr Adran Addysg. Cytunodd y Pennaeth Gwasanaethau Addysg â'r Cynghorydd E W Williams y gallai grwpiau blwyddyn cymysg leddfu rhai problemau lle roedd dosbarthiadau'n cynnwys dros 30 o ddisgyblion, ond nid oedd gan y rhan fwyaf o ysgolion ddigon o le i ganiatáu i hyn ddigwydd.

Dywedodd y Cynghorydd J Thompson Hill y gwnaed cynnydd gyda chanran adeiladau'r Awdurdod sy'n agored i'r cyhoedd sy'n hygyrch i bobl anabl. Fodd bynnag, mae gwelliannau sylweddol yn ofynnol ac roedd swyddogion yn gweithio ar y gwelliannau hyn.

Dywedodd y Cynghorydd P A Dobb fod rheolwyr yn ceisio cyflawni eu targedau a'u bod yn gwneud yn well na'r cyfartaledd drwy Gymru mewn rhai achosion. Gallai peidio â bodloni'r targed gofal yn y cartref fod oherwydd bod y targed wedi'i bennu'n rhy isel i'w gyflawni. O ran nifer yr oedolion a gynorthwyir i fyw gartref nid oedd y targed yn cael ei fodloni oherwydd problemau adnoddau staffio. Bydd ôl-ddyledion rhent cyn denantiaid yn rhan o raglen donnog tair blynedd tra bo trwsio tai yn cael ei ailystyried gan yr

Adran a Gwasanaethau Contract i sicrhau bod galwadau'n cael eu cofnodi a'u dyrannu'n gywir. Y targed o ran nifer y teuluoedd digartref mewn llety dros dro oedd 5 ond y gwir nifer o deuluoedd oedd 14 ac nid yw hyn o fewn rheolaeth yr Awdurdod. Dywedodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol: Gwasanaethau Personol fod perfformiad yr Awdurdod o ran digartrefedd yn galonogol a bod y niferoedd mewn llety gwely a brecwast yn lleihau. Mae gan Sir Ddinbych y perfformiad gorau yng Nghymru o ran cyfradd oedi trosglwyddo gofal am resymau cymdeithasol am bob 1,000 o'r boblogaeth 75 oed a throsodd a'i fod wedi goresgyn y targed.

Dywedodd y Cynghorydd M A German y disgwylir adroddiad cadarnhaol gan Arolygiaeth Safonau Gofal Cymru. Roedd yr adnoddau staffio yn parhau hdan bwysau ond bod y staff yn llwyr ymroddedig i ddarparu gwasanaeth da.

Dywedodd y Cynghorydd E W Williams nad oedd yr Awdurdod yn cyrraedd ei dargedau tai fforddiadwy. Roedd nifer y tunelli o wastraff i safleoedd tirlenwi yn parhau i fod yn broblem allweddol ond roedd yr Awdurdod wedi llwyddo i gyrraedd y trothwy. Dywedodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol: Yr Amgylchedd nad yw ystadegau gwasanaeth dinesig yn dangos y darlun llawn bob amser.

Roedd gwaith da yn parhau yn yr Adran Trafnidiaeth. Nid oedd Cynllunio wedi cyflawni eu targedau yn y 3 chwarter diwethaf ac roedd angen gwella ond roedd cynnydd sylweddol yn nifer y ceisiadau sy'n dod i law.

Bodlonwyd y targed archwiliadau diogelwch bwyd o ganlyniad i ymdrech lew gan y staff. Roedd yr Adran Iechyd yr Amgylchedd yn parhau i wynebu anawsterau recriwtio a chadw staff. Cytunwyd y dylai LPA14 fod yn enw'r Cynghorydd Hughes.

Dywedodd y Cynghorydd R W Hughes nad yw'r Dangosyddion Perfformiad yn monitro materion Ewropeaidd ac nad oedd y cyllid sy'n cael ei sicrhau gan yr Awdurdod yn cael ei fesur. Gobeithir y bydd y system newydd yn cynnwys hyn.

Dywedodd y Cynghorydd P J Marfleet fod yr adroddiadau gan yr Aelodau wedi canolbwyntio'n bennaf ar y llwyddiannau a'i bod yn beth da dathlu'r llwyddiant hwnnw, ond pwysleisiodd yr angen i gofio sylw'r Rheolwr Ariannol ym mharagraff 5 yr adroddiad a chymryd camau gweithredu cadarn o ran y materion hyn yn y dyfodol.

Gan fod Llywodraeth y Cynulliad wedi newid y dull adrodd ar y dangosyddion, dywedodd y Prif Weithredwr y dylid pennu tua 20-30 o dargedau ystyrlon ar gyfer 2005-2006 gydag adroddiadau chwarterol. Roedd angen monitro'r targedau'n fwy trwyadl a chynnwys sylwadau. Byddai'n ofynnol trafod hyn ymhellach.

Dywedodd y Dirprwy Brif Weithredwr / Cyfarwyddwr Corfforaethol: Adnoddau ei bod yn hanfodol fod yr Aelodau Arweiniol yn cofio'r cytundeb ar y cyd a lofnodwyd gan Lywodraeth y Cynulliad a'r Awdurdod wrth weithio ar y materion hyn.

***PENDERFYNWYD** fod yr Aelodau'n nodi'r cynnydd o ran yr adroddiad Perfformiad Corfforaethol Chwarterol yn erbyn y Rhaglen Waith yn y Cynllun Gwella 2004-2005.*

**19 Y RHYL: HARBWR Y FORYD**

Cyflwynodd y Cynghorydd J Thompson Hill yr adroddiad i'r Cabinet dderbyn yr astudiaeth dichonoldeb a gynhyrchwyd gan Mouchel Parkman Ltd ac i gymeradwyo gwariant ar wella a datblygu Harbwr y Foryd o'r arian digolleud i'w dderbyn gan weithredydd y fferm wynt ar y môr. Ni fyddai unrhyw gost i'r Awdurdod i gyllido'r datblygiad hwn ar hyn o bryd.

Cytunodd yr Aelodau gyda'r Cynghorydd E W Williams y dylid dileu'r paragraff yn dechrau "Pob blwyddyn..." ym mharagraff 7.1 o'r adroddiad.

Dywedodd y Cynghorwyr S Roberts a J Chamberlain Jones eu bod yn cenfogi'r datblygiad ac yn cytuno â sylwadau'r Cyfarwyddwr Corfforaethol: Yr Amgylchedd bod yr astudiaeth yn cyflwyno dull cam wrth cam i ddatblygiad catalyst i sicrhau gwelliannau yn y Rhyl. Dywedodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol: Yr Amgylchedd fod cais Amcan Un wedi'i gyflwyno ym mis Mai 2004 a'u bod yn parhau i aros am ymateb oddi wrth Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru (WEFO). Dywedodd y Cynghorydd E C Edwards y disgwylir cyhoeddiad yn ddiweddarach yn yr wythnos.

Pwysleisiodd y Cynghorydd E C Edwards yr angen i weithio'n agos â Chyngor Bwrdeistref Sirol Conwy. Cadarnhaodd y Swyddog Datblygu fod cynrychiolwyr o Gonwy a Chyngor Tref Bae Cinmel yn aelodau o Fforwm Defnyddwyr Harbwr y Foryd a bod Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy wedi rhoi caniatâd cynllunio.

Manteisiodd y Cynghorydd E C Edwards ar y cyfle i ddiolch i Kevin Edwards, y Prif Swyddog Ewropeaidd, a'i dîm yn sicrhau grantiau i'r Awdurdod.

***PENDERFYNWYD*** *fod y Cabinet yn derbyn yr astudiaeth dichonoldeb a gynhyrchwyd gan Mouchel Parkman Ltd ac awdurdodi gwariant ar wella a datblygu Harbwr y Forwy i'w gyllido o'r arian digolledu i'w dderbyn gan weithredydd y fferm wynt ar y môr.*

Ar y pwynt hwn (11.30 a.m.) gohiriwyd y cyfarfod am 10 munud er mwyn i'r Aelodau gael paned.

**20 ASTUDIAETH ADFYWIO GORLLEWIN Y RHYL**

Cyflwynodd y Cynghorydd J Thompson Hill yr adroddiad i'r Aelodau dderbyn y Brîff Strategaeth Adfywio Gorllewin y Rhyl ynghlwm yn Atodiad 1, ac ystyried goblygiadau'r brif ddogfen strategaeth. Hefyd gofynnwys i'r Cabinet awdurdodi swyddogion i gynnal trafodaethau gydag Awdurdod Datblygu Cymru ynghylch dull menter ar y cyd o weithredu'r Strategaeth a dechrau'r broses pryniant gorfodol yn erbyn eiddo penodol a nodwyd yn yr adroddiad, fel a ddangoswyd yn y cynllun ynghlwm â'r adroddiad, gan un ai ddefnyddio pwerau pryniant gorfodol y Cyngor Sir neu rhai Awdurdod Datblygu Cymru.

Pwysleisiodd y Cynghorydd Thompson Hill fod y pwerau pryniant gorfodol yn benderfyniad 'mewn egwyddor' yn unig, ac y byddai safleoedd penodol a allai fod yn destun gorchymyn pryniant gorfodol yn cael eu cyfeirio i'r pwyllgor perthnasol am benderfyniad.

Dywedodd y Cynghorydd P J Marfleet, tra'n cefnogi safbwynt y Cynghorydd S Roberts ar yr hyn fyddai'r gwelliannau yn ei wneud i'r Promenâd, ei fod sicrhau nad oedd unrhyw wahaniaethu rhwng Awdurdod Datblygu Cymru a'r Awdurdod ar unrhyw un o'r meysydd yn yr astudiaeth. Cytunodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol: Yr Amgylchedd i nodi pryderon y Cynghorydd Marfleet ynghylch ardal benodol o'r safle ac y byddai'r mater yn cael ei ddwyn gerbron yr Aelodau eto i'w ystyried.

Mewn ymateb i ymholiad gan y Cynghorydd P A Dobb, cadarnhaodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol: Yr Amgylchedd nad oedd Datganiad y Rheolwr Ariannol yn yr adroddiad yn berthnasol i'r adroddiad presennol a dylai fod wedi'i ddiweddaru. Esboniodd yr angen am Orchmynion Pryniant Gorfodol a dywedodd fod yr Awdurdod yn dymuno gwella parth y cyhoedd yn yr ardal.

Dywedodd y Cynghorydd E C Edwards y dylai'r Adran Datblygu Economaidd fod yn rhan o'r datblygiadau a bod angen gweledigaeth economaidd yn ogystal â thai gwella.

***PENDERFYNWYD*** *fod y Cabinet:*

*[a] yn derbyn Strategaeth Adfywio Gorllewin y Rhyl ynghlwm yn Atodiad 1 i'r adroddiad ac yn cefnogi gweithredu'r cynllun meistr a gynhwysir yn y Strategaeth, yn amodol i ragor o waith wrth i'r cynigion esblygu;*

*[b] awdurdodi swyddogion i gynnal trafodaethau gydag Awdurdod Datblygu Cymru o ran trefniadau menter ar y cyd i roi'r cynllun meistr a'r Strategaeth ar waith;*

*[c] cefnogi defnyddio pwerau pryniant gorfodol Cyngor Sir Ddinbych o ran eiddo penodol a nodwyd yn Strategaeth Adfywio Gorllewin y Rhyl fel a ddangoswyd yn y cynllun ynghlwm â'r adroddiad. Bod yr Aelodau'n nodi'r materion penodol yn ymwneud â safle Ocean Beach, a gynhwyswyd yn yr adroddiad, a*

*[ch] cytuno, cyn cyhoeddi gorchmynion pryniant gorfodol neu brynu gwirfoddol eiddo unigol, bydd rhagor o adroddiadau yn cael eu cyflwyno gerbron y Pwyllgor Rheoli Asedau neu'r Cabinet i'w hystyried.*

**21 CYNLLUN CYDRADDOLDEB YN CYNNWYS Y CYNLLUN CYDRADDOLDEB HIL DIWYGIEDIG 2005-2008**

Cyflwynodd y Cynghorydd S A Davies yr adroddiad yn gofyn i'r Cabinet gymeradwyo Cynllun Cydraddoldeb Corfforaethol y Cyngor yn cynnwys y Cynllun Cydraddoldeb Hil Diwygiedig 2005-2008. Pwysleisiodd y dylid gweithredu'r cynllun mewn modd rhesymol.

Adroddodd y Swyddog Cydraddoldeb y byddai targed diwygiedig i SD11 a bod yr Adran Personél yn gweithio ar gynllun peilot sef grwp cymorth a chefnogaeth i staff o ran EDR6. Ni fu'n bosibl derbyn sylwadau llawn gan y Grwp Mynediad Anabledd.

***PENDERFYNWYD** fod y Cabinet yn cymeradwyo Cynllun Cydraddoldeb Corfforaethol y Cyngor yn cynnwys y Cynllun Cydraddoldeb Hil Diwygiedig 2005-2008.*

**22 CYNLLUN CYFALAF 2004-2005**

Cyflwynodd y Cynghorydd P J Marfleet yr adroddiad i'r Aelodau nodi'r alldro terfynol darpariaethol o ran gwariant cyfalaf yn 2004-2005.

Dywedodd y Cynghorydd Marfleet fod llithriad cynlluniau cyllid cyffredinol wedi cynyddu o £3.9m i £4.89m, yn rhannol oherwydd adfer y dyraniadau bloc a chyfradd araf hawlio grantiau prosiectau cymunedol. Dywedodd fod y sefyllfa yn ei chyfanrwydd yn cynnwys cynlluniau cyllid arbennig yn arwain at lithriad o £13m mewn rhaglen a amcangyfrifwyd ei bod gwerth bron i £33m. Roedd yn hanfodol cynnal gwaith rhagfynegi realistig ac unrhyw lithro tebygol yn cael ei nodi yn llawer cynharach yn y flwyddyn. Byddai nodi llithriadau yn gynnar yn caniatáu ystyried y cyfalaf ar gynlluniau eraill yn y cynllun cymeradwy yn y blynyddoedd diweddarach. Pwysleisiodd yr angen i Aelodau Arweiniol drafod y sefyllfa gyda'r Penaethiaid Gwasanaeth.

Dywedodd y Cynghorydd P A Dobb fod peth o'r llithro oherwydd y problemau adnoddau staffio yn y Gwasanaethau Dylunio. Roedd yn gobeithio y byddai'r rhaglen uwchraddio tai yn cadw at ei hamserlen.

Awgrymodd y Cynghorydd R W Hughes ffurfio Grwp Gorchwyl a Gorchwyl bach, yn cynnwys Cadeirydd y Pwyllgor Archwilio Adnoddau, i ystyried y rhesymau am lithriad y Cynllun Cyfalaf.

Dywedodd y Cynghorydd E C Edwards ei fod yn cefnogi cadw unrhyw waith dylunio yn fewnol os yn bosibl ond na ellid cynnal yr Adran am gyfnod maith gyda staff dros dro yn bennaf. Os oedd y tîm Gwasanaethau Dylunio yn cael eu gorlwytho â gwaith byddai'n rhaid prynu peth gwasanaethau dylunio allanol. Dywedodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol: Yr Amgylchedd fod y Rheolwr Eiddo newydd i fod i ddechrau ar ei swydd ymhen 3 - 4 mis, a ddylai gynorthwyo i leddfu'r problemau.

***PENDERFYNWYD** fod y Cabinet yn nodi'r ffigyrau terfynol darpariaethol o ran Cynllun Cyfalaf 2004-2005. Bod yr Aelodau'n cytuno sefydlu Grwp Gorchwyl a Gorffen Bach, i gynnwys Cadeirydd y Pwyllgor Archwilio Adnoddau.*

**23 ALLDRO DARPARIAETHOL Y GYLLIDEB REFENIW 2004-2005**

Cyflwynodd y Cynghorydd P J Marfleet yr adroddiad i'r Aelodau nodi ffigyrau terfynol darpariaethol y Gyllideb Refeniw 2004-2005 fel a nodwyd yn yr atodiadau i'r adroddiad.

Roedd y ffigyrau darpariaethau yn dangos sefyllfa tanwariant net yn arwain at gyfrannu £70k i'r cronfeydd wrth gefn, ond y gobaith oedd gwella ar y ffigwr hwn pan adroddir y ffigyrau terfynol ym mis Gorffennaf 2005.

Llongyfarchodd y Cynghorydd Marfleet y Gyfarwyddiaeth Dysgu Gydol Oes ar y gwelliannau o ran y gorwario. Dywedodd fod costau Adran y Prif Weithredwr ar gyfer y flwyddyn hon yn unig ac ni fyddent yn cael eu cario drosodd. Roedd Rheolaeth Trysorlys yn yr Awdurdod yn dda ac roedd gwella'r llif arian wedi arwain at gynnydd yn yr incwm buddsoddi.

Er bod ganddo bryderon dwys yn gynharach yn y flwyddyn, roedd yn falch o adrodd canlyniad gwella na'r hyn a ragfynegwyd ac roedd yn gobeithio cychwyn y flwyddyn newydd gyda dalen lân. Er bod arbedion effeithlonrwydd wedi'u cyflawni eisoes gobethiai y byddai'r adrannau yn adeiladau ar y rhain, a llongyfarchodd y swydddogion a'r holl staff ar eu gwaith.

***PENDERFYNWYD*** *fod yr Aelodau'n nodi'r ffigyrau yn yr adroddiad.*

**24 CYLLIDEB CYFRIF REFENIW TAI 2004/2005**

Cyflwynodd y Cynghorydd P A Dobb yr adroddiad i'r Aelodau nodi rhagfynegiad y sefyllfa alldro ariannol diweddaraf o ran y Cyfrif Refeniw Tai 2004-2005 a chymeradwyo clustnodi £326,216 o falansau Cyfrif Refeniw Tai i wneud cyfraniad refeniw i'r Rhaglen Gyfalaf Tai yn 2005-2006.

Dywedodd y Cynghorydd Dobb fod y rhaglen gyfalaf ar ei hôl hi, o ganlyniad i orfod ail-dendro gwaith. Disgwylid y byddai ôl-groniad y gwaith rhaglen gyfalaf yn dechrau ym mis Mehefin 2005 ac y byddai gwerth £8.5m o waith yn cael ei gyflawni dros y ddwy flynedd nesaf.

Cytunwyd na fyddai'r ffigyrau digartrefedd a ffigyrau eraill na chynhwysir yn y Cyfrif Refeniw Tai yn cael eu cynnwys yn adroddiadau'r Gyllideb Cyfrif Refeniw Tai yn y dyfodol. Byddai dyrannu costau cymorth llawn yn cysoni'r newidiadau hyn.

***PENDERFYNWYD*** *fod y Cabinet yn nodi rhagfynegiad y sefyllfa alldro ariannol ddiweddaraf o ran y Cyfrif Refeniw Tai 2004-2005 a chymeradwyo clustnodi £326,216 o falansau Cyfrif Refeniw Tai er mwyn gwneud cyfraniad refeniw i'r Rhaglen Gyfalaf Tai yn 2005-2006.*

**25 PROSIECTAU CYMUNEDOL: NEUADD YR EGLWYS CLOCAENOG**

Cyflwynodd y Cynghorydd P J Marfleet yr adroddiad yn gofyn am gymeradwyaeth i ailddyrannu'r grant i Neuadd yr Eglwys Clocaenog a gymeradwywyd gan y Cabinet ar 26.11.2002.

Dywedodd y Cynghorydd E W Williams fod Grwp Neuadd yr Eglwys wedi derbyn rhagor o gyllid nag a ragwelwyd yn wreiddiol tuag at y prosiect. Roedd y prosiect newydd yn cael ei gyflwyno i ddefnyddio'r cyllid heb ei ddyrannu.

***PENDERFYNWYD*** *fod y Cabinet yn cefnogi'r argymhelliad i ailddyrannu'r cyfran heb ei wario o'r grant gwreiddiol i Neuadd yr Eglwys Clocaenog i'w ddefnyddio i gwblhau'r prosiect.*

**26 COMISIWN DIGWYDDIADAU**

Cyflwynodd y Cynghorydd S Roberts yr adroddiad yn gofyn i'r Cabinet gytuno i lofnodi'r cytundeb cydweithredu ynghlwm yn Atodiad 1 ac i gymryd rhan lawn ym mhartneriaeth y Comisiwn Digwyddiadau. Hefyd gofynnwyd i'r Aelodau gytuno i enwebu'r Aelod Arweiniol dros Hyrwyddo Sir Ddinbych a'r Cyfarwyddwraig Cynorthwyol: Diwylliant a Hamdden i ymuno â bwrdd rheoli'r Comisiwn Digwyddiadau.

Trafododd yr Aelodau y digwyddiadau'n gyffredinol a dywedodd y Cyfarwyddwraig Cynorthwyol: Diwylliant a Hamdden nad oedd yn bosibl newid y digwyddiadau gan eu bod yn rhan o ddatblygiad Amcan 1. Gobeithid ehangu'r digwyddiadau a gynhelir yn Arena Digwyddiadau y Rhyl fel rhan o'r categorïau rhanbarthol. Byddai pob sefydliad yn enwebu eu digwyddiad eu hunain ond roedd y rhain yn

ddarostyngedig i feini prawf nifer y gynulleidfa. Serch hynny, byddai'r holl ddigwyddiadau yn hyrwyddo ei gilydd.

Awgrymodd y Cynghorydd E W Williams y gallai Eisteddfod yr Urdd neu'r Eisteddfod Genedlaethol neu Wyl Fwyd Sir Ddinbych ffurfio rhan o'r digwyddiadau. Dywedodd y Cyfarwyddwraig Cynorthwyol: Diwylliant a Hamdden y byddai'n rhaid ystyried rheolau Amcan 1 ynghylch ariannu cyfatebol, ynghyd â'r calendr digwyddiadau.

Dywedodd y Cynghorydd D Owens ei fod wrth ei fodd o weld cydweithredu rhwng gwahanol sefydliadau yng Ngogledd Cymru, yn enwedig o ran Cwpan Hŷn a Chwpan Her y Gwpan Ryder.

Mewn ymateb i ymholiad dywedodd y Cynghorydd E C Edwards fod twrnamaint Cwpan Hŷn y Gwpan Ryder yn cael ei chynnal yn Harlech bob amser.

***PENDERFYNWYD*** *fod y Cabinet yn cytuno i lofnodi'r cytundeb cydweithio ynghlwm yn Atodiad 1 i'r adroddiad a chymryd rhan lawn ym mhartneriaeth y Comisiwn Digwyddiadau. Hefyd cytunodd y Cabinet i enwebu'r Aelod Arweiniol dros Hyrwyddo Sir Ddinbych a'r Cyfarwyddwraig Cynorthwyol: Diwylliant a Hamdden i ymuno â bwrdd rheoli'r Comisiwn Digwyddiadau.*

**27 BLAEN RAGLEN WAITH Y CABINET**

Cyflwynodd y Cynghorydd S A Davies yr adroddiad i'r Aelodau nodi Blaen Raglen Waith y Cabinet.

Gofynnodd y Dirprwy Brif Weithredwr / Cyfarwyddwr Corfforaethol: Adnoddau i'r Aelodau nodi fod y Rhaglen wedi'i chynhyrchu mewn fformat gwahanol. Fel arfer y swyddog arweiniol yw'r Pennaeth Gwasanaeth perthnasol. Mae'n bwysig bod Aelodau Arweiniol a swyddogion yn cynllunio gwaith yn effeithiol ac roedd yn hanfodol bwysig cynnwys yr Aelodau Arweiniol ar gam cynnar yn y gwaith.

***PENDERFYNWYD*** *fod y Cabinet yn nodi cynnwys y Blaen Raglen Waith.*

**28 EITEMAU BRYS**

Dim eitemau brys.

**GWAHARDD Y WASG A'R CYHOEDD**

***PENDERFYNWYD*** *dan Adran 100A(4) o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972 y dylid gwahardd y wasg a'r cyhoedd o'r cyfarfod ar gyfer yr eitemau busnes a ganlyn ar y sail eu bod yn cynnwys y tebygolrwydd o ddatgelu gwybodaeth eithriedig fel a ddiffinnir ym mharagraffau 7, 8 a 9 yn Rhan 1 Atodlen 12A o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972.*

**RHAN II**

**29 YSTYRIED DEWISIADAU CYLLIDO AR GYFER DATBLYGIAD Â GOFAL YCHWANEGOL YM MHRESTATYN**

Cyflwynodd y Cynghorydd P A Dobb yr adroddiad yn gofyn i'r Cabinet ystyried sut i fwrw ymlaen gyda datblygu Datblygiad Tai â Gofal Ychwanegol ym Mhrestatyn gyd'r dewisiadau cyllido presennol.

Bu'r Aelodau'n trafod y dewisiadau a amlinellwyd yn yr adroddiad a chytunwyd i gynnal trafodaethau gyda'r sefydliad nid er elw, HICA Life Developments. Byddai angen cefnogaeth y Bwrdd Iechyd lleol a thrigolion lleol.

Dywedodd y Cynghorydd E C Edwards ei fod wrth ei fodd yn eilio'r cynnig, a fyddai'n arwain at ddatblygu cynllun tai â gofal ychwanegol i'r Awdurdod ar gyfer pobl leol. Yn benodol gobeithiai y byddai hyn yn arwain at gynllun â gofal ychwanegol i Awelon, Rhuthun a Chysgod y Gaer, Corwen. Llongyfarchodd yr Aelod Arweiniol a'r Cyfarwyddwr Corfforaethol: Gwasanaethau Personol ar yr adroddiad.

Dywedodd y Cynghorydd P J Marfleet fod y cyflwyniad gan y cwmni mewn cyfarfod blaenorol wedi gwneud argraff arno a'i fod yn gobeithio y byddai gan y cwmni ddiddordeb mewn datblygu unedau atodol.

Dywedodd y Cynghorydd J Thompson Hill ei fod yntau'n croesawu'r cynnig ond pwysleisiodd yr angen am fewnbwn yr Awdurdod i ddyluniad unrhyw adeiladwaith er mwyn sicrhau eu bod yn cyd-fynd â'r gymdogaeth leol. Hefyd pwysleisiodd yr angen i gynnwys y gymuned yn y broses mor gynnar â phosibl yn y datblygiad. Cytunodd y Cynghorydd M A German y dylai'r Aelodau a'r gymuned lleol fod yn rhan o'r hyn roedd ef yn ei ystyried yn brosiect gwerth chweil.

Mewn ymateb i ymholiadau gan yr Aelodau, dywedodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol: Gwasanaethau Personol y byddai cyfamodau cyfreithiol yn cael eu cynnwys mewn unrhyw gytundebau i sicrhau mai dim ond y rhai dros 55 oed fyddai'n gallu prynu neu rentu'r unedau, fwy na thebyg ar ffurf cytundeb cynllun tai cysgodol. Ar ôl rhagor o drafodaeth cytunodd yr Aelodau i ddiwygio argymhelliad 8.2 fel a ganlyn:

***PENDERFYNWYD*** *fod y Cabinet yn cytuno:*

*[a]* *i fwrw ymlaen â datblygiad Tai â Gofal Ychwanegol ym Mhrestatyn, a*

*[b]* *cynnal trafodaethau â HICA Life Developments ac ymgynghori ymhellach â'r gwasanaethau iechyd, gyda'r nod o ddatblygu cymuned ymddeol, yn cynnwys cynllun tai â gofal ychwanegol, ym Mhrestatyn.*

Gorffennodd y cyfarfod am 1.10 p.m.

*********

## PWYLLGOR CYNLLUNIO

Cofnodion cyfarfod o'r Pwyllgor Cynllunio a gynhaliwyd yn Siambr y Cyngor, Rhuthun ar 25$^{ain}$ Mai 2005.

## PRESENNOL

Cynghorwyr. S. Thomas (Cadeirydd), J.R. Bartley, R.E. Barton, J. Butterfield, J. Chamberlain-Jones, J.M. Davies, M.Ll. Davies, S.A. Davies , G.C. Evans, H.H. Evans S. Frobisher, I.M. German, M.A. German, D. Hannam, K.N. Hawkins, T.K. Hodgson, T.R. Hughes, E.R. Jones, H. Jones, G.M. Kensler, P.W. Owen, N.P. Roberts, J. Thompson-Hill, M.A. Webster, C.H. Williams, E.W. Williams, R.Ll. Williams

## HEFYD YN BRESENNOL

Pennaeth Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd, Rheolwr Gwasanaethau Cyfreithiol, Rheolwr Rheoli Datblygu, Arweinydd Tîm (Prif Gymwysiadau), Uwch Swyddog Cefnogi (G. Butler) Swyddog Gweinyddol (Judith Williams) a Sandra Williams (Cyfieithydd)

## YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB

Cynghorwyr: D. Jones a D.A.J. Thomas

### 30 PENODI CADEIRYDD

Penodwyd y Cynghorydd Selwyn Thomas yn Gadeirydd ar gyfer y flwyddyn i ddod.

### 31 PENODI IS-CADEIRYDD

Penodwyd y Cynghorydd Lloyd Williams yn Is-Gadeirydd ar gyfer y flwyddyn i ddod.

### 32 MATERION BRYS

NEWID AELODAETH

Cyhoeddodd Rheolwr Gwasanaethau y byddai'r Cynghorwyr M.Ll. Davies ac G. Kensler yn cymryd lle'r Cynghorwyr M. Jones ac N. Hughes ar y Pwyllgor Cynllunio'n ddi-oed.

### 33 CEISIADAU CANIATÂD DATBLYGU

Atgoffodd y Rheolwr Rheoli Datblygu y pwyllgor, gan nad oedd y gwaith wedi ei gwblhau yng nghyfarfod Ebrill 20$^{fed}$, y byddai'r rhan gyntaf o'r cyfarfod yn ymdrin â'r 11 eitem na phenderfynwyd yn y cyfarfod hwnnw.

Roedd disgwyl i'r cyfarfod barhau hyd y prynhawn, a byddai cinio canol dydd yn cael ei ddarparu.

(i) Caniatâd

| Rhif Cais | Disgrifiad |
|---|---|
| 01/2005/0125/PF | Newidiadau i adeiledd to presennol i ffurfio to mansard ar gyfer dihangfa mewn achos tân ac amnewid y fframiau ffenestri diffygiol presennol.<br>**Regency 21 Stryd y Bont, Dinbych**<br>Amod Ychwanegol 2 ac Amodau Diwygiedig 5 a 6<br>2. "Caniateir mynediad i'r to gwastad mewn argyfwng yn unig, a rhaid cael caniatâd yr Awdurdod Cynllunio Lleol ar gyfer unrhyw bwrpas arall,<br>5. "a'i baentio'n ddu; a rhaid paentio'r preniau soffitiau ac astellau tywydd yn ddu" diddymu - ")"<br>6. Ychwanegu "dim ond siliau ffenestri cymeradwy i'w defnyddio". |

| | |
|---|---|
| 21/2005/0131/PC | Cadw sied Storio (cais ôl-weithredol).<br>**Y Maes Chwarae cyffiniol â 5 Rock View, Ffordd Pentref, Maeshafn, Yr Wyddgrug**<br>Yn Amodol ar yr Amod Diwygiedig<br>3. Rhaid defnyddio'r lloches yn unig ar gyfer storio cyfarpar sy'n cael ei ddefnyddio ar gyfer cynnal a chadw'r maes chwarae, a dim arall. |
| 23/2004/1451/PF | Adeiladu porthiant/da byw porth fframiog dur ac adeilad peiriannau<br>**Fferm Glan Aber Llanrhaeadr Dinbych** |
| 45/2004/1468/PF | Newid defnydd preswyl i ganolfan hyfforddi/canolfan dydd a fflat<br>**5 Stryd Abaty, Rhyl** |
| 45/2005/0060/PS | Datganodd y Cynghorydd Selwyn Thomas ddiddordeb yn y cais canlynol a gadawodd y Siambr yn ystod trafodaeth ar y mater.<br>Amrywiad o Ystyriaeth Rhif 1ar ganiatâd cynllunio Rhif Cyf. 4370 er mwyn caniatáu parc carafannau i agor rhwng 28ain Chwefror a 14eg Ionawr mewn unrhyw un flwyddyn<br>**Parc Carafannau Mountain View 423-425 Ffordd yr Arfordir, Rhyl**<br>Yn amodol ar yr Amod Ychwanegol a Nodyn i'r Ymgeisydd<br>2. Dim parcio, llwytho, na dadlwytho ar flaengwrt yr adeiladau yng nghyswllt y defnydd cytunedig.<br>RHESWM: Er lles diogelwch ar y ffordd.<br>Nodyn i'r Ymgeisydd<br>Tynnir eich sylw at y Nodau Priffordd canlynol: 1, 3, 4, 5 a 10<br>(Pleidleisiodd y Cynghorydd T.R. Hughes yn erbyn caniatáu'r cynllunio). |
| 45/2005/0115/PF | Newid defnydd o fân-werthu (Dosbarth A1) i ganolfan hyfforddi ieuenctid a swyddfeydd cymunedol<br>**69/71 Ffordd Wellington a 1 Stryd Elwy Rhyl** |
| 45/2005/0122/PF | Ar ôl derbyn 1 llythyr cais ychwanegol gan Gyngor Tref Rhyl<br>**77 Ffordd Dyserth Rhyl**<br>Adeiladu estyniad tri llawr ar flaen cartref nyrsio (wedi ei ddiwygio o gynllun cymeradwy blaenorol) Cyf.45/474/99/PF) |
| 01/2005/0332/PS | **Llefarydd Cyhoeddus ar Ran: Terry Hughes**<br>Ar ôl derbyn 1 llythyr cais ychwanegol gan D Watkin Jones Maes y Parc Dinbych<br>Gwelliannau i Amodau 10 a 11 ar gais cynllunio<br>A) Newid adeiladau Iard Cerbydau blaenorol, Lleweni, i 11 uned preswyl (Rhif Cod 01/2001/0603/PF), a<br>B) Newid Stablau ac Ysguboriau blaenorol, Lleweni, i 5 uned preswyl (Rhif Cod 01/2000/0993/PF) yn berthnasol i drefniadau mynediad arfaethedig, a wnelo ag adeiladu llwybr mynediad newydd o Ffordd Yr Wyddgrug drwy'r Cae Gleidio<br>**Iard Cerbydau, Stablau ac Ysguboriau Yn Lleweni Ffordd yr Wyddgrug, Dinbych** |
| 02/2005/0250/AD | Ar ôl derbyn 1 llythyr cais ychwanegol gan: Gyngor Cymuned Llanynys.<br>Arddangos 2 arwydd rhif (ôl-weithredol)<br>**Ruthin Precast Concrete Ltd Cae Chwarel Rhewl Rhuthun** |
| 03/2004/1592/PF | **Llefarydd Cyhoeddus ar Ran: Kenneth Forman**<br>Manylion diwygiedig y cynllun newid tai allan i adeiladu 2 uned breswyl, a gymeradwywyd yn flaenorol o dan y rhif cod |

| | |
|---|---|
| | 03/2002/0337/PF, creu uned breswyl unigol, a gosod tanc septig newydd<br>**The Coach House & Stables Plas Berwyn Llangollen** |
| 03/2004/1593/LB | Manylion diwygiedig cynllun newid tai allan i adeiladu un breswylfa (Cais Adeilad Rhestredig)<br>**The Coach House & Stables Plas Berwyn Llangollen**<br>Yn amodol ar yr Amodau Diwygiedig<br>6. "a rhaid cyflawni'r gwaith yn unol â'r manylion cymeradwy".<br>8. Ychwanegu, "defnyddio manylion cymeradwy'n unig". |
| 06/2004/0505/PF | Ar ôl derbyn 3 llythyr cais ychwanegol gan: Dŵr Cymru, H Evans & M Ll. Owen, Pennant Gwyddelwern<br>Dymchwel tŷ allan presennol, adeiladu 2 breswylfa a newidiadau i fynediad pedestraidd presennol ac adeiladu mynedfa cerbydau newydd i bob eiddo (ailgyflwyno cais a wrthodwyd yn flaenorol o dan y rhif cod 06/2003/0855/PF)<br>**Grove House Gwyddelwern Corwen**<br>Yn amodol ar Nodyn Ychwanegol i'r Ymgeisydd<br>Gwneir cais i chi ymchwilio gyda Dŵr Cymru i broblem ynglŷn â draeniad budr yng nghyffiniau agos safle'r cais. Rhaid datrys y broblem leoledig cyn gwneud unrhyw gysylltiad pellach i'r garthffos gyhoeddus. |
| 15/2005/0143/PC | **Llefarydd Cyhoeddus ar Ran: Glenys Roberts (Cyngor Cymuned)**<br>Cadw carafán sefydlog ar derfyn dwyreiniol A.O. Rhif Maes 967<br>**Parc Carafannau Eryrys Bryn Awelon Eryrys Yr Wyddgrug** |
| 17/2005/0410/PS | **Llefarydd Cyhoeddus yn Erbyn: Robert Hargreves**<br>Ar ôl derbyn 4 llythyr cais ychwanegol gan: Pennaeth Trafnidiaeth ac Isadeiledd; B Hargreaves ac J Williams, Bryn Eithin Bwlchgwyn, S Morris, Fferm Hafod, Ffordd y Mynydd, Minera<br>Amrywiad ar Amod 8(g) caniatâd cynllunio ar gyfer Canolfan Beiciau Mynydd, i ddarparu cyfuniad o arwyddo a manylyn adeiladu mynedfa i nacáu mynediad ar hyd yr Hen Ffordd Rufeinig o'r B5430, i welliant Gorchymyn Traffig Ffordd<br>**Coed Llandegla Wrecsam**<br>Yn Amodol ar Amodau Diwygiedig<br>1. a) Diddymu "arwydd a "; a diwygio "access tracks have" i'r unigol "access tracks has".<br>Newid "b)" i "c)" a mewnosod y canlynol;<br>b) Cafwyd cymeradwyaeth ysgrifenedig yr Awdurdod Cynllunio Lleol ynglŷn â chynnwys, math, a lleoliad manwl yr holl arwyddion traffig arfaethedig i'w codi, ac mae'r arwyddion wedi eu codi,<br>2. Diwygio'r holl gyfeirnodau i "2007" i ddarllen "2006" |
| 21/2005/0344/PF | **Llefarydd Cyhoeddus ar Ran: D Clough**<br>Ar ôl derbyn 10 llythyr cais ychwanegol gan: CADW; Ymddiriedolaeth Cadwraeth Mwyngloddiau Cymru, CYC AOHNE; Ecolegydd y Sir; Archeolegydd y Sir; Pensaer Tirwedd y Sir; Ymddiriedolaeth Gerddi Hanesyddol Cymru; Dŵr Cymru; Rheolwr Iechyd a Thai; AP King, Bryn Sirion, Maeshafn.<br>Adeiladu canolfan amgylcheddol yn agos i lyn, 6 adeilad un llawr o fewn Coed Y Fedw i ymgorffori rhannau o'r adeileddau a ddymchwelwyd ar y safle, adeiladu llwyfan man gwylio a llwybr estyllod o fewn Coed Y Fedw, newidiadau/adnewyddu allanol i adeiladau yn y canol uchaf, gweithiau/estyniad i Adeilad Rhestredig i'w ddefnyddio ar y cyd â'r ganolfan awyr agored, newid i'r ffordd fynedfa i'r ganolfan amgylcheddol arfaethedig a llwybrau o fewn |

| | |
|---|---|
| | Coed Y Fedw, adeiladu ystafell blanhigion a gweithiau cysylltiedig eraill<br>**Canolfan Colomendy Ar Gyfer Addysg Awyr Agored, Ffordd Rhuthun, Loggerheads Llanferres Yr Wyddgrug**<br>Penderfynwyd CANIATÁU ond yn amodol ar drafodaethau pellach gyda'r ymgeiswyr (a'r Aelod lleol) am fanylion y ganolfan Amgylcheddol, llwyfan mân gwylio, a'r llwybr estyllod sy'n cysylltu'r ganolfan ddringo.<br>Amodau Ychwanegol i'w gosod mewn perthynas â:<br>10. Rhywogaethau Gwarchodedig<br>11. Ffawna Warchodedig |
| 21/2005/0345/LB | **Llefarydd ar Ran: D Clough**<br>Gwaredu'r estyniad modern presennol, adferiad allanol, adnewyddiad adeiladau fferm gyfagos ac ailsefydlu gardd furiog yn Nhyn y Fedw a newidiadau i adeiladau cwrtil yn y canol uchaf (cais Adeilad Rhestredig)<br>**Canolfan Colomendy Ar Gyfer Addysg Awyr Agored, Ffordd Rhuthun, Loggerheads Llanferres Yr Wyddgrug**<br>Yn Amodol ar yr Amodau Diwygiedig<br>2. Nodi'r Galchfaen<br>9. "Heb anghofio'r manylion a ganiateir, dim wal allanol ayb."<br>Cais i'r Pensaer Cadwraeth ystyried a ddylid mynnu defnyddio ffenestri derw pren yn unol â chais CYC.<br>Mae'r penderfyniad hwn yn ddarostyngedig i'w anfon at GADW ac na fyddant hwythau'n gwrthwynebu. |
| 41/2004/0395/PF | **Llefarydd Cyhoeddus yn Erbyn: Gwladys Edwards (CC Bodfari)**<br>Ar ôl derbyn 4 llythyr cais ychwanegol gan:: Cyngor Cymuned; Trafnidiaeth ac Isadeiledd; A J Shepard, Yr Hen Ysgol, Bodfari; Mr a Mrs Wyer, 9 Banc y Chwarel, Bodfari<br>Adeiladu 9 preswylfa a mynedfa cerbydau newydd a llwybr troed cysylltiol i'r lle chwarae cyfagos<br>**Garej y Bont Blaenorol, Tir Cyffiniol â Banc Y Chwarel Bodfari Dinbych**<br>Yn amodol ar Adran 106<br>Mae'r argymhelliad yn ddarostyngedig i:<br>i) Cwblhau ymrwymiad Adran 106 o fewn 12 mis o ddyddiad cyfarfod Pwyllgor Cynllunio oedd angen<br>a) Darparu 3 uned tai fforddiadwy (unedau 7-9 cynwysedig)<br>b) Darparu swm cymudo o £20,000 er mwyn darparu man agored/gwelliannau hamdden oddi ar y safle<br>c) Darparu swm cymudo o £10,000 er mwyn cynnal a chadw oddi ar y safle<br>Os na chwblheir Ymrwymiad Adran 106 o fewn y cyfnod penodedig, rhoddir y cais yn ôl i'r Pwyllgor Cynllunio i wneud penderfyniadau mewn perthynas â pholisïau cynllunio perthnasol a chanllawiau ar yr adeg hynny.<br>Amodau Diwygiedig<br>3. "toeau"<br>7. Ni chaniateir byw yn y tai a gymeradwywyd yma hyd nes i'r ffyrdd a'r palmentydd i lefel haen sail gael eu hadeiladu a bod y llwybr troed cysylltiol i'r man chwarae wedi ei gwblhau i'r safon mabwysiad"<br>8. Diddymu "/cyswllt llwybr troed"<br>(Ymatalodd y Cynghorydd Lloyd Williams rhag pleidleisio) |
| 43/2004/1574/PF | Adeiladu garej ar wahân un llawr ar oleddf i ochr y tŷ ac adeiladu mynedfa gerbydau newydd a man troi **Clearmont Meadows Lane Prestatyn** |

| | |
|---|---|
| 43/2004/1596/PF | Dymchwel preswylfa bresennol ac adeiladu preswylfa newydd<br>**South Winds Bryniau Diserth Rhyl**<br>Yn Amodol ar Nodyn Newydd i'r Ymgeisydd<br>Rhaid i'r gwaith trin carthion/tanc septig presennol a'r system ffos gerrig gydymffurfio â BS 6297: 1973 ac nid yw un rhan i'w leoli o fewn 10m i unrhyw gwrs dŵr. Ni ddylai'r gwaith trin carthion/tanc septig effeithio ar ffynonellau dŵr yfed megis ffynhonnau preifat, ayb. Rhaid i'r datblygiad sicrhau bod y system ffos gerrig a'r tanciau septig presennol yn medru darparu ar gyfer llifoedd dŵr budr tebygol. |
| 44/2003/1477/PC | Dargadwad a pharhau i ddefnyddio adeilad ar gyfer storio ac atgyweirio cerbydau ralïo<br>**Tai Allanol Fferm Four Winds, Ffordd Ffynnon Prestatyn**<br>Yn Amodol ar Nodyn newydd i'r Ymgeisydd<br>Rhaid eich cynghori bod llwybr troed/llwybr ceffyl cyhoeddus yn rhedeg yn gyfochrog â'ch safle cais a'ch eiddo yn Fferm Four Winds. Ni ddylai'r llwybr troed/llwybr ceffyl cyhoeddus hwn gael ei rwystro ar unrhyw adeg. |
| 45/2005/0277/PF | **Llefarydd Cyhoeddus yn Erbyn: Mrs Doreen Khalil**<br>**Llefarydd Cyhoeddus Ar Ran: D Jackson**<br>Newid defnydd o breswylfa unigol i westy<br>**38 Marine Drive Rhyl**<br>(Dymunai'r Cynghorydd R E Barton nodi ei fod wedi atal pleidleisio). |
| 45/2005/0320/PF | Adeiladu porth, estyniad blaen un llawr i garej ac estyniad ochr i'r llawr cyntaf<br>**78 Ffordd Rhuddlan Rhyl**<br>Yn Amodol ar Amod Diwygiedig<br>3. Na ddylid dechrau datblygu hyd nes i fanylion am fynedfa gwell rhwng y breswylfa arfaethedig a'r briffordd a darpariaeth ar gyfer man troi rhwng y breswylfa a'r briffordd gael eu cyflwyno, a'u derbyn gan yr Awdurdod Cynllunio Lleol; ac ni ddylid defnyddio'r estyniad nes i fynedfa a man troi gael eu gorffen yn unol â'r cynlluniau a gymeradwywyd drwy hyn. |

**Gwrthodiadau**

| | |
|---|---|
| 45/2004/1160/PF | **Llefarydd Cyhoeddus Ar Ran: R A Sailsbury**<br>Datganodd y Cynghorydd M.A. Webster a H. Jones ddiddordeb yn y cais canlynol a gadawsant y Siambr yn ystod trafodaeth ar y mater.<br>Ar ôl derbyn 1 llythyr cais ychwanegol gan: Trafnidiaeth ac Isadeiledd<br>Adeiladu 18 preswylfa a mynedfa gerbydau/pedestraidd newydd<br>**Tir yn Ffordd Brookdale Rhyl**<br>Yn Amodol ar y canlynol:<br>Diddymu rheswm 1 |

**Gwrthod yn Erbyn Argymhelliad Swyddogion**

| | |
|---|---|
| 18/2004/1185/PO | Datblygu tir ar gyfer preswylfeydd a newidiadau i fynedfa cerbyd presennol (cais amlinellol)<br>**Tir y tu ôl i 1- 4 Brondyffryn Teras Llandyrnog Dinbych**<br>GWRTHOD am y rheswm canlynol:<br>1. Byddai'r cynllun yn arwain at gynnydd mewn defnydd o bwynt mynedfa i ffordd ddosbarthol sydd â gweleddd gwael a lled gyfyngedig. Byddai'r defnydd cynyddol yn arwain at beryglon priffordd ychwanegol ac anhwylustod i ddefnyddwyr priffordd. Canlyniad y cynllun hefyd fyddai i'r preswylwyr lleol golli man parcio i'w cerbydau, yn enwedig Teras Brondyffryn. O ganlyniad, byddai parcio stryd ychwanegol yn digwydd yn yr ardal er anfantais i ddiogelwch a chyfleuster defnyddwyr y briffordd. |

| | |
|---|---|
| | Byddai'n achosi i breswylwyr sy'n gallu parcio oddi ar y stryd ar hyn o bryd golli hynny. Byddai'r cynllun felly'n groes i feini prawf (vi) a (vii) o Bolisi *GEN* 6, Polisi *TRA* 6, a Polisi *TRA* 9 o Gynllun Datblygu Unedol Sir Ddinbych<br>Penderfynwyd, yn GROES i Argymhelliad y Swyddogion, oherwydd y rhesymau canlynol:<br>Mynedfa<br>Colli lle parcio |
| **Tynnu'n Ôl** | |
| 10/2005/0251/PC | Ar ôl derbyn 2 lythyr cais ychwanegol gan: Asiant yr Ymgeisydd (tynnu'r cais yn ôl) a Chyngor Cymuned Bryn Eglwys. Newid defnydd tir amaethyddol i'w ddefnyddio fel depo storio a dosbarthiad i gontractwr arwynebu ffordd, yn cynnwys gosod cynhwysyddion dur, peiriannau ac offer atodol parhaol (cais ôl-weithredol)<br>**Rhoslydan Bryneglwys Corwen**<br>Wedi ei dynnu'n ôl gan yr ymgeisydd<br>Penderfynodd y Pwyllgor gymryd camau gorfodi hefyd yn erbyn y defnydd anawdurdodedig, ond i ohirio penderfyniad ynglŷn ag unrhyw weithredu am 2 fis nes cyflwyno cais diwygiedig.<br>(Dymunai'r Cynghorwyr T.R. Hughes, H.H. Evans a G.C. Evans nodi eu bod wedi atal eu pleidlais ar y camau gorfodi) |
| 47/2005/0350/PF | Adeiladu 1 preswylfa<br>**Bryn Clwyd Ffordd Treffynnon, Llanelwy**<br>Wedi ei dynnu'n ôl gan yr ymgeisydd |
| **Gohiriedig am y Rheswm a Roddir** | |
| 15/2004/1535/PF | Adeiladu preswylfa gweithiwr amaethyddol<br>Tir yn **Fferm Mountain Hall Ffordd yr Ysgol, Llanarmon yn Iâl Yr Wyddgrug**<br>Gohirio - angen gwybodaeth oddi wrth yr ymgeisydd ac angen asesiad pellach o adroddiad *ADAS* |
| 05/2005/1684/PF | Adeiladu preswylfa ar wahân gyda garej annatod a newidiadau i fynedfa cerbydau presennol<br>**Tir cyffiniol â Bryn Tawel Penybryn Corwen**<br>Gohirio – disgwyl am gynlluniau diwygiedig |
| 24/2005/0188/PF | Ar ôl derbyn 1 llythyr cais ychwanegol gan: Asiant yr Ymgeisydd (tynnu'r cais yn ôl)<br>Trawsnewid 2 adeilad allanol i 2 breswylfa a gosod 2 danc septig newydd<br>**Tai Allanol yn Berth Farm Rhewl Rhuthun**<br>GOHIRIEDIG gan swyddogion er mwyn cael gwybodaeth gan yr ymgeisydd am faint y tir sydd o dan eu rheolaeth, a'r posibilrwydd o lwybrau mynedfa arall i'r safle. |
| 42/2004/0102/PF | Ar ôl derbyn 1 llythyr cais ychwanegol gan: Swyddog Strategaeth Tai<br>Adeiladu 44 o breswylfeydd, mynedfa cerbydau newydd, maes parcio, lle agored a thirweddu<br>**Tir Ystâd Plas Newydd oddi ar Ffordd Pantycelyn Prestatyn**<br>GOHIRIEDIG hyd nes cael cadarnhad cael safle arall ar gyfer ysgol gynradd. Adrodd yn ôl i'r Pwyllgor Cynllunio nesaf yn cynnwys cyfeirio at Bwyllgor Rheoli Asedau ar 10fed Mehefin 2005. |

| | |
|---|---|
| 44/2004/1328/AC | Manylion trin y ffin a thirweddu caled a meddal a gyflwynwyd yn unol ag amod rhifau 6 a 10 o ganiatâd cynllunio rhif 44/2003/0006/PF (ôl-weithredol yn rhannol)<br>**Plotiau 1-20 cyn. Safle Tir Morfa Ffordd Gallt Melyd Rhuddlan Rhyl**<br>**GOHIRIEDIG** er mwyn asesu cynlluniau diwygiedig<br>Penderfynodd y Pwyllgor gymryd camau gorfodi ond gohirio penderfyniad ar unrhyw weithredu am 2 fis hyd nes penderfynu ar y cais |

Am 12.35 pm o'r gloch, gohiriwyd y cyfarfod er mwyn cael cinio canol dydd. Y cyfarfod i ail ddechrau am 1.00 pm

**Y PWYLLGOR CYNLLUNIO'N AILYMGYNNULL**

Cofnodion cyfarfod o'r Pwyllgor Cynllunio a gynhaliwyd yn Siambr y Cyngor, Rhuthun ar 25ain Mai 2005 . am 1.00 pm.

**PRESENNOL**

Cynghorwyr. S. Thomas (Cadeirydd), J.R. Bartley, R.E. Barton, J. Butterfield, J. Chamberlain-Jones, J.M. Davies, M.Ll. Davies, , S.A. Davies , G.C. Evans, H.H. Evans S. Frobisher, I.M. German, M.A. German, D. Hannam, K.N. Hawkins, T.K. Hodgson, T.R. Hughes, E.R. Jones, H. Jones, G.M. Kensler, P.W. Owen, N.P. Roberts, J. Thompson-Hill, M.A. Webster, C.H. Williams, E.W. Williams, R.Ll. Williams

**HEFYD YN BRESENNOL**

Pennaeth Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd, Rheolwr Gwasanaethau Cyfreithiol, Rheolwr Rheoli Datblygu, Arweinydd Tîm (Prif Gymwysiadau), Uwch Swyddog Cefnogi (G. Butler) Swyddog Gweinyddol (Judith Williams) a Sandra Williams (Cyfieithydd)

**YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB**

Cynghorwyr: D. Jones, H.H. Jones a D.A.J. Thomas

**34 MATERION GORFODI**

**(I) GOR/20010/007**

**Tŷ Isoe, Maes Maelor Llandegla**
Newid defnydd tir coedwigaeth i ddefnydd cymysg o'r tir ar gyfer coedwigaeth, storio cerbydau a lleoli carafán at ddibenion preswyl.
Adroddiad a gyflwynwyd gan Bennaeth Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd
Eglurodd Pennaeth Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd gefndir yr achos hwn a dangosodd luniau o'r safle. Esboniwyd bod Asiant yr Amgylchedd ar hyn o bryd yn erlyn y perchennog, Mr Lowe yn Llys y Goron.
Yn dilyn ychydig o drafodaeth fe:

***BENDERFYNWYD** aros am ganlyniad yr achos llys a bod y mater hwn yn cael ei adrodd yn ôl i'r pwyllgor yng Ngorffennaf.*

**(ii) GOR/2005/0014**

**22, Caer Odyn, Eryrys**
Adeiladu ffens mwy na 1 metr o uchder gerllaw'r briffordd a newid defnydd y tir i ffurfio estyniad i gwrtil preswyl.
Cyflwynwyd Adroddiad gan Bennaeth Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd ynghyd â chynllun patrwm ychwanegol (cylchlythyrwyd)

***PENDERFYNWYD*** *awdurdodi'r canlynol:*

*(i)* *Cyflwyno Rhybudd Gorfodi i sicrhau gwaredu'r ffens ac atal y tir i'w ddefnyddio fel gardd.*

*(ii)* *dechrau achos erlyniad, neu weithred briodol arall o dan y Ddeddf Cynllunio, yn erbyn rhywun, neu rywrai, y mae unrhyw Rybudd Gorfodi, neu unrhyw Rybudd arall a gyflwynir, neu yr unigolyn y cymerir gweithred gyfreithiol yn erbyn os na fyddant yn cydymffurfio â gofynion Rhybudd Gorfodi.*

*(Dymunai'r Cynghorydd R.E. Barton nodi ei fod wedi pleidleisio yn erbyn cymryd Gweithred Gorfodi)*

**35 ENWI STRYDOEDD YN LLANFERRES**

Cyflwynwyd - adroddiad gan Bennaeth Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd yn ceisio ystyriaeth i gais i gael arwyddion enwau strydoedd i ddwy ffordd yn Llanferres.

***PENDERFYNWYD*** *cadw'r enwau hanesyddol i'r ddwy ffordd ac na ddylid gosod platiau enw ffordd.*

**36 GWEITHDREFNAU'R PWYLLGOR**

Cyflwynwyd adroddiad gan Bennaeth Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd yn cadarnhau manylion diwygiadau i weithdrefnau'r Pwyllgor Cynllunio yn dilyn cymeradwyaeth i'r newidiadau gan y Cyngor Llawn ar 12fed Ebrill 2005.

***PENDERFYNWYD*** *bod (i) geiriad manwl y Cynllun Dirprwyedig, Canllawiau ar gyfer Paneli Archwilio Safle, a Chod Ymarfer Gorau fel y'i gosodir yn* ***Atodiadau A, B ac C*** *fel y cytunwyd gan Aelodau i'w gweithredu yn ddi-oed a (iii) nad yw adroddiadau ADAS yn cael eu cynnwys fel eitem Rhan II bellach ar yr agenda.*

**37 APÊL TWEEDMILL**

Cyflwynwyd adroddiad gan Bennaeth Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd yn hysbysu'r Aelodau o'r penderfyniad apêl ddiweddar yn ymwneud â Tweedmill Llanelwy ac yn crynhoi canfyddiadau'r Arolygwr.

***PENDERFYNWYD*** *derbyn yr adroddiad hwn fel gwybodaeth*.

**38 DYDDIAD YMWELIAD SAFLE**

Tynnwyd yr eitem hon yn ôl gan nad oes ymweliadau safle wedi bod.

**39 RHESTR CEISIADAU Y DELIWYD A HWY O DAN BWERAU DIRPRWYEDIG**

Cyflwynwyd adroddiad ysgrifenedig gan Bennaeth Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd (a ddosbarthwyd eisoes) ynglŷn â cheisiadau am Ganiatâd Cynllunio a benderfynwyd ganddo o dan awdurdod dirprwyedig rhwng 1af Ebrill a 30ain Ebrill 2005.

***PENDERFYNWYD*** *derbyn yr adroddiad.*

**EITEM RHAN II**

**40** Adroddiad ADAS ynglŷn â Chais 15/2004/1535/PF Fferm Mountain Hall, Llanarmon yn Ial, Yr Wyddgrug

Gan fod y cais cynllunio wedi ei ohirio, ni thrafodwyd yr eitem hon.

Daeth y cyfarfod i ben am 1.55 pm.

***********

## PWYLLGOR ARCHWILIO'R AMGYLCHEDD

Cofnodion Pwyllgor Archwilio'r Amgylchedd a gynhaliwyd yn Ystafell Gynadledda 1, Neuadd y Sir, Rhuthun ar Ddydd Iau, 26ain Mai, 2005 am 9.30 a.m.

### YN BRESENNOL

Cynghorwyr R.E. Barton (Sylwedydd), H.H. Evans, E.R. Jones, P.W. Owen, C.H. Williams ac E.W. Williams (Aelod Arweiniol y Cabinet).

### HEFYD YN BRESENNOL

Cyfarwyddwr Corfforaethol Amgylchedd, Pennaeth Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd, Pennaeth Gwasanaethau'r Amgylchedd, Rheolwr Fflyd (G. Taylor), Rheolwr Busnes a Pherfformiad (E. Williams), Rheolwr Gwasanaethau Gweinyddu (R. Davies), Swyddog Cefnogi Archwilio (S. Price) a swyddogion eraill yn cynnwys Swyddog Gweinyddol (C.I. Williams).

### YMDDIHEURIADAU

Cynghorwyr B. Blakeley, P.C. Duffy a D.A.J. Thomas.

### 41 PENODI CADEIRYDD

***PENDERFYNWYD –*** *penodi'r Cynghorydd E.R. Jones yn Gadeirydd am y flwyddyn i ddod.*

### 42 PENODI IS-GADEIRYDD

***PENDERFYNWYD –*** *penodi'r Cynghorydd P. Owen yn Is-Gadeirydd am y flwyddyn i ddod.*

### 43 MATERION BRYS

Ni chodwyd unrhyw eitemau y dylid, ym marn y Cadeirydd, eu hystyried yn y cyfarfod fel mater o frys yn unol ag Adran 100B(4) o Ddeddf Llywodraeth Leol, 1972.

### 44 COFNODION

(a) Cyflwynwyd Cofnodion Pwyllgor Archwilio'r Amgylchedd a gynhaliwyd ar ddydd Mercher, 30ain Mawrth, 2005.

Materion yn codi:-

2. Cofnodion – Atodlen Ddiwygiedig o Ffioedd a Thaliadau am Wasanaethau Priffyrdd - TTM6 – Cyfeiriodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol at yr angen am newid yn y polisi cyfarwyddyd ar ddarparu arwyddion cyfeirio twristiaeth brown ar wyn, a fu mewn bodolaeth er 1996, a'r posibilrwydd o roi ystyriaeth i ddatblygu prosiect i geisio cymorthdaliadau, o bosibl gyda golwg ar gael cyllid Amcan 1. Cytunai'r Aelodau â'r awgrym fod Gweithgor i'w benodi i wyntyllu'r mater hwn ac y byddai aelodaeth y Grwp, i'w threfnu gan y Cyfarwyddwr Corfforaethol a'r Swyddog Cefnogi Archwilio, yn cynnwys y Cynghorwyr P.C. Duffy a H.H. Evans.

4. Arolwg o Weithdrefnau'r Pwyllgor Cynllunio – Mewn ymateb i bryderon a godwyd gan y Cynghorydd R.E. Barton ynghylch materion a drafodwyd yn nghyfarfod y Pwyllgor Cynllunio, a gynhaliwyd ar y 25ain Mai, 2005, a oedd yn ymwneud â phrotocol cynllunio, eglurodd Pennaeth Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd mai dim ond mân newidiadau i'r ddogfen dan sylw oedd wedi'u cytuno ac y byddid yn trefnu bod y fersiwn ddiwygiedig derfynol o'r ddogfen ar gael i'r cyhoedd.

Mewn ateb i fater a godwyd gan y Cynghorydd R.E. Barton ynghylch darparu sesiynau hyfforddi, fe gytunwyd y byddai'n rhaid i'r Aelodau fynychu o leiaf ddau o'r pedwar sesiwn hyfforddi.

***PENDERFYNWYD –*** *derbyn a chymeradwyo Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar y 30ain Mawrth, 2005 a'r cyfarfod ar y Cyd a gynhaliwyd ar yr 28ain Ebrill, 2005 fel rhai cywir.*

## 45 AROLWG O DDARPARIAETH GWASANAETH CYNLLUNIO A GWARCHOD Y CYHOEDD

Roedd copi o adroddiad gan Bennaeth Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd, a oedd yn asesu oblygiadau adroddiad y Comisiwn Archwilio ac yn nodi rhannau o'r gwasanaeth i'w harchwilio yn y dyfodol, wedi'i gylchlythyru gyda'r papurau ar gyfer y cyfarfod.

Cyflwynodd Pennaeth Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd yr adroddiad, a oedd yn gofyn am gyfraniad yr Aelodau wrth osod blaenoriaethau ar gyfer darparu'r gwasanaeth yn y dyfodol, ac yn rhoi crynodeb o'r gwasanaethau eang a ddarperir o fewn y Gyfarwyddiaeth. Eglurwyd bod barn yr Aelodau'n cael ei gofyn ar gynnwys y Cynllun Gwella Gwasanaeth a'r amrywiol ddangosyddion perfformiad yn ôl pa rai y dylid asesu perfformiad y gwasanaeth.

Roedd yr adroddiad yn cynghori ar argymhellion Asesiad Sylfaenol Drafft Adroddiad Iechyd yr Amgylchedd a Safonau Masnach a dderbyniwyd yn ddiweddar oddi wrth y Comisiwn Archwilio yng Nghymru, argymhellion yr Adroddiad Drafft Rhwng Awdurdodau ar y Swyddogaeth Iechyd a Gorfodi Diogelwch ac argymhellion Adroddiad Gwerth Gorau y Comisiwn Archwilio yng Nghymru sydd ar ôl ar yr hen Wasanaethau Cynllunio.

Gyda chynorthwy cyflwyniad power point, a chymorth y Rheolwr Busnes a Pherfformiad, rhoddodd Pennaeth Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd grynodeb manwl o'r adroddiad.

Roedd y cyflwyniad yn cwmpasu pob agwedd ar y ddarpariaeth gwasanaeth ac amlygwyd cynnwys a manylion yr Atodiadau canlynol gan y swyddogion i Aelodau'r Pwyllgor:-

**Atodiad 1** – Gwasanaeth Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd, Cynllun Gwella 2005 – 2008.
**Atodiad 2** – Nod Cyfarwyddiaeth 2, Gwella rhannau allweddol o'r ddarpariaeth gwasanaeth a nodir yn yr asesiad risg.
**Atodiad 3** – Cynllun Gweithredu Adroddiad Drafft y Comisiwn Archwilio yng Nghymru, Asesiad Sylfaenol o Iechyd yr Amgylchedd a Safonau Masnach – 2004/2005.
**Atodiad 4** – Argymhellion fel canlyniad i Archwiliad rhwng awdurdodau ar Iechyd a Diogelwch.
**Atodiad 5** – Trefniadau llywodraethu ar gyfer Pwyllgorau Cynllunio – Cynllun Gweithredu Archwiliad 2003/2004.
**Atodiad 6** – Comisiwn Archwilio yng Nghymru, Gwasanaethau Cynllunio, Adroddiad dilynol.
**Atodiad 7** – Blaenoriaethau i'r Aelodau eu hystyried.
**Atodiad 8** – Blaenoriaethau i'r Aelodau eu llenwi a'u dychwelyd.

Yn dilyn y cyflwyniad ymatebodd y swyddogion i faterion a godwyd gan Aelodau a oedd yn cynnwys materion yn ymwneud â'r angen am welliant mewn rheoli ariannol, rheolaeth adeiladau, diogelwch bwyd, tai fforddiadwy a Thai amlbreswyliaeth.

Mynegodd Aelodau'r Pwyllgor eu barn ynghylch eu priod hoffterau a blaenoriaethau a chytunwyd bod Pennaeth Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd yn ysgrifennu at bob Aelod o Bwyllgor Archwilio'r Amgylchedd yn gofyn am gadarnhad o'u blaenoriaethau allweddol yn nhrefn ffafriaeth. Cytunodd y swyddogion y byddai adroddiad pellach yn cael ei gyflwyno i gyfarfod o Bwyllgor Archwilio'r Amgylchedd rywbryd yn y dyfodol i'w ystyried ar ôl derbyn yr wybodaeth.

Yn ystod y drafodaeth a ddilynodd, amlinellodd y swyddogion y rhesymeg y tu ôl i'r Cynllun Gwella a oedd wedi'i seilio ar broses fanwl ble oedd swyddogion yn clustnodi 4 Amcan ar gyfer y gwasanaeth, roedd hyn wedi'i seilio ar yr agwedd `cerdyn sgorio cydbwysedd' at drin rheolaeth perfformiad. Eglurodd y swyddogion fod y 4 Amcan wedi'u cefnogi gan yr 11 maes gwella allweddol i helpu i gwrdd â'r amcanion hynny a chefnogai Aelodau'r Pwyllgor y 4 amcan fel y'u hamlinellwyd yn yr adroddiad.

***PENDERFYNWYD –***

*(a) bod Pwyllgor Archwilio'r Amgylchedd yn cymeradwyo'r 4 amcan yng Nghynllun Gwella'r Gwasanaeth:-*

- *Gwella meysydd allweddol cyflwyno gwasanaeth*
- *Gwella'r broses fusnes fewnol allweddol*
- *Gwella rheolaeth ariannol*
- *Cefnogi staff*

*(b) gofyn i'r Aelodau gyflwyno eu blaenoriaethau allweddol, a*

(c) *cyflwyno adroddiad pellach i Bwyllgor Archwilio'r Amgylchedd.*

**46 ARCHWILIADAU DIOGELWCH CERBYDAU**

Roedd copi o adroddiad gan y Rheolwr Fflyd wedi'i gylchlythyru gyda'r papurau ar gyfer y cyfarfod.

Rhoddodd y Rheolwr Fflyd grynodeb manwl o'r adroddiad a chyfeiriodd at yr arolwg o Reolaeth y Fflyd a Chynnal a Chadw Cerbydau a gyflawnwyd gan Archwilio Mewnol ym mis Hydref, 2002 a oedd yn cynnig nifer o argymhellion, yr oedd un ohonynt yn nodi nad oedd cerbydau'n mynd i'r gweithdai ar gyfer gwaith cynnal a chadw arferol.

Amlinellwyd y rhesymau paham oedd cerbydau'n methu â mynychu gweithdai ar gyfer gwaith cynnal a chadw arferol gan y Rheolwr Fflyd a rhoddodd fanylion y gweithdrefnau a oedd wedi'u gweithredu bellach i fynd i'r afael â'r problemau hynny.

Mewn ateb i gwestiynau gan Aelodau ynghylch rhwymedigaethau cyfreithiol y gweithredwr a phwysigrwydd sicrhau cydymffurfiad yn y dyfodol â'r ddeddfwriaeth yn ymwneud ag archwiliadau diogelwch cynlluniedig, trin, profi MOT a gwaith archwilio statudol arall, cadarnhaodd y Rheolwr Fflyd fod y Prif Weithredwr wedi hysbysu'r Pwyllgor Llywodraeth Gorfforaethol fod y Rheolwr Fflyd wedi rhoi gwybod i'r holl benaethiaid gwasanaeth y byddai unrhyw gerbyd nad oedd yn cael ei gyflwyno ar gyfer archwiliad diogelwch cynlluniedig, gwaith trin, MOT neu waith archwilio statudol arall, o'r 10^fed^ Rhagfyr, 2004, yn cael ei atal rhag cael ei ddefnyddio.

Cyfeiriodd y Rheolwr Fflyd at y manylion cefndir a gynhwyswyd yn yr adroddiad, a oedd yn cynnwys crynodeb o'r wybodaeth a ddarparwyd yn adroddiad y Prif Weithredwr a gyflwynwyd i gyfarfod y Pwyllgor Llywodraeth Gorfforaethol a gynhaliwyd ar y 15^fed^ Chwefror, 2005 a hefyd wybodaeth yn ymwneud â'r cyfnod o'r 1^af^ Chwefror, 2005 tan yr 31^ain^ Mawrth, 2005.

Pwysleisiodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol bwysigrwydd sicrhau bod Defnyddwyr y Fflyd Gorfforaethol yn cadw at y polisïau mabwysiedig a chadarnhaodd y gellid galw uwch-reolwyr i gyfrif pe byddai eu gyrwyr yn peidio â chydymffurfio â'r gofynion statudol.

Eglurwyd gan y Rheolwr Fflyd fod Cyngor Sir Ddinbych wedi'i drwyddedu i weithredu cerbydau sy'n fwy na 3.5 tunnell drwy Drwydded Gweithredwr. Amlinellodd yr ymrwymiadau a roed i'r Comisiynwyr Traffig adeg y cais am y drwydded a oedd yn mynnu bod yr Awdurdod yn cwblhau gwaith trin a chadw arferol mewn pryd a chadarnhawyd y gallai methu â bodloni'r elfen honno arwain at golli'r drwydded.

Mewn ateb i gwestiynau gan Aelodau dywedodd y Rheolwr Fflyd er mai'r ddealltwriaeth fanwl o drwydded y Gweithredwr, drwy'r Comisiynydd Traffig, oedd y dylai cerbydau gael eu harchwilio ar y dyddiad yn y dyddiadur, mewn gwirionedd ni allai gweithgareddau busnes masnachol bob amser gadw at yr amserlen dynn, felly ar yr amod y cedwid rheolaeth lem ar ysbeidiau archwilio, a bod cerbydau ble bynnag yr oedd yn bosibl yn cael eu harchwilio ar y dyddiad, y byddai ychydig o oddefgarwch yn dderbyniol i'r Rheolwr Fflyd fel y nodwyd yn nogfen Polisi a Gweithdrefnau Cludiant newydd Sir Ddinbych. Cytunai'r Aelodau y dylid cadw at oddefgarwch o ddau ddiwrnod ar y mwyaf yn unol â'r Polisi Cludiant.

Yn ystod y drafodaeth a ddilynodd, cytunodd yr Aelodau pe digwyddai i Ddefnyddiwr Gwasanaeth Corfforaethol fethu â chydymffurfio â'r amserlenni gosodedig ei fod i'w argymell fod y Rheolwr Fflyd a'r Ymgynghorwr Peryglon Ffyrdd Corfforaethol i'w hawdurdodi i weithredu'r camau angenrheidiol.

***PENDERFYNWYD –***

(a) *derbyn a chydnabod yr adroddiad*

(b) *caniatáu goddefgarwch o ddau ddiwrnod ar y mwayaf ar gyfer cyflwyno cerbydau a pheiriannau gogyfer ag archwiliadau diogelwch yn unol ag Adran 9.7 o'r Polisi Cludiant, a*

(c) *os digwydd i Ddefnyddiwr Gwasanaeth Corfforaethol fethu â chydymffurfio â'r graddfeydd amser gosodedig ei fod i'w argymell fod y Rheolwr Fflyd a'r Ymgynghorydd Peryglon Ffyrdd Corfforaethol i'w hawdurdodi i weithredu'r camau angenrheidiol.*

**47 RHAGLEN WAITH ARCHWILIO**

Roedd copi o adroddiad gan y Swyddog Cefnogi Archwilio, a oedd yn adolygu'r darpar raglen waith ar gyfer Pwyllgor Archwilio'r Amgylchedd ac yn rhoi diweddariad ar faterion perthnasol, wedi'i gylchlythyru gyda'r papurau ar gyfer y cyfarfod.

Rhoddodd Swyddog Cefnogi Archwilio grynodeb o'r adroddiad ac amlygwyd y materion canlynol:-

- Datblygu Rhaglen Waith – cytunodd yr Aelodau fod eitem yn ymwneud â Datblygiad y Strategaeth Rheoli Gwastraff i'w chynnwys yn y Rhaglen Waith, Atodiad 1 i'r adroddiad.

- Darpar Raglen Waith – Gwasanaethau'r Amgylchedd – nododd yr Aelodau y rhesymau dros dynnu'r Strategaeth Lleoedd Glas Ddrafft oddi ar yr agenda oherwydd fod gan y Gwasanaethau Hamdden rôl arweiniol yn awr mewn 'cynllunio lleoedd glas'. Eglurodd y Swyddog Cefnogi Archwilio y byddai Pennaeth Gwasanaethau'r Amgylchedd yn ymgynghori gyda chydweithwyr yn y Gwasanaethau Hamdden ac adrannau eraill ar y camau sydd eu hangen i brosesu'r Strategaeth.

- Diweddariad ar y Strategaeth Dai Leol, Tai Fforddiadwy – Cadarnhaodd y Swyddog Cefnogi Archwilio y byddai adroddiad ynghylch materion nad ydynt yn gysylltiedig â chynllunio yn cael ei gyflwyno i gyfarfod mis Mehefin, 2005 y Pwyllgor Archwilio Gwasanaethau Personol i'w ystyried ac yna'i gynnwys ar yr agenda ar gyfer cyfarfod Gorffennaf, 2005 Pwyllgor Archwilio'r Amgylchedd er gwybodaeth.

- Arolwg Cymheiriaid y WLGA o Reolaeth Gwastraff – Cytunodd y Cynghorwyr H.H. Evans, D.A.J. Thomas, E.R. Jones, P.W. Owen a C.H. Williams i gyfranogi ym mhroses yr Arolwg Cymheiriaid sydd i'w wneud gan Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru ar ran Llywodraeth Cynulliad Cymru.

Cyfeiriodd y Cynghorydd E.W. Williams at lwyddiant y fenter "gwahardd y fan" a oedd wedi'i chyflwyno'n ddiweddar ar Safleoedd Amwynder Dinesig yn Sir Ddinbych. Eglurodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol y byddid yn trefnu bod mwy o wybodaeth ynghylch y mater hwn ar gael rywbryd yn y dyfodol.

Cododd y Cynghorydd C.H. Williams bryderon fod y fersiwn Gymraeg o erthygl a gyhoeddwyd yn ddiweddar yn Llais y Sir a oedd yn ymwneud ag ailgylchu plastig wedi'i chyfieithu'n anghywir. Pwysleisiodd y swyddogion bwysigrwydd cyflwyno trefniadau ar gyfer ailgylchu plastig a chytunasant i ymchwilio i'r mater ymhellach.

***PENDERFYNWYD –***

*(a) derbyn yr adroddiad;*

*(b) cymeradwyo'r rhaglen waith fel y'i hamlinellwyd yn Atodiad 1, gydag eitem yn ymwneud â Datblygu'r Strategaeth Rheoli Gwastraff i'w chynnwys, a*

*(c) bod y Cynghorwyr H.H. Evans, D.A.J. Thomas, E.R. Jones, P.W. Owen a C.H. Williams yn cyfranogi ym mhroses yr Arolwg Cymheiriaid.*

**48 RHEOLIADAU CERRIG COFFA**

Roedd copi o adroddiad gan Bennaeth Gwasanaethau'r Amgylchedd, a oedd yn rhoi gwybodaeth yn ymwneud â gwell rheolaeth a rheoli ar gerrig coffa a godir ym mynwentydd Cyngor Sir Ddinbych, wedi'i gylchlythyru gyda'r papurau ar gyfer y cyfarfod.

Rhoddodd Pennaeth Gwasanaethau'r Amgylchedd grynodeb o'r adroddiad ac eglurodd fod angen y rheolau er rheolaeth ddiogel ac effeithlon mynwentydd y Cyngor i wella'r Rheoliadau Mynwentydd a fabwysiadwyd yn flaenorol gan Gyngor Sir Ddinbych yng Ngorffennaf, 1999.

Rhoddwyd amlinelliad byr o'r rheolau arfaethedig, a oedd wedi'u cynnwys yn Atodiad 1 i'r adroddiad, gan Bennaeth Gwasanaethau'r Amgylchedd, a eglurodd fod yna ond mân ddiwygiadau a oedd yn cynnwys:-

- dim ond Mynwentydd a weithredir gan y Cyngor Sir fyddai'n cael eu heffeithio gan y rheolau.
- Rheol 4. Hyd Rhybudd – mae (a) yn cyfeirio at waith corfforol, a chyfeiria (c) at waith papur.
- Rheol 14. Oriau Agor – Mae oriau agor yn cyfeirio at waith cerrig coffa ac maent i'w diwygio o 10.00 a.m. i 9.00 a.m., a
- Rheol 25. Arfer Gweithio – Eglurodd y swyddogion y gellid ymgymryd â rhai agweddau ar waith tra oedd angladd yn bresennol mewn Mynwent heb achosi unrhyw aflonyddwch neu annifyrrwch i unrhyw berson arall yn y Fynwent.

Hysbyswyd yr Aelodau na fu hyd yma unrhyw ymateb anffafriol i'r cynigion gan y rhai a effeithir. Cadarnhaodd y swyddogion y gallai mater gosod hen gerrig beddi ar eu gwastad oherwydd eu cyflwr peryglus, ac oherwydd nad oedd dim cysylltiad teuluol ar gael, fod yn fater i'w ystyried yn y dyfodol.

***PENDERFYNWYD –***

*(a) derbyn yr adroddiad, a*

*(b) bod Pwyllgor Archwilio'r Amgylchedd yn argymell fod Aelod Arweiniol y Cabinet dros yr Amgylchedd yn cymeradwyo cyflwyno'r Rheolau Cerrig Coffa, yn dilyn ymgynghori pellach gyda'r seiri meini coffa.*

Daeth y cyfarfod i ben am 12.40 p.m.

**********

## PWYLLGOR RHEOLAETH GORFFORAETHOL

Cofnodion cyfarfod o'r Pwyllgor Rheolaeth Gorfforaethol a gynhaliwyd yn yr Ystafell Gynhadledd, Tŷ Nant, Prestatyn ar ddydd Mawrth 31ain Mai 2005 am 9.30am

**YN BRESENNOL**

Y Cynghorwyr R.E. Barton (sylwedydd), J. Butterfield, M. Ll. Davies, S. Frobisher (sylwedydd), C.L. Hughes, S. Thomas ac R. Ll. Williams

**HEFYD YN BRESENNOL**

Cyfarwyddwr Corfforaethol Adnoddau, Clerc y Sir, Pennaeth Gwasanaethau Archwilio Mewnol, Rheolwr Uned Polisi Strategol (J. Ogden), Pennaeth Gweithredol Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd (G. Sumner), Rheolwr Gwasanaethau Ariannol (K. Latham), Rheolwr Adrannol – Cynnal a Chadw (T. Painter), a'r Swyddog Gweinyddol (K.E. Jones)

**DERBYNIWYD YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB ODDI WRTH**

Y Cynghorydd D. Jones

**49 PENODI CADEIRYDD**

Cynigiodd y Cynghorydd R.Ll. Williams ac eiliodd y Cynghorydd M.Ll. Davies y dylid penodi'r Cynghorydd J. Butterfield yn Gadeirydd am y flwyddyn i ddod. Gan nad oedd unrhyw enwebiadau eraill fe:-

***BENDERFYNWYD*** *penodi'r Cynghorydd J. Butterfield yn Gadeirydd y pwyllgor am y flwyddyn i ddod.*

**50 PENODI IS-GADEIRYDD**

Gwahoddodd y Cadeirydd enwebiadau ar gyfer penodi Is-gadeirydd a chynigiodd y Cynghorydd R.Ll. Williams, a'i eilio gan y Cynghorydd S. Thomas y dylid penodi'r C.L. Hughes yn Is-gadeirydd ar gyfer y flwyddyn i ddod. Gan nad oedd unrhyw enwebiadau eraill, fe:-

***BENDERFYNWYD*** *penodi'r Cynghorydd C.L. Hughes yn Is-gadeirydd y pwyllgor am y flwyddyn i ddod.*

**51 MATERION BRYS**

NI chodwyd unrhyw faterion a ddylid, ym marn y Cadeirydd, eu hystyried yn y cyfarfod fel materion brys dan Adran 100B(4) Deddf Llywodraeth Leol 1972.

**52 COFNODION**

Cyflwynwyd cofnodion y cyfarfod o'r Pwyllgor Rheolaeth Gorfforaethol a gynhaliwyd ar 5ed Ebrill 2005 (a ddosbarthwyd ymlaen llaw).

**Materion yn codi-**

Tud 2 – Trefniadau Rheolaeth ar gyfer Pwyllgorau Cynllunio – cyfeiriodd y Cynghorydd M.Ll. Davies at y gwahaniaethau yn y geiriad rhwng fersiynau Cymraeg a Saesneg y datganiad diddordeb a gyflwynwyd gan Shaw & Sons. Cytunwyd bod Clerc y Sir yn archwilio'r gwahaniaethau a sicrhau cynhyrchu cyfieithiad cywir o'r datganiad. Holodd y Cynghorydd J. Butterfield ynglŷn â'r cynnydd a wnaed ar hyfforddi aelodau'r Pwyllgor Cynllunio ac adroddodd Clerc y Sir ar waith gyda Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru a fyddai'n cysylltu gyda hyfforddiant aelodau mewn perthynas â hynny. Roedd yr holl aelodau wedi cytuno gyda'r egwyddor o gael hyfforddiant gorfodol yn y Cyngor Sir.

Tud 6 - Crynodeb o Adroddiadau Archwilio Mewnol Diweddar - Etholiadau a Chofrestru Etholiadol. Cyfeiriodd y Cadeirydd at y sylwadau a wnaeth yn y cyfarfod diwethaf ar y nifer llai o bleidleiswyr ar y

gofrestr etholiadol, yn enwedig mewn ardaloedd megis Gorllewin Y Rhyl. Ar ôl y cyfarfod hwnnw derbyniodd lythyr gan y Prif Weithredwr a oedd wedi nodi bod nifer pleidleiswyr ar y gofrestr wedi cynyddu mewn blynyddoedd diweddar a dyfynnodd ffigurau ar gyfer Gorllewin Y Rhyl, a oedd wedi codi o 1489 yn 2003 i 1578 yn 2004 ac ar gyfer Gorllewin Canolbarth Y Rhyl o 1052 yn 2003 i 1187 yn 2004. Teimlai'r Cadeirydd, er gwaethaf y ffigurau newidiol, bod angen i'r awdurdod fod yn gadarnach wrth ddelio gyda hyn.

***PENDERFYNWYD,*** *yn amodol ar yr uchod, derbyn cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 5ed Ebrill 2005 a'u cymeradwyo fel cofnod cywir.*

**53 TREFNIADAU AR GYFER AROLYGU A DIWYGIO'R CYFANSODDIAD**

Cyflwynodd Clerc y Sir adroddiad (a ddosbarthwyd ymlaen llaw) yn gofyn am farn aelodau ar a ddylid argymell i'r Cyngor bod y cyfansoddiad yn cael ei newid trwy drosglwyddo swyddogaethau'r Panel Moderneiddio ar fonitro ac arolygu'r cyfansoddiad i'r pwyllgor hwn. Roedd erthygl 15 o Gyfansoddiad Sir Ddinbych ar ddyletswydd y Cyngor i fonitro ac arolygu'r cyfansoddiad wedi ei ddodi ynghlwm wrth yr adroddiad.

Esboniodd Clerc y Sir y gofyniad yn Neddf Llywodraeth Leol 2000 i baratoi a diweddaru Cyfansoddiad. Er bod datblygiadau parhaus ar foderneiddio, hysbyswyd yr aelodau o'r anawsterau wrth drefnu cyfarfod o'r Panel Moderneiddio i ddelio gyda materion cyfansoddiadol. Yn ei gyfarfod diwethaf, roedd y Panel Moderneiddio wedi cytuno y byddai arolygu'r Cyfansoddiad nawr yn well o fewn amodau cyfeiri'r Pwyllgor hwn cyn belled ag y gellid gwneud trefniadau priodol ar gyfer presenoldeb Gadeirydd ac Is-gadeirydd y Cyngor ac unrhyw grwpiau gwleidyddol nad oeddynt eisoes wedi eu cynrychioli. Roedd y Panel wedi argymell bod y Cyngor yn ystyried y mater ymhellach ar ôl ymgynghori gyda'r pwyllgor hwn. Byddai trosglwyddo dyletswydd i fonitro ac arolygu o'r Panel Moderneiddio yn sicrhau bod holl drefniadau Rheolaeth Gorfforaethol wedi eu huno gyda'i gilydd yn briodol ac y gallai unrhyw fater a oedd angen sylw ei drin yn brydlon heb unrhyw anhwylustod gormodol i'r aelodau.

Cychwynnodd yr aelodau drafodaeth ar haeddiannau'r cynnig ac fe deimlwyd yn gyffredinol, yn wyneb anawsterau wrth alw cyfarfodydd o'r Panel Moderneiddio oherwydd ymrwymiadau aelodau a swyddogion, y byddai'n opsiwn doeth trosglwyddo swyddogaethau'r Panel i'r pwyllgor hwn. Fodd bynnag, codwyd pryderon ynglŷn ag ymarferoldeb cyfethol aelodau ychwanegol ar y pwyllgor i ddelio gyda materion cyfansoddiadol; goblygiadau o ran cydbwysedd gwleidyddol, a rheoli'r rhaglen. Dywedodd y Cadeirydd na allai aelodau pwyllgorau archwilio fod yn aelodau o'r Pwyllgor Rheolaeth Gorfforaethol, a theimlai na fyddai grwpiau llai yn fodlon ildio aelodaeth o'r naill bwyllgor na'r llall ar sail hynny. Dywedodd y Cynghorydd M.Ll. Davies bod Cadeirydd ac Is-gadeirydd y Cyngor yn anwleidyddol trwy rinwedd eu swyddi ac felly ni ddylid eu cyfrif wrth gyfrifo cydbwysedd gwleidyddol. Wrth ymateb i bryderon aelodau, dywedodd Clerc y Sir y byddai'r trefniadau arfaethedig newydd yn gofyn am ddarpariaeth ar gyfer presenoldeb a phleidleisio gan Gadeirydd ac Is-gadeirydd y Cyngor ynghyd â chynrychiolydd o'r Gynghrair Ddemocrataidd (nad oedd wedi ei chynrychioli ar y pwyllgor ar hyn o bryd) pan fyddai'r pwyllgor yn ystyried materion monitro ac arolygu'r Cyfansoddiad. Ar hyn o bryd, roedd un aelod o'r Gynghrair Ddemocrataidd nad oedd yn aelod o unrhyw bwyllgor archwilio. Byddai gan y pwyllgor, yn y pen draw, ddeg aelod i ddelio gyda materion cyfansoddiadol o gymharu gydag un ar ddeg aelod o'r Panel Moderneiddio, ond byddai pob grŵp yn cael ei gynrychioli. Cadarnhaodd hefyd bod grwpiau gwleidyddol Cadeirydd ac Is-gadeirydd y Cyngor wedi eu cymryd i ystyriaeth wrth gyfrifo cydbwysedd gwleidyddol.

Er yn cefnogi'r cynnig mewn egwyddor ar gyfer trosglwyddo swyddogaethau o'r Panel Moderneiddio i'r pwyllgor hwn, teimlai'r aelodau y byddai angen cyfarwyddyd clir ar reoli'r trefniadau hynny i ddelio gyda phryderon aelodau mewn perthynas â chydbwysedd gwleidyddol ac ymarferoldeb gweinyddu'r system newydd ar gyfer delio gyda materion moderneiddio. Teimlai'r cadeirydd y dylid gwneud yn glir y byddai'r tri aelod ychwanegol i fynychu'r pwyllgor i ddelio gyda materion cyfansoddiadol ond yn cael pleidleisio ar y materion hynny ac nid materion rheolaeth gorfforaethol. Cynigiodd y Cynghorydd M.Ll. Davies bod y rhaglen yn cael ei rhannu'n ddwy i adlewyrchu'r gwahaniaethau clir rhwng y pynciau i'w trafod. Gofynnodd y Cynghorydd R. Ll. Williams, oni fo eitem unigol yn fater brys neu'n destun dyddiad cau ymgynghoriad, bod materion trefniadol yn cael eu grwpio gyda'i gilydd a'u trin gyda'i gilydd mewn cyfarfodydd yn y dyfodol. Felly:-

***PENDERFYNWYD**:-*

*(a) cefnogi mewn egwyddor y cynnig i newid y Cyfansoddiad trwy drosglwyddo swyddogaethau'r Panel Moderneiddio i'r Pwyllgor Rheolaeth Gorfforaethol, a*

*(b) bod Clerc y Sir yn rhoi cyfarwyddyd pellach i'r Cyngor ar reoli unrhyw drefniadau newydd o ran cydbwysedd gwleidyddol ac ymarferoldeb wrth weinyddu'r system newydd.*

**54 CYMERADWYO CYNLLUN GWELLA 2005/06**

Yn absenoldeb y Rheolwr Perfformiad Corfforaethol a Gwella, cyflwynodd Rheolwr yr Uned Polisi Strategol adroddiad (a ddosbarthwyd ymlaen llaw) yn gofyn am farn yr aelodau ar y Cynllun Gwella drafft 2005/06 (ynghlwm wrth yr adroddiad) a gofyn i'r aelodau gymeradwyo'r Cynllun Gwella drafft i'r Cyngor ar 15fed Mehefin 2005 er cymeradwyaeth.

Roedd Cyfarwyddyd Rhaglen Gwella Cymru yn ei gwneud yn ofynnol bod pob awdurdod lleol yn cyhoeddi ei Gynllun Gwella a Chrynodeb erbyn 30ain Mehefin bob blwyddyn. Wrth ddilyn argymhelliad yn deillio o adroddiad archwilio allanol ar y Cynllun Gwella 2004/05, roedd yr Uned Polisi Strategol eleni wedi llunio Cynllun Gwella o amgylch chwe thema'r Strategaeth Gymunedol. Roedd y Cynllun yn canolbwyntio ar risgiau corfforaethol a gwasanaeth allweddol yr awdurdod, gan danlinellu'r hyn a gyflawnwyd yn erbyn blaenoriaethau corfforaethol yn ystod 2004/05 a gweithredoedd SMART (penodol, mesuradwy, cytunwyd, realistig ac amserwyd) ar gyfer y flwyddyn i ddod a fyddai'n cael eu defnyddio i gyflawni blaenoriaethau corfforaethol y Cyngor ar gyfer 2005/08.

Dywedodd Rheolwr yr Uned Polisi Strategol bod yr adroddiad wedi ei rannu'n ddwy adran:-

(1) cynnydd yn erbyn y Strategaeth Gymunedol, Cynllun Gwella a Blaenoriaethau Corfforaethol 2004/05, a

(2) Blaenoriaethau Corfforaethol, Gweithredoedd Gwella Allweddol a Thargedau 2005 ymlaen

Ystyriodd yr aelodau y matrics arolwg gwerth gorau ac amlinellodd y Cynghorydd R.E. Barton y gwelliannau mewn Rheoli Fflyd a'r Gwasanaeth Llyfrgelloedd a Gwybodaeth fel yr adroddwyd i'r Pwyllgorau Archwilio Amgylcheddol a Dysgu Gydol Oes yn eu tro. Nododd y Cynghorydd M. Ll. Davies bod rhai arolygon yn ymddangos yn hen a chadarnhaodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol Adnoddau bod y Cynllun yn cynnwys yr arolygon diweddaraf ond bod gwaith yn mynd rhagddo o hyd i wella'r meysydd hynny. Teimlai'r Cynghorydd C.L. Hughes y byddai mantais mewn ymgymryd ag arolwg o sut mae'r awdurdod yn delio gyda chwynion. Dywedodd Rheolwr yr Uned Polisi Strategol bod y drefn gwyno wedi ei chynnwys fel rhan o Arolwg Cyfathrebu yn ddiweddar a gawsai ei gyflwyno i'r Cabinet ym mis Mehefin a'r Cyngor Sir ym mis Gorffennaf 2005.

Cyfeiriodd y Cynghorydd S. Thomas at amcanion y Cyngor, a fanylwyd yn y Cynllun a mynegi pryderon ynglŷn â'r oedi wrth ddelio gyda'r blaenoriaethau hynny. Holodd a fyddai modd benthyca'r cyllid angenrheidiol i wella adeiladau ysgol a ffyrdd cyn iddynt ddirywio ymhellach. Cefnogodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol Adnoddau y cynnig hwnnw ond dywedodd y byddai blaengaredd o'r fath yn cymryd blwyddyn o gynllunio. Dywedodd bod arbedion wedi eu cynhyrchu ym mlwyddyn 3 y strategaeth ariannol a ellid eu defnyddio i gynhyrchu benthyciad ac awgrymodd yr hoffai'r aelodau ystyried y strategaeth ariannol 3 blynedd mewn cyfarfod yn y dyfodol. Cytunodd yr aelodau y dylid gofyn i'r Cyfarwyddwr Corfforaethol Dysgu Gydol Oes, newydd ei benodi, a'r Pennaeth Cludiant ac Isadeiledd yn ail-ystyried y strategaeth ariannol 3 blynedd gyda golwg ar gyflymu'r broses o gynhyrchu'r cyllid angenrheidiol i ddelio gyda blaenoriaethau'r Cyngor ar gyfer ysgolion a ffyrdd. Gofynnodd y Cadeirydd hefyd bod rhestri blaenoriaeth ar gyfer ysgolion a ffyrdd yn cael eu cynhyrchu cyn gynted ag y bo modd a dywedodd y Rheolwr Uned Polisi Strategol, er bod llawer o waith yn cael ei wneud, na fyddai'r wybodaeth angenrheidiol ar gael nes cwblheid y project Rheoli Lleoedd Ysgolion. Awgrymodd efallai yr hoffai'r aelodau wahodd swyddogion arweiniol priodol i gyfarfod o'r pwyllgor yn y dyfodol i esbonio sut cawsai'r blaenoriaethau eu trin.

Tynnodd Rheolwr yr Uned Polisi Strategol sylw'r aelodau at Raglen Waith 2005/06 ac mewn ymateb i sylwadau gan y Cynghorydd R.E. Barton cadarnhaodd bod targedau allweddol ychwanegol wedi eu cynnwys mewn ymgais i leihau damweiniau ffyrdd. Dywedodd y Cynghorydd R.Ll. Williams bod

gyrru'n rhy gyflym yn cyfrif am oddeutu traean damweiniau ffordd a theimlai y dylid gwneud mwy i ddelio gydag achosion eraill damweiniau ffyrdd. Cyfeiriodd yr aelodau at yr angen i gynyddu ymwybyddiaeth diogelwch ffordd ac adroddodd Rheolwr yr Uned Polisi Strategol ar effeithiolrwydd partneriaethau Diogelwch Cymunedol a gwaith arall gan gynnwys cyhoeddi erthygl yn Llais y Sir a dosbarthu taflenni i ysgolion, pobl ifanc a gyrwyr. Cyfeiriodd y Cynghorydd S. Frobisher hefyd at waith Ymgynghorydd Risg Ffordd Corfforaethol y Sir i hybu sgiliau gyrru uwch. Yn ystod y drafodaeth, nododd yr aelodau ddiffyg cysylltiad yr heddlu gyda'r Cyngor ac aelodau wardiau lleol ar ôl damweiniau ffordd, yn enwedig mewn ardaloedd gwledig a theimlo y dylid cael mwy o gyfathrebu gyda'r Heddlu ar faterion o'r fath. Teimlai'r aelodau y dylid sefydlu rhyw fath o brotocol i ddelio gyda hyn a chytunwyd bod swyddogion yn ystyried darparu adroddiad i gyfarfod o'r pwyllgor yn y dyfodol yn esbonio'r drefn bresennol. Wrth ystyried materion rheoli gwastraff, gofynnodd y Cynghorydd R.Ll. Williams am sicrhad bod y Cyngor yn gwaredu dodrefn ac eitemau eraill dros ben mewn dull priodol. Cytunodd Rheolwr yr Uned Polisi Strategol archwilio dulliau ailgylchu a ddefnyddiwyd gan yr awdurdod ac adrodd yn ôl i'r pwyllgor ar y mater.

Dywedodd Rheolwr yr Uned Polisi Strategol bod y Cynllun Gwella yn ddogfen ddrafft o hyd a bod gwelliannau'n parhau. Cadarnhaodd hefyd y byddai'r fersiwn terfynol yn cynnwys y targedau perfformiad terfynol. Cytunwyd bod y copi diweddaraf yn cael ei anfon at aelodau y prynhawn hwnnw gyda sylwadau unigol i'w cyflwyno'n uniongyrchol i Reolwr yr Uned Polisi Strategol erbyn dydd Iau 2il Mehefin. Byddai fersiwn terfynol y Cynllun yn cael ei gyflwyno i gyfarfod y Cyngor ym mis Mehefin, gan gymryd i ystyriaeth sylwadau'r aelodau a rhai'r Cabinet.

Yn olaf, dywedodd Rheolwr yr Uned Polisi Strategol y byddai Archwilio Mewnol yn fuan yn cloriannu gwybodaeth data Dangosyddion Perfformiad ar gyfer 2004/05 ond ei bod yn achosi pryder nodi bod rhyw 50% o dargedau perfformiad heb eu bodloni ac mai dim ond chwarter o'r rhai a fethwyd a oedd wedi dangos gwelliant dros y flwyddyn ddiwethaf. Roedd yr aelodau yn bryderus iawn ynglŷn â hynny a theimlo y dylid rhyddhau data wedi ei ddilysu cyn gynted ag y bo modd ac y byddai angen gwaith pellach ar y targed i sicrhau bod targedau realistig wedi eu pennu. Gofynnodd y Cynghorydd R.Ll. Williams am gael cyflwyno crynodeb o'r targedau allweddol nas cyflawnwyd i gyfarfod nesaf y pwyllgor ac awgrymodd y Cadeirydd y byddai hefyd yn ddefnyddiol gwahodd y Swyddogion Cefnogi Archwilio i esbonio sut roedd y pwyllgorau archwilio'n delio gyda Dangosyddion Perfformiad a phennu targedau.

***PENDERFYNWYD***:-

(a) *yn amodol ar y sylwadau uchod, argymell y Cynllun Gwella 2005/06 i'r Cyngor ar 15fed Mehefin 2005 ar gyfer cymeradwyaeth, a*

(b) *bod Rheolwr yr Uned Polisi Strategol yn cyflwyno adroddiad i gyfarfod nesaf y pwyllgor yn manylu'r meysydd allweddol hynny lle nad oedd Dangosyddion Perfformiad yn cael eu cyflawni.*

## 55 RHAGLEN WAITH Y PWYLLGOR 2005/06

Cyflwynodd Clerc y Sir adroddiad (a ddosbarthwyd ymlaen llaw) yn amlinellu rhaglen waith y pwyllgor ar gyfer 2005/06.

Wrth ystyried y rhaglen waith, roedd Clerc y Sir eisiau cynnwys Adroddiad Blynyddol yr Ombwdsmon ynghyd ag adroddiad ar God Ymarfer yr Aelodau, pe byddai'r Cyngor yn cytuno trosglwyddo swyddogaethau cyfansoddiadol o'r Panel Moderneiddio i'r pwyllgor hwn. Atgoffodd Rheolwr yr Uned Polisi Strategol yr aelodau iddynt gytuno derbyn holl adroddiadau archwilio allanol a mewnol a chytunodd y pwyllgor gyda'i hargymhelliad bod yr adroddiadau'n cael eu cyfyngu i rai sy'n delio gyda materion corfforaethol yn hytrach na meysydd gwasanaeth penodol, a gawsai eu trin gan y pwyllgorau archwilio penodol. Awgrymodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol Adnoddau bod agwedd debyg i'r un a ddefnyddiwyd i ddelio gydag adroddiadau archwilio mewnol yn cael ei hymestyn i adroddiadau archwilio allanol, pan fyddai adroddiadau crynodeb yn cael eu cyflwyno i'r aelodau.

***PENDERFYNWYD*** *yn amodol ar yr uchod, bod y rhaglen waith a nodwyd yn yr adroddiad yn cael ei chymeradwyo.*

Ar y pwynt hwn (11.45 a.m.) gadawodd y Cadeirydd, y Cynghorydd J. Butterfield a'r Cynghorydd R.Ll. Williams y cyfarfod i fynychu cyfarfod arall a oedd yn cael ei gynnal yn Neuadd y Sir Rhuthun am 12.30 p.m. Yn absenoldeb y Cadeirydd, y Cynghorydd J. Butterfield, cymerodd yr Is-gadeirydd, y Cynghorydd C.L. Hughes y gadair ar gyfer gweddill y cyfarfod. Mynegodd y Cynghorwyr M.Ll. Davies ac S. Thomas bryder bod rhai aelodau wedi gorfod gadael yn gynnar oherwydd bod angen eu presenoldeb mewn cyfarfod arall, yn enwedig gan fod y cyngor yn cadw dyddiadur canolog i osgoi unrhyw wrthdaro neu orgyffwrdd rhwng cyfarfodydd. Cytunodd Clerc y Sir ystyried y mater ac ymddiheurodd am unrhyw anhwylustod a achoswyd.

Ar y pwynt hwn, gohiriwyd y cyfarfod am bum munud er mwyn i'r aelodau gael lluniaeth.

**GWAHARDD Y WASG A'R CYHOEDD**

***PENDERFYNWYD*** *dan Adran 100A Deddf Llywodraeth Leol 1972, bod y Wasg a'r Cyhoedd yn cael eu gwahardd o'r cyfarfod ar gyfer yr eitem ganlynol oherwydd ei bod yn debygol y byddai'n achosi datgeliad tebygol gwybodaeth eithriedig fel y diffinnir ym Mharagraff 1 Atodlen 12A o'r Ddeddf.*

**56 ADRODDIAD AR DDIFFYG CYDYMFFURFIO GYDAG ARGYMHELLIAD ARCHWILIAD MEWNOL**

Cyflwynodd Pennaeth y Gwasanaethau Archwilio Mewnol adroddiad cyfrinachol (a ddosbarthwyd ymlaen llaw) ar fethiant i weithredu argymhelliad Archwilio Mewnol ar ôl arolwg o Gludiant Cyhoeddus rhwng Ionawr a Chwefror 2003.

Cyflwynodd Pennaeth y Gwasanaethau Archwilio Mewnol hanes cefndir yn arwain at y sefyllfa bresennol a manylodd dri maes ddiffyg cydymffurfio gyda gofynion Archwilio Mewnol yn delio gyda materion yn ymwneud ag anfonebau, ail-ddyledu mewnol ac archwilio gyrwyr PCV. Adroddodd Pennaeth Cynorthwyol Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd ar y broses gofrestru i ymgymryd ag archwiliadau'r Biwro Cofnodion Troseddol a nododd broblemau adnoddau yn gwahardd yr Adran Drwyddedu rhag archwilio gyrwyr PCV. Teimlai'r aelodau'n gyffredinol y byddai'n arfer dda pe byddai'r contractwyr yn ymgymryd â'r archwiliadau CRB gofynnol ac argymhellwyd bod hyn yn cael ei gynnwys mewn gofynion tendro yn y dyfodol a'i gynnwys yn y manylion ar gyfer contractau cludiant cyhoeddus yn y dyfodol. Yn absenoldeb y Rheolwr Cydlynu Cludiant (G. Rhodes), adroddodd y Rheolwr Adrannol (Cynnal a Chadw) ar ddyfarnu contractau a goblygiadau i ofynion tendro yn y dyfodol a chytunwyd derbyn adroddiad yn y cyfarfod nesaf yn manylu'r materion hynny a gwahodd yr Uwch Swyddog Addysg fel y swyddog cyfrifol mewn perthynas â hynny. Wrth ystyried y materion yn ymwneud ag anfonebu ac ail-ddyledu mewnol, adroddodd y swyddogion ar yr anawsterau wrth weithredu'r argymhellion hynny gan gynnwys goblygiadau adnoddau. Teimlai'r aelodau eu bod angen manylion pellach ar y rhesymau dros fethu â gweithredu'r argymhellion. Ar ôl ystyried y mater ymhellach, fe:-

***BENDERFYNWYD*** *cyflwyno adroddiad manwl pellach i gyfarfod nesaf y pwyllgor yn rhoi esboniad pellach ar y rhesymau y tu ôl i'r methiant i weithredu'r tri argymhelliad archwilio a oedd ar ôl a goblygiadau pennu archwilio gyrwyr PCV fel gofyniad cytundebol.*

**57 CRYNODEB O ADRODDIADAU ARCHWILIO MEWNOL DIWEDDAR A GYFLWYNWYD**

Cyflwynodd Pennaeth Gwasanaethau Archwilio Mewnol adroddiad cyfrinachol (a ddosbarthwyd ymlaen llaw) yn crynhoi'r farn archwilio, darganfyddiadau allweddol ac argymhellion yn deillio o'r tasgau archwilio a gwblhawyd ers Ebrill 2005. Roedd yr aelodau eisoes wedi derbyn copïau crynodeb a'r cyfle i holi cwestiynau arnynt.

Cwblhawyd tasgau archwilio mewn perthynas â'r canlynol:-

- Cyflog
- Teithio a Chynhaliaeth
- Rhenti Tai
- Yswiriant
- TAW
- Rheoli'r Trysorlys
- Ysgol Gynradd Pentrecelyn
- TG – Diogelwch E-bost a'r Rhyngrwyd

- TG – Rheoli Ffeiliau

Tywysodd Pennaeth y Gwasanaethau Archwilio Mewnol yr aelodau trwy['r adroddiadau crynodeb, gan amlinellu sgôp a phwrpas yr archwilio ac unrhyw ganfyddiadau allweddol yn deillio ohonynt, ac yna cymerodd yr aelodau y cyfle i holi ynglŷn ag archwiliadau unigol.

Wrth ystyried yr archwiliad Teithio a Chynhaliaeth, mynegodd yr aelodau bryderon difrifol ynglŷn â'r materion allweddol yn deillio o'r adroddiad ac adroddodd Pennaeth y Gwasanaethau Archwilio Mewnol ar y gwaith i ddelio gyda hynny trwy gyfrwng hyfforddiant a nodiadau canllaw dros yr ychydig fisoedd nesaf, a gawsai ei ddilyn gan archwiliad blynyddol. Roedd gwaith hefyd yn mynd rhagddo gyda'r Ymgynghorydd Risg Ffordd Corfforaethol i wirio trwyddedau gyrru, dogfennau yswiriant a thystysgrifau MOT, a gellid hefyd defnyddio'r system Adnoddau Dynol gyfrifiadurol newydd i'r diben hwnnw.

Mynegodd yr aelodau bryderon hefyd ynglŷn â'r gwendidau difrifol a nodwyd yn yr archwiliad Rhenti Tai ac er yn cydnabod bod rhai materion adnoddau wedi bod oherwydd absenoldeb staff, teimlid ei bod yn hanfodol bod gwasanaeth digonol yn cael ei ddarparu dan amgylchiadau o'r fath i sicrhau bod rheolaethau ariannol allweddol yn cael eu cadw bob amser. Cadarnhaodd Pennaeth y Gwasanaethau Archwilio Mewnol y byddai'r Gwasanaeth Rhenti Tai yn cael ei archwilio'n rheolaidd dros y 12 mis nesaf i sicrhau bod yr argymhellion i ddatrys y gwendidau yn cael eu gweithredu.

Mewn perthynas â'r archwiliad TAW, manylodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol Adnoddau y mesurau a gymerwyd i ddelio gyda'r materion allweddol a godai o'r archwiliad gan gynnwys newid rôl unigolion yn yr adran a phrynu cyngor priodol ar TAW i sicrhau lefel reolaeth briodol yn y system.

Wrth drafod adroddiad archwilio Ysgol Gynradd Pentrecelyn, dywedodd Pennaeth y Gwasanaethau Archwilio Mewnol bod gan ysgolion eu rheolaethau ariannol eu hunain ac y byddai nifer o'r gwendidau a nodwyd yn yr adroddiad yn cael eu datrys gyda hyfforddiant. Adroddodd hefyd ar gynllun peilot i'w gyflwyno ym mis Medi i anfon holiaduron hunanwerthuso i ysgolion i werthuso unrhyw risgiau a sicrhau cydymffurfiad gyda'r rheolaethau ariannol a safonau ariannol. Teimlai'r Cadeirydd y byddai'n ddefnyddiol i swyddog fynychu cyfarfodydd Llywodraethwyr Ysgolion i roddi cyfarwyddyd i ysgolion.

***PENDERFYNWYD*** *yn amodol ar y sylwadau uchod, derbyn yr adroddiadau archwilio.*

**58 ADRODDIADAU ARCHWILIO MEWNOL BLYNYDDOL 2004/05**

Cyflwynodd Pennaeth y Gwasanaethau Archwilio Mewnol adroddiad cyfrinachol (a ddosbarthwyd ymlaen llaw) yn delio gyda chwblhau'r Cynllun Archwilio Blynyddol 2004/05; cydymffurfio gydag argymhellion Archwilio Mewnol; materion allweddol yn codi yn 2004/05 a chrynodeb o farn Archwilio Mewnol ar reolaeth fewnol yn y Cyngor.

Roedd yr adroddiad yn manylu gwaith archwilio a gynlluniwyd ar gyfer y flwyddyn ynghyd â statws y project ar 31ain Mawrth 2005. Ar ddiwedd y flwyddyn, roedd Archwilio Mewnol wedi cyflawni 63% o'r targed 70% ar gyfer cwblhau'r Cynllun Archwilio mewnol. Y prif reswm dros yr amrywiad oedd:

- Secondiad Rheolwr Archwilio i Gyllid Canolog am 11 mis
- Salwch hirdymor yn yr adran yn dod i 30 wythnos
- Penodiad i bedair swydd wedi ei oedi am bum mis yr un, a
- Hyfforddi staff newydd o Fedi, 2004.

Adroddodd Pennaeth y Gwasanaethau Archwilio Mewnol bod naw o'r 11 swydd wedi eu llenwi a bod trefniant partneriaeth peilot yn cael ei ymgymryd gyda PricewaterhouseCoopers (PwC) ar gyfer 2005/06 i ddarparu gwasanaeth archwilio mewnol cynhwysfawr. Atgoffwyd yr aelodau hefyd o'r system gadarn ar gyfer dilyn i fyny ar argymhellion Archwilio Mewnol i sicrhau eu bod yn cael eu gweithredu. Dywedodd Pennaeth y Gwasanaethau Archwilio Mewnol, yn seiliedig ar waith Archwilio Mewnol a wnaed yn ystod 2004/05, a chan gymryd i ystyried y materion allweddol a godwyd yn ystod y gwaith hwnnw, fel y manylwyd yn yr adroddiad, gallai'r Cyngor ddodi sicrhad ar ei ddigonolrwydd ac effeithiolrwydd cyffredinol yn ei amgylchedd rheolaeth fewnol.

Mewn ymateb i gwestiynau’r aelodau, adroddodd Pennaeth y Gwasanaethau Archwilio Mewnol ar feysydd penodol i'w harchwilio yn ystod 2005/06; y mecanwaith ar gyfer sicrhau cydymffurfio gydag archwilion Archwilio Mewnol, a'r materion allweddol yn codi yn 2004/5 ynghyd â manylion y sefyllfa bresennol. Cadarnhaodd Pennaeth y Gwasanaethau Archwilio Mewnol bod swyddogion yn ymwybodol o rôl y pwyllgor hwn ac y byddant, yn y pen draw, yn cael eu galw gerbron y pwyllgor os methid â gweithredu'r argymhellion archwilio gofynnol o fewn yr amserlen a gytunwyd.

Talodd y Cynghorydd M.Ll. Davies deyrnged i waith yr Adran Archwilio Mewnol a diolch i Bennaeth y Gwasanaethau Archwilio Mewnol a'i staff am eu holl waith caled wrth ymgymryd â rôl mor bwysig.

***PENDERFYNWYD*** *cydnabod yr adroddiad a derbyn barn Archwilio Mewnol ar amgylchedd rheolaeth fewnol y Cyngor.*

Daeth y cyfarfod i ben am 1.05 p.m.

*********

## PWYLLGOR CRAFFU GWASANAETHAU PERSONOL

Cofnodion Pwyllgor Craffu Gwasanaethau Personol a gynhaliwyd yn yr Ystafell Gynhadledd, Tŷ Nant, Prestatyn ddydd Iau 2il Mehefin 2005 am 10 o'r gloch y bore.

### YN BRESENNOL

Y Cynghorwyr J.R. Bartley, D. Hannam, K. N. Hawkins, J. Chamberlain Jones, T. K. Hodgson, T. R. Hughes a M. A. Webster. Roedd y Cynghorydd R. E. Barton yn bresennol fel sylwedydd.

### HEFYD YN BRESENNOL

Cyfarwyddwr Corfforaethol Gwasanaethau Personol, Pennaeth Gwasanaethau Tai, Pennaeth Gwasanaethau Oedolion, Pennaeth Gwasanaethau Plant a Theuluoedd, Pennaeth Cefnogi a Datblygu Busnes, Rheolwr Gwasanaethau Gweinyddol (R. Davies), Swyddog Cefnogi Craffu (J. Curran) a Swyddog Gweinyddol (J.V. Pring).

Roedd Rheolwr Gwasanaethau Oedolion (P. Fowler) yn bresennol ar gyfer eitem 8 ar yr agenda. Roedd Mr N. Griffiths o Swyddfa Archwilio Cymru yn bresennol fel sylwedydd.

### 59 PENODI CADEIRYDD

Cynigiodd y Cynghorydd K. N. Hawkins ac eiliodd y Cynghorydd J.R. Bartley fod y Cynghorydd T.K. Hodgson yn cael ei benodi yn Gadeirydd y Pwyllgor am y flwyddyn i ddod. Gan nad oedd unrhyw enwebiadau eraill

***PENDERFYNWYD*** *penodi'r Cynghorydd yn Gadeirydd y Pwyllgor am y flwyddyn i ddod*.

Rhoddodd y Cadeirydd groeso i'r Aelodau a'r swyddogion i'r cyfarfod. Hysbysodd y Pwyllgor hefyd fod y Cynghorydd N. J. Hughes, yn dilyn ei ethol yn Is-Gadeirydd y Cyngor, wedi sefyll i lawr fel Aelod o'r Pwyllgor Craffu hwn. Mynegodd y Cadeirydd ei ddiolch a'i werthfawrogiad o gyfraniad gwerthfawr y Cynghorydd Hughes, gan ychwanegu y byddid yn gweld colli ei wybodaeth a'i brofiad. Serch hynny, rhoddodd groeso cynnes i'r Cynghorydd T.R Hughes, oedd yn dod yn lle'r Cynghorydd N.J. Hughes ar y Pwyllgor.

### 60 PENODI IS-GADEIRYDD

Cynigiodd y Cynghorydd J. R. Bartley ac eiliodd y Cynghorydd K.N. Hawkins fod y Cynghorydd D. Hannam yn cael ei benodi'n Is-Gadeirydd y Pwyllgor am y flwyddyn i ddod. Gan nad oedd unrhyw enwebiadau eraill

***PENDERFYNWYD*** *penodi'r Cynghorydd D. Hannam yn Is-Gadeirydd y Pwyllgor am y flwyddyn i ddod.*

### 61 EITEMAU BRYS

Nid oedd dim materion brys.

### 62 COFNODION

Cyflwynwyd cofnodion y cyfarfod o'r Pwyllgor a gynhaliwyd ar 16eg Mawrth 2005.

***PENDERFYNWYD*** *derbyn cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 16eg Mawrth 2005 a'u cymeradwyo yn gofnod cywir.*

Materion yn codi :-

tud. 3 (Ymweliadau Rota) – I ateb cwestiwn gan y Cynghorydd J.R. Bartley, cadarnhaodd Pennaeth Cefnogi a Datblygu Busnes mai'r adran wnaeth y trefniadau ar gyfer ymweliadau rota. Ymddiheurodd am y dryswch yn ddiweddar ynghylch ymweliad â Chanolfan Dydd Santes Gwenffrewi, Ffordd Brighton, y Rhyl.

Rhoddodd y Cynghorydd J Chamberlain Jones wybod i'r Aelodau ei bod yn ddiweddar wedi ymweld ag Uned Cefndy, ac y byddai'n cyflwyno adroddiad maes o law.

Er eglurder, esboniodd y Pennaeth Cefnogi a Datblygu Busnes mai Aelodau'r Pwyllgor Craffu fyddai, yn y lle cyntaf, yn cael eu holi ynghylch ymweliadau rota, er bod holl Aelodau'r Cyngor yn cael eu hannog i'w gwneud.

**63 CYNLLUN BUSNES GWASANAETHAU 2005-08**

**(i) Gwasanaethau Tai**

Cyflwynwyd Cynllun Busnes Gwasanaethau Tai 2005-08, a ddosbarthwyd o flaen llaw, gan y Pennaeth Gwasanaethau Tai. Roedd y Cynllun yn cynnwys gwybodaeth yn ymwneud â :-

- perfformiad am y flwyddyn 2004/05
- perfformiad ariannol
- asesiad risg
- Cynllun Gwella
- cytundeb polisi statudol a dangosyddion perfformiad gosodedig craidd ar gyfer 2005/06
- cynllun dysgu a datblygu

Wrth ystyried y Cynllun, atebodd y swyddogion gwestiynau'r Aelodau ynghylch amryw o faterion. O ran y gwasanaeth rhent, esboniodd y Pennaeth Gwasanaethau Tai fod gwelliannau sylweddol wedi eu gwneud mewn cyflwyno gwasanaethau a chasglu data. Er bod dyledion rhent wedi bod yn broblem yn y gorffennol, roedd ymyrryd yn fuan a thrafod, wedi gostwng y swm yn fawr. Roedd y ffigwr yn dal yn uchel o'i gymharu â'r cyfartaledd yng Nghymru, ond bu gostyngiad cyson yn unol â Chynllun Gweithredu 2004.

Gan gyfeirio at Risg 1 yn y Cynllun, holodd y Cadeirydd am hynt ymateb y Cynulliad i Gynllun Busnes y Stoc Dai. Cadarnhaodd y Pennaeth Gwasanaethau Tai fod y Cynllun wedi cael ei gyflwyno erbyn y dyddiad cau, ond dal i ddisgwyl am gadarnhad y Cynulliad yr oeddid. Unwaith y byddai hwnnw wedi dod, byddai'r Cynllun yn cael ei gyflwyno i'r Pwyllgor hwn a Gweithgor yr Opsiynau Tai, ac yna i'r Cabinet a'r Cyngor. Pwysleisiodd bwysigrwydd cydnabod ymrwymiad y Cyngor i ymgynghori'n llawn â thenantiaid ym mhob cam o'r broses.

Tynnodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol sylw at y risgiau i'r gwasanaeth sy'n codi o weithredu'r Strategaethau Digartrefedd a Digartrefedd Pobl Sengl. Rhoddodd y Pennaeth Gwasanaethau Tai wybod i'r Aelodau fod adroddiad archwilio ar ddigartrefedd wedi cael ei dderbyn yn ddiweddar, ac y byddai'n sail i adroddiad i'w gyflwyno i'r cyfarfod nesaf o'r Pwyllgor. Dywedodd hefyd fod cais am arian wedi ei wneud i'r Cynulliad ar gyfer penodi Swyddog Atal Digartrefedd.

I ateb cwestiwn gan y Cynghorydd J Chamberlain Jones cadarnhaodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol fod darpariaeth dai yn cael ei gwneud i 'ofalu am blant' sy'n gadael gofal, ond bod llety yn brin.

Gan gyfeirio at y flaenoriaeth tai fforddiadwy ac i ateb y Cynghorydd R E Barton, dywedodd y Pennaeth Gwasanaethau Tai na fyddai'r targedau yn rhagderfynu materion cynllunio. Cadarnhaodd hefyd fod Swyddog Galluogi ym maes Tai yng Nghefn Gwlad bellach wedi ei benodi. I ateb pryderon a leisiwyd gan y Cynghorydd Barton sef fod y targed anghenion lleol yn yr arolwg yn isel, cytunwyd y byddid yn gwneud ymholiadau i weld a ellir codi'r ffigwr.

**(ii) Gwasanaethau Cymdeithasol**

Cyflwynwyd Cynllun Busnes Gwasanaethau Cymdeithasol 2005-08, a ddosbarthwyd o flaen llaw, gan y Pennaeth Cefnogi a Datblygu Busnes.

Roedd y Cynllun yn ymgorffori Gwasanaethau Oedolion, Gwasanaeth Plant a Theuluoedd a Gwasanaethau Cefnogi a Datblygu Busnes ac yn cynnwys gwybodaeth ynghylch:-

- perfformiad am y flwyddyn 2004-05
- perfformiad ariannol

- asesiad risg
- blaenoriaethau gwella
- cytundeb polisi statudol a dangosyddion perfformiad gosodedig craidd ar gyfer 2005/06, a
- cynllun dysgu a datblygu

Roedd yr adroddiad yn esbonio mai un o'r heriau oedd yn wynebu'r adran oedd dwyn ynghyd mewn un cynllun yr holl Gynlluniau Gweithredu sy'n ofynnol dan yr amrywiaeth o strategaethau ac archwiliadau er mwyn rhoi arweiniad clir. Tynnwyd sylw at rai o'r cynlluniau a'r strategaethau hyn, ynghyd â'r camau a'r diwyg sy'n ofynnol.

Roedd yr adroddiad hefyd yn cyfeirio at ostwng rhai o'r dangosyddion statudol ar gyfer Gwasanaethau Oedolion a'r rhai ychwanegol sydd wedi eu cynnwys ar gyfer Cefnogi Pobl am y tro cyntaf. Hefyd, byddai cyfres ychwanegol o ddangosyddion craidd yn gorfod cael eu datblygu i adrodd yn eu cylch yn 2006, ac roedd gwaith wedi ei gychwyn ar sefydlu'r systemau gwybodaeth.

Byddai'r adroddiadau rheoli perfformiad chwarterol i'r Pwyllgor Craffu yn adrodd ynghylch y dangosyddion statudol, a byddent yn cynnwys adroddiadau ar gyraeddiadau neu broblemau penodol wrth gyflawni'r Cynlluniau Gweithredu.

Holodd Cynghorydd Chamberlain Jones a oedd y Pennaeth Iechyd Meddwl Integredig newydd wedi ei benodi eto gan ei bod yn ymwybodol fod Ymddiriedolaeth Iechyd Conwy a Sir Ddinbych wedi rhoi stop ar yr holl recriwtio oherwydd cyfyngiadau ariannol. Roedd hi'n teimlo bod digonedd o ymgeiswyr mewnol cymwys ar gael ar gyfer y swydd. Atebodd y Pennaeth Gwasanaethau Oedolion na fu, mewn gwirionedd, unrhyw geisiadau llwyddiannus yn fewnol a bod hysbyseb wedi ei roi yn allanol ryw dair wythnos ynghynt. Byddai angen ystyried gwneud trefniadau dros dro petai'r drefn recriwtio'n methu penodi. Cadarnhaodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol y byddai Sir Ddinbych yn mynnu trefn recriwtio agored gan y byddai'r swydd yn cael ei hariannu ar sail partneriaeth. Ychwanegodd na fyddai'r pwysau sydd ar yr Ymddiriedolaeth yn newid y sefyllfa honno.

I ateb cwestiynau a phryderon yr Aelodau, rhoddodd y swyddogion ragor o wybodaeth ynghylch materion penodol yn cynnwys :-

- ansefydlogrwydd o ran staffio yng ngwasanaethau plant,
- rôl y swyddogion adolygu
- y Cynllun Cefnogi Pobl
- amseroldeb ac ansawdd yr asesiadau cychwynnol
- adolygu strwythur a methodoleg ffeiliau o fewn gwasanaethau plant
- arweiniad i ofalwyr maeth
- strategaethau a thargedau yn ymwneud â phlant y gofelir amdanynt

***PENDERFYNWYD*** *derbyn y Cynlluniau Busnes priodol ar gyfer y Gyfarwyddiaeth Gwasanaethau Personol ar gyfer 2005-08, a chytuno ar y targedau am y flwyddyn sydd i ddod.*

**64 ADOLYGIAD O ADRODDIADAU PERFFORMIAD CHWARTEROL - ADRODDIADAU CHWARTEROL**

Bu'r Aelodau'n ystyried yr Adolygiad Perfformiad Chwarterol o ran Gwasanaethau Tai a Gwasanaethau Cymdeithasol, a ddosbarthwyd o flaen llaw. Lluniwyd yr adroddiad gan y Swyddog Cefnogi Craffu i gynorthwyo'r Aelodau gyda golwg ar fonitro perfformiad unedau gwasanaeth unigol o fewn cylch gwaith Pwyllgor Craffu Gwasanaethau Personol yn erbyn y targedau a'r amcanion y cytunwyd arnynt.

Yn gymorth i'r Aelodau, lluniwyd atodiad yn rhestru'r Dangosyddion Perfformiad Statudol a gafodd eu monitro gan y Pwyllgor, a'r lefelau perfformiad priodol ar gyfer y 4ydd chwarter a'r sefyllfa yn gyffredinol am y flwyddyn ariannol 2004-05.

**(i) Gwasanaethau Tai**

Mynegodd yr Aelodau gryn bryder ynghylch lefel y manylion sydd yn yr adroddiad ar Ddangosyddion. Roeddent yn teimlo nad oedd llawer o'r wybodaeth ystadegol yn gwneud dim i wella dealltwriaeth yr Aelodau o'r gwir ddarlun o ran y targedau a gyrhaeddwyd. Ystyriwyd y byddai pennawd ynghylch pob dangosydd yn ddigon.

I ateb cwestiwn gan y Cynghorydd D. Hannam, esboniodd y Pennaeth Gwasanaethau Tai nad oedd bellach yn arferiad i gynnal archwiliadau rheolaidd o dai'r Cyngor. Fodd bynnag, roedd yn dal i gynnal archwiliadau pan fyddai cais penodol amdanynt.

**(ii) Gwasanaethau Cymdeithasol**

Gan gyfeirio at adran 7.3.1 yn yr adroddiad, holodd y Cynghorydd J. R. Bartley pam fod problemau mewn dod o hyd i leoliadau ar gyfer pobl sy'n disgwyl cael eu rhyddhau o'r Uned Ablett yn Ysbyty Glan Clwyd. Lleisiodd bryderon hefyd ynghylch symud preswylydd yn Ninbych yn dioddef o Alzheimer's i gartref yn Llangollen. Esboniodd y Pennaeth Gwasanaethau Oedolion fod yr oedi wrth ryddhau o'r ysbyty a darparu gwasanaethau yn lleol i henoed eiddil eu meddwl, wedi cael eu hachosi gan brinder lleoliadau arbenigol. Fodd bynnag, roedd mesurau wedi eu cymryd i fynd i'r afael â hyn, gyda'r posibilrwydd o gyflwyno cytundebau bloc gyda Darparwyr.

Ymatebodd y Pennaeth Gwasanaethau Oedolion hefyd i bryderon ynghylch salwch tymor-hir o fewn y tîm iechyd meddwl, gan gadarnhau bod mesurau wedi eu gosod mewn lle am y tro i roi cefnogaeth a chysondeb.

Wrth drafod, cyfeiriodd yr Aelodau at y trafferthion sydd wrth bwyso cyflwyno gwasanaethau yn erbyn y goblygiadau anochel o ran cost.

Cyfeiriodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol at y cyflawniadau mewn Gwasanaethau Oedolion, gan dalu teyrnged i'r staff am eu gwaith caled.

Ar gais y Cadeirydd, cyfeiriodd Mr N. Griffiths at rôl Aelodau Etholedig o fewn y broses graffu, a phwysleisiodd y byddai'r Aelodau efallai'n dymuno canolbwyntio ar feysydd lle'r oedd y targedau wedi methu a'r camau yn dilyn hynny i'w cywiro a'u gwella, a hyn er mwyn datblygu a chadw her gadarn i'r Weithrediadaeth.

***PENDERFYNWYD*** *nodi a derbyn yr adroddiadau ar berfformiad y gwasanaethau o fewn y Gyfarwyddiaeth Gwasanaethau Personol.*

**65 GWASANAETHAU THERAPI GALWEDIGAETHOL – ADRODDIAD CYNNYDD**

Cyflwynodd y Rheolwr Gwasanaethau Oedolion (Peter Fowler) adroddiad, a ddosbarthwyd o flaen llaw, i roi gwybod i'r Aelodau am y cynnydd a'r gwelliannau sylweddol a wnaed yn y Gwasanaeth Therapi Galwedigaethol yn ystod y flwyddyn.

Roedd yr adroddiad yn tynnu sylw at y camau a gymerwyd i leihau'r rhestr aros, oedd wedi dod i lawr o 430 yn Ebrill 2004 i 199 yn Ebrill 2005. At hynny, nid oedd neb yn disgwyl am fwy na 12 mis am asesiad, ac roedd y rhai mewn mwyaf o angen yn cael yr ymateb cynharaf. Roedd y manylion llawn yn yr atodiad oedd ynghlwm wrth yr adroddiad.

Tynnwyd sylw penodol am y mesurau a gymerwyd i ymestyn rôl yr asesiad. Roedd arian o'r Grant Adnoddau Ymarferol Gofal wedi galluogi datblygu sgiliau staff digymhwyster, a byddai hyn yn arwain at weithlu mwy hyblyg a fyddai'n gallu targedu atgyfeiriadau anghymleth lle mae trosiant uchel.

Roedd yr adroddiad hefyd yn cyfeirio at gynlluniau am ragor o ddatblygiadau a'r cynnig i integreiddio Gwasanaethau Therapi Galwedigaethol o Ebrill 2006. I ateb cwestiynau, cadarnhaodd y swyddogion fod y grantiau cyfleusterau i bobl anabl yn orfodol ac nad oedd y mater o symleiddio wedi ei drin eto.

***PENDERFYNWYD*** *derbyn yr adroddiad, a chroesawu'r cynnydd a'r gwelliannau a wneir o fewn y Tîm Adnoddau Anabledd.*

**66 GRANT GOFALWYR**

Cyflwynodd y Pennaeth Gwasanaethau Oedolion adroddiad, a ddosbarthwyd o flaen llaw, ynghylch y cynllun arfaethedig ar gyfer Grant Gofalwyr Sir Ddinbych 2005/06. Roedd yr adroddiad hefyd yn rhoi gwybodaeth am y cynnydd ynghylch y gwasanaethau i Ofalwyr ac am y newidiadau deddfwriaethol diweddar a fyddai'n cael effaith ar ddarparu gwasanaethau i ofalwyr yn 2005 a thu hwnt.

Ynghlwm wrth yr adroddiad, roedd crynodeb o'r prosiectau roedd Sir Ddinbych yn eu cynnig eu hariannu trwy'r Grant Gofalwyr yn 2005/06. Byddai'r amrywiaeth o brosiectau yn galluogi darparu gwasanaethau i ofalwyr o bob oed sy'n gofalu am unigolion sydd ag ystod eang o anableddau.

***PENDERFYNWYD*** *derbyn yr adroddiad a chefnogi dyrannu cronfa'r Grant Gofalwyr.*

**67 RHAGLEN WAITH CRAFFU**

Cyflwynodd y Swyddog Cefnogi Craffu adroddiad, a ddosbarthwyd o flaen llaw, ynghylch datblygu rhaglen waith ar gyfer y Pwyllgor am y flwyddyn gyfredol.

Roedd yr adroddiad yn cadarnhau y byddai cyfarfod ychwanegol yn cael ei gynnal ar Orffennaf 28ain 2005 yn lle'r cyfarfod gafodd ei ganslo ym mis Ebrill. Wedi hynny, roedd y rhestr o eitemau wedi cael ei hadolygu ac roedd ynghlwm wrth yr adroddiad fel atodiad.

Gan gyfeirio at gyfarfod arbennig arfaethedig gyda chynrychiolwyr o'r Bwrdd Iechyd Lleol, dywedodd y Cadeirydd fod Aelodau'r Pwyllgor wedi llunio rhestr o gwestiynau fel sail i drafodaeth. Cytunwyd y byddai'r cwestiynau'n cael ei hanfon i'r Swyddog Cefnogi Craffu a'r Cyfarwyddwr Corfforaethol cyn gwneud trefniadau ar gyfer y cyfarfod arbennig.

Yn dilyn y penderfyniad a wnaed yn y cyfarfod a gynhaliwyd yn Chwefror i edrych ar effaith cau'r brif swyddfa fudd-daliadau yn y Rhyl a'r canolfannau gwaith ym Mhrestatyn, Dinbych a Llangollen, roedd gweithgor bychan, yn cynnwys Aelodau o'r Pwyllgor hwn a Phwyllgor Craffu Adnoddau wedi cyfarfod i gytuno ar gwestiynau cychwynnol i'w cyflwyno i Reolwr Ardal y swyddfeydd lleol. Cadarnhaodd y Swyddog Cefnogi Craffu fod llythyr wedi ei anfon i'r Rheolwr Ardal ac y byddai'r gweithgor yn cyfarfod eto unwaith y byddai ateb wedi dod.

Nododd yr Aelodau mai dyddiad symud yr Uned Tasglu o Dŷ Dyffryn i Ganol y Dre oedd 17eg Mehefin 2005, sef wythnos yn hwyrach na'r disgwyl. Oherwydd pryderon a leisiwyd gan y Cynghorydd T R Hughes, sef nad yw'r gwaith adnewyddu efallai'n symud ymlaen mor sydyn â'r disgwyl, cytunwyd y byddai'r swyddogion yn gwneud ymholiadau i weld y sefyllfa ar hyn o bryd.

Cyfeiriodd y Cadeirydd at ymweliad a wnaeth yn ddiweddar â chanolfan adsefydlu cyffuriau ac alcohol yn Iwerddon lle ceid llwyddiant sylweddol. Cytunwyd y byddai'n llunio adroddiad drafft i'w gyflwyno i'r Cyfarwyddwr Corfforaethol ac yna i gyfarfod o'r Pwyllgor yn y dyfodol.

***PENDERFYNWYD*** *cefnogi'r rhaglen waith a dilyn y camau y cyfeirir atynt.*

**68 Y CYNLLUN PLANT YN GYNTAF 2005-06**

Cyflwynodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol adroddiad, a ddosbarthwyd o flaen llaw, ynghylch Cynllun Plant yn Gyntaf Sir Ddinbych 2005/06 a Chydgynllun Gweithredu'r Rheolwyr i'r Cynulliad.

Roedd yr adroddiad yn rhoi manylion y dyraniadau grant a chyfanswm y gwariant lleol sydd ar gael am y flwyddyn gyfredol. Yn unol ag ymrwymiad y Cynulliad i leihau nifer y grantiau penodol, byddai'r rhaglen Plant yn Gyntaf yn cael ei hadolygu bob blwyddyn gyda'r bwriad o ddileu'r Grant yn raddol dros y tair blynedd nesaf. Fodd bynnag, ni fyddai'r rhaglen na'r adnodd yn cael ei golli gan y byddai'r grant yn cael ei drosglwyddo i'r Grant Cefnogi Refeniw.

Roedd Cynllun Gweithredu'r Rheolwyr, oedd yn sefydlu'r cyd-gynigion y cytunodd y tri phartner arnynt, ynghlwm fel atodiad i'r adroddiad i'w hystyried.

***PENDERFYNWYD*** *cefnogi'r Cynllun Gweithredu'r Rheolwyr fel y cynllun terfynol i'w gyflwyno i'r Cynulliad.*

Daeth y cyfarfod i ben am 1.20 y prynhawn.

*********

## PWYLLGOR TRWYDDEDU

Cofnodion cyfarfod o'r Pwyllgor Trwyddedu a gynhaliwyd yn Siambr y Cyngor, Neuadd y Sir, Ffordd Wynnstay, Rhuthun ddydd Mawrth 7fed Mehefin 2005 am 10.00am.

### YN BRESENNOL

Y Cynghorwyr R E Barton (sylwebydd), B Blakeley, P C Duffy, E C Edwards, D Hannam, K N Hawkins, C L Hughes, M M Jones, J Thompson-Hill a C H Williams

### HEFYD YN BRESENNOL

Pennaeth Gwasanaethau Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd, Rheolwr Safonau Masnach,Trwyddedu a Diogelwch (P Ellis), Prif Swyddog Trwyddedu (L Lauderdale), Swyddog Trwyddedu (N Jones), Cyfreithiwr (A Walsh) a'r Swyddog Gweinyddol (K E Jones)

### CAFWYD YMDDIHEURIADAU AM EU HABSENOLDEB ODDI WRTH

Y Cynghorwyr J Butterfield a T K Hodgson

### 69 PENODI CADEIRYDD

Gwahoddodd y Cyfreithiwr enwebiadau i benodi Cadeirydd y Pwyllgor am y flwyddyn i ddod. Cynigiwyd ac eiliwyd penodi'r Cynghorydd K N Hawkins yn Gadeirydd y Pwyllgor am y flwyddyn i ddod. Yn absenoldeb unrhyw enwebiadau eraill

***PENDERFYNWYD** penodi'r Cynghorydd K N Hawkins yn Gadeirydd y Pwyllgor Trwyddedu am y flwyddyn i ddod.*

### 70 PENODI IS GADEIRYDD

Gwahoddodd y Cadeirydd enwebiadau i benodi Is Gadeirydd a chynigiwyd ac eiliwyd penodi'r Cynghorydd J Thompson-Hill fel Is Gadeirydd y pwyllgor am y flwyddyn i ddod. Yn absenoldeb unrhyw enwebiadau eraill

***PENDERFYNWYD** penodi'r Cynghorydd J Thompson-Hill yn Is Gadeirydd y Pwyllgor Trwyddedu am y flwyddyn i ddod.*

### 71 MATERION BRYS

Yn unol â gofynion Adran 100B(4) Deddf Llywodraeth Leol 1972, datganodd y Cadeirydd ei fwriad i gynnwys y materion canlynol sydd angen sylw brys, er trafodaeth:-

(i) Casglu ar y Stryd - Eisteddfod Gerddorol Gydwladol Llangollen

(ii) Tynnu eitemau 7 a 8 yn ôl oddi ar yr agenda

Dywedodd y Pennaeth Gwasanaethau Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd fod eitemau 7 ac 8 ar yr agenda'n cyfeirio at faterion trwyddedu cerbydau hacni gan gynnwys adolygu prisiau a ffioedd a dileu parthau trwyddedu presennol. Teimlid y dylid cynnal trafodaeth pellach ar y ddau fater, yn enwedig gyda Chymdeithas Tacsi'r Rhyl sydd newydd ei ffurfio, cyn iddynt gael eu hystyried gan y pwyllgor hwn. Cytunodd yr aelodau ag argymhelliad y swyddog i dynnu'r eitemau oddi ar agenda heddiw.

Awgrymodd y Cynghorydd B Blakeley y dylid cynnal cyfarfod gyda'r swyddogion, yr aelodau etholedig a'r fasnach dacsi er mwyn trafod y problemau a geir yn ardal y Rhyl o ganlyniad i ddadreoli. Gofynnodd y Cynghorydd Blakeley i'r cyfarfod cael ei drefnu'n gynnar ym mis Gorffennaf cyn cyfarfod nesaf o'r Pwyllgor Trwyddedu ar 27ain Gorffennaf 2005. Croesawodd y Pennaeth Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd y cynnig a chytunodd y byddai fforwm o'r fath yn ffordd ddefnyddiol o ymgynghori a thrafod unrhyw fater a fyddai'n peri bryder. Cadarnhaodd y byddai'r cyfarfod yn cael ei drefnu cyn gynted â phosibl o gymryd dyddiaduron yr aelodau a swyddogion i ystyriaeth.

## 72 TRWYDDEDU ADLONIANT CYHOEDDUS CLWB GWLEDIG GRAIG PARK, DYSERTH

Cyflwynodd y Rheolwr Safonau Masnach, Trwyddedu a Diogelwch adroddiad gan y Pennaeth Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd (a rannwyd o'r blaen) :-

(i) Cais a dderbyniwyd yn gofyn am adnewyddu ac amrywio trwydded adloniant cyhoeddus dros dro ar gyfer yr eiddo uchod ac yn gofyn am oriau agor o Ddydd Llun i Ddydd Sadwrn 10.00am. - 3.00 a.m. a Dydd Sul 10.00 a.m. - 1.30 a.m., 3.00 a.m. ar ddydd Sul cyn Gwyliau Banc (ar wahan i'r Pasg);

(ii) Ni chafwyd gwrthwyneb oddi wrth Heddlu Gogledd Cymru nac Adeiniau Rheoli Llygredd y Cyngor i'r cais ac ni dderbyniwyd unrhyw sylw mewn ymateb i'r rhybudd cyhoeddus angenrheidiol;

(iii) Ni chafwyd unrhyw wrthwynebiad oddi wrth Wasanaeth Tân Gogledd Cymru i adnewyddu'r cais yn amodol ar gwblhau'r gwaith angenrheidiol sydd heb ei orffen ac y manylir arno yn eu sylwadau ysgrifenedig (ynghlwm wrth yr adroddiad);

(iv) Mae Adain Rheoli Adeiladu'r Cyngor wedi tynnu sylw at y gwaith ar y eiddo sydd heb ei gwblhau i'w bodlonrwydd hyd yn hyn, a

(v) Derbyniodd yr ymgeisydd wahoddiad i fod yn bresennol yn y cyfarfod i gefnogi ei gais.

Arweiniodd y Rheolwr Safonau Masnach, Trwyddedu a Diogelwch yr Aelodau trwy'r adroddiad a dywedodd fod cynrychiolydd yr ymgeisydd, Mr P Williams o Gamlins, Cyfreithwyr, yn bresennol yn y cyfarfod.

Anerchodd Mr P Williams o Gamlins, Cyfreithwyr, y pwyllgor i gefnogi'r cais ac atgoffodd yr Aelodau eu bod wedi caniatáu trwydded dros dro o'r blaen a oedd mewn gwirionedd yn sicrhau y cai'r eiddo drwydded adloniant cyhoeddus os byddai'r gwaith datblygu angenrheidiol yn cael ei gwblhau i fodlonrwydd yr awdurdod. Felly, roedd yn gyn amserol ystyried gwrthwynebiadau oddi wrth Wasanaeth Tân Gogledd Cymru ar yr adeg yma o'r datblygiad gan fod yr eiddo'n dal i gael ei adeiladu. Yna manteisiodd yr Aelodau ar y cyfle i holi Mr P Williams a chadarnhaodd yntau fod y cais dros dro wedi'i gymeradwyo mewn egwyddor yn amodol ar gwblhau datblygu'r eiddo'n unol â'r cynlluniau a gytunwyd ac â'r safonau gofynnol.

Anerchodd Mr A Edwards, Rheolwr Diogelwch Cyngor Sir Ddinbych oddi wrth Gwasanaeth Tân Gogledd Cymru, y pwyllgor ac manylodd ar nifer o eitemau heb eu cwblhau a oedd yn codi o'r cais. Dywedodd mai nid y datblygiad ei hunan oedd y prif bryder ond gorgyffyrddiad lle mae'r datblygiad newydd yn agos at yr adeilad presennol sydd, yn ôl y Gwasanaeth Tân, yn cael ei esgeuluso. Gofynnodd Mr Edwards i'r fan hon gael ei hadolygu'n barhaus er mwyn sicrhau fod y ffordd o ddianc yn parhau i fod yn dderbyniol ar gyfer adloniant cyhoeddus a bod gwesteion yn ddiogel bob amser. Mewn ymateb i gwestiynau'r Aelodau, manylodd Mr Edwards ar y problemau ynghylch ffyrdd o ddianc gan gynnwys yr angen i gynnal y ffyrdd o ddianc presennol, sicrhau nad yw dihangfeydd yn cael eu newid neu'u blocio a bod yr arwyddion cywir yn cael eu harddangos.

Wrth ystyried y cais mynegodd yr aelodau bryderon ynghylch y problemau a amlygwyd gan y Gwasanaeth Tân a theimlai'r Cynghorydd E Edwards y dylai'r cais cael ei ystyried ar ôl i'r gwaith datblygu cael ei gwblhau. Dywedodd y Cyfreithiwr nad oedd gan y pwyllgor hawl i ymyrryd yn y gwaith adeiladu ac mai'r hyn a oedd yn cael ei ystyried oedd cais am adnewyddu ac amrywio trwydded adloniant cyhoeddus dros dro. Tra'n cydymdeimlo gyda'r anawsterau a gafodd y Gwasanaeth Tân wrth gynnal diogelwch y cyhoedd yn ystod datblygu'r safle, nid oedd y materion hynny'n berthynasol i broses penderfynu'r pwyllgor ar gyfer delio gyda'r cais hwn. Awgrymodd efallai y dymunai Mr P Williams roi sicrwydd ar ran ei gleient y byddai'r pryderon a godwyd gan y Gwasanaeth Tân yn cael eu datrys. Cadarnhaodd Rheolwr Diogelwch Cyngor Sir Ddinbych y byddai swyddogion yn dal i ymweld â'r eiddo er mwyn talu sylw i'r problemau hynny.

Dywedodd Mr P Williams wrth yr Aelodau fod yr eiddo'n fuddsoddiad ac yn ddatblygiad mawr a chydnabu'r anawsterau a gafodd gan y Gwasanaeth Tân ynghylch yr eiddo. Awgrymodd fod safon y

gwaith yn uchel ond bod rheolaeth o'r prosiect yn ymddangos yn fratiog. Fodd bynnag, roedd ei glieintiaid yn ymwybodol yn ddiweddar o bryderon a godwyd gan y Gwasanaeth Tân a byddant yn ceisio eu datrys. Wrth gloi, gofynnodd Mr Williams i'r aelodau ganiatáu adnewyddu ac amrywio'r drwydded dros dro tra'n disgwyl i'r gwaith angenrheidiol cael ei gwblhau.

***PENDERFYNWYD*** *caniatáu'r cais am adnewyddu ac amrywio trwydded adloniant cyhoeddus dros dro ynghylch Clwb Gwledig Graig Park, Dyserth yn amodol ar Reoliadau Adloniant Cyhoeddus y cyngor a thelerau ac amodau priodol eraill sy'n bodoli, cwblhau unrhyw waith sydd heb ei orffen gan gynnwys diogelwch tân ac unrhyw waith arall yn unol â'r gofynion y ystyrir yn angenrheidiol gan y Cyngor.*

(Dymunai'r Cynghorydd R Edwards iddo gael ei nodi ei fod wedi ymatal rhag pleidleisio ar y penderfyniad uchod).

**73 DEDDF THEATRAU 1968: YSGOL RHUTHUN, FFORDD YR WYDDGRUG, RHUTHUN**

Cyflwynodd y Rheolwr Safonau Masnach, Trwyddedu a Diogelwch adroddiad gan y Pennaeth Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd (a rannwyd o'r blaen) a chyflwynodd yr wybodaeth diweddaraf ynghylch :-

(i) Cais a dderbyniwyd am drwydded theatr ar gyfer Ysgol Rhuthun, Ffordd yr Wyddgrug, Rhuthun yn gofyn am ganiatáu oriau gweithredu o 2.00pm - 10.00 p.m. Dydd Llun tan ddydd Sadwrn;

(ii) y nifer fwyaf o bobl sydd i gael mynediad i'r eiddo yw 50 yn amodol ar argymhellion gan Wasanaeth Tân Gogledd Cymru;

(iii) Does gan Wasanaeth Tân Gogledd Cymru dim gwrthwynebiad i'r cais ond yn argymell na ddylai mwy na o 150 bobl mewn cynulleidfa'n eistedd agos at ei gilydd gael defnyddio'r eiddo ar unrhyw un adeg.

(iv) Ni chafwyd gwrthwynebiadau oddi wrth Heddlu Gogledd Cymru nac Adeiniau Rheoli Llygredd y Cyngor i'r cais, a

(v) Derbyniodd yr ymgeiswyr wahoddiad i fod yn bresennol yn y cyfarfod er mewn cefnogi'r cais.

Arweiniodd y Rheolwr Safonau Masnach, Trwyddedu a Diogelwch yr Aelodau trwy'r adroddiad a dywedodd nad oedd yr ymgeiswyr yn bresennol yn y cyfarfod er eu bod wedi cael gwahoddiad i fod yno.

***PENDERFYNWYD*** *caniatáu'r cais ar y telerau ac amodau arferol yn amodol ar na ddylai mwy na o 150 bobl mewn cynulleidfa'n eistedd agos at eu gilydd gael defnyddio'r eiddo ar unrhyw un adeg yn unol ag argymhellion Gwasanaeth Tân Gogledd Cymru.*

**74 DEDDF TAI LLUNIAETH HWYR Y NOS 1969: CEISIADAU ADNEWYDDU**

Cyflwynodd y Rheolwr Safonau Masnach, Trwyddedu a Diogelwch adroddiad gan y Pennaeth Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd (a rannwyd o'r blaen) ynghylch:-

(i) rhestr o geisiadau adnewyddu ac amrywio Trwyddedau Tai Lluniaeth Hwyr y Nos a ddaeth i ben ar 31ain Mawrth 2005;

(ii) Mae Deddf Tai Lluniaeth Hwyr y Nos 1969 yn gofyn i adeiladau sy'n cael eu cadw ar agor ar gyfer lluniaeth i'r cyhoedd, ymgasglu ac adloniant ar unrhyw adeg rhwng yr oriau 10.00pm a 5.00am ddal trwydded flynyddol;

(iii) Hawliau'r Cyngor wrth benderfynu ceisiadau ar gyfer trwyddedu Tai Lluniaeth Hwyr y Nos a'i hawliau i wahardd agor neu gadw ar agor eiddo o'r fath er mwyn osgoi aflonyddwch afresymol i drigolion y gymdogaeth;

(iv) Rhaid i ymgeiswyr sy'n dymuno parhau i ddarparu lluniaeth hwyr y nos ar ôl mis Tachwedd 2005 ymgeisio am newid eu trwydded presennol o dan Ddeddf Trwyddedu 2003;

(v) Ni chafwyd gwrthwynebiadau oddi wrth Heddlu Gogledd Cymru i adnewyddu'r ceisidau, a

(vi) Ei argymhelliad fod yr aelodau'n ystyried pob cais am adnewyddu yn ôl ei deilyngdod ei hunan.

Cyflwynodd y Rheolwr Safonau Masnach, Trwyddedu a Diogelwch grynodeb o'r adroddiad i'r aelodau ac yn dilyn hynny:-

***PENDERFYNWYD:-***

*(a) Caniatáu'r ceisiadau canlynol ar gyfer adnewydd Trwyddedau Tai Lluniaeth Hwyr y Nos ar y telerau ac amodau arferol am y cyfnod 1af Ebrill 2005 i Ail Ddiwrnod Penodedig y Deddf Trwyddedu 2003 ym mis Tachwedd 2005:-*

| ***Eiddo*** | ***Adeg Cau*** |
|---|---|
| *Yeung Sing Chinese Restaurant, 133 Wellington Road, y Rhyl* | *1.00 a.m.* |
| *Pizza World, 6 Market Street, y Rhyl* | *3.00 a.m.* |
| *Kentucky Fried Chicken, 29 Wellington Road, y Rhyl* | *2.00 a.m.* |
| *Peking Chinese Restaurant, 20-24 Bodfor Street, y Rhyl* | *1.00 a.m.* |
| *Shangri-la Chinese Restaurant, Coast Road, y Rhyl* | *1.00 a.m.* |
| *McDonalds, Stryd Fawr, y Rhyl* | *11.00 p.m.* |
| *Spicyworld, 42 Queen Street, y Rhyl* | *2.00 a.m.* |
| *The Godfather, 28 Queen Street, y Rhyl* | *2.00 a.m. Gwener a Sadwrn 12 hanner nos Sul - Iau* |
| *Subway, 14 Stryd Fawr, y Rhyl* | *3.00 a.m.* |

## 75 TRWYDDEDU CERBYDAU HACNI: FFIOEDD A PHRISIAU

Tynnwyd yr eitem hon yn ôl gyda chaniatad y pwyllgor tra'n disgwyl ymgynghori gyda'r fasnach tacsis.

## 76 TRWYDDEDU CERBYDAU HACNI: DIDDYMU PARTHAU TRWYDDEDU

Tynnwyd yr eitem hon yn ôl gyda chaniatad y pwyllgor tra'n disgwyl ymgynghori pellach gyda'r fasnach tacsis.

## 77 CASGLU AR Y STRYD - EISTEDDFOD GERDDOROL GYDWLADOL LLANGOLLEN

(Ystyriwyd yr eitem hon fel mater o frys. Rhoddwyd rhybudd gan y Cadeirydd ar ddechrau'r cyfarfod)

Cyflwynodd y Rheolwr Safonau Masnach, Trwyddedu a Diogelwch adroddiad gan y Pennaeth Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd (a rannwyd o'r blaen) :-

(i) Derbyniwyd cais oddi wrth Eisteddfod Gerddorol Gydwladol Llangollen am drwydded casglu ar y stryd er mwyn cynnal casgliad ar 5ed Gorffennaf 2005 yn ardal Llangollen o'r sir;

(ii) Mae polisi'r cyngor yn caniatáu un casgliad ar y stryd yn unig fesul tref / cymuned yr wythnos. Roedd y swyddogion wedi caniatáu trwydded casgliad ar y stryd i sefydliad arall ar gyfer 9fed Gorffennaf 2005 yn barod, a

(iii) Ei argymhelliad fod yr aelodau'n cymeradwyo'r cais oddi wrth Eisteddfod Gerddorol Cydwladol Llangollen am ganiatad am drwydded casglu ar y stryd.

Eglurodd y Rheolwr Safnonau Masnach, Trwyddedu a Diogelwch y byddai caniatáu trwydded casglu ar y stryd yn groes i bolisi presennol y cyngor o ganiatáu dim ond un casgliad ar y stryd fesul tref yr wythnos ac felly bod angen cymeradwyaeth y pwyllgor.  Roedd deddfwriaeth yn caniatáu disgresiwn y cyngor i ganiatáu ceisiadau y tu allan i'r fframwaith polisi.

***PENDERFYNWYD*** *caniatau'r cais am drwydded casglu ar y stryd oddi wrth Eisteddfod Gerddorol Gydwladol Llangollen er mwyn iddynt gasglu ar 5ed Gorffennaf 2005.*

Daeth y cyfarfod i ben am 10.35pm.

*******

## GRŴP LLYWIO TROSEDD AC ANHREFN

Cofnodion cyfarfod Grŵp Llywio Trosedd ac Anhrefn a gynhaliwyd ym Mhencadlys Rhanbarthol yr Heddlu, Ffordd William Morgan, Parc Busnes Llanelwy, Llanelwy ar ddydd Iau, 9 Mehefin 2005 am 10.00 a.m.

**PRESENNOL**

I. R. Miller, (Cadeirydd) Cyngor Sir Ddinbych, Prif Uwcharolygydd J. Sandham, Heddlu Gogledd Cymru, Cynghorydd E. Edwards, Cyngor Sir Ddinbych ac Awdurdod Heddlu Gogledd Cymru, N. Elis-Williams, Tîm Troseddau Ieuenctid, A. Lawrie, Bwrdd Iechyd Lleol Sir Ddinbych, J. Mahy, Llysoedd Ynadon, T. Nunn, Cynulliad Cenedlaethol Cymru, Uwcharolygydd B. Jones, Arolygydd M. Davies, S. Hughes a T. Blinston, Heddlu Gogledd Cymru, M. Denman, J. White a J V Pring, Cyngor Sir Ddinbych.

Croesawodd y Cadeirydd yr Arolygydd M. Davies i'r cyfarfod, i gymryd lle'r Arolygydd S. Williams. Hefyd fe longyfarchodd ef y Cynghorydd E C Edwards ar gael ei benodi yn ddiweddar yn is-gadeirydd Awdurdod Heddlu Gogledd Cymru.

**78 YMDDIHEURIADAU**

Cafwyd ymddiheuriadau oddi wrth A. Roberts, Gwasanaeth Tân, ac S. Ray, Gwasanaeth Prawf.

**79 COFNODION**

Cyflwynwyd cofnodion y Grŵp Llywio gynhaliwyd ar 3 Mawrth 2005.

***PENDERFYNWYD** derbyn cofnodion y Grŵp Llywio gynhaliwyd ar 3 Mawrth 2005 fel rhai cywir.*

**MATERION YN CODI**

tudalen 3 (Trosglwyddo arian Uned Gorchymyn Sylfaenol) - Gofynnodd y Cynghorydd E. Edwards am eglurhad ac atebodd y Prif Uwcharolygydd Sandham. Dywedodd fod y dewis hwn yn cyfeirio at y posibilrwydd o drosglwyddo Swyddogion Cefnogi Cymunedau oedd yn cael eu hariannu o'r Uned honno i swyddi gwag yr oedd arian cyfatebol ar eu cyfer, a thrwy hynny ryddhau arian Uned Gorchymyn Sylfaenol ychwanegol.

tudalen 5 (mater Ymddygiad Gwrthgymdeithasol) - Dywedodd y Cadeirydd ei fod wedi ysgrifennu at Gyngor Dinas Caer a bod y teulu wedi cael eu symud wedyn o Westy'r Morville, y Rhyl.

tudalen 5 (arddangos Meddalwedd) – cadarnhaodd Mr S. Hughes fod y meddalwedd wedi cael ei arddangos ar 28 Ebrill 2005 a bod trafodaethau wedi cael eu cynnal efo'r Gwasanaeth Gwybodaeth Rheoli o ran darparu data'r heddlu i Gaerdydd. Unwaith y byddai popeth yn ei le a data'r heddlu yn cael ei ddangos yn gywir, bwriedid darparu data'r gwasanaeth tân.

**80 YSTADEGAU TROSEDD AC ANHREFN**

Fe wnaeth Mr S. Hughes, Dadansoddydd Heddlu Gogledd Cymru, gylchredeg copïau o'r asesiad Trosedd ac Anhrefn ar gyfer wythnosau 7/8 13 – 26 Mai 2005. Roedd hynny'n rhoi darlun cyffredinol o'r digwyddiadau trosedd ac anhrefn yn unol gyda blaenoriaethau'r Strategaeth Reoli Ranbarthol.

Dywedodd Mr Hughes wrth y Grŵp am newidiadau i'r trefniadau cofnodi, oedd yn golygu nad oedd modd, ar yr adeg honno, cael mynediad at ddata fesul ward.

Roedd yr asesiad yn cadarnhau mai'r newidiadau ers yr asesiad tactegol diwethaf oedd:-

- gostyngiad o 21.8% yn yr holl droseddau (am y flwyddyn hyd hynny)
- y gostyngiad ail fwyaf wedi digwydd yng Ngogledd Sir Ddinbych (23%)
- pob un o'r 4 ardal wedi cael gostyngiad mewn canfod troseddau, a hynny'n 16% yn y rhan Ganolog
- y gyfradd ddarganfod ar gyfer y rhanbarth wedi cynyddu i 38.1%
- 13.3% yn llai o arestiadau, sy'n cyd-fynd gyda'r lefelau o droseddau.

Gwelwyd y llwyddiant mwyaf gyda ‘r ffigyrau troseddau cerbydau, gyda gostyngiadau sylweddol ym mhob un o’r bedair ardal. Roedd gostyngiad o 17.5% yn y lefelau o ymddygiad gwrthgymdeithasol, gyda De Sir Ddinbych yr unig ardal i gael cynnydd (yn cyfateb i 9 digwyddiad).

Bu aelodau’r Grŵp yn ystyried ffyrdd y gellid rhoi cyhoeddusrwydd i’r darlun cadarnhaol.

Awgrymodd y Prif Uwcharolygydd Sandham y gellid cysylltu’r canlyniadau da gyda hanes am unigolion. Teimlai’r Uwch Arolygydd Barry Jones hefyd y byddai’n briodol cynnwys cyngor ar faterion atal trosedd. Cytunwyd y byddai’r unedau o’r awdurdodau oedd yn delio gyda’r wasg yn chwilio am stori oedd yn ymwneud gydag unigolion. Cai honno ei chynnwys yn y wasg leol/Llais y Sir, i dynnu sylw at fanteision cael gwahanol asiantaethau yn gweithio efo’i gilydd.

***PENDERFYNWYD***

(a) *derbyn yr adroddiad ar yr asesiad o’r ystadegau trosedd, a hefyd*

(b) *y byddai’r prif bartneriaid yn cymryd camau priodol i roi cyhoeddusrwydd i’r rhannau lle'r oedd newyddion da.*

**81 Y STRATEGAETH DIOGELWCH CYMUNEDOL A MATERION YN YMWNEUD Â HYNNY**

Roedd copïau o’r Strategaeth Diogelwch Cymunedol am 2005-08 wedi cael eu cylchredeg efo’r rhaglen.

Dywedodd Mr Denman wrth y Grŵp fod y Strategaeth ddrafft wedi cael ei chyflwyno i gyfarfod ar y cyd o bwyllgorau craffu Sir Ddinbych, a bod yr Aelodau Etholedig wedi awgrymu fel a ganlyn:-

- (adran 3.18) Gofyn am i gopïau o raglenni, adroddiadau a chofnodion y gweithgorau fod ar gael i aelodau o’r Cyngor Sir, Cynghorau Tref a Chymuned ac unrhyw un arall pan ofynnent amdanynt.
- datblygu rhaglen hyfforddi i Aelodau Etholedig ac Uwch Swyddogion erbyn Mawrth 2006,
- manylion o’r crynodeb archwilio, y broses ymgynghori a’r wybodaeth am ariannu i gael eu cyflwyno fel atodiadau i’r ddogfen.

Dywedodd aelodau o’r Grŵp eu bod yn cytuno efo’r newidiadau hyn.

Cyfeiriodd Mr Denman at bapur a roddwyd ar y bwrdd ar ddechrau’r cyfarfod ynglŷn â bwriad i sefydlu Cyd-Grŵp, sef un i Weithredu ar y Cyd. Eglurwyd mai rôl y fath Grŵp fyddai cyd-drefnu gweithgareddau gyda’r nod o roi sylw i drosedd ac anhrefn. Cai hynny ei wneud trwy asesu data fel tueddiadau mewn troseddau a thrwy roi’r gwaith o weithredu yn dilyn hynny i asiantaethau ac unigolion. Awgrymwyd y byddai hyn yn ffordd fwy effeithiol i’r Bartneriaeth weld beth oedd y materion oedd angen sylw, a rhoi sylw iddynt. Fodd bynnag, roedd yr adroddiad yn cyfeirio at yr angen i ystyried y drefn oedd yn bodoli yn barod a sut byddai’r fath Gyd-Grŵp Gweithredu yn cyd-fynd efo hynny. Ar yr adeg honno, roedd y Grŵp Cadeiryddion yn caniatáu i gadeirydd pob un o’r grwpiau daearyddol a grwpiau pwnc gyfarfod yn rheolaidd i hwyluso cyd-drefnu eu gweithgareddau. Roedd hefyd gyfarfodydd rheolaidd bob pythefnos o’r Cyd-Grŵp Tasgio, Cyd-drefnu a Chomisiynu rhwng Conwy/Sir Ddinbych. Yno gallai materion oedd yn achosi pryder yn y ddwy sir gael eu canfod a chytuno ar beth i’w wneud. Y grŵp hwn oedd hefyd yn gyfrifol am fonitro sut roedd pethau’n mynd ymlaen o ran y strategaeth POPO.

Cytunodd yr Aelodau y byddai’n fuddiol sefydlu Cyd-Grŵp Gweithredu, a buont yn ystyried y dewisiadau o ran y strwythur presennol. Y teimlad cyffredinol oedd y dylai’r Bartneriaeth barhau i gymryd rhan yn y Grŵp Cyd-drefnu a Chomisiynu. Hefyd dylid estyn aelodaeth y Grŵp Cadeiryddion i gynnwys cynrychiolwyr o asiantaethau eraill a’r sector gwirfoddol, a’i ailenwi yn Gyd-Grŵp Gweithredu. Yn dilyn hynny,

***PENDERFYNWYD***

(a) *estyn aelodaeth y Grŵp Cadeiryddion a’i ailenwi yn Gyd-Grŵp Gweithredu, a hefyd*

(b) *y dylai'r Uwch Arolygydd B. Jones wneud y trefniadau roedd eu hangen i newid Cylch Gorchwyl y Grŵp.*

## 82 ADRODDIAD ARIANNOL/CYNLLUNIAU GWEITHREDU GWEITHGORAU

Cyflwynodd Mr Denman adroddiad yn ymwneud â materion ariannu, oedd wedi cael ei gylchredeg yn gynharach. Roedd adroddiad diwedd blwyddyn ynghlwm wrth yr adroddiad hwnnw, yn rhoi manylion y cynlluniau gwario ar gyfer pob un o'r Gweithgorau Trosedd ac Anhrefn am flwyddyn 2004-05. Roedd hefyd yn dangos y gwariant gwirioneddol a wnaeth pob grŵp. Roedd copïau o'r Cynlluniau Gweithredu ar gyfer pob un o'r Gweithgorau Trosedd ac Anhrefn hefyd wedi cael eu cylchredeg. Rhoddwyd adroddiad ychwanegol ar y bwrdd, yn dangos yr argymhellion o ran dyrannu am 2005-06.

Fe atgoffwyd yr Aelodau o'r arian oedd ar gael o dan y dair brif ffrwd ar gyfer blwyddyn ariannol 2005-06, a'r dyraniadau penodol gytunwyd gan y Grŵp yn y cyfarfod blaenorol. Roedd adroddiad ychwanegol wedi cael ei roi ar y bwrdd, i lywio'r Aelodau trwy'r broses o wneud penderfyniadau gyda'r prosiectau a enwyd yn y cynlluniau gweithredu. Fe gafodd y dyraniadau a gytunwyd yn y cyfarfod blaenorol eu cynnwys yn y cynlluniau er mwyn i'r aelodau gael gweld yn eglur beth oedd y cyfanswm gwariant ar gyfer pob un o'r cronfeydd. Nodwyd hefyd nad oedd y Grŵp Deheuol hyd hynny wedi cyflwyno unrhyw gynigion ar gyfer prosiectau yn yr ardal honno. Eglurodd Mr J. White fod y Grŵp Deheuol wedi llunio cynlluniau gweithredu ym mis Mawrth, ond nad oeddent, am wahanol resymau, wedi cael eu gorffen a'u cyflwyno. Ychwanegodd y byddai'n gyrru copïau i Aelodau'r Grŵp, gyda dyddiad terfyn ar gyfer newidiadau, i wneud yn sicr y gellid gorffen y cynlluniau erbyn 23 Mehefin 2005.

**Cronfa Cymunedau Diogelach a Chryfach**

Wrth ystyried y dyraniad a awgrymwyd mewn perthynas ag ariannu STARS gogledd Cymru fe roddodd Mr White y wybodaeth ddiweddaraf yn gryno i'r Grŵp am beth gafodd ei gyflawni yn dilyn cyflwyno cynllun busnes ym Mawrth 2005. Roedd hynny'n cynnwys manylion yr ariannu a ragwelid. Wedyn gadawodd Mr White y cyfarfod am ychydig tra roedd y Grŵp yn ystyried y cais. Cytunwyd wedyn i gadarnhau'r dyraniad o £41,000 i STARS.

Ar fater y dyraniad ar gyfer arolwg o'r Ofn o Drosedd i'r sir gyfan, dywedodd y Prif Uwcharolygydd Sandham fod yr arolwg wedi cael ei wneud yn barod gan Grŵp Gwasanaeth o Ansawdd Heddlu Gogledd Cymru. Cytunodd i gylchredeg rhannau perthnasol o'r arolwg i'r Grŵp, ac awgrymodd y gallai'r dyraniad o £3,500 gael ei symud i'r gyllideb cyfryngau/cyhoeddusrwydd er mwyn gwella'r elfen tawelu meddwl. Roedd aelodau'r Grŵp yn cefnogi'r cynnig hwn yn llawn. Ychwanegodd Mrs Elis-Williams y gallai fod cyfle i gysylltu gyda'r Bwrdd Cyfiawnder Troseddol ar gyfer cael cyhoeddusrwydd i hanesion newyddion da.

**Cronfa Cymunedau Diogelach**

Wrth ystyried y dyraniadau, cyfeiriodd Mr J White at yr angen i dynhau'r monitro ac arfarnu o ran sut roedd y gweithgor yn symud ymlaen, a'i wariant. Cytunwyd y byddai sefydlu'r Cyd-Grŵp Gweithredu newydd yn cynorthwyo gyda hyn.

Awgrymodd Mr T. Nunn y byddai angen i'r Bartneriaeth ystyried cynigion ar gyfer y dyraniad Cyfarwyddwr Troseddau. Er mai taliad unwaith ac am byth oedd hwn, byddai'r Uned Gostwng Troseddau angen cael ymateb yn ôl fesul chwarter.

***PENDERFYNWYD***

(a) *cytuno ar y dyraniad Cronfa Cymunedau Diogelach a Chryfach a'r Gronfa Cymunedau Diogelach fel y disgrifiwyd yn yr adroddiad, ond y dylai'r £3,500 a ddyrannwyd ar gyfer Arolwg o'r Ofn o Drosedd gael ei ddefnyddio yn hytrach i wella'r Gyllideb Cyfryngau/Cyhoeddusrwydd,*

(b) *y dylai'r Prif Uwcharolygydd Sandham gylchredeg y rhannau perthnasol o'r arolwg o Ofn o Drosedd, a wnaethpwyd gan y Grŵp Gwasanaeth o Ansawdd, i aelodau o'r Grŵp Llywio,*

(c) *gwahodd y grŵp ardal Ddeheuol i gyflwyno ei gynigion o fewn pythefnos, a hefyd*

(ch) *dirprwyo i'r cyd-gadeiryddion y gwaith o ddyrannu'r gyfran o'r arian na chafodd ei ddyrannu hyd hynny.*

**83 TÎM TROSEDDAU IEUENCTID**

Rhoddodd Mrs N. Elis-Williams gyflwyniad llafar ar waith y Tîm Troseddau Ieuenctid. Roedd cyfanswm o 689 o bobl ifanc wedi cael eu cyfeirio at y Tîm, gyda 341 ohonynt rhwng 10 ac 18 oed. Eglurodd Mrs Elis-Williams sut roedd y rhan Rhwystro ac Atal o'r Cynllun Troseddwyr Mynych a Throseddwyr Eraill gyda Blaenoriaeth wedi effeithio ar waith y Tîm. Roedd hynny yn enwedig o ran y mesurau atal fel gorchmynion ymddygiad gwrthgymdeithasol. Roedd rhai wedi cael eu cyfeirio atynt o nifer o wahanol ffynonellau, ond roedd y mwyafrif wedi dod trwy gyfrwng y Rheolwyr Rhawd Cymunedol. Yn dilyn asesiad ac ymddangos gerbron Panel, yr Heddlu fyddai'n penderfynu ar y lefel o ymyrraeth.

Er bod swyddog ieuenctid wedi cael ei ddyrannu o dan y gwaith Rhwystro ac Atal, teimlid y byddai penodi swyddog cymodi yn cynorthwyo gyda chymodi rhwng troseddwyr a'r rhai ddioddefodd oddi wrthynt.

Roedd y materion oedd wedi dod i'r golwg fel rhai'n achosi pryder yn ystod y misoedd diwethaf yn cynnwys:-

- diweithdra
- iechyd corfforol ac emosiynol
- nad oedd uned ddiogel ar gael yng Ngogledd Cymru
- cael llefydd byw addas i rai 16-17 oed

Mater arall oedd yn achosi pryder oedd fod y Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid wedi penderfynu ar ostyngiad o tua £7k yn yr adnoddau. Pwysleisiodd Mrs Elis-Williams bwysigrwydd ariannu cynaliadwy tymor hir i hwyluso cynllunio i'r dyfodol. Roedd adroddiad yn cael ei baratoi ar yr adeg honno ar sefyllfa ariannol y Tîm Troseddau Ieuenctid, a rhagwelid y byddai hwnnw yn barod i'w gyflwyno i'r Grŵp ym Medi 2005.

Bu'r Grŵp hefyd yn edrych ar y cyfleoedd i gael prosiectau i wneud iawn am droseddau, a sut gellid cael cyhoeddusrwydd iddynt. Cyfeiriodd Mrs Elis-Williams hefyd at hyfforddiant ac arferion effeithiol wrth weithio gyda throseddwyr ifanc, gan awgrymu y gallai wardeiniaid cymunedol fod yn dymuno mynd i'r hyfforddiant hwnnw.

***PENDERFYNWYD*** *derbyn y cyflwyniad ar waith y Tîm Troseddau Ieuenctid.*

**84 PWYLLGOR SENEDDOL AR YMDDYGIAD GWRTHGYMDEITHASOL**

Cyflwynodd Mr Denman adroddiad, oedd wedi cael ei gylchredeg yn gynharach, yn ymwneud â chasgliadau adroddiad a gyhoeddwyd gan Bwyllgor Materion Cymreig Tŷ'r Cyffredin ar faterion yn ymwneud ag ymddygiad gwrthgymdeithasol yng Nghymru.

Roedd nifer o argymhellion yn yr adroddiad oedd yn berthnasol i'r Bartneriaeth, o ran ei waith yn gyffredinol a sut roedd yn ymdrin ag ymddygiad gwrthgymdeithasol.

Roedd un o'r argymhellion yn cyfeirio at y ffrydiau ariannu cymhleth a dryslyd. Teimlid bod hynny'n rhwystro cynllunio adnoddau yn effeithiol. Roedd argymhelliad arall yn ymwneud â gosod targedau cenedlaethol a oedd, fe awgrymwyd, yn atal Partneriaethau rhag symud ymlaen yn bendant gyda blaenoriaethau lleol.

Roedd yr adroddiad hefyd yn mynegi pryderon nad oedd ystyriaeth yn cael ei roi i ran sylweddol o waith y Partneriaethau Diogelwch Cymunedol gydag atal troseddau a darparu beth roedd gofyn amdano o ran tawelwch meddwl. Roedd yn cael ei argymell y dylid dyfeisio ffyrdd mwy digonol o fesur yr agweddau craidd o'r gwaith gai ei wneud, ac adlewyrchu'r ffyrdd rheiny yn nhargedau'r Partneriaethau unigol.

Ar faterion ymddygiad gwrthgymdeithasol, galwodd y Pwyllgor am ddiffiniad o ymddygiad gwrthgymdeithasol, gan ei fod yn amrywio gryn dipyn ar draws Cymru a Lloegr. Roedd clod i bartneriaethau yng Nghymru am geisio defnyddio prosesau eraill i ymdrin ag ymddygiad gwrthgymdeithasol cyn ceisio cael Gorchmynion Ymddygiad Gwrthgymdeithasol (ASBO). Roedd clod penodol i ddatblygiadau yn Ne Cymru am ddwyn at ei gilydd yr holl asiantaethau oedd â rhan mewn gwneud cais am y gorchmynion, ac am greu'r Grŵp Cyfreithiol ASBO. Yr argymhelliad oedd y dylid sefydlu grwpiau tebyg ym mhob rhan o Gymru, a sefydlu Fforwm Cenedlaethol i ledaenu arferion da i bob rhan o Gymru.

***PENDERFYNWYD** derbyn a nodi'r adroddiad*.

**85 RHAGLEN WAITH**

Cytunwyd a ***Phenderfynwyd*** y byddai'r eitemau ar gyfer y cyfarfod nesaf (15 Medi 2005) yn cynnwys:-

ystadegau torcyfraith a chynnau tân bwriadol (yr olaf o'r rhain ddim ond os byddai'r Gwasanaeth Tân ac Achub yn cael ei gynrychioli)
adroddiad monitro'r gyllideb
gwasanaeth heddlu cymunedol
byddai rhaglen arfaethedig o waith i'r dyfodol (blaenwaith) hefyd yn cael ei chyflwyno

**86 EITEM YCHWANEGOL – Adolygiad o'r Partneriaethau Diogelwch Cymunedol**

Mewn ymateb i ymholiad oddi wrth y Gadair, cadarnhaodd Mr Denman eu bod yn parhau i aros am ganlyniad yr adolygiad o Bartneriaethau Diogelwch Cymunedol.

Daeth y cyfarfod i ben am 12.05 pm.

**********

**PWYLLGOR ARCHWILIO ADNODDAU**

Cofnodion cyfarfod o'r Pwyllgor Archwilio Adnoddau a gynhaliwyd yn Siambr y Cyngor, Neuadd y Sir, Rhuthun ddydd Iau 9 Mehefin 2005 am 10.00 a.m.

**YN BRESENNOL:**

Y Cynghorwyr R E Barton, J M Davies, G C Evans, H Jones, G M Kensler, P J Marfleet (Aelod Arweiniol dros Bersonél a Chyllid), G J Pickering a G O Rowlands.

**HEFYD YN BRESENNOL:**

Cyfarwyddwr Corfforaethol: Adnoddau, Pennaeth Personél, Pennaeth TGCh, Rheolwr Cysylltiadau Cyhoeddus (S Appleton), Rheolwr Gwasanaethau Gweinyddol (R Davies), Swyddog Cefnogi Archwilio (Jcurran) a Swyddog Gweinyddol (W J Harness).

**87 PENODI CADEIRYDD**

Cynigiodd y Cynghorydd G C Evans, a'i eilio gan y Cynghorydd H Jones, benodi'r Cynghorydd G O Rowlands yn Gadeirydd y Pwyllgor.

Yna cynigiodd y Cynghorydd G M Kensler, a'i helio gan y Cynghorydd R E Barton, benodi'r Cadeirydd G J Pickering i'r Gadair.

Ar ôl pleidleisio,

***PENDERFYNWYD*** *penodi'r Cynghorydd G O Rowlands yn Gadeirydd ar gyfer y flwyddyn i ddod.*

**88 PENODI IS GADEIRYDD**

***PENDERFYNWYD*** *penodi'r Cynghorydd G J Pickering yn Is Gadeirydd ar gyfer y flwyddyn i ddod.*

**89 MATERION BRYS**

Doedd dim materion brys i'w hystyried.

**90 COFNODION**

Cyflwynwyd cofnodion y cyfarfod arbennig o'r Pwyllgor Archwilio Adnoddau a gynhaliwyd ar 6 Ebrill 2005 a chofnodion y Pwyllgor Archwilio Adnoddau a gynhaliwyd ar 14 Ebrill 2005 (a rannwyd o'r blaen).

**Cywiriadau -**

**6 Ebrill 2005 - Eitem 3- Cynllun Busnes Gwasanaeth - Cyfarwyddiaeth Adnoddau - tudalen 6 - Personél Canolog - Risg 1 -** er eglurder, dylid rhoi coma rhwng y geiriau 'Aelodau Heb eu Hyfforddi yn y Cyngor' a 'a gwaith adrannol'.

**Materion yn Codi**

**6 Ebrill 2005**

**Eitem Rhif 3- Cynllun Busnes Gwasanaeth – Cyfarwyddiaeth Adnoddau – Refeniw –** Mewn ymateb i gwestiwn oddi wrth y Cynghorydd R E Barton ynghylch sut y gellid monitro perfformiad yr Adran Refeniw orau er mwyn sicrhau nad oedd yr adran yn cael ei chosbi am ei llwyddiant, dywedodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol wrth y Pwyllgor y sefydlwyd trefniadau digonol ac yr adroddir wrth Aelodau am berfformiad yr Adran bob chwarter. Ychwanegodd y Cyfarwyddwr ei fod yn cael gwybod yn wythnosol am y perfformiad ynghylch Treth y Cyngor, Trethi Busnes a Mân Ddyledion a bod cyfle felly i dalu sylw ar unwaith i unrhyw broblemau a allai godi.

Wrth son am y gyfres arfaethedig o ymweliadau i gyfarfod â staff ym mhob un o Wasanaethau'r Gyfarwyddiaeth Adnoddau, dywedodd y Swyddog Cefnogi Archwilio y byddai'r ymweliadau hyn yn cael eu trefnu ar ôl rhai o gyfarfodydd byrrach y Pwyllgor.

**14 Ebrill 2005**

**Cywiriadau -**

**Eitem Rhif 4 – Ffioedd a Thaliadau** – y dylid newid y geiriau ar ddiwedd y frawddeg olaf yn y paragraff cyntaf o 'i gynnydd yn ystod 2005' i 'i gynnydd yn ystod 2005 / 2006'.

**Eitem Rhif 6 – Datblygu Aelodau** – y dylid newid y pedwerydd pwynt bwled i gynnwys y gair 'hefyd' ac y dylai ddarllen 'dylid cynnal digwyddiadau hyfforddi hefyd ar ben wythnosau neu yn ystod gyda'r nos'.

**Cywiriadau -**

**Eitem Rhif 2 – Cofnodion – Materion yn Codi – Adolygu Adroddiadau Perfformiad Chwarterol – Chwarter 3** – dileu'r geiriau 'i drafod y mater' o ddiwedd y frawddeg olaf ym mharagraff olaf yr eitem ar dudalen 2. Dylai'r frawddeg yn awr ddarllen 'Ychwanegodd y trefnwyd cyfarfod ar gyfer yr wythnos ddilynol rhwng yr Arweinydd, y Prif Weithredwr a Chynghorwyr Cymuned'

**Materion yn Codi**

**Eitem Rhif 4 - Cofnodion - Materion yn Codi - Prosiectau Cyfalaf Cymunedol -** gofynnodd y Cynghorydd G J Pickering am i seminar ar grantiau cyfalaf a refeniw gael ei chynnwys ar Raglen Waith y Pwyllgor.

Cyfeiriodd y Cynghorydd R E Barton at gynnydd gyda Strategaeth Cynhwysedd Cymdeithasol yr Awdurdod gan ddangos y dymunai i'r strategaeth gwmpasu'r Sir gyfan.

**Eitem Rhif 3 - Adolygiad o Gynllun y Gyfarwyddiaeth - Risg 25 -** Atgoffodd y Cynghorydd P J Marfleet yr Aelodau eu bod wedi gweld yr ymateb oddi wrth Sue Essex AC i sylwadau'r Awdurdod ynghylch fformiwla'r Asesiad o Wariant Safonol. Cyfeiriodd at y cyfarfod 'canfod ffeithiau' a gynhaliwyd fis Mai gyda Mike Chown, swyddog y Cynulliad, ac at y llythyr arall a anfonwyd ar ôl y cyfarfod at Sue Essex.

**Eitem Rhif 4 – Ffioedd a Thaliadau –** Mewn ymateb i gwestiwn y Cynghorydd R E Barton, dywedodd y Swyddog Cefnogi Archwilio y byddai'n trafod gyda'r Prif Reolwr Trethiant Lleol ac yn gofyn iddo pa bryd y byddai'n gallu adrodd ar ffioedd a thaliadau'r Gyfarwyddiaeth i Bwyllgorau Archwilio unigol.

Er gwybodaeth i'r Aelodau, dywedodd y Cynghorydd P J Marfleet na fyddai Llywodraeth y Cynulliad yn derbyn cynnydd mewn ffioedd a thaliadau fel arbedion yn y dyfodol. Awgrymodd y Cynghorydd G M Kensler y dylid, wrth edrych ar ffioedd a thaliadau yn y dyfodol, ofyn i'r adrannau pa ganran o'u cyllideb sy'n dod o ffioedd a thaliadau.

***PENDERFYNWYD,*** *yn amodol ar y cywiriadau uchod, gymeradwyo cofnodion cyfarfod arbennig y Pwyllgor Archwilio Adnoddau a gynhaliwyd ar 6 Ebrill 2005 a chofnodion cyfarfod y Pwyllgor Archwilio Adnoddau a gynhaliwyd ar 14 Ebrill 2005 a'u llofnodi fel cofnod cywir.*

**91 ADRODDIAD AR YSTADEGAU STAFF – EBRILL 2004 / 05**

Cyn cyflwyno'i hadroddiad, dangosodd y Pennaeth Personél i'r Pwyllgor allu'r system Adnoddau Dynol newydd.

Ymatebodd y Pennaeth Personél i'r gwahanol gwestiynau a ofynnwyd gan yr aelodau gan ddweud wrthynt, yn benodol, yr ymgynghorwyd gydag undebau'r staff ynghylch sefydlu'r system Adnoddau Dynol newydd ac y dywedwyd wrthynt na ofynnid am fwy o wybodaeth nag oedd yn cael ei gadw'n barod gan yr Adran Bersonél ynghylch staff y Cyngor.

Yna cyflwynodd y Pennaeth Personél adroddiad (a rannwyd o'r blaen) gyda gwahanol Ystadegau Staff ar gyfer 2004 / 05. Roedd yr ystadegau a gyflwynwyd ac a gafodd eu hystyried gan yr aelodau yn dangos nifer y staff, proffil oedran, hyd gwasanaeth, rhyw, rhesymau dros adael, monitro cyfleoedd cyfartal, absenoldeb, rhesymau dros absenoldeb, cwnsela a'r iaith Gymraeg. Rhannwyd proffil staff diwygiedig yn y cyfarfod yn dangos y canlyniad ar ôl ail strwythuro Adran y Prif Weithredwr.

Wrth ystyried yr ystadegau, gwnaeth yr Aelodau'r pwyntiau canlynol -

- yn ogystal â nodi nifer y swyddi ym mhob cyfarwyddiaeth, y dylid hefyd ddangos gwybodaeth ynghylch swyddi gwag

- dylid nodi dilyniant mewn llywodraeth leol a dylid gwneud gweithio mewn llywodraeth leol yn fwy atyniadol er mwyn annog mwy o bobl ifanc i ddewis gyrfa mewn llywodraeth leol.

***PENDERFYNWYD*** *derbyn y cyflwyniad ar y system Adnoddau Dynol a chynnwys yr adroddiad.*

Gyda chytundeb y Cadeirydd, dygwyd yr eitem ganlynol ymlaen ar yr agenda.

**92 CYLLID LLYWODRAETH LEOL**

Cyflwynodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol: Adnoddau adroddiad (a rannwyd y diwrnod hwnnw) yn crynhoi'r materion a drafodwyd yn ystod yr ymweliad diweddar gan Mike Chown, Pennaeth Adran Cyllid Llywodraeth Leol, ar 12 Mai, 2005, fel a ganlyn -

- **Fformiwla Oedolion Gwasanaethau Cymdeithasol Personol -** derbyniwyd fod y fformiwla bresennol yn wallus. Rhoddwyd sicrwydd y byddai'r fformiwla'n cael ei diweddaru yn 2005 / 06 ar gyfer ei chyflwyno yn 2006 / 07.

- **Cynllunio Ariannol yn y Tymor Canolig** – roedd yr Awdurdod wedi amlinellu ei farn y byddai cynllun ariannol mwy hir dymor oddi wrth y Cynulliad o help i'r Awdurdod ddefnyddio ei adnoddau ariannol yn fwy effeithiol. Roedd Mike Chown wedi cynnig y gallai swyddogion y Cynulliad drefnu ymweliad pellach i amlinellu'r broses ariannol yn y Cynulliad. Roedd hefyd wedi sôn fod peth gwaith yn cael ei wneud yn y Cynulliad i ystyried beth yn union a olygir gan Gynllunio Ariannol yn y Tymor Canolig a sut y gellid gweithredu hynny.

- **Elfennau cyffredinol yn y fformiwla gyllido Asesiad Gwariant Safonol -** mynegwyd pryder gan yr Awdurdod nad yw'r fformiwla gyllido bresennol (sydd wedi'i seilio'n bennaf ar boblogaeth) yn adlewyrchu'n ddigonol ofynion poblogaeth hynod symudol a thros dro. Cytunwyd y dylid sefydlu trafodaethau gyda'r Uned Data Llywodraeth Leol i nodi sut y gellid asesu'r effaith.

- **Effeithiolrwydd -** roedd Mike Chown wedi pwysleisio y byddai arbedion 'effeithiolrwydd' yn nodwedd barhaol o'r setliad ariannol am y blynyddoedd i ddod. Roedd y Cynulliad hefyd yn arwain mentrau i nodi ffyrdd o ddarparu'r effeithiolrwydd hynny drwy gaffael a ffyrdd gwell o gydweithio. Effaith hynny ar yr Awdurdod yw y byddai, mae'n debyg, yn wynebu gwelliannau effeithiolrwydd o 4 – 5%dros gyfnod o 5 mlynedd ac y byddai hyn yn ychwanegol at unrhyw arbedion effeithiolrwydd y byddai gan yr Awdurdod ei hunan ei angen er mwyn cyllido mentrau lleol. Byddai'r agwedd hon yn nodwedd sylweddol yn y datblygiadau ar gyfer 06 / 07 ac o gyllidebau'r blynyddoedd i ddod.

Hysbysodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol yr Aelodau ei fod wedi derbyn ymateb oddi wrth Mike Chown yn hwyr y prynhawn blaenorol, yn ateb y materion a godwyd yn eu cyfarfod ar 12fed Mai. Mynegodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol ei bryder fod ymateb Mike Chown, mewn perthynas â Fformiwla Oedolion Gwasanaethau Cymdeithasol Personol, yn aneglur ynghylch y cynnydd a wneir a'i fod yn bryderus hefyd a oedd amgylchiadau penodol Sir Ddinbych yn cael eu hadlewyrchu'n iawn gan yr ymddengys y byddai'r dangosydd yn dal yn bennaf ynghylch poblogaeth.

Cyfeiriodd y Cynghorydd P J Marfleet, a oedd wedi mynychu'r cyfarfod diweddar gyda Mike Chown, fod gwahaniaeth rhwng y basdata a ddefnyddir gan yr Is Grŵp Dosbarthu a'r un a ddefnyddir gan yr Uned Data Llywodraeth Leol.

Cyflwynodd enghreifftiau hefyd o dreth y Cyngor Band D sylweddol lai mewn awdurdod cymharol cyfagos ac awgrymodd, yn ei farn ef, mai anghysonderau yn y fformiwla Asesiad o Wariant Safonol sy'n gyfrifol am o leiaf ran o hyn. Ychwanegodd fod Mike Chown wedi sicrhau'r rhai'n bresennol yn y cyfarfod diweddar y byddai'n talu sylw i'r broblem.

Wrth ystyried yr adroddiad cyflwynodd yr Aelodau a Swyddogion y sylwadau penodol canlynol:

- Dylid ymateb yn gyflym i lythyr diweddar Mike Chown er mwyn cynnal momentwm dadl yr Awdurdod ynghylch llwyth gwaith ar gyfer diwygio'r Fformiwla Oedolion Gwasanaethau Cymdeithasol Personol

- Dylai'r Awdurdod ystyried amcangyfrif gostyngiad o 1% mewn setliad oddi wrth Lywodraeth y Cynulliad ar gyfer eleni ac ar gyfer y pedair blynedd i ddod.

- Gall statws sengl gynyddu costau'r Awdurdod yn sylweddol ym mhob maes

- Byddai gweithredu'r Ddeddf Gwahaniaethu ar Sail Anabledd a mesurau iechyd a diogelwch o fewn yr Awdurdod hefyd yn cynyddu costau'r Cyngor

- Dylid ystyried sefydlu gweithgor i edrych ar yr amrywiaeth o ffomiwlae a ddefnyddir gan Lywodraeth y Cynulliad e.e. Asesiad o Wariant Safonol

- Fod poblogaeth dros dro Sir Ddinbych yn fater arwyddocaol ar gyfer yr awdurdod

- Tra bo'r Is Grŵp Dosbarthu'n symud yn ei flaen gyda'r Fformiwla Gwasanaethau Cymdeithasol Personol i Oedolion, roedd Llywodraeth y Cynulliad yn ystyried Fformiwla Addysg Arbennig. Ystyrir y Fformiwla Gwasanaethau Diwylliannol ar hyn o bryd gan Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru a byddai gan Sir Ddinbych fewnbwn i hyn.

- Cynhyrchu dogfen er gwybodaeth i etholwyr yn dangos y rhesymau dros y lefel o dreth y Cyngor yn Sir Ddinbych, faint o gyllid a roddir gan Lywodraeth y Cynulliad a'r cymariaethau perthnasol gydag awdurdodau tebyg yn ogystal â'r rhesymau pam fod treth y cyngor yn Sir Ddinbych yn uwch.

Mewn ymateb i'r Cynghorydd G M Kensler, dywedodd y Cadeirydd fod ASau ac ACau Sir Ddinbych yn cydnabod fod problem gyda'r fformiwlae presennol. Yna cynigiodd y Cynghorydd G M Kensler y dylid gofyn i is gadeirydd y Pwyllgor, y Cynghorydd G J Pickering ymgynghori gyda'r ASau ac ACau priodol er mwyn cael gwybod beth yw'r sefyllfa bresennol ac i geisio'u cymorth wrth ateb y diffygion yn y fformiwlae.

Awgrymodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol: Adnoddau fod gofyn i'r Cyngor ganolbwyntio yn y tymor byr ar y prif feysydd blaenoriaeth sydd i'w trafod gyda'r Cynulliad ynghylch y fformiwla ar gyfer cyllido Gwasanaethau Oedolion a'r materion ynghylch data dibynadwy a'i effaith ar y boblogaeth fyrhoedlog a thros dro yn ardal y Cyngor a sut mae hyn yn effeithio ar anghenion gwasanaeth.

I gloi, cyfeiriodd y Cynghorydd P J Marfleet at y seminar Cyllideb Cyfalaf a gynhelir gan Sue Essex AC yng Nghonwy ar 15fed Gorffennaf a noddodd y byddai cynrychiolwyr o'r Grŵp Cyfalaf sydd newydd ei ffurfio yn bresennol yn y seminar honno. Cyfeiriodd at y llithriad yn y Rhaglen Gyfalaf sy'n broblem a wynebir gan awdurdodau eraill.

***PENDERFYNWYD*** *darparu adroddiad pellach ar y cynnydd gyda'r materion a godwyd gyda Llywodraeth Cynulliad Cymru ar gyfer cyfarfod nesaf y Pwyllgor.*

**93 LLAIS Y SIR**

Cyflwynodd y Rheolwr Cysylltiadau Cyhoeddus adroddiad (a rannwyd o'r blaen) yn cyflwyno'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Aelodau ynghylch datblygiadau a chyflwynodd fanylion ynghylch dyfarnu'r contract ar gyfer dylunio, argraffu a dosbarthu Llais y Sir ac ar gyfer darparu hysbysebu corfforaethol am 2005 - 06.

Cyflwynodd y Rheolwr Cysylltiadau Cyhoeddus grynodeb o'r adroddiad gan gynnwys y manylion ynghylch:-

- Y contract ar gyfer dylunio, argraffu a chyhoeddi Llais y Sir, gan gyfeirio'n benodol at nifer o bethau i ychwanegu gwerth a oedd wedi'u cynnwys a'r hysbysebion arwyddol ynghylch hysbysebu swyddi.

- Y refeniw hysbysebu a gaed ar gyfer 2004 - 2005 a'r £20,000 a arbedwyd ar hysbysebu'r awdurdod gyfan am 2004 - 05 o gymharu â'r flwyddyn flaenorol.

- Amlinelliad o'r dulliau a ddefnyddiwyd ar gyfer dosbarthu Llais y Sir ac yr archwilid y posibilrwydd o gynnwys Canolfannau Gwaith.

- Cyflogi gwasanaeth gwirio dosbarthu annibynnol North Wales Newspapers er mwyn monitro dosbarthiad. Cadarnhaodd y Rheolwr Cysylltiadau Cyhoeddus fod dosbarthiad Llais y Sir wedi achosi pryderon mawr ac y gobeithid y byddai cyflwyno gwasanaeth gwiriad o gymorth wrth ateb y broblem hon. Awgrymodd yr Aelodau y dylid cyflwyno cytundeb lefel gwasanaeth yn y cytundeb er mwyn sicrhau fod nifer penodol o gopïau o'r cyhoeddiad yn cael eu dosbarthu.

- Amlinellwyd yr effaith ar recriwtio gyda 206 o swyddi'n cael eu hysbysebu yn Llais y Sir o fis Mehefin 2004 hyd heddiw. Cadarnhawyd yr ymgynghorwyd yn llawn ac yn barhaol gyda'r Grŵp Hysbysebu Corfforaethol gydol blwyddyn gyntaf Llais y Sir ar ei newydd wedd ac yn ystod y trafodaethau'n arwain at ddyfarnu'r contract.

- Cyflwyno pecyn hysbysebu grŵp newydd yn ogystal â'r Pecyn Arfordirol, i gynnwys papurau newydd yn ardaloedd ar y ffin gyda Swydd Amwythig a Phowys.

- Codwyd pryderon gan rai Adrannau ynghylch effeithiolrwydd hysbysebu yn Llais y Sir a North Wales Newspapers a bod mwy a mwy yn dewis y Wefan er mwyn cael gwybodaeth ynghylch hysbysebion recriwtio.

- Y newidiadau arfaethedig i hysbysebu recriwtio allanol, gyda chyfeiriadau penodol at bryderon ynglŷn â chostau uwch recriwtio llywodraeth leol. Cyfeiriodd y swyddogion at yr awgrym y dylid cyflwyno hysbysebu arwyddol a'r arbedion posibl y gellid eu cael drwy hynny.

Cadarnhaodd y Rheolwr Cysylltiadau Cyhoeddus yr arbedwyd £20,000 ar hysbysebu yn ystod y flwyddyn gyntaf o weithredu fel cyhoeddiad misol ac yr enillwyd incwm o £9,000. Cafodd pob Cyfarwyddiaeth gyfle i hyrwyddo'u gwasanaethau ar gost sylweddol lai o gymharu â chostau mewn papurau newydd lleol masnachol.

Cadarnhaodd y telir sylw i bryderon ynghylch effeithiolrwydd hysbysebu recriwtio ac eglurodd fod pob cyhoeddiad angen amser i sefydlu ei hun fel y lle i chwilio am swyddi.

Mewn ymateb i'r pryder a godwyd, cadarnhaodd y Pennaeth Personél fod cyhoeddi Llais y Sir yn fisol wedi achosi problemau ynghylch cyfarfod â therfynau amser ar gyfer hysbysebu swyddi gwag.

Yn ystod y drafodaeth a ddilynodd, cytunodd yr Aelodau mai hysbysebu arwyddol fyddai'r ffordd ddewisol i ddilyn a nododd y swyddogion y sylwadau a wnaed ynghylch y mater hwn.

***PENDERFYNWYD -***

*(a)* *nodi'r wybodaeth sydd yn yr adroddiad, a*

*(b)* *cefnogi cyflwyno hysbysebu arwyddol*

**94 ADRODDIAD PERFFORMIAD CHWARTEROL**

Cyflwynodd y Swyddog Cefnogi Archwilio adroddiad (a rannwyd o'r blaen) yn monitro perfformiad yr unedau gwasanaeth unigol yng nghylch gorchwyl y Pwyllgor Archwilio Adnoddau yn erbyn y targedau a'r amcanion a gytunwyd.

Cyflwynodd y Swyddog Cefnogi Archwilio'r adroddiad a oedd yn cynnwys manylion yr Adroddiadau Perfformiad unigol ar gyfer y gwahanol feysydd gwasanaeth yn y Gyfarwyddiaeth Adnoddau ac yn Adrannau'r Prif Weithredwr a Chlerc y Sir. Mae'r adroddiadau'n rhoi'r cyfle i fonitro cynnydd yn rheolaidd yn erbyn y targedau neu yn erbyn gwaith penodol ac i herio meysydd unigol lle efallai nad yw'r perfformiad fel y disgwylir neu fel y rhagwelir.

Cafodd Adroddiadau Perfformiad Chwarterol Adrannau'r Prif Weithredwr a Chlerc y Sir eu crynhoi gan y Swyddog Cefnogi Archwilio ac eglurodd y paratowyd adroddiadau perfformiad chwarterol ar wahân ar gyfer meysydd gwasanaeth Cydraddoldeb, Cysylltiadau Cyhoeddus, Adran Clerc y Sir a Diogelwch Cymunedol. Yn gynwysedig yn yr adroddiadau roedd 15 o ddangosyddion perfformiad statudol unigol; o'r rhain cyrhaeddwyd neu aethpwyd y tu hwnt i'r targedau a osodwyd gyda 7 a methwyd â chyrraedd y targedau gydag 8. Eglurodd fod y cyfrifoldebau am feysydd gwaith Cydraddoldeb, Cysylltiadau Cyhoeddus a Diogelwch Cymunedol wedi newid yn unol ag argymhellion Ffocws Cliriach ac y byddai angen ystyried y trefniadau monitro ymhellach yn y dyfodol.

Darparwyd hefyd grynodeb o Adroddiadau Perfformiad Chwarterol ar gyfer y Gyfarwyddiaeth Adnoddau a oedd yn cynnwys wyth gwahanol adroddiad perfformiad chwarterol a gynhyrchwyd ar gyfer Budd-daliadau, Personél Canolog, yr Uned Rheoli Perfformiad Corfforaethol, Gwasanaethau'r Trysorlys a Chyfrifo Ariannol, Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu, Archwilio Mewnol, yr Uned Cyfrifo Rheolaeth a Refeniw.

Mewn ymateb i gwestiynau oddi wrth yr Aelodau ynghylch ffurfiad ac effeithiolrwydd y dangosyddion, eglurodd y Swyddog Cefnogi Archwilio y byddai newid yn y fframwaith perfformiad cenedlaethol ar gyfer 2005 / 2006 ac y byddai Swyddfa Archwilio Cymru'n monitro perfformiad Awdurdodau unigol yng Nghymru. Ledled yr Awdurdod byddai 22 o Ddangosyddion Cenedlaethol Strategol gyda 52 o Ddangosyddion Set Craidd ar gyfer monitro'r amrywiaeth eang o wasanaethau mae'r Cyngor yn eu darparu i'r cyhoedd.

Cadarnhaodd, o sôn am y Gyfarwyddiaeth Adnoddau, y byddai 3 Dangosydd Strategol a 14 Dangosydd Set Craidd ym meysydd Adnoddau Dynol, Iechyd Ariannol a Budd-dal Tai a Threth y Cyngor a rhagwelid y byddai'r rhain yn ffurfio sail adroddiadau monitro yn y dyfodol.

Mewn ymateb i gwestiynau oddi wrth yr Aelodau ynghylch y broses a fabwysiadwyd ar gyfer gosod y Dangosyddion Perfformiad ac ynghylch pryderon a fynegwyd ynglŷn â chynnwys y Dangosyddion Perfformiad ar gyfer Adran Clerc y Sir, a oedd ynghylch y ganran a oedd yn pleidleisio mewn etholiadau lleol, eglurodd y Swyddog Cefnogi Archwilio y gosodwyd y dangosyddion ar lefel genedlaethol ac y byddai'r targedau'n cael eu gosod yn lleol fel rhan o'r broses cynllunio busnes. Mewn ymateb i gais oddi wrth y Cynghorydd G M Kensler, cytunodd y swyddogion y byddai perfformiad lleol Adran Clerc y Sir yn erbyn y mesurau a oedd yn ei Chynllun Busnes yn dal i ffurfio rhan o'r sail ar gyfer adroddiadau monitro yn y dyfodol o gofio'r ffaith na fyddai dangosyddion cenedlaethol uniongyrchol ar gyfer yr Adran am 2005 / 2006.

***PENDERFYNWYD -*** *derbyn a chymeradwyo'r adroddiad.*

**95 RHAGLEN WAITH ARCHWILIO**

Cyflwynodd y Swyddog Cefnogi Archwilio adroddiad (a rannwyd o'r blaen), a oedd yn adolygu blaen raglen waith y Pwyllgor Archwilio ac yn cyflwyno'r wybodaeth ddiweddaraf i'r aelodau ar faterion perthnasol.

Darparodd y Swyddog Cefnogi Archwilio grynodeb o'r adroddiad ac amlygwyd y materion canlynol:-

**Rôl Aelodau mewn adolygu Gwaith Caffael -** Cyfeiriodd y Swyddog Cefnogi Archwilio at y cyflwyniad manwl a roddwyd gan y Rheolwr Caffael Strategol i Aelodau fis Medi 2004 ar y ffordd y

bwriedir symud ymlaen gyda datblygu caffael yn Sir Ddinbych. Atgoffodd yr Aelodau hefyd y cyfeiriwyd ar ôl hynny at y Grŵp Adolygu Caffael presennol ac y cytunwyd i 2 neu 3 o Aelodau'r Pwyllgor Archwilio gael eu henwebu i ymuno â'r Grŵp hwnnw.

Cadarnhaodd y cynhaliwyd adolygiad erbyn hyn o sut y byddai caffael yn cael ei ddarparu yn Sir Ddinbych a rhoddwyd manylion o gyfansoddiad diwygiedig y Grŵp Caffael Strategol a sefydlwyd i gymryd y rôl arweiniol.

Mewn ymateb i bryderon a fynegwyd gan Aelodau ynghylch diffyg gwybodaeth ynglŷn â'r cynnydd a geir, eglurodd y swyddogion fod y Rheolwr Caffael Strategol yn awyddus i weithio gydag Aelodau'r Pwyllgor Adnoddau ac y cytunwyd y dylid gofyn iddo gyflwyno adroddiad i'r Pwyllgor Archwilio Adnoddau yn manylu ar y cynnydd a wnaed.

**Sylwadau ynghylch cau Swyddfeydd Budd-daliadau** – Cadarnhaodd y swyddogion, fel y cytunwyd o'r blaen, y cyfarfu gweithgor bychan i gytuno ar y cwestiynau cychwynnol y dylid eu cyflwyno i'r Rheolwr Ardal. Eglurwyd y byddai'r Aelodau'n ystyried y dystiolaeth ymhellach ar ôl derbyn yr ymateb oddi wrth y Rheolwr Ardal, gyda'r bwriad o gytuno ar sail y materion i'w trafod yn y cyd gyfarfod gyda'r Pwyllgor Archwilio Gwasanaethau Personol, a gellid gwahodd uwch gynrychiolwyr yr Adran Gwaith a Phensiynau i fod yn bresennol.

**Darpariaeth TGCh allan o Oriau -** Mewn ymateb i bryderon a godwyd gan y Cynghorydd R E Barton ynglŷn â darpariaeth gwasanaethau TGCh allan o oriau eglurodd yr Aelod Cabinet Arweiniol dros Fusnes a Chysylltiadau y byddai'n cyfarfod â'r Pennaeth TGCh er mwyn ymchwilio i'r pryderon a godwyd.

Cyfeiriodd y Swyddog Cefnogi Archwilio at gais a gefnogwyd gan yr Aelodau y dylai'r Pwyllgor ystyried canfyddiadau'r adolygiad Cysylltiadau Corfforaethol cyn iddo gael ei gyflwyno i'r Cabinet. Cyfeiriodd yr Aelodau hefyd at yr holl waith a wnaed gan y Pwyllgor Archwilio Adnoddau a chytunwyd i ymestyn y cyfarfod nesaf o'r Pwyllgor i'r prynhawn a darparu cinio ar gyfer yr Aelodau.

***PENDERFYNWYD -***

*(a) derbyn yr adroddiad;*

*(b) cymeradwyo'r Rhaglen Waith fel mae wedi'i gosod yn yr Atodiad; a*

*(c) gofyn i'r Rheolwr Caffael Strategol gyflwyno adroddiad i'r Pwyllgor Archwilio Adnoddau yn manylu ar y cynnydd a wnaed hyd yn hyn.*

Daeth y cyfarfod i ben am 2.20pm.

*********

## PWYLLGOR RHEOLI ASEDAU

Cofnodion cyfarfod y Pwyllgor Rheoli Asedau a gynhaliwyd yn yr Ystafell Gynhadledd, Caledfryn, Dinbych ar Ddydd Gwener, 10 Mehefin, 2005 am 9.30 y bore.

### PRESENNOL

Cynghorwyr P J Marfleet, Aelod Arweiniol dros Gyllid a Phersonél; S Roberts, Aelod Arweiniol dros Hyrwyddo Sir Ddinbych; J Thompson Hill, Aelod Arweiniol dros Reoli Eiddo ac Asedau [Cadeirydd].

### YN BRESENNOL HEFYD

Cynghorwyr R E Barton; M Ll Davies; G C Evans; S Frobisher; M A German; N Hugh Jones; a D Owens.

Dirprwy Brif Weithredwr / Cyfarwyddwr Corfforaethol: Adnoddau; Cyfarwyddwr Corfforaethol: Dysgu Gydol Oes; Pennaeth Strategaeth ac Adnoddau Dysgu Gydol Oes; Rheolwr Asedau Dysgu Gydol Oes; Uwch Gyfreithiwr; Uwch Syrfëwr Ystadau a Phrisio; Pennaeth Gwasanaethau Datblygu; Rheolwr Asedau Sirol; Rheolwr Grŵp Adeiladu; Pennaeth Cefn Gwlad a Hamdden.

### YMDDIHEURIADAU

Cynghorwyr R W Hughes, Aelod Arweiniol dros Adfywiad ac E W Williams, Aelod Arweiniol dros yr Amgylchedd.

### 96 MATERION BRYS

Pwyllgor Rheoli Asedau 15.07.2005

### 97 COFNODION

Cyflwynwyd Cofnodion cyfarfod y Pwyllgor Rheoli Asedau a gynhaliwyd ar 8 Ebrill 2005.

Academi Rygbi Gogledd Cymru: Dywedodd y Pennaeth Gwasanaethau Datblygu ei fod yn aros am ymateb gan yr Academi ac y byddai'r Awdurdod yn barod iawn i gynnal trafodaethau gyda nhw.

Eitem 3 Adolygiad Eiddo: Dywedodd y Pennaeth Gwasanaethau Datblygu ei fod wedi trafod yr Archwiliad gyda'r Cynghorydd H H Evans a bod cynigion parthed y Neuadd Gymunedol yn cael eu datblygu.

Gyda'r Adolygiad Eiddo yn gyffredinol, mynegodd y Cynghorydd P J Marfleet ei bryderon ynglŷn â chostau refeniw o safbwynt lle gwag yn y Swyddfa Sir ac a oedd adolygiad o'r swyddfeydd yn cael ei gynnal.

Cadarnhaodd yr Uwch Syrfëwr Ystadau a Phrisio bod adolygiad o lefydd gwag yn cael ei gynnal ac y byddai hyn yn nodi costau refeniw, gan gynnwys adroddiad manwl ar wahân o lefydd gwag yn Middle Lane a Henllan. Dywedodd y Dirprwy Brif Weithredwr / Cyfarwyddwr Corfforaethol: Adnoddau bod llefydd gwag yn Henllan a Middle Lane wedi bod dan ystyriaeth am beth amser. Dywedodd y Cynghorydd Marfleet na fyddai angen mwy o le tra roedd niferoedd staff yn cynyddu 2%. Roedd rhai adeiladau yn orlawn, eraill â lle ynddynt, a bod modd defnyddio rhai mewn ffordd well. Dywedodd y Dirprwy Brif Weithredwr / Cyfarwyddwr Corfforaethol: Adnoddau y byddai adroddiad ar lefydd gwag yn cael ei ddarparu ar gyfer cyfarfod Medi 2005 o'r Pwyllgor Rheoli Asedau.

Eitem 4 Prestatyn: Traeth Ffrith – Cytunwyd i ddiwygio'r cofnodion i ddangos y drafodaeth a gafwyd yn Rhan I cyn y paragraff sy'n dechrau: "Y Matrix Gwerthuso ..."

***PENDERFYNWYD*** *– yn amodol ar yr uchod, dylid derbyn Cofnodion cyfarfod y Pwyllgor Rheoli Asedau a gynhaliwyd ar 8 Ebrill 2005 fel cofnod cywir a'i lofnodi gan y Cadeirydd.*

## 98 ARCHWILIAD PENTREF: ETHOLAETH LLANRHAEADR YNG NGHYNMEIRCH

Cyflwynodd y Cynghorydd J Thompson Hill yr adroddiad i alluogi Aelodau i nodi'r sefyllfa parthed yr archwiliad pentref i'r pentrefi yn Etholaeth Llanrhaeadr yng Nghynmeirch.

Dywedodd y Cynghorydd P J Marfleet, Aelod Lleol, nad oedd ganddo unrhyw sylwadau i'w gwneud ar Fontuchel; mae gan Gyffylliog ysgol gynradd a fydd yn rhan o'r ymgynghoriad Rheoli Llefydd Ysgol; dim sylwadau i Lanrhaeadr; dim sylwadau i Nantglyn. Nid y Cyngor Sir sydd yn berchen yr ysgol ym Mhrion.

***PENDERFYNWYD*** *- bod aelodau yn nodi canlyniadau'r archwiliad pentref i'r pentrefi yn etholaeth Llanrhaeadr yng Nghynmeirch.*

## 99 COMISIYNU PROJECTAU ADEILADAU A GWASANAETHAU YN YMWNEUD AG ADEILADU

Cyflwynodd y Cynghorydd J Thompson Hill yr adroddiad gan ofyn i Aelodau gytuno ar sefydlu proses gomisiynu ar gyfer projectau adeiladu a phrojectau yn ymwneud ag adeiladu (gan gynnwys addasiadau i adeiladau) i sicrhau a) bod holl brojectau yn cael eu cynnal yn broffesiynol i amlygu a lleihau peryglon, gan gynnwys rhai yn ymwneud ag Iechyd a Diogelwch; b) bod holl brojectau yn cael eu cynllunio a'u gweithredu yn unol â pholisïau, strategaethau a blaenoriaethau corfforaethol, a'r ddarpariaeth gyllidol; a c) bod anghenion y client yn cael eu hamlygu a'u cyflenwi'n gywir. Gofynnodd i Aelodau gydnabod rôl gorfforaethol y Tîm Dylunio a Datblygu wrth benderfynu sut mae projectau adeiladu i gael eu dynodi a bod Rheoliadau Cyllidol y Cyngor yn cael eu haddasu i ymgorffori'r gofynion uchod.

Dywedodd y Cynghorydd Thompson Hill y byddai angen anfon holl geisiadau gwaith arfaethedig i fan canolog i ddechrau ac yna eu dyrannu i gontractwyr allanol yn ôl yr angen.

Mewn ymateb i ymholiad, dywedodd y Rheolwr Asedau Corfforaethol bod Gwasanaethau Datblygu, Cyfreithiol a Chyllid yn ystyried Rheolau Trefnu Contractau mewn perthynas â materion contract / adeiladu. Cadarnhaodd bod amcangyfrifon cynnar yn niwlog am nifer o resymau, e.e. pan nad yw safle adeiladu ar gyfer gwaith wedi'i glustnodi ond bod amcangyfrifon dechreuol yn y cam comisiynu yn fwy manwl. Mae'n rhaid cynnwys ffactorau anhysbys all ychwanegu at y costau amcangyfrif. Dywedodd y Dirprwy Brif Weithredwr / Cyfarwyddwr Corfforaethol: Adnoddau bod arian cais grant yn sefydlog ac os yw gorwario yn digwydd, byddai'n rhaid i'r Awdurdod dalu.

Mewn ymateb i ymholiad gan y Cynghorydd M A German, cadarnhaodd y Dirprwy Brif Weithredwr / Cyfarwyddwr Corfforaethol: Adnoddau y byddai gwerthusiad ôl-project yn cael ei ddarparu i'r gwaith yng Nghanolfan Hamdden Rhyl. Mae yna broblemau wedi bod gyda'r project hwn a theimlwyd y gallai gwerthusiad ôl-project ddatgelu gwersi pwysig o safbwynt rheoli projectau yn y dyfodol.

Cytunodd Aelodau y dylid hysbysu Aelodau lleol o brojectau arfaethedig a chytunwyd hefyd na fyddent yn ffurfio rhan o'r tîm project.

Cytunodd y Pennaeth Gwasanaethau Datblygu drefnu seminar i Aelodau i'w gynnal yn yr Hydref ar y grwpiau gwasanaethau dylunio ac adeiladu, ac ar reoli projectau. Cadarnhaodd hefyd bod gwybodaeth ar brojectau yn cael ei storio ar y bas-data perthnasol a'i hanfon i'r Adran Archifau fel ei bod ar gael mewn pwynt canolog i osgoi problemau all ddigwydd o ran colli dogfennau wrth symud swyddfa.

***PENDERFYNWYD:***

*y dylai holl brojectau adeiladu a phrojectau sy'n perthyn i adeiladu yn ymwneud ag eiddo'r Cyngor Sir gael eu gweithredu drwy'r timau caffael mewnol yn y Gwasanaethau Datblygu [Dylunio a Datblygu; Grŵp Gwasanaethau Adeiladu], ac y dylai cwblhau'r Ffurflen Gomisiynu fod yn orfodol er mwyn sicrhau:*

*a) bod holl brojectau yn cael eu cynnal yn broffesiynol er mwyn lleihau peryglon, gan gynnwys rhai yn ymwneud ag Iechyd a Diogelwch.*

*b) bod swyddogion allweddol yn yr Awdurdod yn cael eu hysbysu o brojectau arfaethedig a'u bod mewn safle i sicrhau eu bod yn cydymffurfio â pholisiau, strategaethau a blaenoriaethau corfforaethol; a*

*Bod apwyntiad unrhyw ymgynghorwyr adeiladu mewn perthynas â'r ystâd eiddo:-*

*a) yn cael ei wneud gan un o dair adain Gwasanaethau Datblygu, sef 3D, Gwasanaethau Adeiladu, neu Gwasanaethau Eiddo, a*

*b) yn cael ei gymeradwyo gan y Pennaeth Gwasanaethau Datblygu a'r Tîm Rheoli Asedau Corfforaethol.*

*Bod yr holl amcangyfrifon cost, gan gynnwys y rhai a ddefnyddir wrth gynllunio gwariant, cynlluniau rheoli asedau a holl adroddiadau i'r Cabinet, Pwyllgorau, Paneli Archwilio, Byrddau Project a Grŵp Rheoli Asedau, yn cael eu darparu neu eu rheoli gan adain mesur meintiau'r Cyngor o fewn Gwasanaethau Datblygu.*

*Bod anghenion gwasanaethau client yn amlwg a'u bod yn cael sylw o fewn y trefniadau comisiynu a chaffael drwy rôl Noddwr y Project ac wrth baratoi cynlluniau project ysgrifenedig y cytunwyd arnynt.*

*Bod Rheoliadau Cyllidol y Cyngor yn cael eu haddasu i ymgorffori'r gofynion uchod.*

**100 EITEMAU BRYS**

**100A DYDDIAD CYFARFOD NESAF Y PWYLLGOR RHEOLI ASEDAU**

Dywedodd y Cynghorydd J Thompson Hill wrth yr Aelodau y byddai'n rhaid newid dyddiad y cyfarfod nesaf a oedd i'w gynnal ar 15.07.2005 oherwydd amgylchiadau arbennig.

Trafododd Aelodau yn fyr nifer yr Aelodau ar y Pwyllgor ac awgrymodd y Cynghorydd S Frobisher y dylid ystyried cynyddu nifer yr Aelodau ar y Pwyllgor Rheoli Asedau.

Trafodwyd amryw o ddyddiadau ar gyfer ail-drefnu'r cyfarfod a

***PENDERFYNWYD*** *- dylai'r Swyddog Cabinet drefnu dyddiad newydd i'r Pwyllgor Rheoli Asedau nesaf, mewn ymgynghoriad â'r Cadeirydd a dyddiadur y Cyngor.*

Am 11.00 a.m., gohiriwyd y cyfarfod am 10 munud er mwyn i'r Aelodau gael lluniaeth ysgafn.

**RHAN II**

**GWAHARDD Y WASG A'R CYHOEDD**

***PENDERFYNWYD*** *– yn unol ag Adran 100A(4) Deddf Llywodraeth Leol 1972, y dylid gwahardd y Wasg a'r Cyhoedd rhag mynychu'r cyfarfod i'r eitemau busnes canlynol ar y sail eu bod yn ymdrin â'r posibilrwydd o ddatgelu gwybodaeth a eithriwyd fel y diffinir ym mharagraffau 7 a 9 o Ran 1 Atodlen 12A o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972.*

**101 PRESTATYN: YSGOL NEWYDD ARFAETHEDIG**

Cyflwynodd y Cynghorydd J Thompson Hill a'r Cynghorydd D Owens adroddiad i Aelodau gael cymeradwyo'r cynllun i brynu oddeutu 3.5 erw o dir (nodwyd ar gynllun atodiad 1), ar gyfer lleoli cae, iard a maes parcio Ysgol Gynradd Gorllewin Prestatyn arfaethedig; i brynu oddeutu 1.9 erw o dir (nodwyd ar y cynllun atodiad 1) ar gyfer lleoli adeiladau Ysgol Gynradd Gorllewin Prestatyn arfaethedig; i brynu oddeutu 0.7 erw o dir i ddarparu mynedfa i geir a cherddwyr i safle'r ysgol (llwybr wedi'i nodi'n ddu ar y cynllun) ac i dalu gwerth y farchnad o dir adeiladu preswyl ar sail pro rata y m² am dir pellach os oes angen mwy na 0.7 erw ar gyfer mynediad.

Cadarnhaodd y Cynghorydd J Thompson Hill bod Asiantaeth y Priffyrdd yn cefnogi'r mynediad arfaethedig ac y byddai unrhyw sylwadau gan Asiantaeth yr Amgylchedd yn cael eu hystyried. Pwysleisiodd yr angen i Aelodau Prestatyn gefnogi'r project, mewn ynghynghoriad â'r gymuned.

Trafododd Aelodau yr arian o Lywodraeth Cynlluniad Cymru dan y Grant Gwella Adeiladau Ysgol ar gyfer adeiladu a sefydlu'r ysgol gynradd arfaethedig gyda chost prynu'r tir yn dod o ffynhonnell arall. Rhoddodd y Pennaeth Strategaeth ac Adnoddau Dysgu Gydol Oes fanylion o'r goblygiadau cost a dywedodd mai'r bwriad oedd edrych ar ffynonellau arian eraill ar gyfer prynu'r tir. Cadarnhaodd y Dirprwy Brif Weithredwr / Cyfarwyddwr Corfforaethol: Adnoddau na ellid ystyried benthyciad darbodus ar gyfer prynu'r safle gan y byddai angen llif refeniw ar gyfer benthyciad darbodus.

Gofynnodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol: Dysgu Gydol Oes i Aelodau gytuno â'r adroddiad mewn egwyddor a sefydlu tîm project ar unwaith er mwyn darparu cynllun i'r project. Roedd yr hanfodol bod manylion y gwerthwyr yn gywir a byddai angen costiadau cyn symud ymlaen i ofyn am gytundeb terfynol. Roedd yn bwysig cael cytundeb sicr ar y safle arfaethedig er mwyn sicrhau bod modd symud y project yn ei flaen. Cynghorodd yr Uwch Gyfreithiwr y dylai prynu'r safle fod yn amodol ar arolygon a sicrhau caniatâd cynllunio ar gyfer defnyddio'r tir fel ysgol. Rhoddwyd cyngor hefyd bod gan y Cyngor bwerau prynu gorfodol y gellir eu defnyddio i brynu'r safle ar gyfer dibenion addysgol ac y gallai gorchymyn prynu gorfodol gyd-redeg â'r trafodaethau.

Gofynnodd y Cynghorydd N Hugh Jones i Aelodau wneud penderfyniad gan atgoffa Aelodau nad y safle dan ystyriaeth o reidrwydd oedd yr unig safle ar gael ar gyfer ysgol newydd ym Mhrestatyn. Dywedodd y Cynghorydd J Thompson Hill bod nifer o safleoedd wedi cael eu hystyried o'r blaen ac mai'r safle dan ystyriaeth oedd yr unig safle cost-effeithlon o safbwynt cost.

Trafododd Aelodau ymhellach sut i ariannu'r project ac atgoffodd y Dirprwy Brif Weithredwr / Cyfarwyddwr Corfforaethol: Adnoddau'r Aelodau bod yn rhaid i'r Cyngor Llawn gymeradwyo unrhyw wariant cyfalaf. Trafodwyd hefyd yr Argymhelliad yn yr adroddiad a chytunwyd y dylid ymgynghori gyda'r Cyfarwyddwr Corfforaethol: Adnoddau a'r Cyfarwyddwr Corfforaethol: Dysgu Gydol Oes. Cytunwyd hefyd y dylid cyflwyno adroddiad i'r Cyngor Llawn ar 14.06.2005 yn enwedig yng ngoleuni'r cais am ganiatâd cynllunio ar gyfer datblygiad preswyl ar dir cyfagos sydd ar hyn o bryd wedi'i nodi i'w ddefnyddio fel safle ysgol ar y Cynllun Datblygu Unedol.

***PENDERFYNWYD –*** *yn amodol ar y rhaglenni ariannu y cytunwyd arnynt, bod Aelodau yn cymeradwyo prynu 5.4 erw i Ysgol Gynradd Gorllewin Prestatyn arfaethedig yn ogystal â 0.7 erw sy'n angenrheidiol ar gyfer mynediad, yn ogystal â thir pellach, os oes angen, ar dermau i'w cytuno rhwng y Clerc Sirol a'r Pennaeth Gwasanaethau Datblygu mewn ymgynghoriad â'r Dirprwy Brif Weithredwr / Cyfarwyddwr Corfforaethol: Adnoddau, y Cyfarwyddwr Corfforaethol: Dysgu Gydol Oes.*

**102 RHAGLEN WAREDU / AROLWG**

Cyflwynodd y Cynghorydd J Thompson Hill yr adroddiad i hysbysu Aelodau o hynt y rhaglen waredu.

Darparwyd ffigurau prisio i Aelodau o'r Pwyllgor Rheoli Asedau yn unig. Gofynnodd Aelodau a oedd modd sicrhau bod ffigurau prisio ar gael yn gynharach yn y broses.

Trafododd a nododd yr Aelodau sefyllfa sawl gwarediad yn fanwl. Cytunodd yr Uwch Syrfewr Prisio ac Ystadau i ddarparu gwybodaeth sydd ar gael parthed Maes Garmon, Llanarmon Yn Iâl i'r Cynghorydd R E Barton.

***PENDERFYNWYD –*** *bod Aelodau yn nodi'r adroddiad.*

**103 PRESTATYN: TRAETH FFRITH**

Cyflwynodd y Cynghorydd J Thompson Hill yr adroddiad i Aelodau ystyried argymhellion Gweithgor Traeth Ffrith.

Dywedodd y Cynghorydd Thompson Hill mai cyllideb refeniw bach yn unig a glustnodwyd i Draeth Ffrith nad oedd yn ddigon i'r holl safle, ac mai Diwylliant a Hamdden oedd i'w weinyddu. Lle bo hynny'n bosibl, byddai unrhyw gostau yn cael eu gosod yn erbyn refeniw o weithredwyr y ffair.

Mewn ymateb i gais gan y Cynghorydd M A German, cytunodd yr Uwch Syrfewr Prisio ac Ystadau i ddarparu rhif galw allan y cwmni diogelwch a fyddai'n cael ei apwyntio i Aelodau Prestatyn. Roedd y ddarpariaeth diogelwch a oedd ar y safle yn flaenorol wedi'i ariannu gan Diwylliant a Hamdden ond nid yw bellach yn cael ei ddarparu oherwydd prinder arian. Gallai hyn olygu bod personau yn defnyddio'r safle heb awdurdod i wneud hynny.

Gofynnodd y Cynghorydd M A German a'r Cynghorydd S Roberts a fyddai modd dileu taliadau parcio yn Nhraeth Ffrith. Nid yw hwn yn fater y gall y Pwyllgor Rheoli Asedau weithredu arno, ond dywedwyd y byddai'r cais yn cael ei nodi.

***PENDERFYNWYD*** *– bod yr Aelodau:*

*[a]* *yn argymell i'r Cabinet osod cyllideb o £8000 ar gyfer glanhau a marchnata*

*[b]* *yn argymell i'r Cabinet osod cyllideb o £8000 i ariannu cost marchnata aflwyddiannus*

*[c]* *yn argymell i'r Cabinet osod cyllideb o £3500 i ariannu cost diogelwch pellach o'r gwersyll nas awdurdodir*

*[ch]* *yn argymell i'r Cabinet y lefel o ddiogelwch i'w ddarparu ar y safle a'r gost, a bod cyllideb briodol yn cael ei gosod*

*[d]* *Yn nodi darpariaeth toiledau cemegol gan weithredwr y ffair*

*[dd]* *Yn cymeradwyo marchnata'r safle ar dymor les o 25 mlynedd.*

**104 EIDDO: GOBLYGIADAU IECHYD A DIOGELWCH**

Cyflwynodd y Cynghorydd J Thompson Hill yr adroddiad i Aelodau nodi pwysau gwaith cynnal a chadw ar adeiladau cyhoeddus.

Mynegodd ei bryder ynglŷn â'r adnoddau ar gael i waith cynnal a chadw Iechyd a Diogelwch. Pan fo gwaith cynnal brys ar adeiladau yn cael ei ychwanegu at waith ar feysydd penodol eraill, daw diffygion yr adnoddau yn fwy difrifol fyth. Mae'r ymrwymiad parhaus i gynnal gwaith cynnal a chadw ar ysgolion erbyn gwyliau'r haf yn golygu bod yn rhaid i'r Cyngor flaenoriaethu rhwng gwaith hanfodol brys; rhaid wrth benderfyniad lefel Cabinet.

Roedd yn bryd adolygu adferiad dyraniad bloc y flwyddyn flaenorol ar gyfer gwaith cynnal a chadw ar ysgolion, ac os nad yw'n cael ei roi, yna byddai angen £270k pellach o'r cynllun cyfalaf.

Ar ôl trafodaeth, cytunwyd y dylid paratoi adroddiad i gyfarfod Cabinet Mehefin 2005.

***PENDERFYNWYD*** *– bod Aelodau yn argymell i'r Cabinet ym Mehefin 2005 y dylid darparu adnoddau cyfalaf a refeniw ychwanegol er mwyn bodloni disgwyliadau'r Gweithgor Iechyd a Diogelwch mewn perthynas â rheoli contractwyr a deddfwriaeth iechyd a diogelwch ar y stoc adeiladau.*

Daeth y cyfarfod i ben am 12.30 y prynhawn.

******

## CYNGOR SIR DDINBYCH

Cofnodion cyfarfod y Cyngor Sir a gynhaliwyd yn Siambr y Cyngor, Neuadd y Sir, Rhuthun, dydd Mawrth, 14 Mehefin, 2005 am 10.00 a.m.

### YN BRESENNOL

Y Cynghorwyr J A Smith (Cadeirydd), J R Bartley, R E Barton, B Blakeley, J Butterfield, J Chamberlain Jones, M Ll Davies, S A Davies, P A Dobb, P C Duffy, E C Edwards, G C Evans, H H Evans, S Frobisher, I M German, M A German, D Hannam, K N Hawkins, C L Hughes, N J Hughes, R W Hughes, E R Jones, M M Jones, G M Kensler, P J Marfleet, P W Owen, D Owens, G J Pickering, N P Roberts, S Roberts, G O Rowlands, J A Smith, D A J Thomas, S Thomas, J Thompson-Hill, C H Williams, E W Williams, R Ll Williams.

### HEFYD YN BRESENNOL

Y Prif Weithredwr, Y Cyfarwyddwyr Corfforaethol, Pennaeth y Gwasanaethau Cyfreithiol a Phennaeth y Gwasanaethau Gweinyddol.

### GWEDDI

Offrymodd y Parchedig A Sully weddi ar ddechrau'r cyfarfod.

### DERBYNIWYD YMDDIHEURIADAU GAN

Y Cynghorwyr D Cooper, J M Davies, T K Hodgson, D Jones, G A Jones, M A Webster, G Williams

### 105 MATERION BRYS

Yn unol â gofynion Adran100B(4), Deddf Llywodraeth Leol 1972, dywedodd y Cadeirydd ei fod yn bwriadu cynnwys y materion canlynol fel rhai y mae angen eu trafod ar fyrder:-

(i) Strategaeth Rheolaeth y Trysorlys - y Terfyn Buddsoddi
(ii) Y Post Brenhinol – Casgliadau o flychau post mewn ardaloedd gwledig
(iii) Safle'r ysgol newydd arfaethedig, Prestatyn

### 106 COFNODION

Cafodd cofnodion Cyfarfod Blynyddol y Cyngor a gynhaliwyd ar 10 Mai 2005 [a ddosbarthwyd yn flaenorol] eu cyflwyno.

Cywirdeb

(i) Tudalen 3 – dyddiad y cyfarfod a barhawyd – newid i 10 Mai
(ii) Tudalen 6 [cofnodion Saesneg] – paragraff 2 , llinell 8, newid "our" i " out".

Gofynnodd y Cynghorydd G M Kensler i'r cofnodion gael eu diwygio i gynnwys ei sylwadau ychwanegol hi ar gofnod Rhif 5 [safle Ysbyty'r Meddwl, Dinbych, gynt]. Dywedodd y Prif Weithredwr mai prif bwyntiau a phenderfyniadau oedd yn cael eu cynnwys yn y cofnodion ac nad oeddent yn gofnod *verbatim* o'r trafodaethau.

Materion yn codi

(i) Cofnod rhif 4 [Cofnodion y Cyngor – 12 Ebrill 2005] – adroddodd Rheolwr y Gwasanaethau Cyfreithiol bod ymchwiliad i'r bylchau mewn cyfrinachedd bellach wedi'i gwblhau ac y byddai adroddiad yn cael ei gyflwyno i gyfarfod nesaf y Cyngor.
(ii) Cofnod rhif 9 [Cydbwysedd gwleidyddol]. Yn dilyn y cyngor trefniadol a gafwyd gan Reolwr y Gwasanaethau Cyfreithiol, cynigiodd y Cynghorydd M A German y dylid atal gorchymyn sefydlog 9.1 (rhybudd o gynnig) ac y dylid gofyn i'r Grŵp Annibynnol adrodd yn ôl i'r Cyngor ar ddosbarthiad seddau. Wedi i'r cynnig i atal gorchymyn sefydlog 9.1 gael ei roi i bleidlais, datganwyd ei fod wedi ei WRTHOD.

***PENDERFYNWYD** yn amodol ar y gwelliant uchod bod cofnodion Cyfarfod Blynyddol y Cyngor Sir a gynhaliwyd ar 10 Mai 2005 yn cael eu derbyn fel cofnod cywir.*

## 107 COFNODION Y PWYLLGORAU/PANELI

Cyflwynwyd y gyfrol cofnodion, dyddiedig 9 Mawrth i 19 Ebrill 2005 [a ddosbarthwyd yn flaenorol].

Cywirdeb
Tudalen 552 cais rhif 44/2004/1660/PF – diwygio i gofnodi bod y Cynghorydd J Thompson-Hill wedi datgan bod ganddo ddiddordeb yn y cais uchod.

***PENDERFYNWYD** yn amodol ar y gwelliant uchod, bod y gyfrol cofnodion 9 Mawrth i 19 Ebrill yn cael eu derbyn a'i nodi.*

## 108 ADRODDIAD Y CADEIRYDD

Cyflwynodd y Cadeirydd adroddiad llafar ynghylch rhestr yr ymrwymiadau yr oedd wedi'u cwblhau ers Cyfarfod Blynyddol y Cyngor. Cyfeiriodd yn arbennig at yr ymweliadau gan bartïon Swedaidd a Phwylaidd ac at y Diwrnod Agored a drefnwyd gan *Childline Wales*.

***PENDERFYNWYD** bod yr adroddiad yn cael ei dderbyn a'i nodi.*

## 109 CYNLLUN GWELLIANT 2005 – 2006

Cyflwynodd Arweinydd y Cyngor adroddiad [a ddosbarthwyd yn flaenorol] yn gofyn i'r Cyngor gymeradwyo'r Cynllun Gwelliant drafft ar gyfer 2005/06. Diolchodd am y gwaith a wnaed yn paratoi'r Cynllun a dywedodd ei bod yn teimlo bod gwelliannau arwyddocaol wedi'u gwneud i'r peirianweithiau adrodd oedd yn rhan ohono. Dim ond tri argymhelliad statudol oedd ynddo, ond yr oedd feirniadaeth yn nodi nad oedd y Cynllun yn arenwi mesuriadau perfformiad gwastad uchel na'r targedau a'r camau gweithredol yr oedd eu hangen i gefnogi holl amcanion a nodau strategol y Strategaeth Gymunedol.

Cyfeiriodd yr Arweinydd at:-

- yr angen i gyflwyno arbedion effeithlonrwydd, nid toriadau, a fyddai'n arwain at amgenach ffyrdd o weithio
- reolaeth y Cyngor a'r blaenoriaethau a osodwyd gan yr Aelodau ar gyfer y tair blynedd nesaf
- yr ymrwymiad i adolygu ffioedd a thaliadau fel dull o godi arian
- sefydlogrwydd ariannol y Cyngor a'r llwyddiant a gafwyd yn sicrhau £10m o grantiau gan gyrff eraill yn ystod 2004/05
- lwyddiant cymysg y trefniadau i hyfforddi Aelodau yn ystod 2004/05, mater oedd yn cael sylw'r Dirprwy Arweinydd ar hyn o bryd
- y gwelliannau a wnaed yn y cyfathrebu yn y Sir a'r mesurau a gyflwynwyd i sicrhau'r nod hwnnw
- waith Rheoleiddio'r Cyngor a'r rôl sydd i'w chyflawni gan Bwyllgor y drefn lywodraethol yn y broses honno, a'r
- ymarferiad 'gweledigaeth' sydd i dderbyn sylw, a'r adroddiad amdano a gyflwynir i gyfarfod y Cyngor yng Ngorffennaf

Cynigiodd y Cynghorydd R W Hughes, yn cael ei heilio gan y Cynghorydd S A Davies bod y Cynllun Gwelliant drafft yn cael ei gymeradwyo.

Cyfeiriodd y Cynghorydd E W Williams at y Strategaeth Gymunedol a oedd yn cwmpasu'r holl sefydliadau a dywedodd ei fod yn teimlo y dylent gael cyfle i wneud sylwadau ar y Cynllun ac y gallai'r Cyngor, yn ei dro, wneud sylwadau ar eu cynlluniau mewn perthynas â'r Strategaeth Gymunedol. Awgrymodd hefyd, os bydd unrhyw un o'r grwpiau gwleidyddol ar y Cyngor yn trefnu seminarau i'w haelodau, y dylai gwahoddiadau gael eu hanfon i'r grwpiau eraill fel y gallant hwythau fynychu'r cyfarfodydd.

Tynnodd yr Aelodau sylw at nifer o faterion oedd yn ymwneud â'r Cynllun, gan gyfeirio'n benodol at:- bwysigrwydd gweithgarwch corfforol mewn cymunedau; yr angen i gynnwys goblygiadau'r Ddeddf Troseddau ac Anhrefn yn y Cynllun; yr angen i ganolbwyntio ar y gwasanaethau hynny nad ydynt yn perfformio; darparu hyfforddiant am reoli perfformiad; y diffyg arian ar gyfer cyllido AAA/cyllidebau addysg.

Cyfeiriodd yr Aelod Arweiniol Cyllid a Phersonél at ryngberthynas llawer o ffwythiannau'r Cyngor megis Rheoli Lleoedd mewn Ysgolion, Tai Fforddiadwy ac adolygiad y Cynllun Datblygu Lleol. Teimlai bod y 'diwrnod gweledigaeth' oedd i gael ei gynnal o bwys creiddiol o ran llunio dyfodol y Cyngor a phenderfynu ar y gwasanaethau y byddai eu hangen i sicrhau'r weledigaeth honno. Croesawodd y Cynghorydd R W Hughes sylwadau'r Aelodau ac awgrymodd y dylid dod â'r adroddiad yn ôl i'r Cyngor er mwyn datblygu'r themâu hynny ymhellach.

***PENDERFYNWYD*** *y dylai'r Cynllun Gwelliant drafft ar gyfer 2005/06 gael ei gymeradwyo.*

**110 ADOLYGIAD Y FFINIAU CYMUNEDOL**

Cyflwynodd y Prif Weithredwr adroddiad [a ddosbarthwyd yn flaenorol] yn ceisio awdurdod i gychwyn adolygiad o ffiniau cymunedol cyn i'r adolygiad nesaf o drefniadau etholaethol gan Gomisiwn Ffiniau Llywodraeth Leol yng Nghymru, sydd i fod i ddechrau tua diwedd mis Mehefin 2007, gael ei gynnal. Dywedodd bod Cyngor Tref Y Rhyl eisoes wedi codi rhai materion oedd yn berthynol i gydbwysedd etholaethol yn y seddau yn ei ardal ac at y cyfle oedd ar gael i roi sylw i unrhyw anomaleddau eraill oddi mewn i gymunedau. Mewn ymateb i gais gan y Cynghorydd R E Barton dywedodd y Prif Weithredwr y byddai'n anfon yr argymhellion terfynol ar gyfer yr Etholaethau Seneddol yn hen Sir Clwyd i'r Aelodau, ynghyd â'r cynrychiolaethau a wnaed yn eu cylch.

Teimlai'r Cynghorydd E W Williams y dylai'r Cynghorau Tref/Cymuned, yn hytrach na gadael i'r Cyngor Sir arwain yr adolygiad, ddod ag unrhyw anomaleddau yn eu hardaloedd gerbron y Cyngor. Pwysleisiodd y Cynghorydd R Ll Williams yr angen i ymgynghori'n llawn gyda'r Cynghorau Tref/Cymuned ynghylch yr adolygiad a holodd pa fudd a allai ddeillio o'r awgrym y gallai un Cyngor Cymuned wasanaethu Tremeirchion, Y Cwm a'r Waen.

Cadarnhaodd y Prif Weithredwr y byddai ymgynghori gyda'r holl Gynghorau Tref/Cymuned ynghylch yr adolygiad.

Teimlai'r Cynghorydd E W Williams y dylai paragraff 3.2 yr adroddiad gael ei ddileu gan ail adrodd y farn y dylai newidiadau ddeillio o'r Cynghorau Tref/Cymuned ac nid o'r Cyngor Sir. Cytunodd yr Aelodau mai felly y dylid gweithredu.

***PENDERFYNWYD*** *bod y Cyngor*

*(a)* *yn awdurdodi adolygiad o ffiniau cymunedol neu drefniadau etholiadol cymunedol yn Sir Ddinbych;*

(b) *yn ymgynghori gyda'r holl Gynghorau Tref/Cymuned i holi a ydynt yn awyddus i wneud unrhyw newidiadau i ffiniau cymunedol neu drefniadau etholiadol cymunedol, a*

(c) *yn gofyn am gyfarwyddyd gan Lywodraeth Cynulliad Cymru i'r Comisiwn Ffiniau Llywodraeth Leol ymgymryd â rhai neu'r holl elfennau yn yr adolygiad*

**111 YMGYNGHORIAD YNGHYLCH ADRODDIAD Y COMISIWN ETHOLIADOL AM 'ETHOLIADAU LLEOL YNG NGHYMRU 2004"**

Cyflwynodd y Prif Weithredwr adroddiad [a ddosbarthwyd yn flaenorol] yn gwneud cais am i'r Cyngor ystyried ymateb i ymgynghoriad Llywodraeth Cynulliad Cymru ynghylch adroddiad y Comisiwn Etholaethol ar " Etholiadau Lleol yng Nghymru 2004". Roedd adroddiad y Comisiwn yn cynnwys 13 argymhelliad ac roedd y Cynulliad wedi darparu ymateb i bob un o'r argymhellion hynny [Atodiad 1 yr adroddiad]. Cyfeiriodd y Prif Weithredwr at yr ymateb yr awgrymir y dylai'r Cyngor ei gynnig i'r 13 argymhelliad fel y maent yn cael eu cynnwys yn Atodiad 2 yr adroddiad, gan ofyn i'r Aelodau wneud sylwadau arnynt.

Dywedodd y Cynghorydd R Ll Williams ei fod yn teimlo bod angen tynhau'r system ar gyfer pleidleisiau post, gan gyfeirio'n benodol at y modd y mae pleidleisiau post yn cael eu casglu gan ymgeiswyr, asiantau, ayb. Pwysleisiodd y Cynghorydd P J Marfleet yr angen i hyrwyddo trefn bleidleisio trwy'r post ar gyfer pob adran yn y gymdeithas a chytunodd y dylid sefydlu cyfundrefn gadarn. Cytunodd y Cynghorydd J Butterfield gyda'r sylwadau uchod ynghylch yr angen i sicrhau rhagor o ddiogelwch yn y drefn bleidleisio trwy'r post. Gwnaeth y Cynghorydd D Hannam gais am ragor o ymgyrchu i hyrwyddo pobl ifanc i gyfranogi yn y broses bleidleisio. Soniodd y Cynghorydd D A Thomas am yr angen i gael rhagor o ddiogelwch yn y gorsafoedd pleidleisio, gan grybwyll y posibilrwydd o gyflwyno trefn adnabod ar gyfer pleidleiswyr. Cyfeiriodd y Cynghorydd C L Hughes at y modd y câi myfyrwyr eu cofrestru i bleidleisio ddwywaith, sef yn eu cartref ac yn y Brifysgol, gan fynegi'r farn y dylai'r broses gofrestru gael ei hadolygu. Awgrymodd y Cynghorydd R E Barton bod angen i'r Cyngor fabwysiadu amgenach strategaethau i hyrwyddo pleidleisio. Dywedodd y Cynghorydd M Ll Davies nad oedd unrhyw gyfeiriad at bleidleisio gorfodol yn yr adroddiad a gofynnodd a allai cartref preswyl roi ei gefnogaeth i un ymgeisydd.

Ymatebodd y Prif Weithredwr i sylwadau/cwestiynau'r Aelodau, gan nodi

- nad oedd y pleidiau wedi dod i unrhyw gytundeb ynghylch pleidleisio gorfodol
- nad oedd cartrefi preswyl yn fannau cyhoeddus a'u bod yn rhydd i hyrwyddo ymgeiswyr unigol
- y byddai sylwadau'r Aelodau ynghylch yr angen i dynhau'r prosesau ar gyfer pleidleisio trwy'r post, diogelwch mewn gorsafoedd pleidleisio, cofrestru deuol a strategaethau ar gyfer annog yn cael eu cynnwys yn yr ymateb a anfonir i'r Cynulliad.

Teimlai'r Cynghorydd G Pickering nad oedd digon o ymglymiad gyda phobl ifanc a phwysleisiodd yr angen i ymgynghori rhagor gyda nhw ynghylch eu gofynion a'u parodrwydd i gymryd gan yn y broses bleidleisio. Gofynnodd y Cynghorydd G M Kensler am eglurhad am y "model sylfaen" ar gyfer pleidleisio a llongyfarchodd dîm y Cyngor ar effeithlonrwydd y trefniadau a wnaed ar gyfer yr Etholiad Seneddol diwethaf.

***PENDERFYNWYD,*** *yn amodol ar gynnwys y sylwadau gan Aelodau y cyfeirir atynt uchod, bod ymateb y Cyngor i'r Cynulliad, fel y ceir manylion amdano yn Atodiad 2 yr adroddiad, yn cael ei gymeradwyo.*

## 112 POLISI RHEOLI RISGIAU FFORDD GALWEDIGAETHOL

Cyflwynodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol Adnoddau adroddiad [a ddosbarthwyd yn flaenorol] gan Bennaeth Personél yn gofyn i'r Cyngor fabwysiadu'r Polisi Rheoli Risgiau Ffordd Galwedigaethol. Yn y fan yma, cyflwynodd Ms Helen Tapley sef y Rheolwr Iechyd a Diogelwch Corfforaethol sydd newydd gael ei phenodi a dywedodd y byddai adroddiad ar Iechyd a Diogelwch yn cael ei gyflwyno i gyfarfod nesaf y Cyngor.

Roedd y polisi yn amlinellu cyfrifoldebau Cyfarwyddwyr, y Tîm Rheoli a gweithwyr y Cyngor o safbwynt sicrhau bod pawb yn deall y cyfrifoldeb sydd ganddynt am sicrhau eu diogelwch eu hunain a diogelwch pobl eraill ar y ffordd.

Mewn ymateb i gwestiynau gan yr Aelodau adroddodd y Rheolwr Iechyd a Diogelwch Corfforaethol bod

- holiaduron i gael eu rhoi i'r holl aelodau staff mewn perthynas â rheoli straen
- cais yn cael ei wneud i bob gweithiwr newydd ddarparu gwybodaeth am brofion golwg ac y gellid trefnu profion ychwanegol lle mae eu hangen
- yr holl staff a'r Cynghorwyr yn cael cyfle i fynychu'r hyfforddiant ymwybyddiaeth i yrwyr
- polisi newydd wedi cael ei gyflwyno ynghylch ffonau symudol a bod canllawiau wedi'u rhoi i'r staff
- cynghorwyr, hefyd, yn ddarostyngedig i'r polisi ffonau symudol
- rheolwyr Llinell yn mynd i drefnu arolygiad blynyddol o'r trwyddedau gyrru sy'n cael eu dal gan yrwyr fflyd, gyrwyr car hanfodol, ayb.

Mewn ymateb i gwestiwn gan yr Aelodau dywedodd y Prif Weithredwr bod y polisi yn berthynol i'r holl Gynghorwyr ac y byddai gwiriadau trwydded ac yswiriant yn cael eu gwneud gan y Rheolwr Iechyd a Diogelwch Corfforaethol a'r Ymgynghorydd Risgiau Ffordd Corfforaethol. Croesawyd y polisi gan yr Aelodau a

***PHENDERFYNWYD*** *y dylid mabwysiadu'r* Polisi Rheoli Risgiau Ffordd Galwedigaethol.

**113 STRATEGAETH RHEOLAETH Y TRYSORLYS – Y TERFYN BUDDSODDI**

(Rhoddwyd sylw i hyn fel mater o frys gan fod rhybudd i'r perwyl hwnnw wedi'i roi gan y Cadeirydd ar ddechrau'r cyfarfod.)

Cyflwynodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol - Adnoddau adroddiad [a ddosbarthwyd yn flaenorol] yn gwneud cais am i'r Cyngor gytuno ar welliant i Strategaeth Rheolaeth Trysorlys y Cyngor ar gyfer 2005/06 mewn perthynas â'r terfyn ar fuddsoddiadau penodol o £3.5m i £5m yr un. Dywedodd bod ymgynghorwyr Rheolaeth Trysorlys y Cyngor wedi dweud bod y terfyn £3.5m yn wahanol i'r terfynau a ddefnyddir yn arferol mewn awdurdodau lleol ac y dylid ei gynyddu i £5m. Byddai hynny'n rhoi rhagor o hyblygrwydd a byddai buddsoddi ar lefel uwch yn ennill rhagor o log.

Cefnogwyd y cynnig gan yr Aelod Arweiniol Cyllid a Phersonél a mynegodd ei hyder yng ngweithdrefnau Rheolaeth y Trysorlys. Dywedodd y byddai'r arian llithriad yn y Rhaglen Gyfalaf yn gymorth yng nghyd-destun cyllid refeniw.

Holodd y Cynghorydd R E Barton a oedd y terfyn £5m rhy isel ac awgrymodd derfyn o £6-7m. Dywedodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol Adnoddau y byddai'n gwerthfawrogi'r hyblygrwydd y byddai'r terfyn hwnnw'n ei roi iddo pe bai'r Cyngor yn penderfynu ar derfyn o £6m.

Cynigiodd y Cynghorydd R E Barton, gyda'i gynnig yn cael ei eilio gan y Cynghorydd M A German, y dylid codi'r terfyn i £6m.

***PENDERFYNWYD*** *y dylai'r terfyn ar fuddsoddi gwargedion arian dros-dro gydag unrhyw un gwrth barti a gynhwysir yn Strategaeth Rheolaeth y Trysorlys ar gyfer 2005/06 gael ei gynyddu o £3.5m i £6m.*

**114 Y POST BRENHINOL – CASGLIADAU O FLYCHAU POST MEWN ARDALOEDD GWLEDIG**

(Rhoddwyd sylw i'r eitem hon fel mater o frys gan fod rhybudd i'r perwyl hwnnw wedi'i roi gan y Cadeirydd ar ddechrau'r cyfarfod.)

(Dywedodd y Cynghorydd C H Williams ei fod am ddatgan diddordeb, nad oedd yn ariannol, yn yr eitem hon, ac ni chymerodd ran yn y drafodaeth arni nac yn y bleidlais a ddilynodd. )

Mynegodd y Cynghorydd R E Barton ei bryderon ynghylch y newidiadau a wnaed gan y Post Brenhinol i'r drefn gasglu o flychau post mewn ardaloedd gwledig a olygai bod y casgliad olaf o rai blychau bellach yn cael eu gwneud am 9 a.m. Teimlai nad oedd y Post Brenhinol wedi rhoi rhybudd priodol am y newidiadau a fyddai wedi caniatáu i gynghorau cymuned ac eraill fynegi eu gwrthwynebiad. Mynegodd y Cynghorwyr bryder am fod llythyrau wedi'u hanfon at y Cyngor Sir a oedd yn cyfeirio at y posibilrwydd y byddai newidiadau'n digwydd, ac yn dweud y byddai rhybuddion am gasgliadau o flychau unigol yn cael eu gosod ar bob un o'r blychau y byddai'r newidiadau'n effeithio arnynt.

Cynigiodd y Cynghorydd R E Barton, gyda'i gynnig yn cael ei eilio gan y Cynghorydd G C Evans, y dylid gwneud cynrychiolaethau priodol i'r Post Brenhinol gan ofyn iddynt ail-ystyried y newidiadau i gasgliadau o flychau post mewn ardaloedd gwledig ac i wneud cais am i awdurdodau lleol cyfagos wneud cynrychiolaethau tebyg os oedd eu Cynghorau'n wynebu'r un math o broblemau.

Cafwyd cefnogaeth gyffredinol i'r cynnig gan yr Aelodau a mynegwyd y farn na fyddai ymateb amgen gan y Post Brenhinol, yn cynnig dileu rhai blychau post mewn ardaloedd gwledig, yn dderbyniol. Yn ogystal, mynegwyd pryder, ynghyd a'r farn y dylai'r Post brenhinol ymgynghori'n uniongyrchol gyda

Chynghorau Cymuned ynghylch lefel y gwasanaeth yn eu cymunedau yn hytrach na chyfeirio post trwy'r Cyngor Sir.

***PENDERFYNWYD*** *y dylid*

*(a) Cyflwyno cynrychiolaethau priodol i'r Post Brenhinol yn gofyn iddynt ail-ystyried y newidiadau a wnaed i'r drefn gasglu o flychau post mewn ardaloedd gwledig, ac*

*(b) Y dylid gwahodd y pum Cyngor arall yng Ngogledd Cymru i gyflwyno cynrychiolaethau i'r Post Brenhinol os yw'r Cynghorau hynny'n wynebu problemau tebyg.*

**RHAN II**

**GWAHARDD Y WASG A'R CYHOEDD**

***PENDERFYNWYD*** *dan Adran 100(A)(4) Deddf Llywodraeth Leol 1972 y dylid gwahardd y wasg a'r cyhoedd o'r cyfarfod ar gyfer yr eitemau busnes canlynol ar y sail y gallai eu presenoldeb arwain at ddatgeliad tebygol o wybodaeth eithriedig fel y caiff honno ei diffinio ym mharagraffau 8 a 9 o Ran 1 o Sgediwl 12A Deddf Llywodraeth Leol 1972.*

**115 SAFLE YSGOL NEWYDD ARFAETHEDIG, PRESTATYN**

(Rhoddwyd sylw i'r eitem hon fel mater o frys gan fod y Cadeirydd wedi rhoi rhybudd i'r perwyl hwnnw ar ddechrau'r cyfarfod.)

Cyflwynodd yr Aelodau Arweiniol Eiddo a Rheolaeth Asedau a Dysgu Gydol Oes gyd-adroddiad cyfrinachol [ a ddosbarthwyd yn y cyfarfod] yn gofyn i'r Cyngor:-

- nodi penderfyniad y Pwyllgor Rheoli Asedau i gymeradwyo, mewn egwyddor, bryniant 5.4 erw o dir ar gyfer yr ysgol gynradd newydd arfaethedig yng ngorllewin tref Prestatyn.
- gytuno i glustnodi cyllid ar gyfer pryniant y tir dan sylw, yn amodol i arenwi'r cyllid angenrheidiol gan y Cyfarwyddwr Corfforaethol Adnoddau a
- dirprwyo'r penderfyniad terfynol ynghylch telerau'r pryniant a ffynhonnell y dyraniad cyllid ychwanegol i'r Cabinet.

Cyfeiriodd y Cynghorydd D Owens ar y pwysau trwm oedd ar leoedd yn ysgolion Prestatyn a'r anawsterau a wynebir wrth geisio cael safle i ysgol gynradd newydd yn y dref. Adroddodd bod y Rheolwr Asedau wedi cytuno mai'r safle a arenwyd yn yr adroddiad oedd yr opsiwn gorau ac y dylid ei brynu.

Cyfeiriodd y Cynghorydd J Thompson-Hill at y trafodaethau a gynhaliwyd rhwng y Cyngor ac asiant y perchennog a'u bod wedi cytuno, mewn egwyddor i brynu'r tir.

Mynegodd yr Aelod Arweiniol Cyllid a Phersonél ei bryder ynghylch cyllido pryniant y tir ac at faterion yn ymwneud â'r Cynllun Datblygu Lleol ac Asiantaeth yr Amgylchedd.

Mynegwyd pryder cyffredinol gan yr Aelodau mewn perthynas ag amseriad yr adroddiad i'r Cyngor; y trefniadau ar gyfer ariannu'r pryniant; lleoliad yr ysgol arfaethedig a'r gwyriad oddi wrth y Cynllun Datblygu Unedol.

Gofynnodd y Cynghorydd E W Williams am i'r bleidlais ar yr argymhellion yn yr adroddiad fod yn un oedd yn cael ei chofnodi.

Manteisiodd y Cynghorydd J Thompson-Hill ar y cyfle i ymateb i bryderon yr Aelodau. Mynegodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol – Adnoddau ei bryderon ynghylch y goblygiadau ariannol posibl a phwysleisiodd yr angen i'r Cyngor fod â rheolaeth ar y sefyllfa ariannol. Awgrymodd na fyddai'r dyraniad ariannol gan Lywodraeth y Cynulliad yn ddigonol i dalu am adeiladu'r ysgol a phrynu'r tir.

Mewn ymateb i gwestiwn gan y Cynghorydd P J Marfleet dywedodd y Prif Weithredwr na fyddai pryniant y safle yn mynd rhagddo heb i ganiatâd cynllunio gael ei roi i'r safle.

Dywedodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol Dysgu Gydol Oes na fyddai'r Cynulliad yn cyllido pryniant y tir yn ystod 2005/06 ac at yr angen, o'r herwydd, i glustnodi arian o gyllideb eleni. Cyfeiriodd at y dadansoddiad cynhwysfawr iawn o opsiynau safle gan annog y Cyngor i fynd ymlaen gyda'r pryniant cyn belled â bod y dulliau diogelu i gyd yn eu lle.

Mewn ymateb i gwestiwn gan y Cynghorydd E W Williams, cyfeiriodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol : Adnoddau at ffynonellau cyllid posibl ar gyfer prynu'r tir.

Teimlai'r Prif Weithredwr mai'r safle arfaethedig oedd yr unig un oedd ar ôl ar gyfer ysgol gynradd ym Mhrestatyn ac awgrymodd y dulliau diogelu canlynol y gallai'r Cyngor ddymuno eu hystyried:-

- ni fyddai'r trefniadau i brynu'r tir yn mynd rhagddynt heb i ganiatâd cynllunio gael ei roi ar gyfer yr ysgol
- dywedodd bod y cadarnhad cychwynnol gan Lywodraeth y Cynulliad yn cwmpasu'r holl wariant [heb gynnwys y ffordd fynediad]
- os bydd hynny'n bosibl, na ddylai'r dyraniad arfaethedig o gyllid gan y Cabinet gael ei dynnu o unrhyw gyllid a ddyrannwyd ar gyfer ysgolion/ffyrdd [blaenoriaethau'r Cyngor].

Cynigiodd y Cynghorydd D Owens bod yr argymhellion a'r dulliau diogelu fel y cawsant eu hamlinellu gan y Prif Weithredwr yn cael eu cymeradwyo. Cafodd y cynnig ei eilio gan y Cynhorydd J Thompson-Hill.

Gan fod y nifer angenrheidiol o Gynghorwyr wedi dangos, yn unol â Rheol Sefydlog 14.5, eu bod yn dymuno i'r bleidlais gael ei chofnodi, roedd y bleidlais fel a ganlyn:-

O blaid y cynnig (26)
Y Cynghorwyr M Ll Davies, S A Davies, P A Dobb, P C Duffy, E C Edwards, G C Evans, H H Evans, S Frobisher, I M German, M A German, K N Hawkins, C L Hughes, N J Hughes, R W Hughes, E R Jones, M M Jones, P J Marfleet, P W Owen, D Owens, N P Roberts, S Roberts, G O Rowlands, J A Smith, S Thomas, J Thompson-Hill, E W Williams.

Yn erbyn y cynnig (8)
Y Cynghorwyr R E Barton, B Blakeley, J Butterfield, J Chamberlain Jones, G J Pickering, D A J Thomas, C H Williams, R Ll Williams.

Yn atal eu pleidlais (0)

***PENDERFYNWYD*** *yn amodol ar ychwanegiad y dulliau diogelu fel y cawsant eu hamlinellu uchod, gan y Prif Weithredwr, bod*

*(a) penderfyniad y Pwyllgor Rheoli Asedau i gymeradwyo pryniant 5.4 acer ar gyfer yr ysgol newydd arfaethedig yng ngorllewin Prestatyn yn cael ei nodi;*

*(b) cyllid priodol yn cael ei glustnodi ar gyfer prynu'r tir dan sylw, yn amodol arenwi'r cyllid hwnnw gan y Cyfarwyddwr Corfforaethol Adnoddau, a*

*(c) y penderfyniad terfynol ar delerau'r pryniant a ffynhonnell y cyllid ychwanegol yn cael ei ddirprwyo i'r Cabinet.*

Wrth derfynu, llongyfarchodd yr Is-gadeirydd yr ysgolion yn Sir Ddinbych a gafodd lwyddiant yn Eisteddfod yr Urdd yng Nghaerdydd.

Daeth y cyfarfod i ben am 1.50pm

**********

**PWYLLGOR ARCHWILIO DYSGU GYDOL OES**

Cofnodion cyfarfod o’r Pwyllgor Archwilio Dysgu Gydol Oes a gynhaliwyd yn Ystafell Gynadledda 1, Neuadd y Sir, Ffordd Wynnstay, Rhuthun ddydd Iau, 16eg Mehefin 2005 am 10.00am.

**YN BRESENNOL**

Y Cynghorwyr R E Barton (sylwebydd), D Cooper, G C Evans (sylwebydd), H H Evans, S Frobisher, C L Hughes (sylwebydd), N Hugh-Jones, D Jones (sylwebydd), M M Jones, D Owens (Aelod Cabinet Arweiniol dros Ddysgu Gydol Oes), P M Marfleet (Aelod Cabinet Arweiniol dros Gyllid a Phersonél) ac N P Roberts ynghyd â'r Aelodau cyfetholedig L Davenport, G Greenland, G Hughes, J Saxon, M J Toman, D Wilson a G F Roberts (Aelod o’r Pwyllgor Safonau).

**HEFYD YN BRESENNOL:**

Cyfarwyddwr Corfforaethol Dros Dro Dysgu Gydol Oes, Pennaeth Strategaeth ac Adnoddau, Pennaeth y Gwasanaethau Cefn Gwlad a Hamdden, Prif Swyddog Ieuenctid (R Ellerton), Rheolwr y Gwasanaethau Ariannol (K Latham), Rheolwr Busnes a Pherfformiad (G Yates), Swyddog Cefnogi Archwilio (S Price), Rheolwr y Gwasanaethau Gweinyddol (R Davies) a’r Swyddog Gweinyddol (K E Jones).

**CAFWYD YMDDIHEURIADAU AM EU HABSENOLDEB ODDI WRTH**

Y Cynghorydd G Williams ynghyd ag Aelodau Cyfetholedig Ms D Hesketh, C Thompson a Mr P R Williams.

**CROESO**

Croesawodd y Rheolwr Gwasanaethau Gweinyddol bawb i’r cyfarfod a’u hysbysu y byddai'r Cyfarwyddwr Dysgu Gydol Oes newydd yn ymuno â'r cyfarfod yn fuan.

**116 PENODI CADEIRYDD**

Gwahoddodd Rheolwr y Gwasanaethau Gweinyddol enwebiadau i benodi Cadeirydd y Pwyllgor am y flwyddyn i ddod. Cynigiodd y Cynghorydd H H Evans, a chafodd ei eilio gan y Cynghorydd M M Jones, benodi'r Cynghorydd N Hugh-Jones fel Cadeirydd. Yn absenoldeb unrhyw enwebiadau eraill: -

***PENDERFYNWYD*** *penodi’r Cynghorydd N Hugh-Jones yn Gadeirydd y Pwyllgor am y flwyddyn i ddod*

**117 PENODI IS GADEIRYDD**

Cynigiodd y Cadeirydd, y Cynghorydd N Hugh-Jones a chafodd ei eilio gan y Cynghorydd D Cooper, benodi'r Cynghorydd M M Jones fel Is Gadeirydd am y flwyddyn i ddod. Cynigiodd y Cynghorydd N P Roberts a chafodd ei eilio gan y Cynghorydd S Frobisher, benodi'r Cynghorydd H H Evans fel Is Gadeirydd am y flwyddyn i ddod. Ar ôl pleidlais:-

***PENDERFYNWYD*** *penodi’r Cynghorydd H H Evans yn Is Gadeirydd y Pwyllgor am y flwyddyn i ddod.*

Yr adeg yma manteisiodd y Cadeirydd y ar y cyfle i wneud y cyhoeddiadau canlynol:-

(i) estynnodd ei longyfarchiadau i’r Cyngohorydd H H Evans ar ei benodi’n Is Gadeirydd y pwyllgor a thalodd deyrnged i waith caled a chyfraniad gwerthfawr y cyn Is Gadeirydd, y Cynghorydd M M Jones;
(ii) cyflwynodd a chroesawodd i’r cyfarfod y Cyfarwyddwr Dysgu Gydol Oes newydd, Mr Huw Griffiths;
(iii) penodiad Dr Ann Gosse, Cyfarwyddwr Cynorthwyol Diwylliant fel Pennaeth Diwylliant yng Nghynor Dinas Sheffield a thalodd deyrnged i’w gwasanaeth ardderchog gyda’r awdurdod, a
(iv) llongyfarchodd yr Aelod Cyfetholedig, Ann Horobin, ar dderbyn yr MBE yn y Rhestr Anrhydeddau diweddar am ei chyfraniad i addysg.

## 118 MATERION BRYS

Ni chodwyd unrhyw eitemau y dylid ym marn y Cadeirydd eu hystyried yn y cyfarfod fel mater o frys yn unol ag Adran 100(B)(4) o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972.

## 119 COFNODION

Cyflwynwyd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 19 Ebrill 2005 (a rannwyd o'r blaen).

**Materion yn codi:-**

Tudalen 2 – Cofnodion: Materion yn Codi – Arbedion Posibl yng Nghyllideb y Gyfarwyddiaeth 2005 / 06. Cyfeiriodd y Cynghorydd H H Evans at ei bryderon blaenorol y dylai'r pwyllgor archwilio gael ei gynnwys ynghynt yn y broses o sefydlu'r gyllideb ac awgrymodd y dylai'r pwyllgor sefydlu Gweithgor Cyllid ar gyfer delio gyda materion ariannol er mwyn sicrhau y byddai'r pwyllgor yn gallu gweithredu'n well yn ystod y rownd nesaf o arbedion effeithiolrwydd. Croesawodd yr Aelodau'r cynnig ac eglurodd y Cynghorydd P M Marfleet, Aelod Arweiniol dros Gyllid a Phersonél, y sefyllfa gyllidebol bresennol a'r gwaith manwl sydd ar y gweill gyda Llywodraeth Cynulliad Cymru yn herio'r dyraniad ariannol ar gyfer yr awdurdod ynghylch materion megis poblogaeth fyrhoedlog. Disgwylir y bydd raid cael arbedion effeithiolrwydd pellach o 1% y flwyddyn nesaf. Cyfeiriodd y Cynghorydd H H Evans at safle isel yr awdurdod yn y tabl cynghrair ar wariant y pen y disgybl a gofynnodd am i'r mater hwn ffurfio rhan o faes llafur y Gweithgor Cyllid a sefydlu deialog barhaus ar lefel gorfforaethol ynghylch pwysau ac arbedion effeithiolrwydd ar gyfer y flwyddyn ariannol nesaf.

Tudalen 2 – Eitem 3: Canolfan Plant Integredig Arfaethedig yn Ninbych Uchaf – Cydnabu'r Cadeirydd bresenoldeb Margaret Morris o Ysgol Gwaenynog a'r Cynghorwyr D Jones a C L Hughes a oedd yn mynychu'r cyfarfod fel aelodau lleol ar gyfer yr eitem hon. Ar wahoddiad y Cadeirydd, anerchodd Ms Morris y pwyllgor gan egluro, gan fod cyfarfod ynghylch penodi Dirprwy Brifathro yn yr ysgol, na allai'r Prifathro a llywodraethwyr eraill a oedd yn bresennol yn y cyfarfod diwethaf fod yn bresennol yn y cyfarfod heddiw. Manteisiodd Ms Morris ar y cyfle i ddarllen yn gyhoeddus lythyr a oedd eisoes wedi'i anfon at aelodau'r pwyllgor archwilio ar ran Corff Llywodraethol Ysgol Gwaenynog a oedd yn rhannu pryderon y pwyllgor archwilio ynghylch cynnwys yr adroddiad a gyflwynwyd i'r cyfarfod diwethaf. Gofynnwyd i'r Aelodau nodi anfodlonrwydd y Corff Llywodraethol gyda'r broses a chyda'r penderfyniad ynghylch darparu Canolfan Plant Integredig yn Ninbych, y dylid caniatáu'r cais i drafod y mater ymhellach, y dylai'r Pwyllgor Safonau ymchwilio i'r digwyddiadau a'r gweithdrefnau ymhellach, ac y dylai'r Cyngor Sir geisio cyllid fel mater o frys i adeiladu Canolfan Plant Integredig yn Ninbych. Cyfeiriodd y Cynghorwyr C L Hughes a D Jones at y diffyg ymgynghori gydag aelodau lleol ynghylch y mater gan ofyn am wybodaeth lawn ynghylch materion lleol a chytuno y dylid trefnu cyfarfod arbennig ar gyfer datblygu'r prosiect a sicrhau darpariaeth sydd fawr ei angen yn Ninbych Uchaf. Holodd y Cynghorydd M M Jones a gafwyd unrhyw wybodaeth ychwanegol ers y cyfarfod diwethaf a chadarnhaodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol Dysgu Gydol Oes fod y sefyllfa'n aros fwy na heb fel ag yr oedd yn nhermau cyllido a chynaliadwyedd y prosiect. Roedd yr aelodau'n awyddus i drefnu cyfarfod arbennig i drafod y mater ymhellach.

Tudalen 8: Eitem 5: Rhaglen Waith Archwilio - Mewn ymateb i gwestiwn oddi wrth y Cynghorydd H H Evans dywedodd y Cynghorydd D Owens, yr Aelod Arweiniol dros Ddysgu Gydol Oes, y byddai llywodraethwyr ysgolion yn cael eu cynnwys yn y prosiect Rheoli Lleoedd Ysgol fel yr ai yn ei flaen.

***PENDERFYNWYD:-***

*(a)* *derbyn cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 19 Ebrill 2005 a'u cymeradwyo fel cofnod cywir.*

*(b)* *sefydlu Gweithgor Cyllid o fis Medi 2005 i gynnwys aelodau o'r pwyllgor hwn ynghŷd â'r Cynghorydd P Marfleet, yr Aelod Arweiniol dros Gyllid a Phersonél, a'r Cynghorydd D Owens, yr Aelod Arweiniol dros Ddysgu Gydol Oes a'r swyddogion perthnasol i drafod materion ariannol yn y Gyfarwyddiaeth Dysgu Gydol Oes.*

*(c)* *cynnull cyfarfod arbennig gynted â bo modd gyda Chorff Llywodraethol Ysgol Gwaenynog, yr aelodau lleol, yr Aelodau Cabinet Perthnasol a swyddogion ar gyfer datblygu cynnig ar gyfer Canolfan Plant Integredig yn Ninbych Uchaf; a*

(ch) *bod y Cyfarwyddwr Corfforaethol Dysgu Gydol Oes yn paratoi cylch gorchwyl clir ar gyfer ei rannu cyn y cyfarfod er mwyn sicrhau canlyniadau clir ellid eu dilyn.*

**120 ASESIADAU RISG CLUDIANT YSGOL**

Cyflwynodd y Rheolwr Busnes a Pherfformiad adroddiad (a rannwyd o'r blaen) yn hysbysu'r aelodau o ddigwyddiadau diweddar o gamymddwyn ar rai bysiau ysgol ac yn gofyn am farn yr aelodau ynghylch yr hyn a ddylid ei wneud i dalu sylw i hyn.

Cafwyd manylion yn yr adroddiad o ymddygiad gwael ar rai cerbydau cludo plant ysgol, yr hyn a wnaed hyd yn hyn mewn ymateb i ddigwyddiadau o gam ymddwyn, yr argymhellion ar gyfer gweithredu yn y dyfodol a amlygwyd yn yr adroddiad gan gynnwys y rhai a gyflwynwyd gan y Gweithgor Cludiant Ysgolion, ystyriaethau cyfreithiol a'r goblygiadau ymarferol ac ariannol o sicrhau diogeledd ar fysiau ysgol. Cyfeiriwyd hefyd at yr Adolygiad Cludiant Ysgol gan Bwyllgor Addysg a Dysgu Gydol Oes y Cynulliad ac awgrymwyd y dylai'r Gweithgor Cludiant Ysgol ystyried argymhellion y Cynulliad ac adrodd yn ôl ar eu canfyddiadau i'r pwyllgor archwilio.

Pwysleisiodd y Rheolwr Busnes a Pherfformiad fod disgyblion, y rhan fwyaf o'r amser, yn ymddwyn yn dda ar gludiant ysgol ac mai dim ond gyda tua 4 allan o 330 contract y dydd y ceid problemau. Roedd yn falch o adrodd y cafodd y bid am £10,000 o'r Gronfa Rheoli Risg ar gyfer teledu cylch cyfyng ar fysiau ysgol ei chymeradwyo ac y gofynnir am ddyfynbrisiau. Argymhellid defnyddio goruchwylwyr ar fysiau ysgol ond roedd rhaid bod yn ofalus pwy a gyflogid a pha hyfforddiant a fyddai ei angen. Roedd argymhellion eraill ar gyfer eu gweithredu yn y dyfodol yn cynnwys defnyddio bysiau un llawr lle bynnag y byddai hynny'n bosibl, gweithredu system "dim tocyn dim teithio" ar rai teithiau a pharatoi polisi clir ar gyfer delio gyda chamymddwyn ar fysiau ysgol. Yn olaf, cyfeiriwyd at y "bws pinc" a ddefnyddid ar Ynys Wyth fel dull o wahanu'r disgyblion a oedd yn cam ymddwyn. Er nad oedd yn fwriad cael bws pinc fel y cyfryw yn Sir Ddinbych, gofynnwyd i'r aelodau ystyried defnyddio dulliau eraill ar gyfer cludo disgyblion a oedd yn camymddwyn.

Trafododd yr Aelodau'r adroddiad gan gydnabod cyfrifoldeb yr awdurdod lleol am blant tra'r oeddent yn teithio ar fysiau ysgol. Mynegwyd pryderon difrifol ynghylch goblygiadau iechyd a diogelwch pan fyddai disgyblion yn camymddwyn ar gludiant ysgol. Wrth ystyried y dewisiadau ar gyfer talu sylw i'r problemau a amlygwyd yn yr adroddiad, holodd y Cynghorydd N P Roberts a fyddai'n bosibl i Swyddogion Cefnogi Cymunedol deithio ar fysiau ysgol ac awgrymodd y Cynghorydd C L Hughes y gallai Swyddogion Cyswllt Ysgolion hefyd weithredu fel gwarchodwyr. Dywedodd y Rheolwr Busnes a Pherfformiad y galwyd yr Heddlu i ddigwyddiadau penodol ond efallai na fyddent ar gael ar fyr rybudd. Cadarnhaodd hefyd fod rhai disgyblion yn teithio ar fysiau gwasanaeth ac mai dim ond ar fysiau ysgol penodedig y cafwyd camymddwyn a'i bod yn arwyddocaol hefyd na chafwyd unrhyw ddigwyddiad ar fysiau un llawr ers eu cyflwyno. Awgrymodd y Cadeirydd y dylid anfon llythyr at bob rhiant ar ddechrau pob blwyddyn academaidd yn manylu ar eu cyfrifoldebau.

Ymhelaethodd Aelodau'r Gweithgor Cludiant Ysgol ar y gwaith a wnaed wrth ystyried y materion a nodwyd yn yr adroddiad ac at eu hargymhellion ar gyfer gweithredu yn y dyfodol. Wrth ystyried argymhellion y Gweithgor, atgoffodd y Cynghorydd M M Jones yr aelodau fod costau cludiant ysgol yn uwch na'r gyllideb bob blwyddyn a theimlai y dylai holl oblygiadau cost y gweithredu a argymhellir yn y dyfodol, gan gynnwys defnydd o fysiau unllawr, costau hyfforddi a chyflogau gwarchodwyr ysgolion ayb, fod wedi'u cynnwys yn yr adroddiad. Wrth ystyried argymhelliad 1(b) i newid bysiau deulawr am rai unllawr lle cafwyd achosion o gamymddwyn, gofynnodd yr Aelod Cyfetholedig L Davenport am i'r argymhelliad hwn fod yn fyw hyblyg er mwyn cynnwys contractau eraill pe byddai problemau tebyg yn codi ar deithiau eraill. Dywedodd y Cynghorydd H H Evans y seiliwyd yr argymhellion ar waith y Gweithgor Cludiant Ysgolion hyd yn hyn ac y cyflwynir rhagor o argymhellion ar gyfer delio gyda materion canol a hir dymor i gyfarfodydd yn y dyfodol. Awgrymodd y Cynghorydd R E Barton y dylid defnyddio'r gair "penodedig" yn argymhelliad 1(c) er mwyn eithrio bysiau gwasanaeth. Trafodwyd y syniad o'r "bws pinc" fel dull amgen o gludo disgyblion a oedd yn camymddwyn ond roedd yr aelodau o'r farn na fyddai'r dewis hwn yn gost effeithiol ac y gellid cael mwy o fanteision drwy daclo'r broblem gyda thocynnau bws a thrwy gysylltu â rheini disgyblion a oedd yn camymddwyn yn barhaus. Dywedodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol fod angen datblygu polisi a chynllun gweithredu i dalu sylw i broblem ymddygiad ar gludiant ysgol yn ogystal â'r goblygiadau

cyllidebol a ellid eu cyflwyno i'r cabinet. Pwysleisiodd y Cynghorydd H H Evans y dylid canolbwyntio ar gontractau ysgol fel ffordd o dalu sylw i nifer o broblemau a nodwyd yn adroddiad heddiw.

***PENDERFYNWYD:-***

*(a) fod y pwyllgor yn cefnogi'n llawn argymhellion y Gweithgor Cludiant Ysgol ar gyfer:*

- *cefnogi gosod teledu cylch cyfyng a defnyddio arolygwyr ar deithiau a flaenoriaethir, gan gadw mewn cof y goblygiadau ariannol;*
- *gofyn am dendrau ar gyfer newid bysiau deulawr am rai unllawr o Lanelwy i Ysgol Uwchradd Dinbych o fis Medi 2005, nodi'r goblygiadau ariannol tebygol a chadw'r dewis o ymestyn y dull hwn ar deithiau eraill lle ceir problemau tebyg.*
- *diddymu bysiau deulawr yn raddol fel cludiant ysgol fel yr adnewyddir contractau;*

*(b) nodi'r mesurau eraill a amlygir yn yr adroddiad ar gyfer talu sylw i gamynddwyn ar gludiant ysgol a pheidio â chefnogi'r dewis o "fws pinc".*

*(c) bod y pwyllgor yn derbyn adroddiad mewn cyfarfod pellach unwaith y bydd y Gweithgor Cludiant Ysgol wedi ystyried argymhellion y Cynulliad ynghylch cludiant ysgol; a*

*(ch) gofyn i'r Gweithgor Cludiant Ysgol ddatblygu, drwy ymgynghori gyda phartneriaid, bolisi a chynllun gweithredu i dalu sylw i broblemau ymddygiad ar gludiant ysgol gan gynnwys atebion yn y tymor byr, canolig a hir a goblygiadau cyllido unrhyw fesurau sydd eu hangen.*

Ar yr adeg yma (11.40am) gohiriwyd y cyfarfod am bum munud er mwyn i'r Aelodau gael lluniaeth.

## 121 ADRODDIAD YN ÔL O'R GWEITHGOR CLUDIANT YSGOL

(Datganodd y Cynghorydd C L Hughes ddiddordeb yn y mater ynghylch Ysgol Uwchradd Dinbych gan ei fod yn llywodraethwr yr ysgol).

Cyflwynodd y Swyddog Cefnogi Archwilio adroddiad (a rannwyd o'r blaen) yn gofyn am farn yr aelodau ar y diwygiad y bwriedir ei wneud i bolisi cludiant ysgol Cyngor Bwrdeistrefol Sirol Wrecsam a goblygiadau hynny i gludiant ysgol yn codi o fwriad Ysgol Uwchradd Dinbych i newid oriau'r ysgol.

Eglurodd y Rheolwr Busnes a Pherfformiad y newid arfaethedig i bolisi cludiant ysgol Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam i gyfyngu ar gludiant rhad i'w ysgol agosaf a fyddai'n effeithio disgyblion yn byw yn Wrecsam sy'n mynychu Ysgol Dinas Bran. Trafododd yr Aelodau'r diwygiad arfaethedig gan nodi goblygiadau'r newid yn nhermau derbyn i'r ysgol ac ystyried barn ac argymhellion Gweithgor Cludiant Ysgol y pwyllgor ynghylch hyn.

Adroddodd y Rheolwr Busnes a Pherfformiad hefyd ar argymhellion y Gweithgor ar ôl ystyried y goblygiadau ar gyfer cludiant ysgol yn codi o fwriad Ysgol Uwchradd Dinbych i ddiwygio amser agor a chau'r ysgol. Cadarnhaodd y Cynghorydd S Frobiser fod Ysgol Uwchradd Prestatyn wedi newid oriau'r ysgol yn debyg i'r hyn y bwriada Ysgol Uwchradd Dinbych a bod hynny i'w weld yn gweithio'n iawn, er nad oedd cludiant ysgol wedi cael gwybodaeth am y newidiadau. Holodd y Cynghorydd G C Evans, os oedd manteision i newid oriau ysgol, a fyddai'n ymarferol newid oriau agor pob ysgol er cysondeb. Dywedodd y Pennaeth Strategaeth ac Adnoddau mai mater i bob ysgol unigol fyddai hynny a chadarnhaodd fod Swyddogion Addysg yn edrych i mewn i'r mater. Roedd y Cynghorydd D Owens, Aelod Arweiniol dros Ddysgu Gydol Oes, o'r farn, os oedd newid oriau agor ysgol o fudd addysgiadol i ddisgyblion, yna dylai'r dewis hwn gael ei ystyried gan yr awdurdod lleol. Awgrymodd y Cynghorydd N P Roberts efallai na fyddai agor ysgolion ynghynt yn ddichonadwy ar gyfer rhai ysgolion, yn enwedig mewn ardaloedd gwledig, pan fyddai'n dywyll yn ystod misoedd y gaeaf.

***PENDERFYNWYD*** *fod y pwyllgor yn cefnogi'n llawn argymhellion y Gweithgor Cludiant Ysgol sef:*

*(a) oherwydd y pwysau ar y gyllideb cludiant ysgol, dweud wrth Gyngor Bwrdeistrefol Sirol Wrecsam na ellid cyfrannu tuag at gost cludo disgyblion allan o'r sir i Ysgol Dinas Brân ac na fydd Sir Ddinbych yn trefnu ei gludiant ei hun.*

(b) *gofyn am gadarnhad oddi wrth Wrecsam y bydd cludiant rhad yn dal ar gael ar gyfer disgyblion Wrecsam sy'n mynychu'r ffrwd cyfrwng Cymraeg yn Ysgol Dinas Bran pan mai honno yw eu hysgol addas agosaf.*

(c). *oherwydd y pwysau ar y gyllideb cludiant ysgol, gofyn i Ysgol Uwchradd Dinbych ysgwyddo unrhyw gostau cludiant ysgol ychwanegol yn codi o ganlyniad uniongyrchol i newid amser agor a chau'r ysgol; a*

(ch) *pan fo'n bosibl, a heb gost ychwanegol i Ddysgu Gydol Oes, newid y contractau cludiant ysgol presennol yn unol â'r newidiadau i amserau gorffen yn Ysgol Uwchradd Dinbych.*

**122 DIWEDDARIAD O FALANSAU YSGOLION AR 31 MAWRTH 2005 A'R CRITERIA AR GYFER DYRANNU ADNODDAU RHWNG Y SECTORAU CYNRADD AC UWCHRADD**

Cyflwynodd y Pennaeth Strategaeth ac Adnoddau (Dysgu Gydol Oes) adroddiad (a rannwyd o'r blaen) yn cyflwyno diweddariad ar falansau ysgolion ar 31 Mawrth 2005 a'r criteria a ddefnyddir ar gyfer dyrannu adnoddau rhwng y sectorau cynradd ac uwchradd. Atodwyd dadansoddiad o gyfanswm balansau ysgolion ar draws sectorau ysgolion gyda'r adroddiad. Mae Estyn (Arolygiaeth ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru) yn ystyried y dylai balansau ysgolion fod rhwng 2% a 5% o'u cyllideb.

Yn gyffredinol, cynyddodd cyfanswm balansau ysgolion ar 31 Mawrth 2005 i 3.1% o gyfanswm dyraniad y gyllideb ar gyfer 2005 / 06 o gymharu â 1.9% o gyfanswm dyraniad y gyllideb ar gyfer 2004 / 05 ar 31 Mawrth 2004. Roedd y cynnydd yn fwy na'r disgwyl oherwydd y cynhyrchwyd mwy o incwm ac y bu lleihâd yn y gwariant a gynlluniwyd tua diwedd y flwyddyn fel y deuai'r ysgolion yn bryderus ynghylch effaith arbedion effeithiolrwydd yn 2005 / 06.

Roedd yr aelodau'n falch o nodi fod y sefyllfa'n gwella a llongyfarchodd y Cynghorydd S Frobisher y Prifathrawon a'r Cyrff Llywodraethol ar eu llwyddiannau. Talodd y Cynghorydd N P Roberts deyrnged hefyd i gyfraniad gwaith Cymdeithasau Rhieni / Athrawon mewn ysgolion. Roedd y Cynghorydd H H Evans yn hyderus y byddai sefydlu Gweithgor Cyllid gydag aelodau o'r pwyllgor archwilio arno hefyd yn sicrhau y cai cyllid ei ddefnyddio'n well. Mewn ymateb i gwestiwn oddi wrth yr Aelod Cyfetholedig L Davenport, cadarnhaodd y Rheolwr Gwasanaethau Gweinyddol ei fod yn uchelgais gan Lywodraeth Cynulliad Cymru gyflwyno cyllideb dair blynedd ar gyfer Addysg i awdurdodau lleol.

***PENDERFYNWYD -*** *derbyn a nodi'r adroddiad.*

**123 ADOLYGIAD O'R GWASANAETH IEUENCTID AC ADRODDIAD HUNAN ASESIAD ESTYN**

(Dygwyd yr eitem hon ymlaen ar yr agenda gyda chaniatâd y Cadeirydd)

Cyflwynodd y Prif Swyddog Ieuenctid adroddiad (a rannwyd o'r blaen) yn sôn wrth yr aelodau am ganlyniadau Adolygiad a Hunan Asesiad o'r Gwasanaeth Ieuenctid ac yn gofyn am farn a chefnogaeth yr aelodau ynghylch Amlinelliad y Cynllun Gwella Strategol drafft (a oedd ynghlwm wrth yr adroddiad) ar gyfer paratoi cytundeb terfynol gyda Phartneriaeth Pobl Ifanc cyn cyflwyno adroddiad i'r Cabinet.

Amlinellodd y Prif Swyddog Ieuenctid ei adroddiad i'r aelodau gan sôn am waith y Gwasanaeth Ieuenctid a'r datblygiadau ers i'r aelodau ystyried adroddiad Adolygiad Cynnydd y Gwasanaeth Ieuenctid yn eu cyfarfod fis Tachwedd 2004. Roedd y meysydd a oedd wedi'u cynnwys yn yr adroddiad yn cynnwys hawliau ac anghenion pobl ifanc Sir Ddinbych, Gwasanaeth Ieuenctid Sir Ddinbych, gwelliannau a ellid eu cael gyda'r adnoddau presennol, gwelliannau a fyddai angen bidiau am gyllid mewnol ac allanol yn ystod y pedair blynedd nesaf a meysydd blaenoriaeth.

Rhoddodd yr aelodau ystyriaeth i'r adroddiad a'r argymhelliad a phwysleisiodd y Prif Swyddog Ieuenctid nad bid am gyllid oedd yr adroddiad ond ei fod yn amlygu'r problemau cyllido a heriau a wynebai'r Gwasanaeth Ieuenctid yn ystod yr ychydig flynyddoedd nesaf.

Talodd y Cadeirydd deyrnged i waith gwerthfawr y Gwasanaeth Ieuenctid a gofynnodd y Cynghorydd C L Hughes am i'r Prif Swyddog Ieuenctid gyfleu'r deyrnged i'w staff.

Mynegodd y Cynghorydd R E Barton bryder ynghylch y contractau tymor byr a oedd gan staff y gwasanaeth a theimlai y dylid darparu contractau tymor hir. Teimlai hefyd fod gwaith ieuenctid yn canolbwyntio fwyaf ar y prif drefi pan ddylai fod mwy o ganolbwyntio ar ardaloedd gwledig. Mewn ymateb, cyfeiriodd y Cynghorydd S Frobisher at y bwriad i sicrhau cyllid allanol ar gyfer gweithredu prosiect gwaith ieuenctid symudol ac ar wahân er mwyn ychwanegu at y gwaith presennol mewn cymunedau trefol a gwledig.

***PENDERFYNWYD*** *argymell y Cynllun Gwella Hunan Asesiad i'r Cabinet.*

**124 ADRODDIAD PERFFORMIAD CHWARTEROL – CHWARTER 4**

Cyflwynodd y Swyddog Cefnogi Archwilio adroddiad (a rannwyd o’r blaen) yn manylu ar fonitro perfformiad yr unedau gwasanaeth unigol yng nghylch gorchwyl y Pwyllgor Archwilio Dysgu Gydol Oes yn erbyn y targedau a’r amcanion a gytunwyd. Atodir y dangosyddion perfformiad statudol sy’n cael eu monitro gan y pwyllgor a'r lefelau perfformiad perthnasol ar gyfer y pedwar chwarter gyda’r adroddiad.

Amlinellodd y Swyddog Cefnogi Archwilio'r trefniadau monitro perfformiad gwasanaeth ynghŷd â gwahanol rannau’r broses honno. Roedd trosolwg o berfformiad yn yr unedau gwasanaeth unigol wedi’u cynnwys yn yr adroddiad yn ogystal â manylion rhai materion penodol sydd i’w hystyried ymhellach.

Wrth ystyried yr adroddiad, soniodd y Swyddog Cefnogi Archwilio am rai anghysonderau lle gallai dangosyddion gael eu camddehongli ac am feysydd lle'r ymddangosai fod gwasanaeth yn methu. Roedd y canlyniadau academaidd wedi’u trafod gan y pwyllgor yn ystod y chwarter diwethaf a chafwyd adroddiad gan y Swyddog Addysg (T Jones) yn gwerthuso perfformiad Sir Ddinbych ac yn ei gymharu gydag awdurdodau tebyg eraill yn eu grŵp teulu. Mynegodd y Cynghorydd H H Evans bryderon ynghylch canlyniadau Cyfnod Allweddol 3 a holodd a oedd gan yr awdurdod gynllun gweithredu ar gyfer talu sylw i hyn. Cytunodd y Swyddog Cefnogi Archwilio gynnwys hyn fel eitem ar agenda'r pwyllgor yn y dyfodol. Holodd y Cynghorydd Evans hefyd am y sefyllfa ddiweddaraf ynghylch gosod larymau diogeledd addas ym mhob ysgol a chadarnhaodd y Pennaeth Strategaeth ac Adnoddau y byddai’n dal ati gyda bid i’r Gronfa Rheoli Risg er mwyn cael system larwm i bob ysgol fel mater o frys.

Cyfeiriodd y Cynghorydd D Owens at nifer y datganiadau ar gyfer plant a gyflwynwyd yn ystod y flwyddyn ac roedd yn siomedig o nodi nad oedd y targed wedi’i gyfarfod, yn enwedig o gofio pa mor fregus yw’r plant hynny. Cyfeiriodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol Dysgu Gydol Oes at y problemau wrth gyflwyno datganiad ar gyfer plant gan gadarnhau fod hyn yn faes y mae'n dymuno ymchwilio iddo ymhellach. Gofynnodd yr aelodau am ragor o wybodaeth ynghylch y broses o gyflwyno datganiadau ac ynghylch y trafferthion yn cyrraedd y dangosydd a chytunodd y Swyddog Cefnogi Archwilio drefnu i rannu adroddiad er gwybodaeth gydag eglurhad i'r aelodau a ellid ei ddwyn yn ôl i'r pwyllgor i’w archwilio'n fanwl pe dymunai'r aelodau.

Nododd yr aelodau unwaith yn rhagor lwyddiant Sir Ddinbych yn ennill Marc Ansawdd Sgiliau Sylfaenol a llongyfarchwyd ysgolion ar eu llwyddiant. Gofynnodd yr Aelod Cyfetholedig L Davenport am i bob ymdrech gael ei wneud i sicrhau fod un ysgol uwchradd ardderchog hefyd yn derbyn y wobr hon.

***PENDERFYNWYD*** **–** *derbyn a nodi’r adroddiad ynghylch perfformiad y gwasanaethau yn y Gyfarwyddiaeth Dysgu Gydol Oes.*

**125 RHAGLEN WAITH ARCHWILIO**

Cyflwynodd y Swyddog Cefnogi Archwilio adroddiad (a rannwyd o’r blaen) a oedd yn adolygu blaen raglen waith y pwyllgor ac yn cyflwyno’r wybodaeth ddiweddaraf i'r aelodau ar faterion a amlygwyd gan y pwyllgor o'r blaen. Atodwyd rhaglen waith gydag amserlen wrth yr adroddiad.

Cyflwynodd y Swyddog Cefnogi Archwilio grynodeb o’i adroddiad a oedd yn cynnwys newidiadau i'r blaen raglen waith; Gweithio ar y Cyd: Uwchraddio Llwybrau Peryglus i Ysgolion, Enwebiad ar gyfer y

Grŵp Ymgynghorol Monitro Llwyth Gwaith, Eithriadau o'r Côd Ymddygiad – Rheoli Lleoedd mewn Ysgolion ac adroddiad er gwybodaeth a oedd wedi'i ddarparu ar gyfer aelodau ar Weithgaredd Blynyddol Gwasanaeth Celf y Sir.

Wrth ystyried yr adroddiad mynegodd y Cadeirydd ei siom mai dim ond i'r Pwyllgor Rheoli Asedau y cyflwynir yr eitem ar Astudiaeth Datblygiad y Scala y bwriedid ei gyflwyno i'r pwyllgor hwn. Dywedodd Pennaeth y Gwasanaethau Cefn Gwlad a Hamdden nad oedd yr adroddiad yn dod o flaen y pwyllgor hwn oherwydd amseriad y cyfarfodydd. Fodd bynnag, gwnaed cynnydd pellach a gellid cyflwyno adroddiad i gyfarfod nesaf y pwyllgor pe dymunai'r aelodau. Cadarnhaodd y Cadeirydd y byddai'n dymuno adroddiad byr er gwybodaeth yn y cyfarfod nesaf.

Gofynnodd y Cynghorydd H H Evans am wybodaeth bellach ynghylch yr Uned Datblygu Chwaraeon ac am yr wybodaeth ddiweddaraf ar yr Academi Rygbi yn Llanelwy. Cytunodd y Pennaeth Cefn Gwlad a Hamdden baratoi adroddiad ar waith yr Uned Datblygu Chwaraeon er gwybodaeth i'r aelodau ar gyfer cyfarfod mis Medi / mis Hydref a dywedodd fod yr adain Eiddo a Stadau'n hyrwyddo datblygiad yr Academi Rygbi. Dywedodd y Cynghorydd S Frobisher fod pwnc yr Academi Rygbi wedi'i godi yng nghyfarfod diwethaf y Pwyllgor Rheoli Asedau ac y dywedwyd wrth yr aelodau fod y tir ar gael ond fod gwaith yn mynd yn ei flaen i sicrhau'r cyllid angenrheidiol ar gyfer y prosiect.

***PENDERFYNWYD,*** *yn amodol ar yr uchod, cymeradwyo'r rhaglen waith y manylir arni yn Atodiad 1 yr adroddiad.*

**EITHRIO'R WASG A'R CYHOEDD**

***PENDERFYNWYD*** *gwahardd y Wasg a'r Cyhoedd o'r cyfarfod dan ddarpariaethau Adran 100A Deddf Llywodraeth Leol 1972, tra bo'r eitem busnes canlynol yn cael ei thrafod, gan ei bod yn debygol o ddatgelu gwybodaeth eithriedig fel y diffinnir hi ym Mharagraff 1, Rhan 1 Atodlen 12A o'r Ddeddf.*

**126 RHEOLI ADNODDAU DYNOL (YSGOLION) 2005**

Cyflwynodd y Pennaeth Strategaeth ac Adnoddau (Dysgu Gydol Oes) adroddiad cyfrinachol (a rannwyd o'r blaen) gyda manylion sefyllfa staffio ysgolion ynghylch adleoli a / neu ddiswyddo posibl ar 31 Awst 2005.

Cyflwynodd y Pennaeth Strategaeth ac Adnoddau'r wybodaeth ddiweddaraf i aelodau ers i'r adroddiad gael ei ysgrifennu gan gynnwys costau bras ar gyfer adleoli a / neu ddiswyddo a fyddai raid eu talu o'r adnoddau presennol ac atebodd gwestiynau'r aelodau yn eu cylch.

***PENDERFYNWYD -*** *derbyn a nodi'r adroddiad.*

Daeth y cyfarfod i ben am 12.55pm.

**********

## CABINET

Cofnodion cyfarfod y Cabinet a gynhaliwyd yn Neuadd yr Eglwys Blwyf, Stryd Fawr, Prestatyn ar ddydd Mawrth 21 Mehefin 2005 am 11.00am

## YN BRESENNOL

Y Cynghorwyr S A Davies, Aelod Arweiniol ar gyfer Busnes a Chyfathrebu; P A Dobb, Aelod Arweiniol ar gyfer Iechyd a Lles; E C Edwards, Aelod Arweiniol ar gyfer Cymunedau; R W Hughes, Aelod Arweiniol ar gyfer Adfywio; M A German, Aelod Arweiniol ar gyfer Plant a Phobl Ifanc; P J Marfleet, Aelod Arweiniol ar gyfer Cyllid a Phersonél; D Owens, Aelod Arweiniol ar gyfer Dysgu Gydol Oes; S Roberts, Aelod Arweiniol ar gyfer Hyrwyddo Sir Ddinbych; J Thompson Hill, Aelod Arweiniol ar gyfer Eiddo a Rheoli Asedion ac E W Williams, Aelod Arweiniol ar gyfer yr Amgylchedd.
Sylwedyddion: Y Cynghorwyr R E Barton ac S Frobisher.

## HEFYD YN BRESENNOL

Prif Weithredwr; Dirprwy Brif Weithredwr / Cyfarwyddwr Corfforaethol: Adnoddau, Clerc y Sir a'r Rheolwr Ariannol.

## YMDDIHEURIADAU

Dim.

## CYHOEDDIAD

Ar ran yr Aelodau, croesawodd y Cynghorydd R W Hughes, Huw W Griffiths, Cyfarwyddwr Corfforaethol Dysgu Gydol Oes i Sir Ddinbych a'i gyfarfod cyntaf o'r Cabinet.

### 127 MATERION BRYS

Nid oedd unrhyw faterion brys.

### 128 COFNODION Y CABINET

Cyflwynwyd cofnodion cyfarfod y Cabinet a gynhaliwyd ar 24 Mai 2005.

***PENDERFYNWYD*** *cymeradwyo cofnodion y Cabinet a gynhaliwyd ar 26 Ebrill 2005 fel cofnod cywir a'u llofnodi gan yr Arweinydd.*

### 129 RHEOLI LLEOEDD YSGOLION: DATGANIAD AELOD

Dywedodd y Cynghorydd D Owens: “Bydd Aelodau'r Cabinet yn ymwybodol, yn wyneb y pryderon eang sy'n gysylltiedig gyda'r Arolwg Rheoli Lleoedd Ysgolion, bod yr ymgynghoriad a gynigiwyd yn yr adroddiad i'r Cabinet ar 22 Chwefror 2005 wedi ei dynnu'n ôl.

Ers hynny, mae'r Aelodau a swyddogion y Cyngor wedi bod yn gweithio ar sut i ddeall yn well y pynciau dan sylw a gofyn barn ystod eang o gyfranddalwyr lleol a phobl eraill â diddordeb. Mae'r Arweinydd a mi wedi ymgymryd â chyfres o gyfarfodydd gydag ysgolion, y gymuned ehangach ac wedi cynnal cyfres o seminarau i drafod y materion gydag Aelodau eraill y Cyngor.

Mae adborth o'r gweithgareddau hyn wedi argyhoeddi gweithgor, a sefydlwyd i arolygu'r cynigion gwreiddiol, bod angen agwedd newydd i archwilio'n fanylach yr agenda cyfan ar gyfer Moderneiddio Addysg yn Sir Ddinbych. Bydd yr agwedd yn cydnabod yr angen i symud ymlaen o'r arolwg gwreiddiol a'i seilio ar agwedd holistaidd sy'n gweld ysgolion yng nghyd-destun eu cymunedau ac yn gwerthfawrogi'r angen am ymgynghoriad llawn gyda chyfranddalwyr lleol ym mhob cam o'r broses. At hyn, bydd yr agwedd newydd yn dodi dyfodol ein darpariaeth addysg yng nghyd-destun newidiadau i'r darlun strategol lleol, rhanbarthol a chenedlaethol.

Cyflwynir manylion llawn yr agwedd newydd, ynghyd â manylion sut rydym yn bwriadu ymgynghori ar y pynciau a'r amserlen ar gyfer gweithredu, i'r Cabinet ym mis Gorffennaf. Credaf ein bod wedi dysgu llawer o'r broses yn yr ychydig fisoedd diwethaf a hoffwn eich hysbysu bod yr adroddiad ar yr Arolwg ar Reoli Lleoedd Ysgolion nawr wedi ei dynnu'n ôl yn ffurfiol.”

Cefnogodd y Cynghorwyr P J Marfleet ac S A Davies y datganiad ac awgrymwyd bod y cynllun datblygu lleol yn cael ei gynnwys yn y trafodaethau yn y dyfodol ar foderneiddio addysg yn y Sir.

Tra'n cefnogi'r adroddiad, gofynnodd y Cynghorydd E W Williams bod yr holl Aelodau'n chwarae rhan yn y gwaith o baratoi'r adroddiad newydd. Byddai moderneiddio addysg yn Sir Ddinbych yn broses barhaus. Dywedodd y Cynghorydd D Owens y byddai'r adroddiad nesaf yn delio gyda'r broses ymgynghorol ac y byddai holl gynghorwyr yn cael cyfle i leisio barn.

***PENDERFYNWYD*** *bod y Cabinet yn cydnabod y datganiad.*

**130 CYFRANOGIAD CYMUNEDOL A DYFODOL Y PARTNERIAETHAU ARDAL**

Cyflwynodd y Cynghorydd E C Edwards yr adroddiad yn gofyn am gymeradwyaeth y Cabinet i'r argymhellion yn yr adroddiad hwn ar gyfranogiad cymunedol yn Sir Ddinbych yn y dyfodol. Dywedodd y byddai tai fforddiadwy, y cynllun datblygu lleol a'r cynllun gofodol oll yn chwarae rhan bwysig yn y trafodaethau i ddod.

Dywedodd y Cynghorydd S A Davies ei fod yn cefnogi'r adroddiad ac yn arbennig o falch o weld bod ymgynghoriad gyda Chynghorau Tref a Chymuned yn cael ei gynnwys.

Dywedodd y Cynghorydd E C Edwards, mewn ymateb i gwestiwn gan y Cynghorydd E W Williams, ei bod yn bwysig i bobl fusnes chwarae rhan fel y nodwyd ym mharagraff 8.5 o'r argymhellion i'r adroddiad. Cytunodd y Dirprwy Brif Weithredwr / Cyfarwyddwr Corfforaethol: Adnoddau a dweud ei bod yn amserol i wneud yr Aelodau'n ymwybodol o'r cyfle hwn i ddatblygu busnesau yn y Sir. Awgrymodd y Cynghorydd Williams y dylid cynnwys adrannau Cyllid a Datblygu'r Economi mewn datblygiad o'r fath i ddenu buddsoddiad i mewn i'r Awdurdod.

Datganodd y Cynghorydd P J Marfleet ei gefnogaeth ond holodd a oedd er budd yr Awdurdod gefnogi pedwar Grwp Llywio Partneriaeth Ardal ar wahân gan fod hyn yn dyblygu ymdrech a bod gwaith yn gorgyffwrdd. Esboniodd y Cynghorydd Edwards y byddai'r Grwpiau Llywio'n cael eu defnyddio mewn ffordd wahanol, a'i bod yn ffordd o gynnwys cymunedau. Dywedodd y Cynghorydd E W Williams bod gwaith cydweithredol yn hanfodol a bod Partneriaeth Ardal yn fath o ymgynghoriad. Roedd Cynghorau Cymuned angen mwy o gefnogaeth.

Cefnogodd y Cynghorydd J Thompson Hill yr adroddiad, yn enwedig cyfranogiad Cynghorau Tref a Chymuned a dywedodd ei bod yn bwysig i'r Awdurdod ganolbwyntio sylw ar y pethau hyn. Dywedodd bod angen trefniadau interim nes byddai dyfodol Partneriaethau Ardal wedi ei benderfynu.

Dywedodd y Cynghorydd E C Edwards bod Partneriaeth Ardal y De wedi cael nifer dda yn mynychu ei chyfarfod yn ddiweddar a bod y Cynlluniau Gofodol a Datblygiad Lleol wedi eu trafod. Roedd yn bwysig hefyd ymgynghori gyda'r cyhoedd.

Dywedodd y Cynghorydd R W Hughes ei bod yn bwysig cysylltu gyda'r gymuned, trwy'r Partneriaethau Ardal ar hyn o bryd. Gallai fod yn amserol ymuno'r Bartneriaeth Ardal gyda Gweledigaeth pan fyddai ymgynghori'n cychwyn yn yr Hydref.

***PENDERFYNWYD*** *bod y Cabinet yn cytuno:*

*[a] Bod grwpiau Aelodau Etholedig yn parhau*

*[b] Ymgynghori gyda Chynghorau Tref a Chymuned ar gyfranogiad cymunedol yn y dyfodol trwy gyfrwng gweithdy ym mis Gorffennaf 2005*

*[c] ymgynghori gyda phartneriaid Grwpiau Llywio Strategaeth Gymunedol a Phartneriaeth Ardal ar rôl Grwpiau Llywio Partneriaeth Ardal yn y dyfodol*

*[ch] parhau i gefnogi'r Grwpiau Llywio Partneriaeth Ardal nes byddai'r canlyniadau o'r Gwerthusiad Strategaeth Gymunedol a grybwyllwyd uchod ar gael*

[d] *gwerthuso'r cyfle a roddwyd gan y Cynllun Cymhelliad Twf Busnes Awdurdod Lleol (LABGI) i benodi staff datblygu i gynyddu sylfaen Trethi Busnes trwy ddenu buddsoddiad i mewn i bob ardal o'r Awdurdod.*

**131 HER IECHYD SIR DDINBYCH**

Cyflwynodd y Cynghorydd P A Dobb adroddiad yn gofyn am gymeradwyaeth yr Aelodau mewn egwyddor i gynllun gweithredu 3 blynedd a fyddai'n dangos sut byddai'r Awdurdod Lleol yn parhau i integreiddio a phrif-ffrydio gweithgareddau gwella iechyd sydd eu hangen fel sylfaen i gynnal momentwm Her Iechyd Cymru. Gofynnwyd i'r Aelodau hefyd gytuno cysyniad Cyngor Sir Ddinbych fel Asiantaeth Gwella Iechyd, gyda'r goblygiadau i arweiniad sy'n mynd gyda'r syniad.

Anogodd y Cynghorydd Dobb yr Aelodau i fynd â thaflenni yn hybu iechyd i fodurdai, siopau trin gwallt er enghraifft, i hybu'r cynllun. Roedd yn bwysig bod yr awdurdod yn helpu'r gymuned i fwynhau bywyd iach, hapus.

Dywedodd y Cynghorydd E W Williams ei bod yn bwysig addysgu disgyblion ysgolion uwchradd i fyw'n iach. Cawsai hyn hefyd effaith ar y nifer o ddisgyblion a oedd yn mynd i ganol y dref amser cinio i siopau bwyd stryd, ac yn cyfrannu i'r broblem sbwriel trwy daflu'r deunydd pecynnu. Roedd rhai ysgolion cynradd mewn ardaloedd gwledig yn cael ffrwythau wedi ei brynu gan athrawon ar werth yn yr ysgol yn lle melysion. Cytunodd y Cynghorydd S Roberts a dweud ei bod yn bwysig nad yw 'sothach' yn cael ei werthu yn yr ysgol adeg egwyl, hyd yn oed wrth godi arian.

Dywedodd y Cynghorydd P J Marfleet bod incwm o beiriannau gwerthu yn ffordd o godi refeniw; roedd yn bwysig cynnwys eitemau iach yn y peiriannau.

Byddai polisi gwerthu ar gyfer y Sir yn cael ei drafod gan y Pwyllgor Archwilio perthnasol ar ôl yr ymgynghoriad priodol.

Dywedodd y Cynghorydd R W Hughes bod Her Iechyd Sir Ddinbych yn bwysig a bod y cynllun gweithredu'n un cynhwysfawr, ac mai'r Aelodau a fyddai'n cyflwyno a hybu rhai o'r eitemau yn y cynllun gweithredu.

Cytunodd yr Aelodau ei bod yn hanfodol cynllunio digwyddiadau cyn gynted ag y bo modd er mwyn hybu ffordd o fyw iachach i'r cyhoedd.

***PENDERFYNWYD*** *bod yr Aelodau'n cytuno Cynllun Gweithredu yr Awdurdod Lleol ar gyfer Her Iechyd Sir Ddinbych.*

**132 PRYNU SYSTEM NEWYDD AR GYFER SYSTEM ELECTRONIG COFNODI CLEIENTIAID GWASANAETHAU CYMDEITHASOL, CARE.COMM**

Cyflwynodd y Cynghorydd P A Dobb yr adroddiad yn gofyn am gymeradwyaeth y Cabinet i lunio contract gyda in4tek ar gyfer darparu system cofnodi cleientiaid electronig sy'n bodloni anghenion y gwasanaeth, yn disodli Care.comm a hefyd yn gofyn am gymeradwyaeth i wneud cytundeb cyfochrog gyda Chynghorau Conwy a Sir y Fflint i ffurfiol trefniadau gwaith cydweithredol.

Cefnogodd y Cynghorydd P J Marfleet yr adroddiad a dweud bod angen buddsoddi mwy mewn TGCh i gael arbedion effeithiolrwydd mewn blynyddoedd i ddod. Fodd bynnag, dywedodd bod angen i'r Awdurdod sicrhau nad oedd partneriaid yn tynnu'n ôl, a allai arwain at gostau a dim budd. Dywedodd bod angen ystyried holl gostau, gan gynnwys costau datblygu, ar gyfer cyfleoedd posibl i gyfalafu'r costau.

Dywedodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol: Gwasanaethau Personol bod cyngor cyfreithiol a chaffaeliad TGCh wedi ei geisio i liniaru unrhyw risg i'r Awdurdod. Cafwyd proses ddwys gyda in4tek a thîm project yr awdurdod cyn gellid prynu a bod yr holl gostau 'roedd y tîm yn ymwybodol ohonynt wedi eu cynnwys. Roedd y contract yn cynnwys materion a allai godi yn y dyfodol a sut byddai'r materion hynny yn cael eu trin. Cadarnhaodd Clerc y Sir bod yr Awdurdod wedi cymryd holl gamau rhesymol o ran caffaeliad y contract a'i gynnwys.

Cyfeiriodd y Dirprwy Brif Weithredwr/Cyfarwyddwr Corfforaethol: Adnoddau at ddatganiad y Rheolwr Ariannol a'r potensial am gostau uniongyrchol pellach yn codi oherwydd gallai fod angen swyddi ychwanegol mewn TGCh a Gwasanaethau Personol i weinyddu'r system. Dywedodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol: Gwasanaethau Personol na fyddai costau staff ychwanegol yn codi gan fod staff wedi eu secondio o fannau eraill yn yr adran. Dywedodd y Pennaeth TGCh bod dau o'i staff ef yn cefnogi system Care.comm ar hyn o bryd ac yn cymryd gwaith y system newydd. Byddai angen jyglo blaenoriaethau a byddai angen cefnogaeth i 16 gweinydd cyfrifiadurol newydd yn yr ystafell gyfrifiaduron, nad oedd wedi eu cynnwys. Mewn ymateb, dywedodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol: Gwasanaethau Personol, os byddai angen swydd newydd o fewn TGCh, yna byddai'n rhaid ei hariannu gan y Gwasanaethau Personol.

Mewn ymateb i gwestiwn gan y Cynghorydd E W Williams, dywedodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol: Gwasanaethau Personol nad oedd Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam yn rhan o'r cytundeb gan eu bod wedi penderfynu dilyn llwybr gwahanol.

Llongyfarchodd y Cynghorydd E C Edwards y Cyfarwyddwr Corfforaethol: Gwasanaethau Personol a'i staff am gyflawni partneriaeth gyda'r ddau awdurdod cyffiniol arall.

***PENDERFYNWYD** bod y Cabinet yn cymeradwyo:*

*[a] llythyr o fwriad, a gyflwynwyd gan Glerc y Sir, i'w anfon at in4tek i ganiatáu cynllunio gweithredu PARIS i gychwyn cyn llofnodi'r contract terfynol.*

*[b] llunio contract gyda in4tek, yn amodol ar gymeradwyaeth derfynol Clerc y Sir.*

*[c] gwneud cytundeb cyfochrog gyda Chynghorau Conwy a Sir y Fflint i ddarparu amddiffyniad ariannol yn achos un o'r ddau awdurdod arall yn tynnu'n ôl o'r contract a'r colli disgownt a fyddai'n deillio.*

*[ch] bod Sir Ddinbych yn parhau i gydweithredu gyda Chynghorau Conwy a Sir y Fflint ar weithrediad a datblygiad PARIS yn y dyfodol.*

**133 CYLLIDEB REFENIW 2005-2006**

Cyflwynodd y Cynghorydd P J Marfleet yr adroddiad i'r Aelodau gydnabod y ffigurau perfformiad cyllidebol ar gyfer y flwyddyn ariannol hon fel y manylwyd yn yr atodiadau i'r adroddiad ac ystyried unrhyw gamau angenrheidiol i sicrhau bod gwariant arfaethedig y Cyfarwyddiaethau yn unol â'r cyllidebau a oedd ar gael.

Pwysleisiodd y Cynghorydd Marfleet yr angen am gyflawni arbedion effeithiolrwydd yn gynnar yn y flwyddyn ariannol. Fel enghraifft, y flwyddyn flaenorol roedd anghysonder o fwy na 30% yng nghanlyniad tybiedig Dysgu Gydol Oes yn ystod y flwyddyn. Rhaid oedd cyflawni cyflwyniad realistig. Cyfeiriodd yr Aelodau i dudalen 4 yr adroddiad a dweud y byddai adroddiad cynnydd ar arbedion yn cael ei gynnwys fel rhan o'r adroddiad cyllideb refeniw misol. Roedd yn hoffi eglurder y fformat a ddefnyddiwyd i ddangos cynnydd ar arbedion effeithiolrwydd gan Ddysgu Gydol Oes a dywedodd, ynghyd â'r Rheolwr Ariannol, y byddant yn darparu fformat safonol i'r holl Gyfarwyddiaethau ei ddilyn a fyddai'n ymgorffori'r fformat gorau o bob Cyfarwyddiaeth.

***PENDERFYNWYD** bod y Cabinet yn cydnabod y ffigurau yn yr Atodiadau a bod Aelodau Arweiniol yn ystyried camau datrys i gael lefelau gwariant arfaethedig yn unol â'r cyllidebau a gymeradwywyd.*

**134 CYLLIDEB CYFRIF REFENIW TAI 2005 / 2006**

Cyflwynodd y Cynghorydd P A Dobb yr adroddiad i'r Aelodau gydnabod y sefyllfa amcanol ariannol ddiweddaraf ar y Cyfrif Refeniw Tai (CRT) ar gyfer 2005-2006.

Dywedodd y Cynghorydd Dobb bod yr adroddiad wedi ei ddiwygio ac yn y dyfodol byddai'n cynnwys incwm yng Nghronfa'r Cyngor a ddylid fod wedi ei gynnwys yn y CRT. Dywedodd Pennaeth y Gwasanaethau Tai y byddai newidiadau'n cael eu gwneud i Atodiad 2 i sicrhau bod y ffigurau priodol yn cael eu defnyddio.

***PENDERFYNWYD*** *bod y Cabinet yn cydnabod y sefyllfa amcanol ddiweddaraf ar gyfer y Cyfrif Refeniw Tai 2005-2006.*

**135 RHAGLEN WAITH I'R DYFODOL - CABINET**

Cyflwynodd y Cynghorydd S A Davies yr adroddiad i'r Aelodau gydnabod y rhaglen waith i'r dyfodol a dywedodd mai ef oedd yr Aelod Arweiniol ar gyfer y Strategaeth Cyfathrebu Gorfforaethol ac nid y Cynghorydd D Owens.

Dywedodd y Cynghorydd E C Edwards y byddai'r adroddiad Partneriaeth Ardal yn cael ei gynnwys yn ddiweddarach.

Dywedodd y Cynghorydd P A Dobb y gobeithid y byddai adroddiad ar Well Stoc Dai yn cael ei gynnwys ym mis Gorffennaf 2005 a dileu'r ail adroddiad Tîm Dyletswydd mewn Argyfwng.

Cytunodd yr Aelodau bod y Rhaglen Waith yn gwella. Nid oeddynt eisiau ei gwneud yn rhy feichus, ond ar yr un pryd, dylid cynnwys gweithred neu gyflwyniad eitem os oedd modd.

***PENDERFYNWYD*** *yn amodol ar yr uchod, bod y Cabinet yn cydnabod cynnwys y Rhaglen Waith i'r Dyfodol.*

**136 EITEMAU BRYS**

Nid oedd unrhyw eitemau brys.

**GWAHARDD Y WASG A'R CYHOEDD**

***PENDERFYNWYD*** *dan Adran 100A(4) Deddf Llywodraeth Leol 1972 bod y Wasg a'r Cyhoedd yn cael eu gwahardd o'r cyfarfod ar gyfer yr eitemau canlynol oherwydd eu bod yn cynnwys datgeliad tebygol gwybodaeth eithriedig fel y diffinnir ym mharagraffau 8 a 9 o Ran 1 Atodlen 12A i Ddeddf Llywodraeth Leol 1972.*

**RHAN II**

Trafodwyd eitem 12 yn gyntaf oherwydd ei bod yn berthnasol i'r Cynllun Cyfalaf.

**137 CYNLLUN CYFALAF 2004-2005**

Cyflwynodd y Cynghorydd P J Marfleet yr adroddiad i'r Aelodau gydnabod y sefyllfa amcanol ddiweddaraf yn elfen 2005/06 o'r cynllun cyfalaf ac ystyried y cynnig i gynnwys gwariant ychwanegol o ryw £1m yn y cynllun a chytuno'r stop dros dro ar ddyraniadau bloc heb eu hymrwymo nes byddai derbynebion cyfalaf newydd wedi eu cynhyrchu. Ni ragwelwyd unrhyw lithriant sylweddol. Cadarnhaodd bod angen ystyried y rhaglen gyfalaf ar y cyd gyda'r refeniw a oedd ei angen i'w chynnal. Gofynnodd hefyd i'r Aelodau nodi bod y cynlluniau a fanylwyd yn Argymhelliad 8.2 yn cyfeirio at baragraff 2.7 yr adroddiad ac nid 2.8.

Dywedodd y Cynghorydd Marfleet bod yr awdurdod yn disgwyl derbynebion cyfalaf sylweddol yn y dyfodol agos ac y byddai'n gobeithio adfer y dyraniadau bloc ar y pryd hwnnw. Dywedodd bod yr Aelodau'n amharod rhyddhau asedion i'w gwerthu, i gynyddu cyllid a fyddai ar gael. Byddai'r uned Teledu Cylch Cyfyng yn Y Rhyl yn cael effaith ar ariannu ac y byddai angen dyrannu cyllid pellach hefyd ar gyfer meddalwedd cludiant ysgol.

Cadarnhaodd y Dirprwy Brif Weithredwr/Cyfarwyddwr Corfforaethol: Adnoddau nad oedd modd ariannu'r dyraniadau bloc i gyd ar hyn o bryd. Hysbysodd yr Aelodau bod cyllid ychwanegol wedi gorfod cael ei ddyrannu i'r ysgol newydd ym Mhrestatyn a'r gwaith Iechyd a Diogelwch brys a adroddwyd yn Eitem 12 ar y rhaglen. Pwysleisiodd yr angen i gynnal refeniw yn unol ag arferion cyfrifeg da.

Dywedodd y Prif Weithredwr y byddai ystyriaeth yn cael ei roddi yn yr adroddiad nesaf i weld a ellid defnyddio unrhyw danwariant dros dro o'r dyraniadau bloc, nes derbynnid y derbynebion cyfalaf.

Gofynnodd y Cynghorydd E W Williams sut ariennid y cyllid ychwanegol ar gyfer safle ysgol Prestatyn.

Ar ôl trafodaeth, cytunwyd bod y cyllid yn dod o dybio llithriant, nes byddai derbynebion cyfalaf ar gael. Byddai'r Cynllun Cyfalaf cyffredinol yn cael ei arolygu'n rheolaidd.

***PENDERFYNWYD** bod y Cabinet*

*[a] yn cydnabod sefyllfa elfen 2005/06 Cynllun Cyfalaf 3 blynedd y Cyngor Plan*

*[b] cytuno cynnwys costau'r cynlluniau ychwanegol a nodwyd yn 2.7 yr adroddiad yn y cynllun ar gyfer 2005/06*

*[c] o ganlyniad o [b] uchod, cytuno lleihau elfen an-ymrwymedig y dyraniadau bloc yn y cynlluniau a ariennir yn gyffredinol nes bydd adnoddau eraill ar gael o gynhyrchu derbynebion cyfalaf o werthu asedion dros ben.*

**138 EIDDO: GOBLYGIADAU IECHYD A DIOGELWCH**

Cyflwynodd y Cynghorydd J Thompson Hill yr adroddiad i'r Aelodau, i nodi'r sefyllfa bresennol gyda chyllidebau cynnal a chadw ar gyfer portffolio eiddo'r Cyngor, a phwysleisio pwysau cynyddol ar y gyllideb yn deillio o ofynion Sir Ddinbych. Dywedodd ei bod yn hanfodol bod cyllid o ffynonellau ychwanegol yn cael ei ddarparu ar gyfer gofynion Iechyd a Diogelwch a fyddai'n sicrhau bod cyllid ar gael o hyd ar gyfer cynnal a chadw ysgolion. Hysbysodd yr Aelodau hefyd bod Hysbysiad Gwella wedi ei gyflwyno i'r Awdurdod, a oedd â goblygiadau i'r gyllideb refeniw gwasanaethau cynnal a chadw adeiladau.

Mewn ymateb i gwestiwn gan y Cynghorydd S A Davies, esboniodd y Prif Weithredwr, trwy ddyrannu cyllid lle bod modd allan o'r cynllun cyfalaf, ni fyddai cyllideb cynnal a chadw ysgolion yn cael ei heffeithio. Cadarnhaodd bod Hysbysiad Gwella wedi ei dderbyn a bod gan yr Awdurdod flwyddyn i wneud gwelliannau, a fyddai'n gofyn am gostau ar wahân.

Dywedodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol: Yr Amgylchedd, mewn ymateb i sylw gan y Cynghorydd P J Marfleet, bod Aelodau wedi eu hysbysu yn gynharach o faterion Iechyd a Diogelwch a oedd angen eu cyflawni a bod y swyddogion yn ymwybodol o'r angen i ragweld anghenion o'r fath cyn gynted ag y bo modd er mwyn eu hymgorffori yn y gyllideb.

Dywedodd y Cynghorydd E W Williams bod Llywodraeth Ganolog wedi pennu llawer o ofynion ar Awdurdodau Lleol ac nid oedd am ddyrannu cyllid ychwanegol i dalu am ofynion o'r fath. Cytunodd y Cynghorydd Thompson Hill a dweud ei bod yn bwysig i'r awdurdod a Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru gysylltu gyda Llywodraeth Cynulliad Cymru yn gofyn am gyllid i dalu am ofynion o'r fath.

Cadarnhaodd y Cynghorydd Thompson Hill bod y rhestr a oedd ynghlwm wrth yr adroddiad yn rhestr ddiweddaraf, a'i bod yn rhestr wedi ei chrynhoi o adroddiadau syrfewyr. Mewn perthynas â materion Iechyd a Diogelwch mewn ysgolion, dywedodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol, Dysgu Gydol Oes iddo drefnu cyfarfod gyda'r Rheolwr Iechyd a Diogelwch Corfforaethol.

***PENDERFYNWYD** bod yr Aelodau'n cydnabod yr atodlen arfaethedig o waith cynnal a chadw cyfalaf ac a gynlluniwyd ar gyfer 2005-2006 ac argymell bod adnoddau cyfalaf a refeniw ychwanegol yn cael eu rhyddhau i dalu am y tair eitem o wariant Iechyd a Diogelwch a nodwyd yn yr adroddiad. Bod yr Aelodau hefyd yn cydnabod cyflwyniad Hysbysiad Gwella i'r Awdurdod a fydd â goblygiadau ar y gyllideb refeniw gwasanaethau cynnal a chadw ysgolion.*

Daeth y cyfarfod i ben am 1.10 p.m.

***********

## PWYLLGOR CYNLLUNIO

Cofnodion Y Pwyllgor Cynllunio a gynhaliwyd yn Siambr y Cyngor, Neuadd y Sir, Rhuthun ddydd Mercher 22 Mehefin 2005 am 9.30am.

### YN BRESENNOL

Y Cynghorwyr S Thomas (Cadeirydd), J R Bartley, R E Barton, J Butterfield, J Chamberlain Jones, J M Davies, M Ll Davies, S A Davies, H H Evans, S Frobisher, D Hannam, K N Hawkins, T K Hodgson, T R Hughes, N Hugh-Jones, E R Jones, H Jones, G M Kensler, P W Owen, N P Roberts, D A J Thomas, J Thompson-Hill, M A Webster, C H Williams, E W Williams, R Ll Williams.

### HEFYD YN BRESENNOL

Pennaeth Gwasanaethau Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd, Rheolwr y Gwasanaethau Cyfreithiol, Rheolwr Rheoli Datblygu, Arweinydd Tîm (Ceisiadau Mawr), Uwch Swyddog Cynnal (G Butler), Swyddog Gweinyddol (Judith Williams) a Bryn Jones (Cyfieithydd).

### CAFWYD YMDDIHEURIADAU AM EU HABSENOLDEB ODDI WRTH

Y Cynghorwyr G C Evans, I M German a M A German

### 139 MATERION BRYS

Atgoffodd Pennaeth y Gwasanaethau Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd yr Aelodau am y gweithdy a drefnwyd ar gyfer 1af Gorffennaf 2005 a gofynnodd iddynt arwyddo’r rhestr a oedd yn cael ei chylchredeg i gadarnhau eu presenoldeb.

### 140 CEISIADAU AM GANIATÂD I DDATBLYGU

(i) Caniatâd

| Rhif y Cais | Disgrifiad |
|---|---|
| 31/2005/0194/PO | Datblygu 0.62 hectar o dir ar gyfer adnoddau crèche<br>**Tir yn Ffordd Richard Davies, Parc Busnes Llanelwy, Llanelwy**<br>**CANIATAU:** |
| 31/2005/0391/PF | (Datganodd y Cynghorydd M Ll Davies ddiddordeb yn y cais canlynol a gadawodd y Siambr tra’r oedd yn cael ei drafod)<br>Codi estyniad ar anheddle presennol<br>**6 Mairwen Cefn Llanelwy**<br>**CANIATAU:** |
| 42/2004/0102/PF | **Siaradwr o’r Cyhoedd o Blaid : Steve Goodwin**<br>Yn dilyn ystyried manylion y penderfyniadau a gymerwyd yn y Pwyllgor Rheoli Asedau a’r Cyngor Llawn mewn perthynas â phrynu tir ar gyfer ysgol gynradd i’r gorllewin o Brestatyn<br>Codi 44 o aneddleoedd, adeiladu mynedfa newydd i gerbydau, maes parcio, man agored a thirlunio<br>**Ystâd Plas Newydd Tir oddi ar Ffordd Pantycelyn Prestatyn**<br>**CANIATAU** ond yn amodol ar fod yr ymgeisydd yn cytuno i Rwymedigaeth Adran 106 o fewn 12 mis o ddyddiad y Pwyllgor Cynllunio, yn gofyn am y canlynol:-<br>• Cyfraniad ariannol tuag at ddarpariaeth addysgol ar gyfer pob un anheddle pris llawn o £1800 yr anheddle, sef 36 uned yn ôl £1800, cyfanswm o £64,800.<br>• Darparu mynedfa, pe byddai angen, ar gyfer ysgol gynradd ar y safle gyfagos yn y Man Agored Cyhoeddus ar y safle a’r Man Cymdogaeth gyda Chyfarpar Chwarae cyfagos yn |

cysylltu â Ffordd Pantycelyn, o fewn 5 mlynedd o ddechrau'r datblygiad (neu'n hwyrach drwy gytundeb).

- Swm cymudol ar gyfer cynnal y man agored £51,237.
- Darparu 8 o unedau byw fforddiadwy.

(Dymunai'r Cynghorydd R E Barton iddo gael ei nodi iddo bleidleisio yn erbyn caniatau'r caniatâd cynllunio).

(Ni phleidleisiodd y Cynghorwyr J Butterfield, J Chamberlain Jones a M A Webster gan iddynt gyrraedd ar ôl i'r drafodaeth gychwyn)

44/2005/0107/PF

**Siaradwr o'r Cyhoedd Yn Erbyn : Mara Jones**

Ar ôl ystyried 2 llythyr ychwanegol gyda sylwadau oddi wrth: G H Roberts, 2 Hendre Close; G Peers, Honey Fields Rhyl Road, K ac S Hall, 4 Hendre Close Rhuddlan, H a Miss M Jones, Glasynys Rhyl Road, Rhuddlan

Dymchwel cartref nyfrio presennol, codi 24 o fflatiau hunan gynhaliol a gwaith cysylltiedig

**Abbey House Rhyl Road Rhuddlan y Rhyl**

**CANIATÁU** yn amodol ar Gytundeb 106 yn cynnwys swm o tua £70,000 ar gyfer darparu man agored a darparu 7 uned byw fforddiadwy

Amodau Diwygiedig 6 a 9 (draenio a pharcio beiciau)

Amodau Diwygiedig / Ychwanegol

6. I gynnwys na ddylai neb fyw yn y datblygiad nes bod gwaith draenio'r safle wedi'i orffen.

9. Rhaid darparu man parcio beiciau fel rhan o'r datblygiad yn unol â'r manylion sydd i'w gyflwyno i, ac a gymeradwyir yn ysgrifenedig, gan yr Awdurdod Cynllunio Lleol. Rhaid darparu man parcio beiciau cyn bod neb yn byw yn unrhyw un o'r fflatiau a ganiateir.

(Dymunai'r Cynghorydd R Ll Williams iddo gael ei nodi iddo bleidleisio i wrthod y cais).

(Dymunai'r Cynghorydd R E Barton iddo gael ei nodi ei fod wedi ymatal rhag pleidleisio).

*Rhesymau*

9. Er mwyn annog modd o deithio ar wahân i gar preifat.

45/2005/0317/PF

Codi estyniad a newidiadau mewnol

**Millbank Inn Grange Road y Rhyl**

**CANIATÁU –** Gofynnodd yr Aelodau am i'r Aelodau lleol a thrigolion gerllaw cael eu hysbysu am fanylion o ffurf y ffiniau fel y gofynnir yn Amod 3.

45/2005/0501/PO

Ar ôl ystyried 1 llythyr ychwanegol gyda sylwadau oddi wrth: Pennaeth Trafnidiaeth a Seilwaith

Datblygu tir i ddibenion trigiannol (cais amlinellol)

**Canolfan Arddio Tower 81 Rhuddlan Road, y Rhyl**

**CANIATAU YN AMODOL AR:**

Amodau Newydd a Nodyn Newydd i'r Ymgeisydd

5. Ni chaniateir dechrau datblygu nes y cyflwynir cynllun ar gyfer darparu tai fforddiadwy fel rhan o'r datblygiad a'i gymeradwyo'n ysgrifenedig gan yr Awdurdod Cynllunio Lleol. Bydd y cynllun yn cynnwys:

i) Nifer, math a lleoliad y tai fforddiadwy ar y safle;

ii) Amseriad adeiladu'r tai fforddiadwy;

iii) Y trefniadau i sicrhau fod darpariaeth o'r fath yn fforddiadwy ar gyfer deiliaid cyntaf y tai fforddiadwy a'u holynwyr;

iv) Defnyddir y criteria daliadaeth i benderfynu pwy a fydd fyw gyntaf ac ar ôl hynny yn y tai fforddiadwy, a sut y bydd y criteria'n cael eu gorfodi trwy drefniadau priodol;

v) Rhaid gweithredu'r cynllun ar ôl hynny yn unol â'r rhaglen a fydd wedi'i chymeradwyo.

6. Pe byddai manylion y datblygiad y mae gofyn eu cael yn ôl Amod Rhif 1 o'r caniatâd yn golygu fod 10 neu fwy o anheddleodd yn cael eu darparu ar y safle, ni chaniateir dechrau datblygu nes y cyflwynir cynllun ar gyfer darparu man agored fel rhan o'r datblygiad a'i gymeradwyo'n ysgrifenedig gan yr Awdurdod Cynllunio Lleol.

Bydd y manylion yn cynnwys:

i) Trefniadau er mwyn sicrhau darparu man agored naill ai ar neu oddi ar y safle a thalu symiau cymudol ar gyfer ei chynnal yn y dyfodol a / neu ddarparu'r man agored trwy drefniadau priodol;

ii) Rhaid darparu'r man agored yn unol â'r trefniadau cymeradwy.

7. Cyn bod neb yn byw yn unrhyw un o'r aneddleoedd, rhaid cyfyngu ar fynediad cerbydau i'r briffordd gerllaw i fynediad presennol Tower Gardens a bydd yr holl fannau mynediad cerbydau presennol oddi ar Ffordd Rhuddlan yn cael eu cau'n barhaol yn unol â'r manylion a gytunwyd.

*Rhesymau*

5. Er mwyn sicrhau darpariaeth o dai fforddiadwy yn unol â pholisïau'r Cyngor.

6. Er mwyn sicrhau darparu man agored yn unol â pholisïau'r Cyngor.

7. Er budd diogelwch y ffordd.

Nodiadau i'r Ymgeisydd:

Tynnir eich sylw at y Nodiadau Priffyrdd Atodol Rhifau - 1,3,4,5 a 10.

Tynnir eich sylw at ffurflen Rhan N (Deddf Gwaith Ffyrdd a Strydoedd Newydd 1991).

45/2005/0511/PF

**Siaradwr o'r Cyhoedd o Blaid : Nick Powell**

Newid defnydd tir ar gyfer lleoli amlwyth storio ac adeiladau mynedfa gerbydau newydd.

**Tir ger y Bont H rhwng Kwik Save a'r rheilffordd Marsh Road, y Rhyl.**

Gofynnodd yr Aelodau am ymgynghori gyda Phriffyrdd ynghylch y posibilrwydd o osod cyfyngiad hyd cerbyd ar y Bont H.

46/2005/0271/PC

Ar ôl ystyried adroddiad ar yr Ymweliad Safle a gynhaliwyd ar 17 / 06 / 05 a llythyr oddi wrth y Prif Swyddog Cefn Gwlad.

Newid defnydd o dir er mwyn ffurfio maes parcio (cais ôl weithredol)

**Tir tu blaen 53 Ashly Court Llanelwy**

**CANIATAU** yn amodol ar Amod Diwygiedig

1. Bydd y caniatâd yn ddilys ar gyfer yr ymgeisydd yn unig a dim ond am y cyfnod mae'n byw yn 53 Ashly Court ac yn gweithredu busnes yn y ganolfan gofal iechyd. Caniateir defnyddio'r man parcio ddim ond mewn cysylltiad â'r ganolfan gofal iechyd i'r gogledd o'r safle neu yn 53 Ashly Court, oni bai y cytunir yn ysgrifenedig gan yr Awdurdod Cynllunio Lleol.

47/2005/0454/PF

Ar ôl ystyried 1 llythyr ychwanegol gyda sylwadau oddi wrth: Uwch Swyddog y Gwasanaethau Gwyddonol – ansawdd dŵr

Newid ac ymestyn adeiladau allanol ac anheddfan bresennol i ffurfio llety gwyliau, codi 2 gaban pren ar gyfer llety gwyliau a 1 caban pren fel adeilad pwll nofio at ddefnydd gwesteion (newidiadau i'r caniatâd blaenorol am 3 gaban pren a ganiatawyd ar 26 / 01 / 05).

**Tan Yr Onnen Waen Llanelwy**

**CANIATÁU -** gofynnodd yr Aelod lleol am fonitro rhagweithiol yn enwedig er mwyn sicrhau y cedwir y tirlunio aeddfed o amgylch y safle.

| | |
|---|---|
| 01/2005/0156/PF | Newid anheddle a cherbyty i 5 anheddle, gosod tanc trin newydd, newid y fynedfa gerbydau bresennol a newid defnydd tir i ffurfio estyniad i gwrtil aneddleoedd.<br>**Plas Y Green Ffordd yr Wyddgrug Dinbych**<br>**CANIATÁU** Yn amodol ar:<br>Amod diwygiedig 13 – “ni chaniateir unrhyw rwystrau”<br>Gofynnodd yr Aelodau am ymgynghori gyda Phriffyrdd ynghylch y cyfyngiad cyflymder ar Ffordd yr Wyddgrug |
| 03/2004/0668/AD | Arddangos arwydd amnewid wedi’i oleuo (ôl weithredol)<br>**Kwik Save Group ccc Regent Street Llangollen**<br>**RHOI CANIATÂD** |
| 05/2004/1684/PF | Ar ôl ystyried 1 llythyr ychwanegol gyda sylwadau oddi wrth: Swyddog Llwybrau Troed y Sir<br>Codi anheddle ar wahân gyda garej fewnol a newid y fynedfa gerbydau bresennol<br>**Tir ger Bryn Tawel Penybryn Corwen**<br>**CANIATÁU**<br>Yn amodol ar Amod Ddiwygiedig<br>4. Ychwaneger “Bydd y gwelliant i’r fynedfa’n cynnwys darpariaeth ar gyfer dangos y llwybr troed ar wahan i'r fynedfa gerbydau yn unol â'r manylion sydd i’w cyflwyno ac a gymeradwyir yn ysgrifenedig gan, yr Awdurdod Cynllunio Lleol. |
| 05/2005/0377/PF | **Siaradwr o’r Cyhoedd Yn Erbyn : Carol Morgan**<br>**Siaradwr o’r Cyhoedd o Blaid : Jane Charlton**<br>Newid ysgubor di ddefnydd yn anheddle, defnyddio carafán dros dro ar dir cyfagos yn ystod y cyfnod adeiladu a gosod tanc trin newydd<br>**Ysgubor Allt Y Celyn Glyndyfrdwy Corwen**<br>**CANIATAU** |
| 06/2005/0207/PF | Codi 2 anheddle ac adeiladu mynedfa gerbydau newydd<br>**Tir ger Gwylfa Gwyddelwern Corwen**<br>**CANIATAU** |
| 12/2005/0518/PC | Ar ôl ystyried 1 llythyr ychwanegol gyda sylwadau oddi wrth: Yr Adran Bolisi<br>Newid defnydd tir amaethyddol i ddefnydd domestig (cais ôl weithredol)<br>**22, 24 & 26 Trem Y Coed Clawddnewydd Ruthun**<br>**CANIATAU Yn amodol ar:**<br>Amod Ddiwygiedig<br>1. gosod ar ôl “O fewn 3 mis i ddyddiad y caniatâd hwn”, “cynllun ar gyfer plannu gwrych” |
| 14/2005/0057/PF | Adeiladu anheddle newydd (cynllun diwygiedig i Gais Rhif 14/2004/0801/PF)<br>**Tir ger Derfel Cyffylliog Ruthun**<br>**CANIATAU**<br>Yn amodol ar Amod Ychwanegol<br>7. Ni chaniateir dechrau datblygu nes bod cynllun ar gyfer tirlunio y tu ol i'r anheddle arfaethedig wedi'i gyflwyno i, a’i gymeradwyo’n ysgrifenedig gan, yr Awdurdod Cynllunio Lleol. Bydd y cynllun yn cynnwys darpariaeth ar gyfer lefelau, unrhyw dorri’n ôl ar y clawdd a chadw coed. Bydd raid gweithredu ar y manylion a ganiateir yn llawn cyn bod neb yn byw yn yr anheddle.<br>*Rheswm*<br>Er budd mwynderau gweledol a thrigiannol |

| | |
|---|---|
| 16/2005/0457/PR | Ar ôl ystyried 2 llythyr ychwanegol gyda sylwadau oddi wrth: C a B Fearon, 39 Tan Y Bryn; I G a J B Du Plat Jones, 20 Tan y Bryn, Llanbedr Manylion o'r anheddle arfaethedig ac adeiladu mynedfa gerbydau newydd a gyflwynwyd yn unol â'r cais amlinellol 16/2002/0775/PO **Tir ger 41 (Llain 21a) Tan y Bryn Llanbedr Dyffryn Clwyd Ruthun**<br>**CANIATAU**<br>Yn amodol ar Amod Ddiwygiedig 2<br>2. "Ni chaniateir dechrau datblygu'r anheddle arfaethedig tan…" |
| 25/2005/0180/PF | Newid adeiladau allanol i anheddle a gosod tanc trin newydd.<br>**Adeilad allanol yn Fferm Hendre Nantglyn Dinbych**<br>**CANIATAU** |

**Gwrthod yn Erbyn Argymhelliad**

| | |
|---|---|
| 45/2005/0506/AD | Cadw bwrdd arwydd datblygwyr heb ei oleuo (cais ôl weithredol)<br>**Tir gyferbyn â 81 Ffordd Derwen Rhyl**<br>**GWRTHODWYD am y rheswm canlynol.**<br>1 Byddai'r arwydd, oherwydd ei faint a'i leoliad yn erbyn cefndir o gefn gwlad agored, allan o le a byddai'n amharu ar yr olygfa wledig a'r olygfa o'r stryd ac yn amharu ar fwynderau gweledol ac yn groes i griterion (iv) o Bolisi GEN 11 Cynllun Datblygu Unedol Sir Ddinbych.<br>Penderfynodd yr aelodau hefyd y dylid gweithredu gorfodaeth i dynnu'r arwydd.<br>Gwnaed y penderfyniad sy'n GROES i Argymhelliad y Swyddogion am y rheswm canlynol: maint yr arwydd |

**Gohirio am y Rheswm a Roddir**

| | |
|---|---|
| 03/2004/1286/PF | Ar ôl ystyried cywiriadau i'r adroddiad.<br>Dymchwel gorsaf betrol a garej / depo bws, codi 36 o fflatiau gwarchodol i'r henoed ac 1 fflat i reolwr a chadw'r capel presennol fel siop<br>**Bryn Melyn Motor Services Cyf Ffordd yr Abaty Llangollen**<br>**Gohiriwyd** gan fod gwybodaeth yn dal i ymddangos ynghylch tai fforddiadwy a bod angen rhagor o waith technegol ynghylch llifogydd ac y derbyniwyd ymateb hwyr i ymgynghoriad gyda Chyngor Tref Llangollen. |
| 03/2004/1287/CA | Dymchwel gorsaf betrol a garej / depo bws a dymchwel estyniadau cefn / ochr i gapel (caniatâd ardal gadwraeth)<br>**Bryn Melyn Motor Services Cyf Ffordd yr Abaty Llangollen**<br>**Gohiriwyd** gan fod gwybodaeth yn dal i ymddangos ynghylch tai fforddiadwy a bod angen rhagor o waith technegol ynghylch llifogydd ac y derbyniwyd ymateb hwyr i ymgynghoriad gyda Chyngor Tref Llangollen. |

**141 MATERION GORFODAETH**

ENF/2005/0051 – newid defnydd anecs i ffurfio un anheddle
**10 Marble Church Grove, Bodelwyddan**

***PENDERFYNWYD –*** *awdurdodi'r canlynol:*

*(i) Cyflwyno Rhybudd Gorfodaeth er mwyn sicrhau fod y defnydd o'r estyniad fel anheddle sengl yn gorffen*

(ii) *Cychwyn ar drefniadau erlyn, neu weithredu'n addas fel arall o dan y Ddeddf Gynllunio, yn erbyn unrhyw berson neu bersonau y cyflwynir y Rhybudd Gorfodaeth iddynt, neu y cymerir achos cyfreithiol yn eu herbyn os na fyddant yn cydymffurfio gyda gofynion y Rhybudd Gorfodaeth.*

**142 AWDURDODIADAU PWYLLGOR GORFODAETH**
**ADOLYGIAD ACHOS – MEHEFIN 2005**

***PENDERFYNWYD*** *Derbyn yr adroddiad er gwybodaeth*

**143 PROTOCOL AR GYFER CYFRANIAD AELODAU MEWN APELIADAU**

Cyflwynwyd Adroddiad Gan Bennaeth Cynllunio a Gwarchod Y Cyhoedd gyda manylion Protocol diwygiedig ar gyfer Aelodau.

***PENDERFYNWYD*** *Cymeradwyo'r Protocol Apêl a'i weithredu ar unwaith.*

**144 CYNGOR DATBLYGU A RISG O LIFOGYDD - NODYN CYNGOR TECHNEGOL 15**

Cyflwynwyd: Adroddiad gan y Pennaeth Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd yn amlinellu cyngor oddi wrth Lywodraeth Cynulliad Cymru mewn Nodyn Cyngor Technegol a gyflwynwyd fis Gorffennaf 2004.

***PENDERFYNWYD*** *derbyn yr adroddiad er gwybodaeth a bod Nodiadau Cyngor Technegol i'w cynnwys mewn hyfforddiant ar gyfer Aelodau yn y dyfodol.*

**145 DYDDIAD YMWELIAD SAFLE:**

Gan nad oedd angen ymweliadau safle, tynnwyd yr eitem hon yn ôl.

**146 RHESTR O GEISIADAU A GAFODD EU DELIO O DAN HAWLIAU DIRPRWYEDIG**

Cyflwynodd y Pennaeth Gwasanaethau Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd ei adroddiad ysgrifenedig (a rannwyd o'r blaen) o ymgeiswyr am Ganiatâd Cynllunio ac a gafodd eu penderfynu ganddo ef o dan hawliau dirprwyedig rhwng 1 Mai 2005 a 31 Mai 2005.

***PENDERFYNWYD - derbyn yr adroddiad.***

Daeth y cyfarfod i ben am 11.45

*******

**PWYLLGOR ARCHWILIO'R AMGYLCHEDD**

Cofnodion Pwyllgor Archwilio'r Amgylchedd a gynhaliwyd yn yr Ystafell Gynhadledd, Tŷ Nant, Prestatyn ar ddydd Iau 23ain Mehefin 2005 am 9.30a,

**YN BRESENNOL**

Y Cynghorwyr E.R. Jones (Cadeirydd), R.E. Barton (Sylwedydd), B. Blakeley, G.C. Evans (Sylwedydd), P.W. Owen, D.A.J. Thomas a C.H. Williams.

**HEFYD YN BRESENNOL**

Cyfarwyddwr Corfforaethol Yr Amgylchedd, Pennaeth gwasanaethau Amgylcheddol, Uwch Swyddog Rheoli Gwastraff (A. Roberts), Rheolwr Gwasanaethau Gweinyddol (R. Davies), Rheolwr Busnes a Pherfformiad, Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd (E. Williams), Swyddfa Archwilio Cymru (N. Griffiths), Swyddog Cefnogi Archwilio (S. Price) a swyddogion eraill gan gynnwys y Swyddog Gweinyddol (C.I. Williams).

**147 MATERION BRYS**

Ni chodwyd unrhyw eitemau a ddylid, ym marn y Cadeirydd, eu hystyried yn y cyfarfod fel mater brys dan Adran 100B(4) Deddf Llywodraeth Leol, 1972.

**148 COFNODION**

Cyflwynwyd cofnodion Pwyllgor Archwilio'r Amgylchedd a gynhaliwyd ar ddydd Mercher 6ed Mai 2005.

Materion yn codi:

5. Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd, Arolwg o Ddarpariaeth Gwasanaeth – Cytunodd yr aelodau bod y gair "cymeradwyo" yn (a) y Penderfyniad yn cael ei newid i "cadarnhau"

Atgoffodd y Swyddog Cefnogi Archwilio yr Aelodau y byddai angen iddynt gyflwyno manylion eu blaenoriaethau allweddol erbyn 30ain Mehefin, 2005.

4. Rhaglen Gwaith Archwilio – Cadarnhaodd Pennaeth y Gwasanaethau Amgylcheddol bod cyflwyno'r fenter 'Gwahardd y Fan' wedi bod yn llwyddiannus a bod awdurdodau cyffiniol nawr yn ystyried blaengareddau tebyg.

Mewn ymateb i gwestiynau bod ystyriaeth yn cael ei roddi i gyflwyno consesiwn i deuluoedd sydd ag un cerbyd ar gyfer defnydd personol a busnes, rhoddodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol amlinelliad byr o'r rhesymau dros gyflwyno'r cynllun 'Gwahardd y Fan'.

***PENDERFYNWYD*** *- yn amodol ar yr uchod, derbyn a chymeradwyo'r cofnodion fel cofnod cywir.*

**149 ADRODDIAD PERFFORMIAD CHWARTEROL**

Roedd copi o adroddiad gan y Swyddog Cefnogi Archwilio, a oedd yn monitro perfformiad unedau gwasanaeth unigol o fewn amodau cyfeirio Pwyllgor Archwilio'r Amgylchedd yn erbyn targedau ac amcanion a gytunwyd, wedi ei ddosbarthu gyda'r papurau ar gyfer y cyfarfod.

Cyflwynodd y Swyddog Cefnogi Archwilio yr adroddiad a chyfeirio at Atodiad 1 a oedd yn darparu Dangosyddion Perfformiad statudol a oedd yn cael eu monitro gan Bwyllgor Archwilio'r Amgylchedd, a'r lefelau perfformiad ar gyfer y pedwar chwarter. At hyn, roedd swyddogion o'r Uned Rheoli Perfformiad Corfforaethol a Chefnogi Archwilio wedi ystyried y wybodaeth a ddarparwyd ac wedi tanlinellu'r amrywiol faterion a allai gynorthwyo'r Aelodau wrth ystyried materion perfformiad.

Esboniwyd bod y pedwerydd chwarter yn cynnwys y cyfnod Ionawr, 2005 i Fawrth 2005 ac yn cynnwys y ffigurau data terfynol ar gyfer cymharu perfformiad yn erbyn targedau blynyddol. Roedd

Atodiad 1 i'r adroddiad yn manylu'r Dangosyddion Perfformiad, gan gynnwys perfformiad a thargedau ar gyfer dangosyddion a is-rannwyd, a chrynodeb o berfformiad yn erbyn targedau blynyddol hefyd.

Roedd materion yn ymwneud ag Adroddiadau Perfformiad Chwarterol ar gyfer Cynllunio a Gwarchod y Cyhoeddus, Gwasanaethau Datblygu, gwasanaethau Amgylcheddol a Chludiant ac Isadeiledd wedi eu hamlinellu yn yr adroddiad er mwyn rhoi darlun cyffredinol o berfformiad o fewn unedau gwasanaeth unigo. Esboniwyd bod meysydd pryder wedi eu tanlinellu ar gyfer yr aelodau lle ystyriwyd hynny'n briodol.

Wrth ystyried yr adroddiad, rhoddwyd ymatebion gan swyddogion i faterion a meysydd pryder a godwyd gan yr aelodau mewn perthynas â'r materion canlynol:-

4.2.4 – Esboniodd Cyfarwyddwr Corfforaethol : Yr Amgylchedd, er bod nifer y ceisiadau cynllunio a benderfynwyd o fewn 8 wythnos islaw'r targed ymestynnol a bennwyd ar 70%, roedd y perfformiad yn ystod y chwarter olaf wedi codi i 62.6% ac roedd yn uwch na chyfartaledd Cymru.

4.2.6 - Mynegodd yr aelodau bryder, er bod y gwasanaeth wedi bodloni'r targed a bennwyd o 60% ar gyfer archwilio eiddo bwyd risg uchel, roedd y ffigwr a 60.6% a gyflawnwyd islaw ffigwr cymharol Cymru ar gyfer 2003/04 sef 92.4%.

Wrth ateb y pryderon a godwyd gan yr aelodau mewn perthynas â'r ffigurau yn yr adroddiad, cyfeiriodd Cyfarwyddwr Corfforaethol: Yr Amgylchedd at gyfarfod y Pwyllgor Archwilio, a gynhaliwyd ar 26ain Mai 2005, pan ystyriwyd adroddiad a oedd yn asesu goblygiadau adroddiad y Comisiwn Archwilio, a gwahoddodd yr aelodau i nodi, erbyn diwedd Mehefin 2005, feysydd o'r gwasanaeth ar gyfer archwiliad i'r dyfodol. Pwysleisiodd yr aelodau, unwaith eto, bwysigrwydd darparu'r gwasanaeth a chytuno bod archwilio eiddo bwyd risg uchel yn cael ei archwilio fel blaenoriaeth allweddol.

4.5.1 – Cyfeiriodd y swyddogion at y crynodeb o dargedau blynyddol pan gawsant eu mesur yn erbyn perfformiad y gwasanaeth ac esboniodd bod y ffigwr "Bodloni Targed" angen ei newid o 3 i 1, a'r ffigwr "Gwell na'r Targed" o 1 i 3.

4.5.2 - Cyfeiriwyd at Siart 1 a oedd yn dangos perfformiad Sir Ddinbych o ran ailgylchu neu ailddefnyddio gwastraff dinesig o gymharu ag awdurdodau eraill. Nododd yr aelodau y ffigurau perfformiad, gan gyfeirio'n arbennig at y llwyddiant a gafwyd gan Gynghorau Sir Powys a Cheredigion a chytuno trefnu ymweliad safle i weld yr arferion a fabwysiadwyd gan Gyngor Sir Powys.

4.6.2/3/4 - Trafododd yr Aelodau NAWPI 6.1 a oedd yn cyfeirio at y gost fesur cilomedr ar gynnal a chadw priffyrdd ar y prif ffyrdd. Nododd yr aelodau y rhesymau'n ymwneud â chyllid cyfalaf y tu ôl i'r lefel darged a bennwyd ar gyfer y flwyddyn a natur gyd-destunol y dangosydd ei hunan.

Roedd Cyfarwyddwr Corfforaethol: Yr Amgylchedd yn cydnabod diddordeb yr aelodau mewn gwella ffyrdd gwledig y Sir ac awgrymu bod y Pwyllgor yn derbyn adroddiad ar y materion mewn cyfarfod yn y dyfodol.

6. - Esboniodd Mr N. Griffiths, Swyddfa Archwilio Cymru, iddo fynychu nifer o gyfarfodydd o Bwyllgor Archwilio'r Amgylchedd ac roedd yn edmygu archwiliad perfformiad gan y Pwyllgor. Nododd y byddai newidiadau yn y Fframwaith Mesur Perfformiad ar gyfer 2005/06 yn arwain at newidiadau yn y Dangosyddion Perfformiad statudol a adroddwyd arnynt, ac nad oedd angen i'r Pwyllgor gyfyngu ei hunan i fonitro set newydd o Ddangosyddion Perfformiad statudol.

Hysbysodd Mr Griffiths yr aelodau y gallai'r Pwyllgor elwa ar ganolbwyntio ar nifer fechan o fesurau perfformiad a oedd yn ymwneud â meysydd a archwiliwyd gan y Pwyllgor, ynghyd â dogfennau allweddol megis y Strategaeth Gymunedol.

Cyfeiriodd at yr arolwg Fframwaith Mesur Perfformia a chyflwyno set lai o ddangosyddion Strategol Cenedlaethol, a dangosyddion Set Graidd newydd, rhai ohonynt wedi eu dyrannu i wasanaethau penodol neu themâu fel yr amlinellwyd yn yr adroddiad. Esboniwyd y byddai'r dangosyddion y byddai angen i'r Awdurdod adrodd arnynt yn newid, ond nid fyddent yn gyfyngedig i'r meysydd penodol hyn ac y byddai'n bwysig adrodd ar y canlyniadau.

***PENDERFYNWYD -***

*(a) Derbyn yr adroddiad a chydnabod y sefyllfa, a*

*(b) Cyflwyno adroddiad ar gyflwr a chynnal a chadw ffyrdd gwledig y sir i gyfarfod o'r Pwyllgor yn y dyfodol..*

**150 RHAGLEN GWAITH ARCHWILIO**

Roedd copi o adroddiad gan y Swyddog Cefnogi Archwilio, a oedd yn adolygu'r rhaglen waith i'r dyfodol ar gyfer Pwyllgor Archwilio'r Amgylchedd, yn darparu diweddariad ar faterion perthnasol, wedi ei ddosbarthu gyda'r papurau ar gyfer y cyfarfod.

Rhoddodd y Swyddog Cefnogi Archwilio grynodeb o'r adroddiad ac fe danlinellwyd y materion canlynol:-

- Datblygu Rhaglen Waith – dosbarthwyd copi diwygiedig o'r rhaglen waith ar gyfer Pwyllgor Archwilio'r Amgylchedd i'r aelodau yn y cyfarfod. Cytunodd yr aelodau bod y rhaglen waith ddiwygiedig yn cael ei chymeradwyo.

- Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol – cytunodd yr aelodau bod adroddiad Rhwydwaith gwasanaeth Bws Ranger Bryniau Clwyd yn cael ei gyflwyno i gyfarfod Gorffennaf y Pwyllgor Archwilio er ystyriaeth.

Esboniodd y Swyddog Cefnogi Archwilio na fyddai eitem ar Faterion Gweithgor Cynllun Datblygu Lleol, a fyddai'n caniatáu i'r Pwyllgor Archwilio gyfrannu i'r broses Cynllun Datblygu Lleol, ar gael i'w gyflwyno i gyfarfod mis Gorffennaf 2005. Cytunodd yr aelodau bod yr eitem yn cael ei chynnwys yn y rhaglen waith ar ddyddiad yn y dyfodol.

Esboniwyd gan y Swyddog Cefnogi Archwilio bod adroddiad ar y Cynllun Grantiau Tai wedi ei gynnwys yn y rhaglen waith, ar gais y gwasanaeth Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd. Cytunodd yr aelodau bod Cyfarwyddwr Corfforaethol Yr Amgylchedd a'r Swyddog Cefnogi Archwilio yn cydgysylltu ar gynnydd yr eitem hon yn y dyfodol.

Mewn ymateb i gwestiwn gan y Cynghorydd Thomas, cytunodd Pennaeth y Gwasanaethau Amgylcheddol y byddai'n briodol trafod ymhellach ddatblygiad y Strategaeth Rheoli Gwastraff.

***PENDERFYNWYD***

*(a) Cymeradwyo’r rhaglen waith ddiwygiedig ar gyfer Pwyllgor Archwilio'r Amgylchedd*

*(b) Cyflwyno'r adroddiad ar Rwydwaith Bws Hamdden Ranger Bryniau Clwyd i gyfarfod Gorffennaf 2005 y Pwyllgor Archwilio.*

*(c) Ystyried yr eitem ar Faterion Gweithgor Cynllun Datblygiad Lleol yn y rhaglen waith yn y dyfodol*

*(ch) bod Cyfarwyddwr Corfforaethol Yr Amgylchedd a'r Swyddog Cefnogi Archwilio yn cydgysylltu ar gynnydd pellach yr eitem ar y Cynllun Grantiau Tai, a*

*(d) Cyflwyno adroddiad pellach ar ddatblygu'r strategaeth Rheoli Gwastraff i gyfarfod Hydref 2005 y Pwyllgor Archwilio.*

**GWAHARDD Y WASG A'R CYHOEDD**

***PENDERFYNWYD** - dan Adran 100A(4) Deddf Llywodraeth Leol 1972, bod y Wasg a'r Cyhoedd yn cael eu gwahardd o'r cyfarfod ar gyfer yr eitemau canlynol oherwydd eu bod yn cynnwys datgeliad tebygol gwybodaeth eithriedig fel y diffinnir ym Mharagraff 7 Rhan 1 Atodlen 12 A Deddf Llywodraeth Leol 1972.*

**RHAN II**

## 151 PERFFORMIAD AR GONTRACT AILGYLCHU CYNGOR SIR DDINBYCH

Roedd copi o adroddiad yr Uwch Swyddog Rheoli Gwastraff, yn rhoi diweddariad ar berfformiad contract ailgylchu Cyngor Sir Ddinbych hyd yma, wedi ei ddosbarthu gyda'r papurau ar gyfer y cyfarfod.

Cyfeiriodd yr Uwch Swyddog Rheoli Gwastraff at fethiant Sir Ddinbych yn cyflawni targed ailgylchu Llywodraeth Cynulliad Cymru ar gyfer 2003/2004, yn cyflawni 13.1% yn erbyn targed o 15%. Yn ystod blwyddyn lawn gyntaf y contract 2004/2005 roedd y contractwr ond wedi cael 11.5% o darged 14% a bennwyd ar gyfer ailgylchu/gwrteithio, gyda'r perfformiad a ragwelwyd yn y contract yn 2005/2006 yn 16%, o gymharu gyda tharged contract o 18%.

Hysbyswyd yr aelodau, er bod agweddau'r contract, casglu ymyl y ffordd a Safleoedd Mwynderau Dinesig, wedi tanberfformio, roedd mesurau wrth gefn yn ddiweddar wedi gwella perfformiad Safleoedd Mwynderau Dinesig. Cadarnhaodd y swyddogion bod y perfformiad ymyl y ffordd yn gwella'n raddol, ond roedd gwelliannau wedi bod yn rhy araf i ganiatáu unrhyw debygolrwydd o gyflawni targedau 2006/2007 y contract, a oedd i redeg tan fis Mawrth, 2009.

Cyfeiriodd yr Uwch Swyddog Rheoli Gwastraff at y problemau allweddol gyda'r gwasanaeth ymyl y ffordd, a oedd wedi ei nodi yn adroddiad Swyddfa Archwilio Cymru. Roedd y rhain yn cynnwys materion yn ymwneud â rheoli, gwasanaeth, cyfathrebu a chost uchel y gwasanaeth.

Amlinellwyd manylion y problemau yn yr adroddiad a'u pwysleisio gan y swyddogion. Roedd y rhain yn cynnwys y contractwr wedi gweinyddu'r contract, a oedd wedi ei ddyfeisio fel un contract, fel dau gontract gwahanol, gan ddyrannu ailgylchu ymyl y ffordd a gweithgareddau Safleoedd Gwastraff Dinesig i ddwy uned busnes ar wahân.

Hysbyswyd yr aelodau bod dadansoddiad wedi nodi, os oedd Sir Ddinbych i gyflawni targed 2006/2007 o 25% byddai angen casglu mwy na dwbl y deunydd ailgylchadwy o bob cartref. Esboniwyd hefyd nad oedd cyflawni'r targed hirdymor o 40% ailgylchu yn 2009/2010 yn ymddangos yn ymarferol ar hyn o bryd.

Mewn ymateb i bryderon gan yr Aelodau, cadarnhaodd y swyddogion bod cyngor cyfreithiol wedi ei geisio ar statws y contract yn wyneb perfformiad y contractwr, ac yr ystyriwyd mai'r camau doethaf fyddai diwygio'r systemau casglu gwastraff ac ailgylchu gan ddefnyddio amrywiad i'r contract presennol, cyn belled â bod y contractwr yn delio gyda'r problemau a nodwyd. Hysbysodd Pennaeth gwasanaethau Amgylcheddol yr aelodau bod llythyrau wedi eu hanfon at y contractwr ar y materion hyn.

Ar ôl ystyried yr adroddiad yn fanwl, awgrymodd yr aelodau y gallai fod yn fuddiol gwahodd y contractwr i gyfarfod o'r Gweithgor. Cytunwyd hefyd y dylid gofyn i'r contractwr ddarparu manylion y trefniadau a fabwysiadwyd ar gyfer monitro ei berfformiad ei hun ar y contract.

Yn ystod y drafodaeth a ddilynodd pwysleisiodd y swyddogion berthnasedd cynigion yn yr adroddiad “Datblygu Strategaeth Rheoli Gwastraff”, eitem 7 ar y rhaglen, a'r angen i barhau i fonitro perfformiad trwy'r Gweithgorau Archwilio.

***PENDERFYNWYD***

*(a) Derbyn yr adroddiad*

*(b) Gwahodd y contractwr i fynychu cyfarfod gydag aelodau Pwyllgor Archwilio'r Amgylchedd, a*

*(c) gofyn i'r contractwr ddarparu manylion y trefniadau a fabwysiadwyd ar gyfer monitro ei berfformiad mewn perthynas â'r contract dan sylw.*

## 152 DATBLYGU YMHELLACH STRATEGAETH RHEOLI GWASTRAFF CYNGOR SIR DDINBYCH

Roedd copi o adroddiad gan Bennaeth y Gwasanaethau Amgylcheddol, a oedd yn rhoi amlinelliad o'r gwaith datblygu a oedd ei angen mewn perthynas â Strategaeth Rheoli Gwastraff y Cyngor, a gyhoeddwyd yn ddiweddar, ac a oedd yn tanlinellu rhai o'r penderfyniadau pwysig a fyddai angen eu cymryd yn y dyfodol agos, wedi ei ddosbarthu gyda'r papurau ar gyfer y cyfarfod.

Cyfeiriodd Pennaeth y Gwasanaethau Amgylcheddol at nifer o opsiynau gwahanol yn Strategaeth Rheoli Gwastraff y Cyngor ac esbonio bod angen ystyried yn fanwl yr amrywiol ddewisiadau a oedd ar gael. Hysbysodd yr aelodau bod y Strategaeth, a gafodd ei drafftio yn 2004, eisoes wedi ei goddiweddyd gan amgylchiadau a bod pwysau gweithredol a chyllidebol eisoes yn y maes gwasanaeth hwn.

Nododd yr adroddiad rai o'r opsiynau a allai arwain at ganlyniadau llwyddiannus, ynghyd â'r amserlenni perthnasol. Cadarnhawyd bod sgôp y Strategaeth yn eang iawn ac y byddai angen rheoli ei datblygiad mewn modd trefnus. Nodwyd hefyd y gallai'r canlyniadau fod yn niweidiol pe na chymerwyd y penderfyniadau priodol yn amserol

Rhoddodd Pennaeth y Gwasanaethau Amgylcheddol grynodeb o'r adroddiad i'r aelodau, a oedd yn cynnwys y prif ffactorau'n gyrru angen am newid, manylion prif nodweddion y 'map datblygu strategaeth' fel yr amlinellwyd yn Atodiadau 1 a 2 yr adroddiad, y prif ffactorau yn gyrru'r angen am newid, y prosesu a awgrymwyd ar gyfer datblygu'r strategaeth fel y nodwyd yn Atodiad 4 a'r ystyriaethau ariannol fel yr amlinellwyd yn Atodiad 3 i'r adroddiad.

Hysbyswyd yr aelodau bod canlyniadau ymarfer ymgynghoriad cyhoeddus ar y Strategaeth ddrafft Rheoli Gwastraff Dinesig wedi eu cynnwys yn yr adroddiad penderfyniadau dirprwyedig i Aelod Arweiniol y Cabinet ar 30ain Mai, 2005, a chadarnhawyd bod swyddogion wedi ymgynghori'r eang gydag amrywiaeth eraill o Gynghorau er mwyn canfod beth oedd yr "arferion gorau"

Yn ystod y drafodaeth, cytunodd yr Aelodau y dylid gofyn i'r Gweithgor Rheoli Gwastraff ystyried y mater mewn perthynas â datblygiad pellach Strategaeth Rheoli Gwastraff Cyngor Sir Ddinbych ac ar ôl cyfarfod cyntaf y gweithgor, gwahodd y contractwr i drafod y pynciau dan sylw a'r pryderon a godwyd.

***PENDERFYNWYD***

*(a) Bod Pwyllgor Archwilio'r Amgylchedd yn cefnogi'r camau a gynigiwyd yn yr adroddiad*

*(b) Gofyn i'r Gweithgor Rheoli Gwastraff ystyried datblygiad pellach Strategaeth Rheoli Gwastraff Cyngor Sir Ddinbych a*

*(c) ar ôl cyfarfod cyntaf y Gweithgor, gwahodd y contractwr i fynychu'r Gweithgor i drafod y pynciau a'r pryderon a godwyd gan Aelodau'r Pwyllgor Archwilio.*

Daeth y cyfarfod i ben am 12.10 p.m.

********